Aberystwyth University

# Cyflwyniad i Drosedeg

Cunnington Wynn, Lowri; Jones, Gwenda Rhian

*Publication date:*
2024

*Citation for published version (APA):*
Cunnington Wynn, L., & Jones, G. R. (2024). *Cyflwyniad i Drosedeg*. Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 19. May. 2024

# Cyflwyniad i **DROSEDDEG**

Gwenda Rhian Jones
a Lowri Cunnington-Wynn

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Cyhoeddwyd yr e-lyfr hwn gyntaf yn 2023 gan:**
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3WQ

**www.colegcymraeg.ac.uk**

Rhif llyfr rhyngwladol: 978-1-911528-42-5 (ePDF)
Rhif llyfr rhyngwladol: 978-1-911528-43-2 (ePub)

Argraffiad cyntaf

Mae *Cyflwyniad i Droseddeg* wedi ei ryddhau o dan drwydded agored CC BY-NC-SA 4.0. Mae'r drwydded hon yn caniatáu rhannu a dosbarthu'r cynnwys trwy unrhyw gyfrwng ac mewn unrhyw fformat. Gellir addasu, ail-olygu, trawsnewid, ac adeiladu ar y deunydd. Os gwneir hyn, rhaid dosbarthu'r gwaith o dan yr un drwydded â'r deunydd gwreiddiol. Yn ogystal, rhaid cydnabod y ffynhonnell a'r awduron mewn modd priodol, ac ni chaniateir defnyddio'r deunydd ar gyfer unrhyw fudd masnachol.

Dylunio a chysodi: Dylunio Gringo / www.gringodesign.co.uk

# Cynnwys


Rhagarweiniad 8

**1 DIFFINIO TROSEDD 13**

1.1 Troseddu a'r Diffiniad Cyfreithiol 14
1.2 Trosedd fel Amhariad ar Hawliau Dynol 14
1.3 Lluniad Cymdeithasol / *Social Construct* 15
1.4 Gweithgaredd 16
1.5 Niwed Cymdeithasol 17

**2 TROSEDDU YNG NGHYMRU A LLOEGR 20**

2.1 Mesur Cyfraddau Troseddu 20
2.2 Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu 20
2.3 Manteision ac Anfanteision Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu 21
2.4 Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Csew) 22
2.5 Manteision ac Anfanteision yr Arolwg Troseddu 22
2.6 Troseddu yng Nghymru a Lloegr 23
2.7 Camau Gwerthuso Data 24
2.8 Troseddu yng Nghymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ons) 24
2.9 Ystadegau Euogfarnau a Dedfrydau 24
2.10 Lladdiad yng Nghymru a Lloegr 24
2.11 Diffinio a Dehongli Lefelau Troseddu 25
2.12 Ffynonellau Ystadegau Rhyngwladol 26
2.13 Gweithgaredd 26

**3 TROSEDDU DIFRIFOL A THROSEDDU TREFNEDIG 29**

3.1 Portread o Droseddu Trefnedig 30
3.2 Ymateb Strategol 31
3.3 Gweithgaredd 32
3.4 Troseddu Coler Wen a Throseddu Corfforaethol 32
3.5 Seiberdroseddu 34
3.6 Plismona Seiberdroseddu 35
3.7 Troseddeg Seiberdroseddu 35
3.8 Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern 35
3.9 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 37
3.10 Gweithgaredd 37
3.11 Llinellau Cyffuriau 37
3.12 Gweithgaredd 39
3.13 Terfysgaeth 39
3.14 Terfysgaeth Ddomestig 39
3.15 Terfysgaeth Ryngwladol Newydd 40
3.16 Deddfwriaeth Wrthderfysgol 40
3.17 Gweithgaredd 42

## 4 DIODDEFWYR A DIODDEFOLEG 47

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Y Cysyniad o'r Dioddefwr | 47 |
| 4.2 | Datblygiad Astudiaethau Dioddefwyr | 48 |
| 4.3 | Deall Nodweddion Dioddefwyr | 48 |
| 4.4 | Y Syniad o Ddenu Trosedd | 48 |
| 4.5 | Ffordd o Fyw Dioddefwyr | 48 |
| 4.6 | Gwell Ymwybyddiaeth | 49 |
| 4.7 | Dioddefwyr yn Fwy Gweladwy? | 49 |
| 4.8 | Cod Dioddefwyr | 49 |
| 4.9 | Gweithgaredd | 50 |

## 5 GWREIDDIAU TROSEDDEG 53

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | Datblygu'r Gymdeithas Fodern | 53 |
| 5.2 | Yr Ymoleuo | 53 |
| 5.3 | Yr Ysgol Glasurol | 54 |
| 5.4 | Cesare Beccaria (1738–94) | 54 |
| 5.5 | Jeremy Bentham (1748–1832) | 54 |
| 5.6 | Effaith Y Meddylfryd Clasurol | 55 |
| 5.7 | Gwerthuso | 55 |
| 5.8 | Y Cyfaddawd Neoglasurol | 55 |
| 5.9 | Y Cyfaddawd Neoglasurol a Rheoli ac Atal Troseddu | 56 |
| 5.10 | Damcaniaeth Dewis Rhesymegol / *Rational Choice Theory* | 56 |
| 5.11 | Gweithgaredd | 56 |
| 5.12 | Damcaniaeth Gweithgareddau Arferol / *Routine Activity Theory* | 57 |
| 5.13 | Gweithgaredd | 58 |
| 5.14 | Atal Troseddu Sefyllfaol | 58 |

## 6 POSITIFIAETH A THROSEDDEG 61

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | Positifiaeth Fiolegol Gynnar | 61 |
| 6.2 | Triniaeth yn Lle Cosb | 62 |
| 6.3 | Positifiaeth yr Ugeinfed Ganrif | 62 |
| 6.4 | Hanes Teuluoedd Troseddol | 62 |
| 6.5 | Astudiaethau o Efeilliaid a Phlant Mabwysiedig | 65 |
| 6.6 | Astudiaethau ar Siâp Y Corff | 63 |
| 6.7 | Ceisio Darganfod 'Genyn Troseddol' | 64 |
| 6.8 | Positifistiaeth Seicolegol | 64 |
| 6.9 | Dadansoddiad Seicolegol Sigmund Freud | 64 |
| 6.10 | Damcaniaeth Wybyddol | 65 |
| 6.11 | Mesur Personoliaeth | 65 |
| 6.12 | Damcaniaeth Dysgu ac Efelychu | 66 |
| 6.13 | Gwerthusiad | 66 |
| 6.14 | Gweithgaredd | 67 |

**7** **DAD-DREFNIAD CYMDEITHASOL AC ANOMIE** **71**
7.1 Gwrthod Unigolyddiaeth 71
7.2 Solidariaeth Fecanyddol ac Organig 72
7.3 *Anomie* 73
7.4 Gwerthusiad 73
7.5 Gweithgaredd 74

**8** **DAMCANIAETH STRAEN CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL** **77**
8.1 Y 'Freuddwyd Americanaidd' 77
8.2 Addasiadau Merton 78
8.3 Gwerthusiad 79
8.4 Gweithgaredd 79

**9** **YSGOL CHICAGO** **82**
9.1 Arloesedd Methodolegol 82
9.2 Datblygiad Chicago 83
9.3 Damcaniaeth Ecolegol A Dad-Drefniad Cymdeithasol 83
9.4 Chicago Fel Cyfres O Barthau 83
9.5 Gwrthdaro Diwylliannol 85
9.6 Damcaniaeth Dysgu Troseddu 85
9.7 Gwerthusiad 86
9.8 Gweithgaredd 86

**10** **STRAEN, ISDDIWYLLIANT A THROSEDDU GAN BOBL IFANC** **89**
10.1 Isddiwylliant yn Cynnal Statws Ymhlith Cyfoedion 89
10.2 Gwyredd a Chyfle 90
10.3 Techneg Niwtraleiddio 90
10.4 Gwerthoedd Diwylliannol y Dosbarth Gweithiol 91
10.5 Tyfu i Fyny yn y Ddinas 91
10.6 Ardal Droseddol – Ecoleg Gymdeithasol 91
10.7 Gwreiddiau Dosbarth Gweithiol Dwfn 92
10.8 Gwerthusiad 92
10.9 Gweithgaredd 93

**11** **LABELU YMDDYGIAD TROSEDDWYR** **96**
11.1 Dehongli'r Byd 96
11.2 Proffwydoliaethau Hunangyflawnol 97
11.3 Mwyhau Gwyredd 97
11.4 Gwerthusiad 98
11.5 Gweithgaredd 99

## 12 TROSEDDEG FEIRNIADOL A THROSEDDEG RADICAL 102

12.1 Troseddeg Radical 102
12.2 Troseddeg Feirniadol 103
12.3 Gwerthusiad 103

## 13 TROSEDDEG FARCSAIDD 106

13.1 Gwaith Karl Marx 106
13.2 Willem Bonger (1876–1940) 106
13.3 Radicaliaeth Americanaidd 107
13.4 George Vold (1896–1967) 107
13.5 Austin Turk (1934–2014) 107
13.6 William Chambliss (1933–2014) 107
13.7 Effaith Troseddeg Farcsaidd 108
13.8 Gwerthusiad 108

## 14 TROSEDDEG FFEMINISTAIDD 111

14.1 Y Don Gyntaf (1830–1920) 111
14.2 Yr Ail Don (1960–1980) 112
14.3 Y Drydedd Don (1990au) 112
14.4 Astudiaethau Troseddegol Traddodiadol o Droseddolrwydd Benywaidd 112
14.5 Troseddeg Ffeministaidd 113
14.6 Ffeministiaid Rhyddfrydol 113
14.7 Ffeministiaeth Farcsaidd 114
14.8 Ffeministiaeth Radical 114
14.9 Ffeministiaeth Sosialaidd 115
14.10 Ffeministiaeth Ôl-Fodernaidd 115
14.11 feministiaeth Ddu/Amlhiliol 115
14.12 Kathleen Daly a Meda Chesney-Lind (1988) 116
14.13 Carol Smart (1976) 116
14.14 Loraine Gelsthorpe (1990) 116
14.15 Frances Heidensohn (1985) 117
14.16 Pat Carlen (2011) 117
14.17 Gwerthusiad 117
14.18 Gweithgaredd 118

## 15 TROSEDDEG WERDD 121

15.1 Globaleiddio a Throseddeg Werdd 121
15.2 Niwed Amgylcheddol 122
15.3 Mathau o Niwed Amgylcheddol 122
15.4 Gwerthusiad 125
15.5 Gweithgaredd 125

**16** **TROSEDDEG REALAIDD** 128
16.1 Beirniadu 'Delfrydiaeth y Chwith' 128
16.2 Natur Realaeth y Chwith 129
16.3 Gwerthusiad 130
16.4 Gweithgaredd 130
16.5 Y Gwahaniaeth Rhwng Realaeth y Chwith a'r Dde 130
16.6 Realaeth y De - Diffyg Cymdeithasoli 131
16.6.1 Y Cyswllt Rhwng Cyniferydd Deallusrwydd (Iq) a Throseddu 131
16.6.2 Tanddosbarth Cymdeithasol 132
16.6.2 Gwerthusiad 132
16.6.3 Gweithgaredd 133

**17** **Damcaniaethau Rheolaeth Gymdeithasol** 136
17.1 Durkheim a Rheolau Cymdeithasol 136
17.2 Damcaniaeth Rheolaeth Gymdeithasol a Damcaniaeth Personoliaeth 137
17.3 Damcaniaeth Cyfyngiant 137
17.4 Niwtraleiddio a Drifftio 137
17.5 Damcaniaeth Hirschi ar Fondio Cymdeithasol 138
17.6 Damcaniaeth Hunanreolaeth 138
17.7 Gwerthusiad 139
17.8 Gweithgaredd 139

**GEIRFA** 141
Pennod 1: Diffinio Trosedd 141
Pennod 2: Troseddu yng Nghymru a Lloegr 141
Pennod 3: Troseddu Difrifol a Throseddu Trefnedig 142
Pennod 4: Dioddefwyr a Dioddefoleg 143
Pennod 5: Gwreiddiau Troseddeg 144
Pennod 6 : Positifiaeth a Throseddeg 144
Pennod 7: Dad-Drefniad Cymdeithasol ac *Anomie* 145
Pennod 8: Damcaniaeth Straen Cymdeithasol a Diwylliannol 146
Pennod 9: Ysgol Chicago 146
Pennod 10: Straen, Isddiwylliant a Throseddu Pobl Ifanc 147
Pennod 11: Labelu Ymddygiad Troseddwyr 147
Pennod 12: Troseddeg Feirniadol a Throseddeg Radical 148
Pennod 13: Troseddeg Farcsaidd 148
Pennod 14: Troseddeg Ffeministaidd 150
Pennod 15: Troseddeg Werdd 150
Pennod 16: Troseddeg Realaidd 151
Pennod 17: Damcaniaeth Rheolaeth Gymdeithasol 152

# Rhagarweiniad

Bwriad pennaf y llyfr hwn yw rhoi cyflwyniad i droseddeg fel maes astudio pwnc gradd academaidd i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Ein gobaith yw cynnig ffynhonnell ddeniadol a hygyrch, ac i'r perwyl hwn mae'r llyfr yn cynnwys nifer o elfennau fydd o gymorth i unrhyw ddarllenydd wneud y mwyaf ohono. Dyma'r symbyliad i ddatblygu gwerslyfr academaidd cynhwysfawr yn y Gymraeg a fyddai'n cyflwyno myfyrwyr i agweddau beirniadol o ddilyn ac astudio troseddeg drostynt eu hunain. Yn ogystal â chynnig yr adnodd yn yr iaith Gymraeg, mae'r gyfrol hefyd yn gofyn ichi berthnasu damcaniaethau troseddeg o fewn cyd-destun troseddu yn y Gymru gyfoes.

**BETH SYDD YN Y LLYFR?**

Heb unrhyw amheuaeth, mae troseddeg yn faes astudio eithriadol o ddiddorol. Canolbwynt y llyfr yw ceisio cyflwyno cymaint ag y gellir o fewn y diffiniad o droseddeg fel gwyddor a disgyblaeth academaidd. Fe'ch cyflwynir i'r ystod eang o ddamcaniaethau am droseddeg a'r prif feysydd a drafodir wrth ddilyn blwyddyn gyntaf cwrs gradd troseddeg. Gan fod troseddeg yn faes amlddisgyblaethol, ymdrinnir â nifer o esboniadau gwahanol gan athronwyr cyfreithiol, haneswyr, biolegwyr, seicolegwyr a chymdeithasegwyr, yn ogystal ag arbenigwyr mewn gwyddorau gwleidyddol. Gyda threigl amser, mae'r esboniadau wedi ymgorffori elfennau o fwy nag un ddisgyblaeth yn unig. Fe ddaw'n amlwg i'r darllenydd fod y datblygiadau ym maes esbonio troseddeg yn adlewyrchu datblygiadau economaidd, gwleidyddol a diwylliannol y gymdeithas gyfoes. Yn wir, mae'r diffiniadau o droseddu a throseddolrwydd yn gysylltiedig â ffactorau gwleidyddol-gymdeithasol o fewn y cyd-destun cymdeithasol ehangach.

Sylwer y cyfyngir y maes i droseddeg yn unig gan ei bod yn wyddor enfawr ynddi ei hun. Er bod cyswllt cryf rhwng troseddeg a chyfiawnder troseddol, maent yn feysydd astudio ar wahân. Ymdrinnir yn unig â'r modd y mae safbwyntiau troseddeg yn ystyried cyfiawnder, yn hytrach na thrafod y system gyfiawnder yn llawn.

Ceir diffiniadau amrywiol o droseddeg fel gwyddor i gychwyn. Ar ddechrau'r ail bennod, cyflwynir dulliau o fesur a dehongli patrymau a thueddiadau data ac ystadegau troseddu. Trafodir ystadegau swyddogol troseddu yng Nghymru a Lloegr, y manteision a'r anfanteision, cyn edrych ar fapio

patrwm troseddu mewn perthynas â llofruddiaethau. Mae'r drydedd bennod yn ymdrin â chynnydd ym meysydd troseddu difrifol a throseddu trefnedig. Canolbwyntir ar droseddu trefnedig ei hun, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, troseddu llinellau cyffuriau, terfysgaeth, troseddu coler wen a chorfforaethol, a seiberdroseddu**.** Gyda phob ystadegyn troseddu ceir dioddefwyr; boed yn unigolion neu'n deuluoedd, mae effaith troseddu'n bellgyrhaeddol. Yn dilyn, byddwn yn ystyried maes astudio dioddefwyr a goroeswyr troseddu o fewn dioddefoleg (*victimology*).

Wrth dywys y darllenydd i ystyried damcaniaethau ynghylch troseddeg defnyddiwyd fformat penodol er mwyn hybu dealltwriaeth o'r prif hanfodion. Mae'r fformat yn cynnwys y canlynol: cefndir y ddamcaniaeth, prif awduron a chysyniadau allweddol, gwerthusiad o gyfraniadau'r damcaniaethau; a chwestiynau i'w hystyried er mwyn hybu trafodaeth ehangach a pherthnasu'r damcaniaethau i sefyllfaoedd troseddol yn y Gymru gyfoes. Yn olaf, ceir awgrymiadau am ddeunydd darllen ychwanegol ar ffurf llyfryddiaeth bwrpasol sydd wedi ei llunio ar sail deunydd yr ydym yn ei ystyried yn ddefnyddiol a phwysig. Cofiwch hefyd mai awgrymiadau a phwyntiau dechreuol yw'r rhain. Mae pennod olaf y llyfr yn cynnwys geirfa allweddol yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob damcaniaeth a drafodir.

Dechreuir y drafodaeth ar ddamcaniaethau gydag athrawiaeth gyfreithiol yr ysgol glasurol sy'n deillio o'r ddeunawfed ganrif. Yna, diweddarir y datblygiadau mewn clasuriaeth gyfoes, er enghraifft drwy drafod damcaniaeth dewis rhesymegol, damcaniaeth gweithgareddau arferol, atal troseddu sefyllfaol, a gwyddor troseddu. Yn dilyn hynny, ceir ymdriniaeth ar bositifiaeth a throseddeg, gan ganolbwyntio ar nifer o astudiaethau o fewn positifiaeth fiolegol a seicolegol. Mae gwaith Durkheim ar *anomie* ac ansefydlogrwydd cymdeithasol yn adnabyddus, yn ogystal â'r ddadl enwog fod troseddu yn swyddogaethol bwysig. Yn fwy na hyn, gellid ystyried bod gwaith Durkheim yn arwain ymdrechion brwydr y gwyddorau cymdeithasol yn erbyn llif unigolyddol gwyddoniaeth naturiol y positifwyr**.** Adeiladir ar hyn â thrafodaeth bellach ar ddamcaniaethau ynghylch straen cymdeithasol, yn cynnwys addasiad o deipoleg *anomie* ar ei newydd wedd gan Merton ac astudiaethau ar straen cyfoes. Gan barhau o fewn y traddodiad cymdeithasegol, ymdrinnir â dwy gangen ysgol Chicago a dylanwad yr ysgol ar ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Sutherland ynghyd ag astudiaethau cyfoes ar isddiwylliant. Y rhain fu'n gyfrifol am droi dylanwadau troseddeg Ewropeaidd yn draddodiad Americanaidd.

Yn sgil newidiadau cymdeithasol, dechreuwyd rhoi pwyslais ar labelu, gan gwestiynu'r drefn gymdeithasol a herio pŵer y wladwriaeth i labelu gwyredd unigolion. Gyda'r cynnydd mewn gwrthdaro cymdeithasol a gwleidyddol, daeth llawer o droseddegwyr i edrych tu draw i esboniadau ar straen ac *anomie*, ac yn fwy penodol at strwythur anghyfartal y byd yng nghyd-destun pŵer cymdeithasol. Gan adeiladu ar labelu a rhyngweithiadaeth symbolaidd, daeth troseddeg Farcsaidd a nifer o ddamcaniaethau troseddeg radical i ganolbwyntio ar brosesau troseddolrwydd. Gan barhau o fewn troseddeg feirniadol, daeth troseddeg ffeministaidd i herio dylanwad awdurdod dynion yn y maes a'r ffaith nad oedd positifiaeth yn ystyried rhywedd tu draw i syniadau unigolyddol/biolegol/seicolegol. Mae'r bennod ddilynol yn crynhoi'r datblygiadau newydd mewn troseddeg werdd, amgylcheddol. Daeth realaeth y chwith a'r dde i fodolaeth er mwyn ceisio gwneud troseddeg yn wyddor fwy ymarferol ac yn bolisi-perthnasol, yn enwedig yn wyneb y cynnydd mewn troseddu er bod cymdeithas yn fwy 'llewyrchus'. Yn y bennod olaf ystyrir damcaniaethau sy'n pwysleisio pwysigrwydd rheolaeth a'r diffyg sylw a roddir i achosion troseddu.

## SGILIAU TROSEDDEG

Ar y dechrau fel hyn, byddai'n fuddiol ceisio canfod pa sgiliau sy'n berthnasol o fewn troseddeg fel pwnc academaidd. Gan mai maes o fewn y gwyddorau cymdeithasol ydyw, mae llunio dadleuon ar sail tystiolaeth ymchwil empirig, boed hynny'n feintiol neu'n ansoddol, yn bwysig. Mae'r gallu i asesu dosbarthiad troseddu, gwyredd a dioddefaint o bob math, a'r ffordd y cânt eu cynhyrchu a'u dehongli o fewn fframweithiau cyfreithiol, gwleidyddol, cymdeithasol ac ideolegol, hefyd yn allweddol. Mae natur amlddisgyblaethol y pwnc, felly, yn arwyddocaol.

Ceir nifer o amrywiol ddulliau damcaniaethol ac empirig o astudio, dadansoddi ac egluro troseddu, gwyredd, niwed, dioddefaint, pŵer, newid cymdeithasol ac effaith globaleiddio. Ystyrir hyn mewn perthynas â rhaniadau cymdeithasol megis oedran, rhywedd, rhywioldeb, dosbarth cymdeithasol, hil ac ethnigrwydd. Ystyrir rôl a threfniadaeth ymdrechion Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i leihau ac atal troseddu, gwyredd a niwed, a'r angen i sicrhau diogelwch personol a chyhoeddus yn wyneb bygythiadau a risg uchel, rôl y wladwriaeth ac asiantaethau anstatudol yn cefnogi effeithiolrwydd mesurau o'r fath, a materion hawliau dynol mewn perthynas â mesurau ataliol.

Mae hyn yn oll yn egluro pwrpas ystyried damcaniaethau o fewn troseddeg, gan amlygu sut y maent yn egluro ac yn diffinio troseddu a dioddefaint. Gall y syniadau hyn gyfrannu at gymhwyso sefyllfaoedd cyfoes ac atal a lliniaru effaith troseddu drwy oblygiadau polisi.

## Y CYD-DESTUN CYMREIG

Fel sy'n wir am nifer o ddisgyblaethau, mae yna ddiffyg adnoddau a gwaith ymchwil sy'n darparu cyd-destun Cymreig, hynny yw, yn canolbwyntio ar y materion sy'n benodol ac yn bwysig i Gymru. Yn hynny o beth, nid yw troseddeg fel pwnc yn wahanol. Yn wir, mae gwaith ymchwil gan Jones (2013) yn dadlau bod angen asesu natur ymchwil i droseddeg ac addysgu troseddeg yng Nghymru yng nghyd-destun datganoli a dadleuon ynghylch trosglwyddo pwerau pellach i Lywodraeth Cymru. Dadleuir bod troseddegwyr, hyd yma, wedi methu mynd i'r afael â chyd-destun cyfiawnder troseddol yng Nghymru a bod angen mwy o waith troseddegol sy'n canolbwyntio ar ddiwygio hyn.

Felly, mae troseddeg yn bwnc amrywiol, amlddisgyblaethol, sy'n esblygu o hyd wrth iddo ymateb i ddatblygiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Gyda llywodraeth ddatganoledig a gwahaniaethau diwylliannol o'u cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae galw am droseddegwyr sydd â'r gallu i drin a thrafod y cyd-destun troseddegol drwy gyfrwng y Gymraeg ac o fewn cyd-destun Cymreig.

Ym mhob pennod o'r e-lyfr hwn, ceir ymgais i gyflwyno enghreifftiau Cymreig o ddamcaniaethau, troseddau neu gyfreithiau, a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar y cyd-destun hwn. Yn benodol, mae gweithgareddau ar ddiwedd pob pennod sy'n ceisio gwneud i fyfyrwyr feddwl am enghreifftiau tebyg yng Nghymru, neu i leoli damcaniaethau troseddegol o fewn eu profiad a'u dealltwriaeth eu hunain.

Mae’n rhaid cydnabod nad yw hyn wedi bod yn bosib ym mhob agwedd o’r llyfr oherwydd bod rhai damcaniaethau’n canolbwyntio ar wlad, cyfnod, demograffeg, cymdeithas neu droseddu penodol iawn. Er hynny, ceir ymgais i ysgogi myfyrwyr i feddwl yn feirniadol am y damcaniaethau neu’r safbwyntiau hyn ac i gwestiynu a oes enghraifft neu sefyllfa debyg yng Nghymru.

Ni ellir osgoi’r ffaith fod yr adnodd hwn yn dangos bylchau amlwg mewn gwaith ymchwil sy’n ceisio gwneud synnwyr o’r hyn sy’n digwydd yng Nghymru. Mae ymdrech yma felly i annog myfyrwyr i ganfod y bylchau hyn ac ystyried eu gwaith ymchwil nhw eu hunain o fewn y cyd-destun hwn. Nid yw astudio pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigon bellach; yr hyn sydd wir ei angen yw adnoddau a gwaith ymchwil creiddiol sy’n canolbwyntio ar Gymru. Bwriad yr adnodd hwn yw paratoi myfyrwyr ar gyfer y Gymru gyfoes a thu hwnt, a sicrhau cam ymlaen i astudio troseddeg yng Nghymru.

Dymunwn yn dda ichi yn eich astudiaethau,

**Gwenda Rhian Jones**,
Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor;

**Lowri Cunnington Wynn**,
Adran y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Aberystwyth.

# 1

# Diffinio Trosedd

1

# Diffinio Trosedd

Mae diffiniadau o droseddu a gwyredd (deviance) yn dibynnu ar yr amser, y lle a'r sawl sy'n gwneud y dadansoddiad, ac mae rhai gweithredoedd yn fwy tebygol o gael eu diffinio fel troseddau nag eraill. Er enghraifft, hyd at 1967, gallai dynion hoyw a deurywiol wynebu'r ddedfryd uchaf o gyfnod yn y carchar pe baent yn torri'r gyfraith ynghylch cyfunrywioldeb (*homosexuality*). Mae gan bob cymdeithas werthoedd diwylliannol – arferion a chredoau sy'n cael eu hystyried yn fuddiol i'r grŵp hwnnw. Er gwaethaf y ffaith fod cysylltiad rhwng diwylliant a diffiniadau o wyredd, mae anthropolegwyr wedi nodi nifer o arferion diwylliannol byd-eang sy'n gyffredinol i grwpiau gwahanol. Er enghraifft, mae nifer o ddiwylliannau yn teimlo'n gryf na ddylai unigolyn ddweud celwydd, twyllo, dwyn a lladd. Mae cymdeithasau'n amddiffyn y gwerthoedd hyn drwy greu normau; yn y bôn, rheolau neu ddulliau ymddygiad penodol yw'r normau hyn. Nododd y cymdeithasegydd Americanaidd William Graham Sumner (1906) dri math o normau: arferion grŵp, morau a chyfreithiau. Mae'r normau hyn yn adlewyrchu gwerthoedd diwylliannau penodol, â rhai normau'n cael eu hystyried yn fwy pwysig nag eraill.

**Arferion grŵp**: y normau lleiaf difrifol, sy'n cynnwys arferion, traddodiadau neu ddiwylliannau delfrydol, ond nid yw peidio â'u dilyn yn arwain at gosb ddifrifol. Enghraifft amlwg o hyn efallai fyddai peidio â mynd i gyfweliad yn gwisgo gwisg nofio!

**Morau (*Mores*)**: arferion mwy difrifol a llym, sy'n cynnwys barn foesol yn erbyn gweithredoedd sy'n fygythiad i ffordd y grŵp o fyw. Maent yn strwythuro'r gwahaniaeth rhwng da a drwg. Er enghraifft, mewn rhai crefyddau nid yw'n dderbyniol i gwpl gyd-fyw cyn priodi, a byddai'r math hwn o ymddygiad yn cael ei ystyried yn anfoesol. Mae morau ac arferion grŵp yn enghreifftiau o ddulliau anffurfiol o reoli cymdeithas.

**Cyfreithiau**: dulliau ffurfiol o reoli cymdeithas drwy ffurfioli'r morau. Ystyrir felly fod troseddu a'i ddiffiniad yn gynhyrchion cymdeithasol, a'r gymdeithas sy'n penderfynu beth sy'n drosedd neu heb fod yn drosedd.

Waeth beth fo'r systemau gwleidyddol neu economaidd, mae'r deddfau cyffredin yn erbyn llofruddio, treisio, ymosod ac ati, yn dangos bod diffyg gwrthdaro cymdeithasol yn sail dros greu deddfau o'r fath. Nid yw pob gweithred wyrdroëdig yn drosedd, ac nid yw pob gweithred droseddol bob amser yn wyrdroëdig. Gellir gordroseddoli diffiniadau o weithredoedd troseddol neu eu tandroseddoli; mae enghreifftiau o dandroseddoli'n cynnwys trais corfforaethol, hiliaeth ac anghydraddoldeb strwythurol. Gall enghreifftiau o ordroseddoli gynnwys ymdrechion i geisio

deddfu ar foesoldeb a rheoli ymddygiad pobl, megis eu defnydd o sylweddau a'u hymddygiad rhywiol. Felly, mae nifer o ffyrdd gwahanol o ymdrin â'r cysyniad o droseddu o fewn troseddeg. Un ffordd syml yw ystyried troseddu fel gweithred sy'n torri'r gyfraith droseddol. Er hynny, mae troseddu o'r fath yn amrywio'n fawr, yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol. Golyga hyn mai nifer fach o'r ymddygiadau hyn sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol gan gyfraith troseddu, ac felly ychydig ohonynt y gellir eu trin fel troseddau. Isod gwelir rhai o'r ffyrdd gwahanol o ddiffinio troseddau.

### 1.1 Troseddu a'r Diffiniad Cyfreithiol

Y diffiniad o droseddu o safbwynt cyfreithiol yw torri cyfraith trosedd. Hyd yn oed os yw'r weithred yn un anfoesol iawn, nid yw'n drosedd oni bai ei bod wedi'i diffinio felly gan gyfraith trosedd. Mae nifer o broblemau gyda'r diffiniad hwn gan ei fod yn gosod rheolau ynghylch yr hyn sy'n drosedd a'r hyn sydd ddim yn drosedd, ond nid yw'n rhoi esboniad pam. Fel yr awgrymwyd gan Zedner (2004), gall trosedd fod yn drosedd (*crime*) ac yn gamwedd (*tort*) yr un pryd, er enghraifft, ymosod ar unigolyn arall. Yn ei gwaith mwy eithafol, mae hi hefyd yn dadlau, waeth pa weithredoedd y gallai rhywun fod wedi'u cyflawni, os nad ydyn nhw'n destun cosb droseddol, yna ni ellir eu hystyried yn droseddau.

Rhoddir llawer o sylw gan droseddegwyr i ddiffinio trosedd mewn termau cyffredinol a phenodol. Mae trosedd a ddiffinnir gan gyfraith trosedd yn un agwedd bwysig ar hyn, hyd yn oed os yw'r diffiniad hwnnw'n gyfyngedig. Mae troseddegwyr hefyd yn defnyddio ystadegau troseddu sy'n seiliedig ar gyfraith trosedd, arfer sy'n cael ei gefnogi gan y cymdeithasegydd Tappan (1947). Dadl Tappan yw nad yw unigolyn yn droseddwr oni bai ei fod wedi ei ddiffinio felly, ac ni ellir rhagdybio bod unigolyn yn droseddwr oni bai ei fod hefyd yn euog y tu hwnt i amheuaeth resymol o gyflawni trosedd benodol.

O ganlyniad, nid oes modd diffinio trosedd yn nhermau'r gyfraith yn unig. Mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn drosedd yn newid dros amser ac felly ni ddylai troseddegwyr gyfyngu eu dealltwriaeth a'u hymchwil i'r diffiniad hwn yn unig. Er enghraifft, mae Hagan (2011) wedi dadlau na ddylai troseddeg fel disgyblaeth gael ei siapio gan gyfreithwyr a gwleidyddion, ac y dylai'r ddisgyblaeth astudio'r gwyrdroëdig, y troseddwyr, yn ogystal â'r cyd-destun strwythurol sy'n eu diffinio.

### 1.2 Trosedd fel Amhariad ar Hawliau Dynol

Er nad yw'r term hawliau dynol yn anghyfarwydd, dim ond yn ddiweddar y mae wedi ei ddefnyddio o fewn troseddeg a chyfiawnder troseddol. Yn gyffredinol, ceir mwy o sôn am hawliau dynol o safbwynt cyd-destun cyfreithiol yn hytrach na chyd-destun troseddegol. Yn wir, mae Schwendinger a Schwendinger (1975) yn dadlau y dylai troseddegwyr dynnu mwy o sylw at faterion yn ymwneud â hiliaeth, tlodi, rhywiaeth ac imperialaeth, ac y dylai'r materion hyn gael eu hystyried yn droseddau. Mae Tjaden (2005) yn cynnig dadl gref o blaid ymdrin â throseddau yn erbyn merched neu gam-drin domestig o safbwynt hawliau dynol. Golyga hyn y byddai'n bosib canfod yr amodau lle mae trais yn erbyn merched a cham-drin merched yn debygol o ddigwydd, yn enwedig yng nghyd-destun perthynas bersonol. Yn ôl Cohen (1993), mae twf y mudiad hawliau dynol rhyngwladol tu allan i droseddeg, a thwf dioddefoleg o fewn y ddisgyblaeth, wedi helpu i godi proffil materion yn ymwneud â hawliau dynol.

Y peth pwysig am hawliau dynol yw eu bod yn mynd y tu hwnt i hawliau sifil a gwleidyddol. Yn ogystal, maent yn cynnwys yr hawl i gyfleoedd i weithio ac i gael addysg a thriniaeth deg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae gwaith ar hawliau dynol yn ymdrin â llawer o ddeunydd ar athroniaeth wleidyddol a chymdeithasol sy'n darparu sylfaen ar gyfer hawliau naturiol a hawliau'r unigolyn yn wyneb grym cynyddol llywodraethau.

Fel y soniwyd uchod, rhywbeth diweddar yw ystyried hawliau dynol o fewn troseddeg a chyfiawnder troseddol, ac mae hyn wedi digwydd yn bennaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn. Gellir dadlau bod hyn yn cyd-fynd â chwymp yr Undeb Sofietaidd a gyda hynny gynnydd mewn cytundebau rhyngwladol oedd yn codi pryderon rhyngwladol am droseddau'n ymwneud â therfysgaeth a masnachu mewn pobl.

I gefnogi hyn, mae Maier-Katkin et al. (2009) yn astudio'r berthynas rhwng hawliau dynol a throseddeg ac yn pwysleisio'r rhesymau pam y dylai troseddeg fod yn rhoi mwy o sylw i hawliau dynol fel cysyniad. Eu dadl greiddiol yw fod ymddygiad megis hil-laddiad, llofruddiaeth, treisio, arteithio, dadleoli a chaethiwo poblogaethau yn droseddau yn ôl cyfraith ddomestig a rhyngwladol. Felly, maent yn fwy difrifol na nifer o'r enghreifftiau o'r ymddygiad mwyaf treisgar sy'n cael eu hastudio gan droseddegwyr. Mae gwaith Hagan a Rymond-Richmond (2008) hefyd yn dadlau dros ystyried hil-laddiad yn rhan o droseddeg brif ffrwd.

### 1.3 Lluniad Cymdeithasol

Mae ymchwilwyr sy'n gweld troseddu fel lluniad cymdeithasol (*social construct*) yn ystyried 'troseddu' fel rhyw fath o label sy'n cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau penodol ac ar gyfer gweithredoedd amrywiol. Hynny yw, ystyrir ei fod yn gysyniad sy'n deillio o ryngweithio cymdeithasol ac felly'n seiliedig ar ddiwylliant. Mae Edwin Schur (1969) yn dadlau, os ydym yn ystyried trosedd fel rhywbeth sydd wedi ei diffinio gan gyfraith trosedd ac felly'n amrywio, nid yw unrhyw esboniad o droseddu sy'n cyfyngu ei hun i gymhelliant ac ymddygiad unigolion yn gallu bod yn un cyflawn. Mewn geiriau eraill, os ydym yn ystyried mai cyfraith trosedd sy'n diffinio'r hyn sy'n droseddol, yna mae'r union ffaith fod cyfraith trosedd yn amrywio – er enghraifft, o wlad i wlad – yn ei gwneud yn glir nad yw troseddu yn gysyniad y gellir ei gymryd yn ganiataol.

Lluniad cymdeithasol sy'n penderfynu a yw ymddygiad yn cael ei ystyried yn drosedd ai peidio. Er enghraifft, gellir ystyried bod ymddygiad yn droseddol mewn rhai cymdeithasau, ond yn ymddygiad i'w glodfori mewn cymdeithas arall mewn cyfnod gwahanol. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r ffaith nad oedd yn gyfreithiol i ferched yrru cerbyd yn Saudi Arabia tan 2017. Mae pa un a yw'r weithred yn cael ei diffinio fel trosedd ai peidio yn dibynnu ar ymateb y gymdeithas i'r weithred honno neu i ymddygiad yr unigolyn. Gall newidiadau mewn statws cyfreithiol ddigwydd oherwydd pwysau gan fudiad protest neu gymdeithas. Yn ei dro, gall hyn greu gwrthdaro cymdeithasol sylweddol. Enghreifftiau o hyn yw'r dadleuon diweddar ynghylch polisi amgylcheddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r byd, yn ogystal â gweithredoedd o anufudd-dod sifil gan grwpiau megis Extinction Rebellion. Yn rhai o'u dulliau gweithredu mae aelodau o'r mudiad yn gludio'u hunain i drenau ac yn rhwystro ffyrdd a phontydd.

Yn olaf, rhaid ystyried yr ymateb cymdeithasol i droseddu: mae hyn yn cynnwys manylion y ddeddfwriaeth yn ogystal â safle cymdeithasol a moesol y troseddwr a'r dioddefwr. Gwelir hyn yng ngwaith Conrad a Schneider (1992), a astudiodd sut mae ymateb y gymdeithas i broblemau iechyd meddwl wedi newid. Maent hefyd yn trafod dibyniaeth ar gyffuriau a chyflyrau eraill, yn bennaf oherwydd eu bod yn cyfateb i oruchafiaeth gynyddol y sefydliad meddygol a'r modd y mae'r model meddygol yn dylanwadu ar ein dealltwriaeth o wyredd. Er enghraifft, yn eu llyfr *Deviance and Medicalization: from badness to sickness,* trafodir trawsnewid cymdeithasol graddol gwyredd yng nghymdeithas America o 'ddrwg' i 'salwch'. Mae'r gyfrol yn cynnwys ymchwil hanesyddol a chymdeithasegol i'r diffiniadau o wyredd, sy'n newid yn gyson, a dadansoddiad o'r newidiadau crefyddol a throseddol sy'n dylanwadu ar y sefydliad meddygol. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys ceisio 'gwella' unigolion sydd yn hoyw yn hytrach na cheisio'u herlid.

Mae'r ddamcaniaeth labelu hefyd yn pwysleisio effaith ymateb cymdeithasol i weithred, a sut mae hyn yn ei dro yn gallu pennu a yw gweithred yn droseddol ai peidio. Mae'r damcaniaeth yn gysylltiedig â chymdeithasegwyr Americanaidd dylanwadol megis Howard Becker (1963), sy'n rhoi pwyslais ar bŵer ac effaith labeli. Yn yr achos hwn, y label yw 'troseddol'. Mae'r ddamcaniaeth labelu yn dadlau yn erbyn y farn fod diffinio rhywun fel troseddwr yn rhan o drefn naturiol digwyddiadau, ac yn hytrach yn rhoi pwyslais ar brosesau, er enghraifft y wladwriaeth ac eraill yn defnyddio'u grym i ddiffinio pobl mewn ffyrdd penodol. Mae gwaith y cymdeithasegydd radical Nils Christie (2004) yn ategu hyn drwy ddadlau nad yw trosedd yn bodoli, ac mai dim ond y weithred sy'n bodoli. Mae gan weithredoedd ystyron gwahanol mewn gwahanol amgylchiadau ac o fewn fframweithiau cymdeithasol amrywiol.




### 1.4 Gweithgaredd

Cyn 1918, nid oedd gan ferched yr hawl i bleidleisio. Ond ddechrau'r 20fed ganrif sefydlwyd mudiad ymgyrchu i fenywod oedd yn cael eu galw'n swffragetiaid. Bu'n ymgyrchu dros gael rhagor o hawliau i ferched, gan gynnwys yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus.

- Gwnewch ychydig o waith ymchwil ac ystyriwch sut roedd gweithgareddau'r merched hyn yn cael eu hystyried yn ystod eu cyfnod hwy.
- Sut mae'r hanes hwn yn cael ei ystyried erbyn heddiw?
- Beth mae hanes y swffragetiaid yn ei ddweud wrthym am luniad cymdeithasol troseddau?
- Allwch chi feddwl am enghreifftiau tebyg?
- Gwnewch waith ymchwil ar Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Beth mae'r mudiad wedi'i wneud er mwyn ceisio diogelu'r Gymraeg?
- Ystyriwch y llun isod. Oes modd cymharu ymgyrch y swffragetiaid ag ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i ddiogelu'r iaith yn yr 1960au a'r 1970au? Os oes, sut?
- A yw ymgyrch Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrch droseddol? Esboniwch eich ateb.

## 1.5 Niwed Cymdeithasol

Yn fwy diweddar, mae nifer o droseddegwyr beirniadol wedi cwestiynu'r cysyniad o 'droseddu' – ei ddiffiniad cyfreithiol a'r diffiniad ohono fel lluniad cymdeithasol. Y ddadl syml yw fod y label 'trosedd' yn broblematig; hynny yw, gall yr hyn sy'n cael ei ddiffinio fel 'trosedd' fod yn wahanol yn ôl amser, lle a chefndir. I'r perwyl hwn, mae trafodaeth o fewn troseddeg sy'n gofyn am ystyried 'niwed', yn hytrach na throsedd, fel ffordd o fesur dioddefaint dynol. Ar un adeg, gelwid y cysyniad hwn yn *zemiology* yn Saesneg, ond nid yw'r term hwn mor boblogaidd bellach. Fel rhan o'r drafodaeth ar 'niwed', ceir dadl sy'n ceisio esbonio'r mathau o niwed sy'n gallu effeithio ar unigolion, ar gymunedau neu ar gymdeithasau cyfan, gan gynnwys y gweithgareddau hynny sy'n gyfreithlon ond sy'n cael effaith negyddol sylweddol.

Mae'n anodd mesur yn union beth yw niwed ac, fel yr awgrymwyd gan Hall (2012), mae troseddeg draddodiadol wedi cael anhawster â'r cysyniad hwn. Ceir gwaith nodweddiadol gan Paddy Hillyard a Steve Tombs (2004) sy'n ystyried sut mae troseddegwyr beirniadol yn meddwl am y cysyniad o 'droseddu' ac yn ei ddiffinio. Cafodd eu gwaith effaith sylweddol ar y ddisgyblaeth wrth iddynt bwysleisio'r angen i gynnal archwiliad trylwyr o'r syniad o niwed cymdeithasol. I'r gwrthwyneb i droseddeg draddodiadol, maent yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried syniadau ehangach a mwy cynhwysol o ddioddefaint dynol a niwed amgylcheddol. Mae Hillyard a Tombs (2007) eu hunain wedi dadlau ei bod yn anodd disgrifio'r niwed penodol y mae pobl yn ei brofi mewn ffordd wrthrychol, yn enwedig gan na ellir dibynnu ar sylfaen cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae Hillyard a Tombs yn dadlau bod angen ystyried niwed fel cysyniad allweddol os yw troseddeg am ddatblygu'n wyddonol. Wrth i newidiadau cymdeithasol eang ddwysáu, mae'r cysyniad o droseddu yn anfoddhaol. O ganlyniad, nid oes modd cyfyngu'r ystod o weithgareddau, digwyddiadau a gweithgarwch dynol sy'n gallu arwain at ddioddefaint dynol ac amgylcheddol i droseddu yn unig. Y bwriad yw ehangu'r ffocws y tu hwnt i droseddu er mwyn cynnwys amryw o sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n achosi niwed, hyd yn oed os nad ydynt wedi eu diffinio fel rhai troseddol.

Gan ei bod yn anodd ei ddiffinio, nid yw'r cysyniad o niwed cymdeithasol yn debygol o gymryd lle troseddeg yn y dyfodol agos. Ni ellir gwadu nad yw'n gysyniad eang, a gall gwmpasu nifer o weithgareddau – o niwed corfforol i ddifrod ariannol, cymdeithasol neu ddiwylliannol. Yn yr ystyr hwn, nid yw 'niwed' yn haws i'w ddiffinio na 'trosedd'. Ond mae'n cynnig datblygiad newydd o fewn y maes troseddeg ac yn cydnabod rhai o gyfyngiadau'r ddisgyblaeth.

## Deunydd darllen ychwanegol


Christie, N. (2004), *A Suitable Amount of Crime*. London: Routledge.

Cohen, S. (1993), 'Human rights and crimes of the state: the culture of denial', *Australian and New Zealand Journal of Criminology 26(2), 97–15*.

Conrad, P. a Schneider, J. W. (1992), *Deviance and Medicalization: from badness to sickness*. Philadelphia: Temple University Press.

Gordon, D. (2004), *Beyond Criminology: taking harm seriously*. London: Pluto.

Hagan, J. (2011), *Who are the Criminals? The politics of crime policy from the age of Roosevelt to the age of Reagan*. Princeton, Princeton University Press.

Hagan, J. a Rymond-Richmond, W. (2008), *Darfur and the Crime of Genocide*. Cambridge: Cambridge University Press.

Hillyard, P. a Tombs, S. (2004), 'Beyond Criminology?' yn: Hillyard, P. et al., *Beyond Criminology: taking harm seriously*. London: Pluto.

Hillyard, P. a Tombs, S. (2007): 'From "crime" to social harm?' *Crime, Law and Social Change*, 41(1), 9–25.

Maier-Katkin, D., Mears, D. a Bernard, T. H. (2009), 'Towards a criminology of crimes against humanity', *Theoretical Criminology*, 13(2), 227–55.

Morris, N. a Hawkins, G. (1970), *The Honest Politician's Guide to Crime Control*. Chicago: University of Chicago Press.

Schur, E. (1969), *Our Criminal Society*. Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Schwendinger, H. a Schwendinger, J. (1970), 'Defenders of order or guardians of human rights?' *Issues in Criminology*, 5, 123–57.

Sumner, W. G. (1906), *Folkways*. New York: Dover.

Tappan, P. W. (1947), 'Who is the Criminal?' *American Sociologist Review*, 12, 96–102.

Tavakoli, N. (2009), 'A crime that offends the conscience of humanity: a proposal to reclassify trafficking in women as an international crime', *International Criminal Law Review*, 9(1).

Tjaden, P. (2005), 'Defining and measuring violence against women: background, issues, and recommendations', *Statistical Journal of the United Nations*, 22, 217–34.

Zedner, L. (2004), *Criminal Justice.* Oxford: Oxford University Press.

# 2

# Troseddu yng Nghymru a Lloegr

2

# Troseddu yng Nghymru a Lloegr

Fel disgyblaeth, mae troseddeg yn ddibynnol iawn ar archwilio tystiolaeth a cheisio deall lefelau, tueddiadau a phatrwm troseddu. Ystadegau troseddu yw'r brif ffynhonnell gwybodaeth am droseddu; maent yn dylanwadu ar yr hyn sy'n creu troseddau ac ataliaeth, yn dylanwadu ar blismona rheng flaen drwy dargedu adnoddau ar gyfer blaenoriaethu ymateb ac, yn olaf, yn dylanwadu ar bolisi cosbi.

### 2.1 Mesur Cyfraddau Troseddu

Ceir dau brif ddull o fesur o gronfa ddata:

- arolygon ar sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth am eu profiad o fod yn ddioddefwyr troseddu yn ystod y flwyddyn. Y ffynhonnell ar gyfer hyn yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (*Crime Survey for England and Wales, CSEW*);
- data a gasglwyd gan asiantaethau'r heddlu ar droseddau sydd wedi eu riportio gan ddioddefwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Y ffynhonnell ar gyfer hyn yw Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu.

### 2.2 Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu

Hon yw prif ffynhonnell yr heddlu ynghylch ystadegau troseddu, sef data sydd wedi eu casglu gan yr heddlu yn ystod camau amrywiol o fewn y broses cyfiawnder troseddol. Mae'r ystadegau'n dibynnu ar yr hyn a riportiwyd i'r heddlu, beth a gofnodir ganddynt ac, yn drydydd, y troseddau y mae'r heddlu wedi eu darganfod wrth gynnal eu hymchwiliadau troseddol eu hunain.

Ceir tri cham allweddol yn y broses gofnodi gan yr heddlu:

**Riportio troseddau**: Riportio neu adrodd am ddigwyddiad troseddol a'i ddwyn i sylw'r heddlu, un ai drwy ei riportio o'r tu allan i'r sefydliad neu drwy ymchwiliadau troseddol yr heddlu. Mae'r heddlu'n cofrestru'r digwyddiad ac yn penderfynu ei gofnodi fel trosedd, yn unol â rheolau'r Safonau Cenedlaethol ar Gofrestru Troseddau. Bydd angen tystiolaeth o'r digwyddiad troseddol a bydd yn ddigon difrifol i warantu sylw'r heddlu.

**Cofnodi troseddau**: Yr heddlu sy'n penderfynu cofnodi troseddau, faint o droseddau a'r mathau o droseddau a gofnodir. Efallai fod y digwyddiad yn dangos bod mwy nag un drosedd wedi digwydd, dros gyfnod o amser, neu fod mwy nag un diffynnydd neu ddioddefwr.

**Datgelu**: Ceir ystadegau datgelu yn ôl meini prawf canllawiau Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Mewn llawer o'r achosion, ar ôl derbyn cyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron, bydd cyhuddiad yn cael ei wneud neu rybudd yn cael ei roi, neu efallai nad yw'r heddlu'n mynd â'r achos ymhellach.

### 2.3 Manteision ac Anfanteision Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu

Mae'r ystadegau troseddu a gofnodir gan yr heddlu yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar dueddiadau troseddu. Gellir eu defnyddio hefyd i ddadansoddi troseddu lleol/rhanbarthol. Er hyn, mae iddynt anfanteision, sy'n golygu nad ydynt ar eu pennau eu hunain yn rhoi darlun cywir o wir lefel troseddolrwydd. Ers 2013 mae Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu wedi colli eu statws fel ystadegau cenedlaethol oherwydd eu bod yn defnyddio dulliau gwahanol o gofnodi troseddau.

**Ni chaiff troseddau sydd heb eu riportio eu cyfrif**: Mewn llawer o achosion, nid yw troseddau'n cael eu riportio i'r heddlu, ac o ganlyniad mae lefelau troseddu mewn gwirionedd yn llawer uwch. Gall y rhesymau dros beidio â riportio trosedd i'r heddlu amrywio o un unigolyn i'r llall. Mae'r rhesymau'n cynnwys y canlynol: bod dioddefwyr yn ei ystyried yn fater dibwys; diffyg diddordeb; tybio na fydd yr heddlu'n eu credu; teimlo bod yr heddlu'n rhy brysur; yn fater embaras; ofn riportio; y dioddefwr yn dymuno delio â'r mater mewn ffordd arall (Walklate, 2007).

**Ni chofnodir pob trosedd sy'n cael ei riportio i'r heddlu**: Ceir llawer iawn o ddisgresiwn gan yr heddlu wrth benderfynu a ddylid cofnodi troseddau sydd wedi eu riportio iddynt ai peidio. Gellir penderfynu nad oes digon o dystiolaeth, neu fod y digwyddiad yn rhy ddibwys i gyfiawnhau gwario adnoddau'r heddlu arno. Amcangyfrifir mai 80% o gyfanswm y troseddau sy'n cael eu cofnodi (Tierney, 2006:27). Ceir amrywiaeth sylweddol wrth gofnodi troseddau: mae hyn weithiau'n adlewyrchu blaenoriaethau'r heddlu a sut mae'r heddlu'n gorfodi rhai deddfau wrth weithredu yn fwy nag eraill. Yn ogystal, nid yw dioddefwyr bob amser yn ymwybodol fod troseddu wedi digwydd. Er enghraifft, mae twyll bancio neu dwyll hunaniaeth yn cymryd peth amser i'w ddatgelu, ac mae'n dibynnu pryd fydd dioddefwyr wedi dod o hyd i'r drosedd i'w riportio.

**Nid yw pob trosedd yn hysbysadwy**: Golyga hyn fod troseddau diannod (*summary*), llai difrifol, yn cael eu heithrio.

**Mae cyfraddau riportio'n amrywio yn ôl y math o drosedd**: Ymddengys bod rhai dioddefwyr yn credu mai ychydig o effaith a gaiff trosedd arnynt, ac o ganlyniad maent yn llai tebygol o riportio'r digwyddiad i'r heddlu. Gall hyn olygu nad yw'r darlun sy'n cael ei gyfleu o droseddau difrifol yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa. Bydd dwyn o gerbyd neu fwrgleriaeth yn cael ei riportio'n amlach na throseddau eraill oherwydd bod angen cyfeirif er mwyn gwneud cais am arian yswiriant. Ar y llaw arall, mae troseddau rhyw yn cael eu tanriportio oherwydd natur bersonol y drosedd, ofn na fydd neb yn eu credu neu oherwydd cywilydd. Golyga hyn fod rhai troseddau'n fwy tebygol o gael eu riportio a'u cofnodi nag eraill, ac mae hyn yn effeithio ar y cyfraddau.

**Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar y tueddiadau**: Ymysg y ffactorau hyn y mae newid mewn deddfwriaeth sy'n dad-droseddoli neu'n troseddoli ymddygiad. Gall hyn wneud pethau'n anodd os ydym yn cymharu ystadegau dros gyfnod o amser ac ar sail ystadegau troseddu swyddogol. Ar y llaw arall, os nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio neu ei newid, bydd yn bosib cymharu'r ystadegau dros amser. Mae newid yn y gyfraith hefyd yn golygu newid mewn rheolau cyfrif a chategoreiddio troseddu a orfodir ar yr heddlu gan y Swyddfa Gartref, yn ogystal â newid mewn polisi erlyn.

Mae'r heddlu'n ganolog bwysig fel ceidwaid y porth gan fod rôl yr heddlu yn newid gydag amser ac yn ôl yr awdurdod heddlu. Gall hyn ddibynnu ar y dull rheoli neu'r adnoddau sydd ar gael mewn awdurdod penodol, ynghyd â chyfansoddiad cymdeithasol yr ardal, problemau plismona, pwysau gwleidyddol gan y llywodraeth, pwerau cyfreithiol, atebolrwydd, yn ogystal â phwysau gan y cyhoedd. Gwelir felly fod ffactorau amrywiol yn cyfrannu at y ffordd o gofnodi troseddau a sut y delir â throseddwyr. Gall yr amrywiaeth hwn effeithio ar y broses o benderfynu beth a gynhwysir mewn ystadegau troseddu. Felly, mae'n rhaid ystyried yr wybodaeth sy'n deillio o sefydliad yr heddlu ochr yn ochr ag arferion plismona. Mae effaith ffactorau megis pwysau gwleidyddol a chyhoeddus, gofynion sefydliadol a rheolaethol, ideoleg a diwylliant, i gyd yn cyfrannu at beth a gofnodir (Hough a Mayhew, 1982; Van Dijk a Tseloni, 2012).

## 2.4 Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Csew)

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (*Crime Survey for England and Wales, CSEW*), a elwid gynt yn Arolwg Troseddu Prydain (*British Crime Survey, BCS*), yn arolwg o ddioddefwyr troseddu yn y ddwy wlad. Ar sail sampl o 35,000, gofynnir i bobl o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr am eu profiadau o droseddau fesul blwyddyn. Mae'n fesur eithaf dibynadwy o brofiadau sampl cynrychioliadol o ddioddefwyr troseddau. Yn ogystal ag archwilio lefelau digwyddiadau troseddol, gofynnir i ymatebwyr am eu hagweddau at wahanol faterion yn ymwneud â throseddu, perfformiad y system cyfiawnder troseddol, eu cyswllt â'r heddlu a'u hagwedd tuag atynt, a'u canfyddiadau o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn dilyn adolygiadau, estynnwyd y CSEW i gynnwys plant rhwng 10 a 15 oed o 2009 ymlaen.

## 2.5 Manteision ac Anfanteision yr Arolwg Troseddu

- Cydnabyddir erbyn hyn fod yr Arolwg Troseddu (CSEW) yn rhoi gwell syniad o lefelau troseddu a thueddiadau tymor hir nag ystadegau a gofnodwyd gan yr heddlu, gan fod yr arolwg yn cynnwys troseddau nad ydynt yn cael eu riportio na'u cofnodi gan yr heddlu. Mae'n haws hefyd cymharu ffigurau dros gyfnod o amser gan fod y fethodoleg a'r mathau o droseddau a gynhwysir yn yr arolwg wedi parhau'n gyson ers y dechrau yn 1981.
- Hyd yn ddiweddar, nid oedd yr arolwg yn cynnwys twyll a seiberdroseddu yn ei amcangyfrifon. Ond, yn dilyn gwaith datblygu, ychwanegwyd cwestiynau newydd ar dwyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron at y CSEW yn 2015. Yn ogystal, gofynnir i oedolion a oeddent wedi eu cam-drin fel plentyn (dan 16 oed) gan oedolyn.
- Nid yw'r arolwg yn ymdrin â phob math o droseddu. Gan ei fod yn gofyn i bobl am eu profiadau fel dioddefwyr trosedd, nid yw'r arolwg yn gallu ymdrin â llofruddiaethau. Yn ogystal, gan mai aelwydydd sy'n cael eu holi, ni ellir cynnwys busnesau. Felly, nid yw'n gallu amcangyfrif lefel y troseddu mewn busnes a diwydiant, troseddu corfforaethol a throseddu amgylcheddol.

- Nid yw'r arolwg yn cwmpasu'r bobl hynny sy'n byw mewn hosteli /sefydliadau (er enghraifft, hosteli'r digartref, y fyddin, cartrefi'r henoed neu neuaddau preswyl myfyrwyr), na sefydliadau eraill, megis carchardai. Awgryma ymchwil fod rhai o'r grwpiau hyn yn profi mwy o droseddau na'r cyhoedd yn gyffredinol (Carrabine et al., 2004; Brogden a Nijar, 2006; Edgar et al., 2003; Fawcett Society, 2004; Newburn a Rock, 2006).
- Mae'r CSEW yn hepgor troseddau heb ddioddefwyr**.** Gan fod yr arolwg yn trafod profiadau o ddioddefaint, mae'n rhaid i'r dioddefwyr fod yn hysbys. Mae troseddau heb ddioddefwyr yn cynnwys, er enghraifft, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, defnyddio a chamddefnyddio cyffuriau.
- Mae casglu gwybodaeth am gam-drin domestig a rhywiol yn broblemus. Mae sicrhau preifatrwydd yn ystod cyfweliadau yn destun pryder i rai ymatebwyr sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig neu ymosodiad rhywiol. Gall hyn ddylanwadu ar y canfyddiadau neu beryglu diogelwch yr ymatebydd, yn enwedig os yw'r troseddwr yn bresennol yn ystod y cyfweliad.
- Mae'n anodd mesur gwahaniaethau daearyddol a thuedd mewn troseddau anghyffredin. Er bod y sampl yn gynrychioliadol, mae'r arolwg yn parhau'n rhy fach i fesur troseddau llai cyffredin yn gywir, megis troseddau treisgar neu ymosodiad rhywiol.

### 2.6 Troseddu yng Nghymru a Lloegr

Mae'n glir nad yw llawer o droseddau yn cael eu riportio i'r heddlu ac na chaiff rhai eu cofnodi. Gelwir hyn yn 'ffigur tywyll troseddu' (*dark figure of crime*; Coleman a Moynihan, 1996). Y wers sydd angen ei dysgu gydag unrhyw gronfa ddata yw ei bod yn gyfyngedig. Ni all unrhyw ffynhonnell data unigol gynnig dadansoddiad manwl o droseddu. Mae gan bob cyhoeddiad sy'n cynnwys ystadegau blynyddol ei gryfderau a'i wendidau. Ond, drwy fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau, mae'n bosib eu cydnabod a'u cymhwyso er mwyn gallu defnyddio'r ffynonellau hyn mewn modd cynhyrchiol. Rhaid bod yn ofalus felly wrth ddefnyddio'r ystadegau, a gwerthuso sut mae'r gronfa ddata wedi ei llunio gan gyfraith droseddol a nifer o ffactorau eraill.

Defnyddia'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ddwy brif ffynhonnell, sef data a gofnodir gan yr heddlu a'r CSEW, i baratoi cyhoeddiadau ar batrwm troseddu, troseddolrwydd a chyfiawnder yn flynyddol. Yn ychwanegol, cyhoeddir nifer o gyhoeddiadau sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o faterion megis troseddau treisgar, lladdiad, camdriniaeth, neu droseddau rhyw, er enghraifft.

Mae'n hysbys fod cyfraddau riportio i'r heddlu a chofnodi gan yr heddlu yn amrywio yn ôl y drosedd. Sut felly rydym yn amcangyfrif pa ganran o droseddau sy'n cael eu riportio a'u cofnodi gan yr heddlu? Mae'n bosib defnyddio arolwg y CSEW er mwyn cymharu. Mae'r CSEW yn holi am y profiad o droseddu yn ystod y 12 mis diwethaf: a yw'r troseddau wedi eu riportio i'r heddlu, ac os nad ydynt, yna, pam? Dros y blynyddoedd mae'r cyfraddau troseddu yn uwch mewn rhai categorïau troseddu yn y CSEW o'u cymharu â'r hyn a geir yn ystadegau'r heddlu. Gall yr arolwg felly ddatgelu troseddau cudd a chynyddu lefelau ofn troseddau ymhlith y cyhoedd. Er hyn, unwaith y bydd nifer o arolygon wedi eu cynnal, bydd modd edrych ar dueddiadau dros gyfnod o amser.

## 2.7 Camau Gwerthuso Data

Mae gofyn inni feddwl yn ddadansoddol ac yn feirniadol wrth ymdrin ag ystadegau troseddu, ond sut mae gwneud hyn?

Dyma rai o'r cwestiynau y dylid eu gofyn:

- Beth mae'r ystadegau yn ei ddangos inni?
- Pa fath o ddata sy'n sylfaen i'r ystadegau? Sut y casglwyd y rhain?
- A yw'r data'n ddilys (oes 'na unrhyw broblemau yn y fethodoleg)?
- A yw'r data yn ddibynadwy? Dilysrwydd a dibynadwyedd – y brasamcan gorau o ddilysrwydd data yw rhoi'r ddamcaniaeth (*hypothesis*) dan sylw ar waith mewn ymchwil empirig. Golyga dibynadwyedd gysondeb, ac os byddwn yn ailddefnyddio'r ffigurau, byddwn yn cael yr un canlyniadau ymchwil.
- A allaf ddefnyddio'r data i gefnogi fy nadleuon?
- Beth mae tueddiadau'r data yn ei arddangos? Aseswch ddiffiniadau, deddfwriaeth, ac a yw diwylliant wedi newid natur yr hyn rydym yn edrych arno.

## 2.8 Troseddu yng Nghymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ons)

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfuno manylion y troseddau a gofnodir gan yr heddlu a rhai Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW). Mae hyn yn caniatáu cymharu categorïau troseddu yn uniongyrchol ac yn amlygu natur y ddwy set o ffigurau.

Gweler safle'r ONS: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice

## 2.9 Ystadegau Euogfarnau a Dedfrydau

Mae ystadegau euogfarnau a dedfrydau yn ddefnyddiol am nifer o resymau. Maent yn caniatáu archwilio graddau euogfarnau yn ôl trosedd a pha fath o gosb sy'n cael ei rhoi. Gellir hefyd archwilio sut mae dedfrydau am droseddau gwahanol wedi newid gydag amser. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am yr ystadegau hyn. Gweler:
https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/statistics.

Ceir ystadegau perthnasol eraill hefyd, megis ystadegau chwarterol llysoedd troseddol, cyfiawnder troseddol, carchardai a'r gwasanaeth prawf, aildroseddu, effaith rhaglenni adsefydlu ar raddau aildroseddu, cydraddoldeb o fewn y system cyfiawnder troseddol, ystadegau ar y Farnwriaeth, a chyfiawnder pobl ifanc.

## 2.10 Lladdiad yng Nghymru a Lloegr

Ystyrir llofruddiaethau ymhlith y troseddau rhyngbersonol mwyaf eithafol. Ffynhonnell y data am lofruddiaethau yw mynegai'r Swyddfa Gartref, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am lofruddiaethau a adroddwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Nid yw plismona wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ac felly cynhwysir ystadegau swyddogol yr heddlu yng Nghymru gydag ystadegau swyddogol heddluoedd yn Lloegr. Addasir a diweddarir yr wybodaeth gan yr heddlu

a’r llysoedd, a thrwy’r ddwy ffynhonnell hyn darperir set o ddata cynhwysfawr. Sylwer bod rhestr y llofruddiaethau wedi ei seilio ar y flwyddyn yr adroddwyd am y troseddau, ac nid pa bryd y digwyddodd y drosedd na pha bryd y gwrandawyd ar yr achos mewn llys. Er bod rhan fwyaf o achosion yn cael eu cofnodi yn yr un flwyddyn â’r drosedd, nid yw hynny’n digwydd bob tro. Dylid felly ymdrin yn ofalus â phatrwm data tymor hir ar gyfer llofruddiaethau.

### 2.11 Diffinio a Dehongli Lefelau Troseddu

Mae’r term lladdiad yn cynnwys llofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad. Mae llofruddiaeth a dynladdiad yn droseddau cyfraith gwlad na chawsant erioed eu diffinio gan statud, er iddynt gael eu haddasu drwy statud. Mae’r categori dynladdiad yn cynnwys dynladdiad corfforaethol, a ddaeth i fodolaeth fel trosedd yn 2008. Diffinnir babanladdiad fel lladd baban dan flwydd oed gan ei fam tra bo cydbwysedd ei meddwl yn ansefydlog o ganlyniad i enedigaeth y plentyn (ONS, 2019).

I roi nifer y lladdiadau yn eu cyd-destun, mae’r gyfradd lladdiadau’n isel iawn, gydag 11.4 o ddynladdiadau wedi eu cofnodi fesul miliwn o’r boblogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 (ONS, 2019). Cipolwg a gawn o ystadegau’n flynyddol ac mae’n bwysig cadw mewn cof bod patrymau data yn newid gyda threigl amser. Wrth gwrs, mae’n bosib cymharu ystadegau dros amser er mwyn canfod patrwm troseddu.

Dengys ystadegau’r ONS yn 2019 fod 671 o lofruddiaethau wedi eu cofnodi yng Nghymru a Lloegr, â’r gyfradd llofruddiaethau ar ei huchaf ers dros ddeng mlynedd (ONS, 2019). Ymddengys bod digwyddiadau prin ac eithriadol, megis ymosodiadau terfysgol, yn dod yn fwy cyffredin, fel y dengys ymosodiadau ar bont San Steffan yn Llundain a chyngerdd Ariana Grande ym Manceinion, yn ogystal â digwyddiad trychineb peldroed Hillsborough yn 1989 (ONS, 2018).

Mewn achosion lle bydd nifer o bobl wedi eu lladd gan yr un diffynnydd, yr hyn sy’n digwydd fwyfwy yw fod nifer y llofruddiaethau’n cael ei gyfrifo fel cyfanswm y dioddefwyr a laddwyd, yn hytrach na nifer y digwyddiadau. Golyga hyn fod digwyddiad terfysgol, er enghraifft 22 o bobl wedi eu lladd mewn cyngerdd gan Ariana Grande ym Manceinion ym mis Mai 2017, yn cael ei fesur yn ôl nifer y llofruddiaethau yn hytrach na’i ystyried yn un digwyddiad. Yn ogystal, ym mis Mawrth 2017 cofnodwyd marwolaethau’r 96 o bobl a gollodd eu bywydau yn nhrychineb Hillsborough yn 1989 fel dynladdiad, yn dilyn cwest ym mis Ebrill 2016.

Gellir felly awgrymu bod ymosodiadau terfysgol fel yr un ym Manceinion wedi cael effaith sylweddol ar y cynnydd a welwyd mewn cyfraddau llofruddiaethau yn 2018 (ONS, 2018). Gallwn ddirnad ac amgyffred hefyd fod amgylchiadau llofruddiaethau’n gymhleth, ac achosion yn cymryd amser i fynd drwy’r system cyfiawnder troseddol. Mae cyfanswm llofruddiaethau 2019 yn cynnwys y 39 o bobl a gafodd eu darganfod yn farw yng nghefn lorri yn Essex ym mis Hydref 2019 (CSEW, 2019). Heb yr achos difrifol hwn, byddai gostyngiad o 4 y cant yn ffigurau llofruddiaethau yn 2019 (CSEW, 2019).

### 2.12 Ffynonellau Ystadegau Rhyngwladol

Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (Cymru a Lloegr):
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/yearendingmarch2021

Ystadegau Heddlu'r Alban:
https://www.gov.scot/publications/homicide-scotland-2020-2021/

Ystadegau Heddlu Gogledd Iwerddon:
https://www.psni.police.uk/inside-psni/Statistics/police-recorded-crime-statistics/

Ystadegau Ewrop:
https://ec.europa.eu/eurostat/web/products-datasets/-/crim_hom_soff

Ystadegau Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddu:
https://www.unodc.org/unodc/en/data-and-analysis/global-study-on-homicide.html

### 2.13 Gweithgaredd

1. Pa mor ddibynadwy yw Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr?

2. Mae'r cynnydd mewn troseddu yn ymwneud â thrais a chyllyll gan bobl ifanc yn destun llosg yn y cyfryngau. Ystyriwch yn feirniadol batrwm troseddu gan ddefnyddio cyllyll ymhlith pobl ifanc yn yr ystadegau canlynol ac atebwch y ddau gwestiwn isod:

   i) Pa droseddau sy'n cynnwys y defnydd o gyllyll a beth yw'r anawsterau wrth ddehongli'r dystiolaeth? (Ystadegau Troseddu Swyddogol yr Heddlu a'r CSEW). Gweler y dolenni canlynol:

   https://www.gov.uk/government/collections/crime-statistics

   https://www.police.uk. (yn caniatáu mynediad i ddata'r heddlu fesul rhanbarth, stryd a chymdogaeth)

   https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingdecember2021

   ii) Ystyriwch faint a dderbyniodd rybudd a dedfrydau am fod ym meddiant cyllell yn unig (Ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder)
   https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/statistics

3. Cymharwch dueddiadau llofruddiaethau'n rhyngwladol. Beth yw rhai o'r prif anawsterau a'r sialensau?

## Deunydd darllen ychwanegol


Brogden, M. a Nijhar, P. (2006), 'Crime, abuse and social harm: towards an integrated approach', yn: Wahidin, A. a Cain, M. (goln), *Ageing, Crime & Society*. Cullompton: Willan.

Carrabine, E. et al. (2004), *Criminology: a sociological introduction*. London: Routledge.

Coleman, C. a Moynihan, J. (1996), *Understanding Crime Data*. Buckingham: Open University Press.

Edgar, K., O'Donnell, I. a Martin, C. (2003), *Prison Violence: the dynamics of conflict, fear and power*. Cullumpton: Willan.

Fawcett Society (2004), *Women and the Criminal Justice System: report of the Commission on Women and Criminal Justice System*. London: Fawcett Society.

Hope, T. (2005), 'What do crime statistics tell us?' yn: Hale, C. et al. (goln), *Criminology*. Oxford: Oxford University Press.

Hough, M. a Maxfield, M. (2007) (goln), *Surveying Crime in the 21st Century*. Cullompton: Willan.

Hough, M. a Mayhew, P. (1982), *The British Crime Survey: first report*. A Home Office Research and Planning Unit Report. Home Office Research Study No. 76. London: HMSO.

Maguire, M. (2007), 'Crime data and statistics, patterns, and trends: changing perceptions and their implications', yn: Maguire, M., Morgan, R. a Reiner, R. (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, cyf. 4. Oxford: Oxford University Press.

Morgan, N. et al. (2020 ), *Trends and Drivers of Homicide: main findings*. Home Office Research Report 113. London: HMSO.

Newburn, T. a Rock, R. (2006) (goln), *The Politics of Crime Control: essays in honour of David Downes*. Oxford: Clarendon Press.

ONS (2019), Crime in England and Wales, year ending September 2019. Https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingseptember2019?:uri=peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingseptember2019 [Cyrchwyd: 16 Mehefin 2021].

Tseloni, A. a Tilley, N. (2016), 'Choosing and using statistical sources in criminology – what can the Crime Survey for England and Wales tell us? https://discovery.ucl.ac.uk/id/eprint/1515249/1/Tilley_Tseloni%20and%20Tilley.pdf London: University College London. [Cyrchwyd: 16 Mehefin 2021].

Van Dijk, J. a Tseloni, A. (2012), 'Global overview: international trends in victimisation and recorded crime', yn Van Dijk, J., Tseloni, A. a Farrell, G. (goln), *The International Crime Drop: new directions in research*. Hampshire: Palgrave Macmillan.

Walklate, S. (2007), *Imagining the Victim of Crime*. Maidenhead: Open University Press.

# 3

# Troseddu Difrifol a Throseddu Trefnedig

3

# Troseddu Difrifol a Throseddu Trefnedig

Nid tasg hawdd yw ceisio diffinio troseddu difrifol a throseddu trefnedig (*serious and organised crime*). Mae'r cysyniad o 'droseddu trefnedig' wedi denu cryn sylw a dadlau ymhlith academyddion, llunwyr polisi ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Cyfeiriodd von Lampe (2016) at dros gant a hanner o ddiffiniadau gwahanol a ddefnyddir gan lywodraethau, ymarferwyr ac academyddion.

I rai, mae'r diffiniad yn cynnwys unigolion sy'n cydymffurfio mewn strwythur hierarchaidd, gan ddefnyddio llygredd i gyflawni eu hamcanion troseddol. Gwêl eraill lai o wahaniaeth rhwng sefydliad economaidd cyfreithlon a'r byd tanddaearol anghyfreithlon (Edwards a Gill, 2003). Yn fwy diweddar, adroddodd Sergi (2015) fod canolbwynt troseddu a'i ystyr yn newid ac yn dibynnu ar bwy sy'n ei ddiffinio ac i ba bwrpas. Efallai fod hyn yn rhannol gywir yn ymarferol gan fod y cysyniad ei hun yn ymddangos yn llac ac yn ddigyfeiriad ar yr olwg gyntaf. Dywedir hyn oherwydd bod y term yn cynnwys categorïau troseddu gwahanol – o ddwyn plwm oddi ar doeon eglwysi at gaethwasiaeth fodern. O ganlyniad, cred llawer fod y term yn rhy eang ac wedi colli ei ystyr, ac y dylid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio. Ond nid yw hyn yn fawr o gymorth wrth geisio deall yr amryw droseddau difrifol a threfnedig sydd ynghlwm â'r term.

Mae'n rhaid ceisio sicrhau ffordd o fesur y math hwn o droseddu er mwyn deall ei gymhlethdod a'r niwed enfawr mae'n ei greu yn fyd-eang. Mae diffiniad y Swyddfa Gartref (2011) yn fan cychwyn derbyniol gan ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwilio ar ran yr heddlu a'r asiantaethau rheoli troseddu. Diffinnir troseddu trefnedig fel a ganlyn: troseddu gan unigolion sy'n gweithio gydag eraill ac sydd â'r gallu i gyflawni troseddau difrifol dros gyfnod o amser, gydag elfen o gynllunio, rheoli a chydlyniaeth gan gynnig budd i'r sawl sy'n rhan o'r rhwydwaith (Swyddfa Gartref, 2011). Deallwn fod troseddwyr troseddu trefnedig â'r gallu cynyddol i gyfuno neu rannu gweithgaredd sy'n caniatáu iddynt ecsbloetio cyfleoedd wrth iddynt ymddangos yn fyd-eang (Kirby a Penna, 2011). Ymddengys fod twf technoleg cyfathrebu yn hyrwyddo hyn (NCA, 2020).

Er bod diffyg consensws ynglŷn â'r diffiniad, derbynnir y syniad bod troseddu trefnedig yn fater cynyddol ddifrifol sy'n effeithio ar gymdeithas ar draws y byd (Levi, 2012). Oherwydd y cynnydd hwn, mae sawl llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith dan bwysau i ddelio â throseddu trefnedig mewn modd effeithiol. Er hyn, ymddengys bod troseddwyr sy'n cyflawni troseddu trefnedig yn gallu eu hysgogi eu hunain yn effeithiol a'u bod yn wydn iawn. Dengys ymchwil mai dynion yw troseddwyr trefnedig gan amlaf, rhai a chanddynt gefndir o droseddu'n gyson (Francis, 2013). Dengys ymchwil nad yw'r troseddwyr yn symud i mewn ac allan o droseddu ond yn parhau'n weithredol ymhell i ganol oed (Kirby ac eraill, 2015).

Y cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn yw beth sy'n gwahaniaethu troseddu a gyflawnir gan unigolyn a throseddu a gyflawnir gan grwpiau o bobl? Mae'r pwyntiau isod yn crynhoi rhai o'r prif syniadau:

- trefniant, sefydliad a chynllun;
- uned reoli – arweinydd a gweithwyr;
- haen o oruchwyliaeth i reoli'r trefniant a chyflenwadau busnes anghyfreithlon ar ffurf hierarchaeth;
- systemau dyrchafu a chosbi;
- mae troseddu trefnedig yn aml yn rhyngweithio â throseddu corfforaethol a throseddu coler wen ac yn cuddio'r tu ôl i orchudd corfforaethol, yn cynnwys strwythur hierarchaidd, teuluoedd, monopoli, darparu nwyddau anghyfreithlon a gwasanaethau i rwydweithiau rhyngwladol, ynghyd â niwed difrifol.

Dangosodd adroddiad gan yr Undeb Ewropeaidd ac Europol yn 2001 fod troseddu trefnedig yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf. Mae'n ofynnol i bedwar ohonynt fod yn bresennol, ynghyd â dwy o'r saith elfen ddewisol, i'r troseddu gael ei ystyried yn 'droseddu trefnedig' (Newburn, 2012).

Mae'r pedair elfen orfodol yn cynnwys y canlynol:

- cydweithio rhwng mwy na dau berson;
- gweithio dros gyfnod hir, neu gyfnod amhenodol;
- pobl a ddrwgdybir o droseddu difrifol;
- gwneud elw ac ennill pŵer.

Mae'r saith maen prawf arall yn elfennau dewisol, fel a ganlyn:

- rhaniad llafur arbenigol;
- system ddisgyblu a rheoli;
- defnydd o drais ac aflonyddu;
- strwythur busnes a masnachu;
- ffugio arian;
- gweithredu'n rhyngwladol ac ar draws ffiniau cenedlaethol;
- dylanwad dros wleidyddiaeth, cyrff barnwrol, y cyfryngau a'r economi.
  (Newburn, 2012:461)

### 3.1 Portread o Droseddu Trefnedig

Erbyn hyn, derbynnir i raddau helaeth fod troseddu trefnedig yn cael ei gyflawni gan wahanol fathau o rwydweithiau a grwpiau anghyfreithlon. Mae hyn yn wahanol i'r canfyddiad cyhoeddus sy'n deillio o ddelweddau traddodiadol mewn ffilmiau ac ar deledu Americanaidd, er enghraifft *The Godfather* a *The Sopranos*. Mae'r symbolau a'r delweddau hyn o droseddu trefnedig yn rhai ystrydebol iawn.

Mae rhai'n amau a yw'r model troseddu trefnedig Americanaidd yn berthnasol i'r cyd-destun ym Mhrydain. Honnai Hobbs (1994) fod troseddu trefnedig yn yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain yn rhywbeth lleol yn bennaf, gyda'r gangiau adnabyddus yn cynnwys y 'gefeilliaid Kray' a'r Richardsons yn Llundain. Roedd y gangiau hyn yn defnyddio cymdogaethau traddodiadol i ecsbloetio cyfleoedd marchnata.

Ymddengys felly nad yw'r diffiniadau'n dilyn strwythur cyson a bod y 'rhwydweithiau' yn gymhleth iawn. Maent yn cynnwys nifer o bobl ac yn weithredol ar draws ffiniau gwahanol (Newburn, 2012). Mae pob trosedd yn gwahaniaethu yn ôl lefel difrifoldeb, proffil a nifer y troseddwyr sy'n cyflawni'r drosedd, ynghyd â chyfnod amser y troseddu. Gan y gellir ystyried nifer o gategorïau gwahanol ynghlwm â'r diffiniad, mae'r Llywodraeth yn darparu rhestr o'r categorïau a ystyrir yn droseddu trefnedig. Mae'r rhain yn cynnwys y troseddau canlynol: masnachu cyffuriau, pobl ag arfau tanio, troseddu mewnfudo anghyfreithlon, twyll a throseddu ariannol, gwyngalchu arian, seiberdroseddu, ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol, a chaethwasiaeth fodern.

### 3.2 Ymateb Strategol

Yn 2013 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn San Steffan strategaeth troseddu trefnedig oedd yn deillio o'u profiad yn ymdrin â therfysgaeth, sef y 4P (*Plan, Protect, Pursue, Prevent*):

- **paratoi**: cynllunio amcanion, blaenoriaethau a gweithredu er mwyn lleihau effaith troseddu trefnedig drwy ddatblygu gwydnwch gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a thechnolegol;
- **amddiffyn**: amddiffyn strwythur y gymdeithas a'i phobl er mwyn cael gwared ar droseddu trefnedig;
- **erlid ac aflonyddu**: ymdrechu i ddefnyddio dulliau ymyrraeth mewn tactegau plismona er mwyn atal troseddu;
- **atal**: atal unigolion rhag ymuno â'r rhwydweithiau.

Ymddengys bod amcangyfrifon y Llywodraeth yn nodi bod 38,000 o unigolion mewn 6,000 o grwpiau troseddu trefnedig yn weithredol yng Nghymru a Lloegr yn 2014 (NCA, 2016). Oherwydd diffyg data, ceir heriau sylweddol wrth geisio mapio'r costau economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o'r holl gategorïau o droseddu trefnedig. Deellir bod y diffyg hwn yn dibynnu ar y math o droseddu trefnedig sydd dan sylw a pha mor gyflawn yw'r data fesul categori (Swyddfa Gartref, 2013).

Mae strategaeth 2018 y Llywodraeth yn parhau i ddilyn y fframwaith '4P', sef: paratoi, amddiffyn, erlid ac aflonyddu, ac atal (*Plan, Protect, Pursue, Prevent*). Canfu adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2019) fod sicrhau ymateb cytbwys ar draws y '4P' wedi bod yn anodd oherwydd y pwyslais a roddwyd ar yr egwyddor o erlid ac aflonyddu, a'r adnoddau a neilltuwyd ar gyfer hynny. Dadleuai'r Llywodraeth fod y strategaeth '4P' yn ddull cydlynol ar gyfer gweithredu'n effeithiol i'r dyfodol drwy orfodi'r gyfraith er gwaetha'r cynnydd yn niferoedd y troseddau. Nodai'r Llywodraeth yr angen i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio data'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA) i wella dealltwriaeth o droseddu trefnedig; gwneud mwy o waith i atal pobl rhag cyflawni troseddau trefnedig; mynd i'r afael â throseddu trefnedig mewn ffordd gydlynol; cynyddu rôl Uned Ranbarthol Troseddu Trefnedig (ROCUs); ac, yn olaf, archwilio model cyllido mwy cynaliadwy a thymor hir (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2019).

Mae asiantaethau plismona cenedlaethol yn ehangu eu harbenigedd ac yn sefydlu partneriaethau ag asiantaethau plismona eraill i ddelio â heriau globaleiddio a throseddu difrifol a throseddu trefnedig. Ym maes cyfiawnder troseddol rhaid meddwl yn rhyngwladol a chysylltu ag asiantaethau eraill yn fyd-eang. Cyngres heddlu ryngwladol yn 1914 ym Monaco arweiniodd at sefydlu Interpol yn 1923. Mae sefydliadau eraill, megis Europol, Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddu, hefyd yn gweithredu yn y maes. Ceir rhwydwaith o haenau o reoli plismona cenedlaethol, gan gynnwys gwasanaethau heddlu lleol a'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA), sy'n brwydro yn erbyn troseddu trefnedig yng Nghymru a Lloegr.

### 3.3 Gweithgaredd

1. Ystyriwch sut mae technoleg yn hwyluso gwaith troseddu trefnedig yn ôl asesiad yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol o'r heriau i atal ac amddiffyn heddiw.

2. Pa ddamcaniaeth sy'n eich argyhoeddi fwyaf wrth geisio egluro troseddu trefnedig? Cyfeiriwch eich ateb at un categori o droseddu trefnedig yn unig.

3. Cloriannwch weithgaredd Uned Ranbarthol Troseddu Trefnedig yng Nghymru a beth mae'n ei gyflawni?

4. Gwyliwch dair ffilm *The Godfather* ac atebwch y cwestiynau canlynol:

   i) Pam ydych chi'n credu bod cyfres ffilmiau *The Godfather* yn cael ei hystyried yn bortread credadwy o droseddu trefnedig, er mai ffuglen ydyw?

   ii) Ym mha ffordd ydych chi'n credu bod y gyfres ffilmiau'n cyfrannu at ddelwedd stereoteip o droseddu trefnedig yn hytrach na chynnig dealltwriaeth o sut mae troseddu trefnedig yn gweithredu'n ymarferol?

### 3.4 Troseddu Coler Wen a Throseddu Corfforaethol

Cafodd y syniad o droseddu coler wen ei gyflwyno gyntaf gan Edwin Sutherland yn 1939, mewn cyflwyniad ganddo fel llywydd Cymdeithas Cymdeithaseg America. Mae Sutherland yn diffinio troseddu coler wen fel a ganlyn: troseddu a gyflawnwyd gan berson â pharch a statws cymdeithasol uchel yn ystod ei alwedigaeth (Sutherland, 1940). Roedd ei gyflwyniad yn un pwysig gan mai dyma'r datganiad cyntaf ar droseddu coler wen o fewn troseddeg academaidd.

Gan ddefnyddio cofnodion asiantaethau rheoleiddio, llysoedd a chomisiynwyr, darganfu Sutherland (1949) fod o leiaf 70 o gorfforaethau diwydiannol wedi torri o leiaf un gyfraith neu'n euog o dwyll, gwerthu nwyddau diffygiol a nifer o droseddau eraill. Cafodd yr astudiaeth ei chynnal dros gyfnod o ddeugain mlynedd. Er bod Sutherland wedi defnyddio'r term troseddu coler wen i ddisgrifio'r troseddau hyn, canolbwyntiodd yn bennaf ar droseddu corfforaethol neu drefnedig.

O fewn troseddeg, mae dadl gyfredol ynghylch sut y dylid diffinio troseddu corfforaethol a throseddu coler wen. Mae'r diffiniadau hyn yn cynnwys 'troseddau'r pwerus' (Pearce, 1976), 'gwyredd sefydliadol' (Punch, 1996), 'troseddau galwedigaethol' (Quinney, 1977), 'troseddau busnes' (Clarke, 1990), 'troseddau'r elît', a 'throseddau corfforaethol y wladwriaeth' (Michalowski a Kramer, 2006). Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r termau hyn, ond o safbwynt eu diffiniad, maent i gyd yn disgrifio'r troseddu a gyflawnwyd gan y pwerus yn hytrach na'r rhai heb bŵer.

Yn draddodiadol, mae llunwyr polisi, gwleidyddion, newyddiadurwyr a hyd yn oed troseddegwyr wedi canolbwyntio ar droseddau'r rhai sydd heb rym. Wrth ganolbwyntio ar achosion megis bwrgleriaeth, lladrad a difrod troseddol, maent hefyd yn pwysleisio'r gwerthoedd cymdeithasol pwysicaf. Oherwydd hyn, mae troseddu coler wen wedi aros ar ymylon y ddisgyblaeth. Er hynny, nid yw troseddegwyr wedi anwybyddu'r cysyniad yn gyfan gwbl ac mae rhai, megis Hillyrad et al. (2004), yn pwysleisio'r niwed y mae'r troseddu hwn yn ei achosi.

Mae Newburn (2009) yn nodi rhai rhesymau pam nad yw troseddegwyr wedi dewis canolbwyntio ar droseddu coler wen. Yn bennaf, dadleuodd fod llai o ddiddordeb cymdeithasol a gwleidyddol yn y meysydd hyn, ac mae llawer o droseddeg yn tueddu i adlewyrchu diddordebau'r pwerus. Yn ogystal, mae sylw'r cyfryngau i droseddu coler wen a throseddu corfforaethol yn wahanol iawn i'r sylw a roddir i droseddu confensiynol. Yn gyffredinol, mae llawer llai o amser ac adnoddau'n cael eu defnyddio i adrodd ar y storïau hyn.

Mae Tombs a Whyte (2007) yn dadlau bod marchnata a chyfnewid gwybodaeth (drwy roi pwysau cynyddol ar y farchnad a chystadleuaeth ar brifysgolion ac academyddion) wedi lleihau parodrwydd troseddeg i herio'r pŵer hwn. Ceisiodd Edwin Sutherland (1949) gyfeirio troseddeg yn uniongyrchol oddi wrth y troseddau a gyflawnwyd gan bobl o statws cymdeithasol isel a thuag at y rhai a gyflawnir gan rai â statws uwch.

Mae Croall (2001) yn awgrymu rhai gwahaniaethau rhwng troseddau coler wen a throseddau eraill. Awgrymodd fod troseddu coler wen, fel rheol, yn digwydd yn breifat. Yn ogystal, mae'n tueddu i gynnwys torri ymddiriedaeth sy'n gynhenid yn y rôl alwedigaethol, a hefyd yn tueddu i fod â statws cyfreithiol a throseddol amwys. Mae Croall hefyd yn nodi saith prif drosedd coler wen, sef:

- **twyll/dwyn yn y gwaith**: mae hyn yn cynnwys amryw o droseddau, yn eu plith mân ladrad a thwyll;
- **twyll**: mae'r diffiniad hwn yn cynnwys nifer o weithgareddau sy'n golygu camliwio er mwyn ennill manteision ariannol neu faterol;
- **llygredd**: math o droseddu a gyflawnir gan berson neu sefydliad yr ymddiriedwyd ynddo, er mwyn caffael budd anghyfreithlon neu gam-drin pŵer er budd preifat;
- **troseddu cyflogaeth**: mae'n cynnwys amrediad o droseddau – o bobl yn cael eu hanafu yn y gweithle, peidio â thalu pobl yn deg am eu gwaith, ac iechyd a diogelwch yn y gweithle;
- **troseddu defnyddwyr**: troseddu sy'n cynnwys torri deddfau a rheoliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu, dosbarthu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau;
- **troseddu'n ymwneud â bwyd**: mae troseddu bwyd yn dwyll difrifol sy'n effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd, diod neu fwydydd anifeiliaid. Gall fod yn niweidiol iawn i ddefnyddwyr, busnesau bwyd a'r diwydiant bwyd yn ehangach;

- **troseddu amgylcheddol:** mae hyn yn cyfeirio at droseddu a gyflawnir yn erbyn yr amgylchedd. Gweler Pennod 11 am fwy o wybodaeth;
- **troseddu corfforaethol y wladwriaeth**: defnyddir y term hwn i gyfeirio at niwed cymdeithasol difrifol sy'n deillio o ryngweithio gan sefydliadau gwleidyddol ac economaidd.

Mae nodweddion yr amgylchedd corfforaethol, er enghraifft cyflenwad a galw, yn ffactorau rhagdueddu mewn troseddu corfforaethol. Yn y gorffennol mae'r ymateb cymdeithasol i droseddu corfforaethol wedi bod yn drugarog. Nid yw troseddwyr galwedigaethol a chorfforaethol yn eu huniaethu eu hunain â throseddu; mae'r troseddwyr hyn yn mwynhau cefnogaeth isddiwylliannol ac yn rhesymoli eu hymddygiad er mwyn osgoi cyfrifoldeb.

### 3.5 Seiberdroseddu

Mae dyfodiad yr hyn a elwir yn 'gyfryngau newydd' (*new media*) yn tueddu i fod yn bwnc llosg ac weithiau'n creu'r hyn a elwir yn banig moesol. Mae nifer o'r cyfryngau hyn, er enghraifft comics, y radio, teledu, fideo a gemau cyfrifiadurol, wedi derbyn beirniadaeth foesegol oherwydd yr effaith y maent yn ei gael ar ymddygiad unigolion. Enghraifft o hyn yw achos Jamie Bulger yn 1993, pan gafwyd Robert Thompson a Jon Venables yn euog o arteithio a lladd bachgen dwyflwydd oed. Un ddadl oedd fod y bechgyn deg oed wedi lladd Jamie Bulger oherwydd eu bod wedi gwylio ffilm arswyd ac wedi cael eu dylanwadu ganddi. Er hynny, gellir dadlau bod y pryderon mwyaf yn ymwneud â'r rhyngrwyd, sydd naill ai'n dystiolaeth o'i phŵer neu'n adlewyrchu maint y peryglon a ddaw yn ei sgil.

Mae seiberdroseddu yn droseddu sy'n cynnwys cyfrifiadur a rhwydweithiau (Moore, 2005). Gellir diffinio seiberdroseddu fel a ganlyn: troseddu a gyflawnir yn erbyn unigolion neu grwpiau o unigolion sydd â chymhelliant troseddol i niweidio enw da'r dioddefwr yn fwriadol neu achosi niwed corfforol neu feddyliol, neu golled, i'r dioddefwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan ddefnyddio rhwydweithiau modern (Halder et al., 2011). Mae Thomas a Loader (2000:3) yn ei ddiffinio fel: "Gweithgareddau cyfrifiadurol sydd naill ai'n anghyfreithlon neu'n cael eu hystyried yn anghyfreithlon gan bartïon penodol ac y gellir eu cynnal trwy rwydweithiau electronig byd-eang."

Gall seiberdroseddu beryglu diogelwch ac iechyd ariannol unigolyn neu genedl gyfan. Mae materion yn ymwneud â'r mathau hyn o droseddu wedi dod yn fwy amlwg ac ar gynnydd, yn enwedig troseddu sy'n ymwneud â hacio, torri hawlfraint, cadw gwyliadwriaeth, pornograffi plant, a meithrin perthynas amhriodol â phlant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu llawer o drafod ynghylch natur seiberdroseddu a sut i fynd i'r afael ag ef. Mae yna hefyd ddryswch ynghylch y math hwn o droseddu ac, yn benodol, mae yna ddadl ynghylch faint o droseddu o'r math hwn sy'n digwydd, a pha mor ddifrifol ydyw. Mae seiberdroseddu'n wahanol i droseddu traddodiadol a gyflawnir mewn un lleoliad daearyddol. Oherwydd bod seiberdroseddau'n cael eu cyflawni ar-lein, nid ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig ag unrhyw leoliad daearyddol. Dadleuwyd bod angen ymateb byd-eang, cydgysylltiedig, i'r broblem.

### 3.6 Plismona Seiberdroseddu

Mae plismona seiberdroseddu bellach yn gyfrifoldeb yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA) ac mae gan yr Asiantaeth uned arbennig sy'n delio â seiberdroseddu. Er hynny, mae Jewkes (2003) yn dadlau bod maint y rhyngrwyd, yn ogystal â'r ymatebion cyfreithiol amrywiol i seiberdroseddu mewn gwahanol wledydd, yn peri problemau wrth geisio plismona'r math hwn o droseddu. Mae'r heddlu'n wynebu problemau'n ymwneud â maint y deunydd sydd ar y we; tanriportio gan ddioddefwyr; awdurdodaeth a diffyg adnoddau i fynd i'r afael â'r broblem (Jewkes, 2003).

### 3.7 Troseddeg Seiberdroseddu

Codwyd cwestiynau am yr hyn yr ydym yn ei ddeall wrth y term seiberdroseddu, gyda rhai'n dadlau nad yw'r gair ei hun yn gwneud llawer mwy na disgrifio ymddygiad niweidiol sy'n gysylltiedig â chyfrifiadur mewn rhyw ffordd. Yn benodol, dadleuir mai cysyniadau annelwig sydd gan nifer fawr o wledydd am sut i reoli a phlismona seiberdroseddu. Defnyddir troseddeg er mwyn adolygu'r hyn a olygir wrth y term seiberdroseddu a sut y gellir cymhwyso damcaniaethau troseddegol a seicolegol a'u i egluro'r cysyniad.

Mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol, damcaniaeth hunanreolaeth a damcaniaethau isddiwylliannol wedi derbyn llawer o sylw wrth ystyried seiberdroseddu. Mae diffyg gwerthoedd moesol, cysylltiad â chyfoedion gwyrdroëdig a niwtraleiddio hefyd wedi bod yn gyson yn gysylltiedig ag ystod eang o seiberdroseddu (Stalans, 2018). Gan gyfuno syniadau am ddysgu cymdeithasol a hunanreolaeth, darganfu Stalans fod effeithiau lefel isel o hunanreolaeth ar seiberdroseddu yn cael eu hybu drwy gysylltiad â chyfoedion gwyrdroëdig a chred nad yw'r ymddygiad yn foesol anghywir.

### 3.8 Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern

Mae masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yn gategorïau troseddu sy'n rhan o rwydweithiau troseddu trefnedig rhyngwladol. Gellir gosod y ffordd y mae Cymru a Lloegr wedi ymateb i'r troseddu hwn o fewn y cynnydd mewn ymwybyddiaeth fyd-eang o fasnachu pobl. Yn dilyn cadarnhad gan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (2005), defnyddir y diffiniad isod o fasnachu pobl:

Bydd 'masnachu pobl' yn golygu recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn pobl, trwy fygythiad neu ddefnydd grym neu fathau eraill o orfodaeth, cipio, twyll, cam-drin pŵer neu rywun mewn sefyllfa fregus, neu roi neu dderbyn taliadau neu fudd i sicrhau cydsyniad person sydd â rheolaeth dros berson arall, at ddibenion ecsbloetio. Bydd ecsbloetio yn cynnwys ecsbloetio puteindra neu fathau eraill o ecsbloetio rhywiol, llafur neu wasanaethau gorfodol, caethwasiaeth neu arferion tebyg i gaethwasiaeth, caethwasanaeth neu dynnu organau. (Ffynhonnell: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl, 2005)

Mae'r problemau a ddaw yn sgil globaleiddio, yn enwedig y galw am lafur rhad, yn gwneud pobl dlawd yn agored i'r fasnach ryngwladol mewn pobl. Gall cyfuniad o broblemau dyrys megis tlodi ac anghyfartaledd cymdeithasol, gwleidyddiaeth a rhyfel, gwladwriaethau gwan, patriarchaeth a

gormesu merched yn rhywiol, ac argyfyngau hinsawdd gynyddu lefelau ecsbloetio byd-eang. Yn ôl Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Lleihau Risg Trychinebau, mae sefyllfaoedd o argyfwng yn cynyddu cyfraddau risg masnachu plant. Gweler adroddiad y Cenhedloedd Unedig yma: https://www.unisdr.org/archive/25934.

Cydnabyddir mai'r brif ffurf ar ecsbloetio'n fyd-eang mewn 53 y cant o achosion yw ecsbloetio rhywiol. Gweler yr Adroddiad Byd-eang ar Fasnachu Pobl gan y Cenhedloedd Unedig (UNODC) yma: https://www.unodc.org/unodc/en/human-trafficking/global-report-on-trafficking-in-persons.html.

O wledydd tlawd i'r rhai cyfoethog y mae'r llif masnachu pobl, ond mae'r rhan fwyaf o'r achosion yn rhai trawsranbarthol, ag un ym mhob tri achos yn y fasnach ryngwladol yn weledol o fewn *gwlad*. Mae masnachu pobl yn effeithio ar 4.5 miliwn o bobl yn fyd-eang, yn ferched a genethod ifanc yn bennaf. Mae'r niwed sy'n digwydd yn dilyn ecsbloetio rhywiol yn sylweddol, â'r sgileffeithiau'n cynnwys anhwylder seicolegol, HIV, a difrod economaidd (£20 biliwn yn ôl y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, ILO).

Cyflwynwyd Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (*National Referral Mechanism, NRM*), a ddaeth i fodolaeth yn dilyn cadarnhad Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (2005). Mae'r NRM yn caniatáu i awdurdodau gyfeirio achosion er mwyn asesu a phenderfynu a oes digon o dystiolaeth i brofi dioddefaint. Er bod y system i fod i ddiogelu dioddefwyr, tybiai Balch a Geddes (2011) fod y mecanwaith yng Nghymru a Lloegr wedi ei ddatblygu yn ystod y cyfnod pan oedd Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig (*UK Border Agency, UKBA*) yn ceisio cael gwared ar fewnfudwyr anghyfreithlon. Tebyg yw barn Goodey (2008), sef bod troseddau mewnfudo a diogelwch ffiniau wedi dylanwadu ar ymatebion polisi, yn enwedig yn dilyn 9/11. Mae globaleiddio'n hwyluso symud pobl a nwyddau anghyfreithlon, ond mae ffiniau'n rhannu gwledydd a phobl. Mae sawl gwlad wedi buddsoddi'n wleidyddol mewn diogelu ffiniau drwy ymestyn technoleg a phlismona, ac yn defnyddio asiantaethau amrywiol i warchod ei ffiniau. Golyga hyn mai'r wladwriaeth sy'n rheoli mynediad i'r wlad. Mae llacio a thynhau ffiniau gwladwriaethol yr un pryd yn gyfuniad paradocsaidd o groesawu a gwrthod pobl, ac yn ychwanegu cymhlethdod at droseddau masnachu pobl a throseddau trefnedig. Yn ogystal ag Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig, mae sawl sefydliad arall hefyd yn weithredol er mwyn ceisio atal masnachu pobl a llafur gorfodol. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau megis Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur, Prevent Human Trafficking, Equality Now a'r NSPCC. Yng Nghymru penodwyd Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl yn 2011 gan Lywodraeth Cymru.

Maes o law cydnabuwyd bod gan sefydliadau anstatudol rôl bwysig yn y gwaith o ddarganfod a chyfeirio dioddefwyr at awdurdodau swyddogol gan eu bod yn deall sut mae dioddefwyr yn cyflwyno'u profiadau (Human Trafficking Foundation, 2016). Yng Nghymru, y pwynt cyswllt yw gwasanaethau plant, ac ar gyfer oedolion y cyswllt yw BAWSO, asiantaeth trydydd sector sy'n gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr caethwasiaeth fodern. Yn ei thro, mae Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (*Multi-agency Risk Assessment Conference, MARAC*) yn ystyried sut y gall fod o gymorth wrth ymchwilio i droseddau honedig o gaethwasiaeth.

### 3.9 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Gyda threigl amser disodlwyd y term masnachu pobl gan 'gaethwasiaeth fodern'. Yn dilyn adolygiad y Swyddfa Gartref o gaethwasiaeth fodern yn 2017, nodwyd 17 math gwahanol o gaethwasiaeth (Swyddfa Gartref, 2017). Roedd sawl adroddiad, gan gynnwys adroddiadau'r Grŵp Monitro Atal Masnachu Pobl (*Anti-trafficking Monitoring Group, ATMG*, 2013) a'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol (*The Centre for Social Justice, CSJ*, 2013), wedi canfod a thrafod problemau deddfwriaeth flaenorol a'r angen i ddatblygu agwedd amlasiantaethol yn ogystal â sefydlu Deddf Caethwasiaeth Fodern. Ar y pryd, yr oedd tystiolaeth yn dangos bod gweithredu yn erbyn troseddu trefnedig yn fwy effeithiol drwy weithio'n amlasiantaethol (Kirby a Nailer, 2013).

Mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth, llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig. Er i sgôp y termau o fewn y ddeddfwriaeth gael ei ehangu, mae canolbwynt y polisi a'r strategaethau'n parhau i wthio gweithwyr mewnfudol i'r cyrion a'u heithrio o strwythur cefnogol (HMICFRS, 2017).

### 3.10 Gweithgaredd

1. Darllenwch yr adroddiad 'Effeithiolrwydd hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal goroeswyr' (2016) gan Lywodraeth Cymru.

   https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/160808-anti-slavery-training-survivor-care-pathway-cy.pdf

   i) Pa mor llwyddiannus yw hyfforddiant ar atal caethwasiaeth a'r llwybr gofal a chefnogaeth i oroeswyr caethwasiaeth yng Nghymru?

   ii) Beth yw'r prif rwystrau a'r heriau ynglŷn â hyfforddiant a gofal?

### 3.11 Llinellau Cyffuriau

Er nad ystyrir troseddu llinellau cyffuriau (*County Lines*) o fewn categorïau troseddu trefnedig, mae'n bosib cyfiawnhau ei gynnwys gan fod natur y drosedd o ddosbarthu cyffuriau'n creu niwed difrifol i grwpiau bregus o'r gymdeithas. Mae'r math hwn o droseddu hefyd yn rhan o waith yr NCA ers sawl blwyddyn (NCA, 2015; 2016; 2017; 2018).

Term sy'n disgrifio gangiau a rhwydweithiau yw 'llinellau cyffuriau'; mae'r aelodau'n trosglwyddo cyffuriau Categori A i ardaloedd gwledig neu arfordirol gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol fel 'llinellau delio'. Gwneir hyn er mwyn ehangu'r elw o ddosbarthu cyffuriau (Robinson et al., 2018; Spicer, 2018) a datblygu marchnadoedd newydd tu hwnt i leoliadau dinesig arferol (Andel a Pitts, 2018). Ymddengys fod heroin a chocên yn hawdd i'w trosglwyddo a'u dosbarthu, gan sicrhau bod cwsmeriaid sy'n ddibynnol arnynt ar gael. Gellir felly sefydlu model busnes cadarn ac effeithiol (Spicer, 2018). Yn ôl yr amcangyfrifon, trefi bach glan môr yw dros hanner y cymunedau a dargedir

gan linellau cyffuriau. Gan ei fod yn agos at Lerpwl a Manceinion mae gogledd Cymru yn un ardal a dargedir. Ceir rhwydweithiau llinellau cyffuriau tebyg yn targedu de a chanolbarth Cymru drwy Amwythig (NCA, 2019).

Gwelwyd cynnydd mewn troseddu llinellau cyffuriau ym Mhrydain ers sawl blwyddyn. Dengys data'r Llywodraeth fod mwy o blant a phobl ifanc yn gysylltiedig â'r farchnad cyffuriau anghyfreithlon. Mae nifer y plant ifanc rhwng 10 ac 17 mlwydd oed sy'n cael eu herlyn am gynhyrchu a delio mewn cyffuriau dair gwaith yn uwch na nifer yr oedolion (Adran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017). Er y gellir ystyried rhai pobl ifanc yn ddefnyddwyr yn ogystal â delwyr (Moyle a Coomber, 2015), mae'r cynnydd mwyaf mewn gangiau a rhwydweithiau troseddu trefnedig (McLean, Densley a Deuchar, 2018; Robinson, McLean a Densley, 2018). Ymddengys ei bod yn anodd olrhain grwpiau o fewn rhwydweithiau llinellau cyffuriau oherwydd cyfleustra trafnidiaeth a'i bod yn hawdd cael pobl eraill i gymryd eu lle. Mae'r defnydd o rifau ffôn symudol heb eu cofrestru ac wedi eu hamgryptio hefyd yn ei gwneud hi'n anodd dilyn yr hierarchaeth droseddol (Y Swyddfa Gartref, 2018).

Ystyrir bod llinellau cyffuriau wedi eu trefnu'n dda, a'r strwythur gweithredu'n debyg i droseddu trefnedig. Mewn ymgais i ddadansoddi strwythur grwpiau llinellau cyffuriau, mae Coomber a Moyle (2017) yn egluro tair rôl graidd sy'n ymwneud â'r math hwn o droseddu. Ar ben uchaf yr hierarchaeth y mae'r rhai a ddisgrifir fel '*Top Boys*' (Coomber a Moyle, 2017). Mae'r unigolion hyn yn tueddu i reoli'r llinell ffôn yn y ddinas a ddefnyddir fel pencadlys. Perfformir yr ail rôl graidd gan y rhai a ddisgrifir fel 'gwarchodwyr' (*sitters*) (Coomber a Moyle, 2017). Mae'r unigolion hyn yn aelodau o'r sefydliad is sy'n preswylio yn y trefi arfordirol ac yn rheoli dosbarthu'r cyffuriau yn y gymuned. Y drydedd rôl allweddol yw'r 'rhedwyr' cyffuriau, ac mae'r rhain yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddelio mewn cyffuriau wyneb yn wyneb ar y stryd (Coomber a Moyle, 2017).

Yn ôl yr NCA, arweiniodd gweithredu gan yr heddlu at gannoedd o arestiadau yn ystod 2019, ac mae cydweithredu amlasiantaeth wedi lliniaru'r bygythiad i'r cyhoedd (NCA, 2019). Er hyn, cydnabyddir bod mwy i'w wneud drwy geisio llenwi bylchau ymchwil i gyllid a llif arian; rôl trais difrifol mewn llinellau cyffuriau, ac ecsbloetio plant sy'n agored i niwed (NCA, 2019). Yn 2018 dadleuodd y Comisiynydd Annibynnol ar Atal Caethwasiaeth fod defnyddio plant i drosglwyddo a gwerthu cyffuriau anghyfreithlon mewn llinellau cyffuriau yn ffurf ar gaethwasiaeth fodern (trafodwyd yn Pepin, 2018). Dengys hyn fod potensial i erlyn gangiau llinellau cyffuriau dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Er hyn, mae angen gofalu hefyd fod prosesau amddiffyn a gwarchod ar gael er mwyn lliniaru'r niwed i blant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n droseddol.

### 3.12 Gweithgaredd

1. Cloriannwch yn feirniadol ddulliau atal llinellau cyffuriau gan heddluoedd yng Nghymru. A yw'r rhain yn effeithiol?

2. Darllenwch yr adroddiad 'Counting lives: responding to children who are criminally exploited' (2019) gan The Children's Society ac yna atebwch y cwestiynau canlynol. Mae'r adroddiad ar gael o wefan https://www.childrenssociety.org.uk/.

   i) Beth yw ecsbloetio plant yn droseddol (CCE)?
   ii) Beth yw lefel ecsbloetio plant mewn rhwydweithiau llinellau cyffuriau yng Nghymru a Lloegr?
   iii) Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am batrwm oedran, rhywedd ac ethnigrwydd y plant sy'n cael eu hecsbloetio?
   iv) Aseswch sut mae'r proffesiynau'n ymateb i ecsbloetio plant yn droseddol.

### 3.13 Terfysgaeth

Mae diffinio terfysgaeth yn hynod ddadleuol ac yn anodd ei ddehongli. Crybwyllwyd dros gant o ddiffiniadau gan sawl astudiaeth (Laquer, 2007; Schmid a Jongman, 1988). Sail yr anghytuno am y term yw fod terfysgaeth yn label dirmygus a ddefnyddir yn erbyn grwpiau amrywiol ar gyfnodau gwahanol (Jenkins, 1975; Richardson, 2006; Smelser, 2007). Yn aml, mae 'terfysgaeth' yn label a gymhwysir gan grwpiau pwerus at grwpiau llai pwerus.

I bwrpas ymarferol, ceir diffiniad cyfreithiol yn Neddf Terfysgaeth 2000. Mae'r diffiniad cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys gweithredoedd fel trais neu fygythiad o drais yn erbyn pobl neu eiddo gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y llywodraeth, neu ddychryn y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd, neu i bwrpas gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol. Awgrymodd Wilkinson (2006) y gellir gwahaniaethu rhwng terfysgaeth a ffurfiau eraill o drais, a bod terfysgaeth yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- gweithred sy'n dangos bwriad a chynllun clir i greu awyrgylch o ofn eithafol;
- gweithred sydd wedi ei thargedu'n ehangach na dioddefwyr uniongyrchol;
- ymosodiadau ar siawns neu dargedau symbolaidd;
- bod y gymdeithas yn ei hystyried yn weithred eithafol, yn mynd yn erbyn normau protestio cyffredin ac anfodlonrwydd;
- ei bod yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar ymddygiad gwleidyddol y llywodraeth, cymunedau neu grwpiau cymdeithasol gwahanol.

### 3.14 Terfysgaeth Ddomestig

Gellir casglu bod terfysgaeth yn cynnwys ffurfiau a mathau gwahanol o weithgaredd terfysgol. Mae'r gwahaniaeth rhwng terfysgaeth ddomestig a therfysgaeth ryngwladol yn dod yn fwyfwy pwysig; mae terfysgaeth ddomestig yn digwydd tu mewn i ffiniau gwladwriaeth, ac nid yw'n cynnwys pobl o wledydd eraill. Ac, yn syml, mae terfysgaeth ryngwladol yn cynnwys pobl o wledydd gwahanol.

Hyd yn ddiweddar, roedd gweithgaredd gwrthderfysgol yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys y Trafferthion yng Ngogledd Iwerddon, lle lladdwyd dros 3,000 o bobl drwy drais gwleidyddol; roedd effaith y gwrthdaro hwn yn bellgyrhaeddol. Roedd y gweithgarwch terfysgol yn cynnwys ymosodiadau ar aelodau'r heddlu a'r fyddin, llofruddiaethau gwleidyddol a cheisio llofruddio eraill drwy fomio, yn ogystal â thrais a llofruddiaethau sectyddol (Newburn, 2012). Cafwyd enghreifftiau o fathau eraill o drais gwleidyddol ym Mhrydain hefyd – rhai'n ymwneud ag eithafwyr dros hawliau anifeiliaid a gweithgarwch grwpiau asgell dde eithafol megis Combat 18, sy'n gynnyrch Plaid Genedlaethol Prydain (BNP), sydd bellach wedi disodli Ffrynt Cenedlaethol Prydain (Newburn, 2012).

### 3.15 Terfysgaeth Ryngwladol Newydd

Honnir bod globaleiddio wedi dod â newid yn natur terfysgaeth. Mae datblygiadau technolegol yn golygu mai arfau peryglus a seiberderfysgaeth yw sail y bygythiadau bellach. Mae llawer o'r derfysgaeth ryngwladol newydd yn gysylltiedig â'r Dwyrain Canol a chysylltiadau ehangach, yn enwedig Affrica. Gyda'r ymosodiad ar 11 Medi 2001 yn Efrog Newydd a Washington DC, daeth newid llwyr, a chysylltir y digwyddiad hwn â therfysgaeth ryngwladol newydd. Roedd y bomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf 2005 yn drobwynt ac yn ddatblygiad newydd. Lladdwyd 52 o bobl ac anafwyd cynifer â 700. Defnyddiwyd bomwyr hunanladdol (*suicide bombers*) yn yr ymosodiad hwn – y tro cyntaf i'r dull hwn o derfysgaeth ryngwladol gael ei weld ar dir y Deyrnas Unedig.

Roedd y digwyddiadau hyn yn nodweddiadol o ymosodiadau al-Qaeda, a chydag ymosodiad 2005 roedd pryder fod Prydain yn meithrin cenhedlaeth o wŷr ifanc Mwslemaidd eithafol. Mae ymateb y Llywodraeth i derfysgaeth i'w ganfod yn ei strategaeth gwrthderfysgaeth a elwir yn 'Contest', a ddiweddarwyd yn 2018. Mae'n cynnwys y 4P (*Plan, Protect, Pursue, Prevent*) a drafodwyd yn gynharach yn y bennod wrth drafod troseddu trefnedig. Mabwysiadwyd y strategaeth yn wreiddiol er mwyn ymdrin â heriau a ddaeth yn sgil terfysgaeth, yn enwedig er mwyn gallu canfod y sawl sy'n cynllwynio neu'n cynllunio ymosodiadau terfysgol a'r sawl sy'n cefnogi eithafiaeth a radicaliaeth derfysgol.

Wrth gwrs, mae rhannau o ymateb y Llywodraeth yn dibynnu ar gudd-wybodaeth a chasglu gwybodaeth gyfrinachol am yr unigolion a archwilir. Ystyrir nifer o ymosodiadau terfysgol yn 2017 yn Llundain a Manceinion yn fathau newydd o ymosodiadau gan unigolion sydd wedi eu radicaleiddio. Cydnabyddir ei bod yn dasg anoddach i'w hatal gan fod cyfrwng yr ymosodiadau'n cynnwys elfennau bob dydd megis cyllyll a faniau. Yn ogystal, ystyrir y mathau newydd hyn o derfysgaeth yn ddatblygiad parhaus sy'n nodweddiadol o risg terfysgaeth Islamaidd (Adolygydd Annibynnol ar Ddeddfwriaeth Terfysgaeth, 2018).

### 3.16 Deddfwriaeth Wrthderfysgol

Ni cheir consensws rhyngwladol ar y diffiniad cyfreithiol o derfysgaeth. Yng Nghymru a Lloegr defnyddir diffiniad cyfreithiol sy'n deillio o Ddeddf Terfysgaeth 2000. Y ddeddf hon yw'r brif ddeddfwriaeth wrthderfysgol yng Nghymru a Lloegr. Mae enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys y canlynol:

**Deddf Gwrthderfysgaeth, Troseddu a Diogelwch 2001**

- Deddf Atal Terfysgaeth 2005
- Deddf Terfysgaeth 2006
- Deddf Gwrthderfysgaeth 2008
- Deddf Rhewi Asedau Terfysgwyr 2010
- Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2011
- Deddf Diogelu Rhyddid 2012
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Ffiniau 2019

Yn 2018, erlyniwyd 91 o unigolion am droseddau'n gysylltiedig â therfysgaeth (Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2019). Nid oes raid i berson gyflawni ymosodiad terfysgol i'w ganfod ei hun yn euog o derfysgaeth. Erbyn hyn a chydag ehangu deddfwriaeth gwrthderfysgaeth, mae cynllwynio, cynorthwyo a chasglu gwybodaeth ar sut i gyflawni gweithredoedd terfysgol yn droseddau o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth Cymru a Lloegr. Gyda Deddf Gwrthderfysgaeth, Troseddu a Diogelwch 2001, cynyddwyd y pŵer i gadw mewnfudwyr a ddrwgdybir o derfysgaeth (Matassa a Newburn, 2003). Yn ogystal gosodwyd cyfyngiadau symud ar bobl, rhwystro cyfathrebu, a 'gorchmynion rheoli' gan Ddeddf Atal Terfysgaeth 2005. Ystyriwyd bod rhai elfennau o'r ddeddfwriaeth yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth hawliau dynol yn enw 'agenda diogelwch', a bod y mesurau'n creu tensiwn rhwng hawliau unigolion a diddordebau'r wladwriaeth (Gearty, 2005). Dadleuodd Gearty y dylai Deddf Hawliau Dynol ehangu rhyddid sylfaenol, ond bod y cyfnod wedi golygu gosod rhwystrau ar ryddid nas gwelwyd o'r blaen.

Gyda Deddf Atal Terfysgaeth a Mesurau Archwilio 2011, diddymwyd gorchmynion rheoli a'u disodli gan system lai ymwthiol er mwyn diogelu rhyddid sifil y sawl a archwilir yn fwy effeithiol. Mae deddfwriaeth gyfoes, er enghraifft Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, yn amharu ar allu pobl i deithio dramor i gymryd rhan mewn gweithgaredd terfysgol ac yna dychwelyd, yn gwella gallu asiantaethau gweithredol i fonitro a rheoli gweithredoedd y rhai sy'n fygythiad, ac yn brwydro yn erbyn yr ideoleg sy'n cefnogi terfysgaeth. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Ffiniau 2019 yn diweddaru ac yn cau bylchau yn y ddeddfwriaeth wrthderfysgaeth bresennol i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr oes ddigidol ac yn adlewyrchu patrymau radicaliaeth gyfoes. Yn y fan hon pwysleisir bod angen sicrhau bod y gosb yn adlewyrchu'r droseddu, yn atal aildroseddu yn fwy effeithiol, ac yn sicrhau y gellir tarfu ar droseddu terfysgol yn gyflymach.

### 3.17 Gweithgaredd

1. Mae astudiaeth Innes, Roberts ac Innes, *Assessing the Effects of Prevent Policing* (2011), yn gwerthuso rhaglen Prevent Llywodraeth Cymru a Lloegr. Darllenwch yr adroddiad ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

   i) Beth yw natur ymyrraeth rhaglen Prevent?
   ii) Sut mae rhaglen Prevent yn cael ei gweithredu mewn dinasoedd yng Nghymru a Lloegr?
   iii) Pa fath o brofiadau sy'n deillio o weithredu'r strategaeth gwrth-radicaleiddio?
   iv) Beth yw cryfderau a gwendidau'r rhaglen?

2. Beth yw prif nodweddion terfysgaeth?

3. Pa fath o ddamcaniaeth troseddeg sy'n egluro terfysgaeth ryngwladol newydd?

## Deunydd darllen ychwanegol


Andell, P. (2019), 'Theory into practice: county lines, violence and changes to drug markets', *Youth & Policy*. Ar gael: https://www.youthandpolicy.org/articles/county-lines-violence-drug-markets

Andell, J. a Pitts, J. (2018), 'The end of the line? The impact of county lines drug distribution on youth crime in a target destination', *Youth & Policy*. Ar gael: http://www.youthandpolicy.org/articles/the-end-of -the-line/.

ATMG (2013), *In the dock: examining the UK's criminal justice response to trafficking*. London: Anti-Trafficking Monitoring Group.

Balch, A. a Geddes, A. (2011), 'Opportunity from crisis? Organisational responses to human trafficking in the UK', *The British Journal of Politics and International Relations*, 13(1), 26–41.

Caplan, B. (2006), 'Terrorism: the relevance of the rational choice model', *Public Choice*, 128, 91–107; DOI 10.1007/511127-006-9046-8.

Centre for Social Justice (2013), *It happens here: equipping the United Kingdom to fight modern slavery*. London: Centre for Social Justice.

Clarke, M. (1990), *Business Crime: its nature and control*. Cambridge: Polity.

Coomber, R. a Moyle, L. (2017), 'The changing shape of street-level heroin and crack supply in England: commuting, holidaying and cuckooing drug dealers across "county lines" ', *British Journal of Criminology*.

Criminal Prosecution Service (2019), https://www.cps.gov.uk/terrorism. [Cyrchwyd: 10 Mehefin 2020]

Croall, H. (2001), *Understanding White-collar Crime*. Buckinghamshire: Open University Press.

Cyngor Ewrop (2005), Treaty Series-No. 197 Council of Europe Convention on Action against Trafficking in Human Beings, https://rm.coe.int/168008371d.

Edwards, A. a Gill, P. (2003), *Transnational Organised Crime: perspectives on global security*. London: Routledge.

Francis, B. et al. (2013), *Criminal Careers in Organised Crime*. London: Home Office.

Gearty, C. (2005), '11 September 2001: counter-terrorism and the Human Rights Act', *Journal of Law and Society*, 32(1), 18–33.

Goodey, J. (2008), 'Human trafficking: sketchy data and policy responses', *Criminology and Criminal Justice*, 8(4), 21–442.

Halder, D. a Jaishankar, K. (2011), *Cybercrime and the Victimization of Women: laws, rights, and regulations.* Hershey, PA, USA: IGI Global.

Hillyard, P. et al. (2004), *Beyond Criminology: taking harm seriously*. London: Pluto.

HMICFRS (2017), 'Stolen freedom: the policing response to modern slavery and human trafficking', https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/stolen-freedom-the-policing-response-to-modern-slavery-and-human-trafficking.pdf
Hobbs, D. (1994), *Interpreting the Field*. Oxford: Oxford University Press.

Home Office (2011), 'Local to Global: reducing the risk of organised crime', https://www.homeoffice.gov.uk/publications/crime/organised-crime-strategy.

Home Office (2020), National Referral Mechanism Statistics UK. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/889969/national-referral-mechanism-statistics-uk-quarter-1-2020-january-to-march.pdf.

HM Government (2013), 'Serious and Organised Crime Strategy, CM8715'. London: The Stationery Office Limited. Gellir lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o'r wefan ganlynol: https://www.gov.uk/government/publications.

HM Government (2018), 'Serious and Organised Crime Strategy, CM9718'. London: The Stationery Office Limited. Gellir lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o'r wefan ganlynol: https://www.gov.uk/government/publications.

Innes, M., Roberts, C. ac Innes, H. (2011), *Assessing the Effects of Prevent Policing*. Universities' Police Science Institute, Cardiff University; London: The Association of Chief Police Officers.

Jenkins, B. (1975), 'International Terrorism: a new mode of conflict', yn: Carlton, D. a Schaerf, C. (goln), *International Terrorism and World Security*. London: Croom Helm.

Jewkes, Y. (2003), *Dot.cons: crime, deviance and identity on the internet*. Cullompton: Willan.
Kirby, S. a Penna, S. (2010), 'Policing mobile criminality: towards a situational crime prevention approach to organised crime', yn Bullock, K., Clarke, R. V. a Tilley, N. (goln), *Situational Prevention of Organised Crime*. Cullompton: Willan Publishing.

Kirby, S., Northey, H. a Snow, N. (2015), 'New Crimes – new tactics: the emergence and effectiveness of disruption in tackling serious organised crime', *The Journal of Political Criminology* (ISSN: 2059-95951) 1, 33–44.

Laqueur, W. (2007), *History of Terrorism*. London: Transaction Publishers.

Levi, M. (2012), 'Organised crime', yn: Maguire, M., Morgan, R. a Reiner, R. (goln), *Oxford Handbook of Criminology*, cyf. 5. Oxford: Oxford University Press.

Matassa, M. a Newburn, T. (2003), 'Policing and Terrorism', yn Newburn. T. (gol.), *Handbook of Policing*. Cullompton: Willan Publishing.

McLean, R., Densley, J. a Deuchar, R. (2018), 'Situating gangs within Scotland's illegal drugs market(s)', *Trends in Organized Crime*, 21, 147–71.

Michalowski, R. a Kramer, R. (2006), *State-corporate Crime: wrongdoing at the intersection of business and government*. New Brunswick, NJ: Rutgers University Press.
Moore, R. (2005), *Cybercrime: investigating high-technology computer crime*. Cleveland, Mississippi: Anderson Publishing.

Moyle, L. a Coomber, R. (2015), 'Earning a score: an exploration of the nature and roles of heroin and crack cocaine user-dealers', *The British Journal of Criminology*, 55, 535–55.
National Crime Agency (2015), 'NCA Intelligence Assessment: county lines, gangs, and safeguarding'. Ar gael i'w lawrlwytho: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/359-nca-intelligence-assessment-county-lines-gangs-and-safeguarding-2015/file

National Crime Agency (2016), 'County lines gang violence, expolitation & drug supply'. Ar gael i'w lawrlwytho: http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/publications/753-county-lines-gang-violence-exploitation-and-drug-supply-2016/file.

National Crime Agency (2016), 'Intelligence Assessment Pathways into Serious and Organised Crime'. National Intelligence Hub / Prevent Intelligence Analysis Team.

National Crime Agency (2017), 'County lines violence, expolitation & drug supply 2017'. Ar gael i'w lawrlwytho: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/234-county-lines-violen-ce-exploitation-drug-supply-2017/file.

National Crime Agency (2018), 'Crime threats: drugs'. Ar gael i'w lawrlwytho: http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/crime-threats/drugs.

National Crime Agency (2019), 'Intelligence Assessment: county lines drug supply, vulnerability and harm 2018', NAC (19) 095, Ionawr 2019.

National Crime Agency (2020), 'National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime'. Ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan: https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/.

Newburn, T. (2009), *Key Readings in Criminology*. Cullompton: Willan.

Newburn, T. (2012), *Criminology*, cyf. 2. London: Routledge.

Office for National Statistics (2019), 'The Nature of Violent Crime in England and Wales'. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/thenatureofviolentcrimeinenglandandwales/yearendingmarch2018/previous/v1.

Pearce, F. (1976), *Crimes of the Powerful*. London: Pluto.

Pepin, S. (2018), 'County lines exploitation in London (Commons Debate Packs CDP-2018-0009)'. Ar gael: https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/CDP-2018-0009.

Punch, M. (1996), *Dirty Business: exploring corporate misconduct*. London: Sage.

Report of the Independent Reviewer of Terrorism Legislation (2018), 'The Terrorism Acts in 2018, Report of the Independent Reviewer of Terrorism Legislation on the Operation of the Terrorism Acts 2000 and 2006, Jonathan Hall QC. Presented to Parliament pursuant to section 36(5) of the Terrorism Act 2006; March 2020'. London: ISBN 978-1-5286-1807-6. https://terrorismlegislationreviewer.independent.gov.uk/.

Richardson, L. (2006), *What Terrorists Want: understanding the terrorist threat*. London: John Murray.

Robinson, G., McLean, R. a Densley, J. (2018), 'Working County Lines: child criminal expoitation and illicit drug dealing in Glasgow and Merseyside', *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, https://doi.org/10.1177/0306624X18806742.

Quinney, R. (1977), *Class, State and Crime*. New York: Longman.

Schmid, A. a Jongman, A. (1988), *Political Terrorism: a research guide to concepts, theories, data bases and literature*. Amsterdam: North-Holland.

Sergi, A. (2015), 'Perspectives on organised crime between policy and research', *Papers from the British Criminology Conference*, Rhif 15.

Smelser, N. (2007), *The Faces of Terrorism: social and psychological dimensions.* Princeton University Press: Princeton.

Spicer, J. (2018), ' "That's their brand, their business": how police officers are interpreting county lines', *Policing and Society: An International Journal of Research and Policy*, 29(8), 873–86. https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/10439463.2018.1445742.

Stalans, L. (2018), 'Explaining why cybercrime occurs: criminological and psychological theories', *Cyber Criminology*, 25–45.

Sutherland, E. (1983), *White Collar Crime: the uncut version*. New Haven, CT: Yale University Press.
Thomas, D. a Loader, B. (goln), *Cybercrime: law enforcement, security and surveillance in the Information Age*. London: Routledge.

Tombs, S. a Whyte, D. (2007), *Safety Crimes*. Cullompton: Willan.

Von Lampe, K. (2016), *Organized Crime*. Thousand Oaks, CA: Sage.

United Nations Office on Drugs and Crime (2010), *The Globalization of Crime: a transnational organized crime threat assessment*. Vienna: UNODC.

# 4

# Dioddefwyr a Dioddefoleg



# 4

# Dioddefwyr a Dioddefoleg

O fewn troseddeg mae'r term dioddefwyr yn disgrifio unrhyw berson sydd wedi profi niwed, colled, neu galedi oherwydd gweithred droseddol anghyfreithlon gan unigolyn, grŵp neu sefydliad (Karmen, 2016). Mae'n bwysig cydnabod gwreiddiau'r maes a sut mae gwyddor dioddefoleg (*Victimology*) wedi datblygu. Dyfeisiwyd gwyddor dioddefoleg yn 1949 gan Fredric Wertham i ddisgrifio'r astudiaeth o unigolion a niweidiwyd gan droseddu.

### 4.1 Y Cysyniad o'r Dioddefwr

Mae'r cysyniad o ddioddefwr troseddu yn gysylltiedig â'r syniad bod troseddu'n rhywbeth sydd wedi ei lunio'n gymdeithasol, ac felly fod angen ystyried cyd-destun ac amgylchiadau'r troseddu. Yn aml, bydd dioddefwyr yn teimlo'n euog neu'n teimlo'u bod yn gyfrifol am eu sefyllfa. Adlewyrcha hyn y gwahaniaeth rhwng dioddefwyr 'anhaeddiannol', sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n haeddu cydymdeimlad, a dioddefwyr 'haeddiannol' sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n denu troseddu. Mae geiriau fel 'dioddefwyr diniwed' yn aml yn creu'r ddelwedd o bobl fregus ar sail oedran (Walklate, 1990). Ar y llaw arall, mae dioddefwyr, yn enwedig merched, weithiau'n cael eu gweld fel petaent yn denu ymosodiadau treisgar drwy wisgo'n bryfoclyd neu ymddwyn yn bryfoclyd. Mae'r delweddau a'r gwahaniaethau hyn wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn y meddylfryd cyfoes ac adlewyrchir y rhain yn y gyfraith ac mewn polisïau.

Mewn achosion llys, mae hygrededd dioddefwyr yn aml yn cael ei gwestiynu wrth i'r troseddwr/diffynnydd geisio cyfiawnhau ei weithredoedd treisiol. Mae dioddefwyr yn aml yn cael eu beio am y drosedd, e.e. gadael ffenestr car yn agored neu eu rhoi eu hunain yn agored i risg. Mae'r cysyniad hefyd ynghlwm â syniadau o bobl oddefol a bregus, ac yn adlewyrchu eu diffyg pŵer. Disgwylir i systemau amddiffyn a diogelu'r rhai sy'n fregus oherwydd eu hoedran, sef yr henoed a phlant, tra disgwylir i ferched a dynion ymladd a brwydo i'w diogelu eu hunain, yn enwedig yn erbyn trais rhywiol a grym corfforol sy'n digwydd yn sgil ymosodiad. Gofynnir yn aml pam bod dioddefwyr trais domestig yn aros gyda'u partner treisgar. Fel y dangosir yn y bennod ar ddamcaniaethau ffeministaidd, credai radicalwyr y dylid defnyddio'r term 'goroeswyr' yn hytrach na 'dioddefwyr' gan ei fod yn delweddu'r broses fod modd ymdopi ac ailafael mewn bywyd wedi digwyddiad troseddol.

## 4.2 Datblygiad Astudiaethau Dioddefwyr

Mewn llenyddiaeth gychwynnol ar ddioddefoleg, roedd tuedd i feio'r dioddefwr yn thema gyson a chyffredin iawn yn natblygiad yr wyddor. Bwriad yr wyddor oedd darganfod beth oedd yn nodweddu cefndiroedd dioddefwyr ac yn gyffredin yn eu plith. Gwnaed ymdrech i ymdrin ag achosion troseddu a sut roedd dioddefwyr wedi bod yn gyfrifol, efallai, am y drosedd, drwy hybu troseddu yn eu herbyn. Trafodir rhai o nodweddion dioddefwyr a beth oedd yn eu gwneud yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr (Walklate, 1989; Davies et al., 2007). Ystyrir bod rhai pobl yn ddioddefwyr oherwydd bod eu ffordd o fyw yn eu gwneud yn agored i risg. Nodwyd tair agwedd berthnasol i ddamcaniaethau cynnar ar ddioddefoleg a thrafodir y rhain isod.

## 4.3 Deall nodweddion dioddefwyr

Mewn astudiaethau cynnar ar ddioddefoleg, ceisiwyd darganfod strategaethau i atal troseddu. Astudiodd Von Hentig (1948) gymhellion troseddu a cheisio gweld beth oedd yn gwneud pobl yn ddioddefwyr. Edrychodd ar nodweddion dioddefwyr a sut roedd hyn yn siapio'r troseddu yn eu herbyn. Dadleuodd fod rhai grwpiau cymdeithasol yn fwy tueddol o fod yn ddioddefwyr, er enghraifft merched, pobl ifanc, yr henoed, pobl ag anableddau meddyliol a chorfforol, ynghyd â cheiswyr lloches. Beirniadodd Walklate (1989) y gwaith gan nodi nad oedd ymchwiliad Von Hentig yn ganlyniad canfyddiadau empirig, ond yn ddamcaniaethol yn unig.

## 4.4 Y syniad o ddenu trosedd

Ceisiai astudiaethau cynnar ar ddioddefoleg sefydlu a oedd dioddefwyr wedi denu'r drosedd neu'r weithred yn eu herbyn, yn enwedig dioddefwyr trais. Nododd Wolfgang (1958) fod o leiaf 28 y cant o ddioddefwyr llofruddiaeth wedi gadael eu hunain yn agored i risg. Tebyg yw casgliad astudiaeth Amir (1971), a amcangyfrifodd fod 19 y cant o ddioddefwyr trais rhywiol wedi denu'r weithred. Yn y fan hon mae Amir yn egluro bod merched wedi cydsynio i gyfathrach rywiol ond wedyn yn difaru gwneud hynny, neu ddim wedi gwrthsefyll yn ddigonol. Beirniadwyd Amir yn hallt, yn enwedig yn y ffordd y portreadwyd merched fel petaent yn denu trosedd ar sail eu hedrychiad, eu gwisg a'u hymddygiad. Roedd gwaith y damcaniaethwyr hyn yn beio'r dioddefwyr, ac mae'r astudiaethau'n ddibynnol ar adroddiadau ffurfiol o safbwynt archwilwyr troseddau, sydd ddim bob amser yn gwbl gywir ac yn aml yn llawn tuedd (Walklate, 1989; Zedner, 1997).

## 4.5 Ffordd o fyw dioddefwyr

Yma, mae'r astudiaethau cynnar ar ddioddefoleg wedi edrych ar ffordd dioddefwyr o fyw a sut mae hyn yn cynyddu eu risg o brofi trosedd. Yn syml, dadleuir bod rhai sy'n cymdeithasu'n llai aml yn llai tebygol o fod yn ddioddefwyr ar y stryd, tra mae eraill yn byw, yn gweithio ac yn cymdeithasu mewn ardaloedd lle mae troseddu yn fwy tebygol o ddigwydd. Yn ôl Hindelang ac eraill (1978), gall unrhyw weithred ddyddiol wneud pobl yn agored i risg uchel o fod yn ddioddefwyr. Mae rolau cymdeithasol a nodweddion strwythurol fel dosbarth cymdeithasol, oedran a rhywedd yn bwysig gan eu bod yn effeithio ar ffordd pobl o fyw, a bydd troseddu yn fwy tebygol pan fydd unigolion mewn mannau cyhoeddus. Rhaid i'r dioddefwr a'r troseddwr fod yn yr un lleoliad ar yr un pryd i'r troseddu ddigwydd. Mae hyn yn egluro'r rhannol paham y mae troseddwyr a dioddefwyr yn aml o'r

un oedran, o’r un ardal benodol, neu o’r un dosbarth cymdeithasol. Yn aml, dynion ifanc 16–24 sy’n yfed ac yn cymdeithasu’n gyhoeddus sy’n fwyaf tebygol o ddioddef yn sgil trosedd.

### 4.6 Gwell Ymwybyddiaeth

Mae awduron megis Mawby a Walklate (1994) wedi galw am well ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o sefyllfa dioddefwyr. Mae’r astudiaeth yn cwestiynu’r sylw cyfoes a roddir i ddioddefwyr yn bennaf, oherwydd dylid gofyn pwy sydd wedi elwa fwyaf o hyn: ai’r dioddefwr ynteu’r llywodraeth? Cred yr awduron yn gryf y dylid gosod ymchwil ar ddioddefwyr yn ei gyd-destun, gan fod y cysyniad o ddioddefwyr, fel troseddu, yn gysylltiedig â materion ehangach o bŵer ac awdurdod.

### 4.7 Dioddefwyr yn Fwy Gweladwy?

Erbyn heddiw, mae ystyried y dioddefwyr yn allweddol mewn ymchwil a pholisi cyfiawnder troseddol. Mudiadau gwirfoddol a ddeilliodd o ffynonellau gwahanol sy’n gyfrifol am hyn, yn hytrach nag ymgyrchu, damcaniaethau a pholisi’r llywodraeth (Zedner, 1997). Ceir nifer o gynlluniau i ddigolledu dioddefwyr ac unedau arbenigol i ddelio â niwed emosiynol a chorfforol sy’n deillio o droseddau rhyw. Cyflwynwyd Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol yn 1964. Mae’r cynllun yn cynnwys proses o ddewis a dethol ac yn adlewyrchu’r gwahaniaeth rhwng dioddefwyr anhaeddiannol a haeddiannol. Deilliodd y mesur o ddiwygiadau’n ymwneud â chosbi yn hytrach nag ymgyrchu ar ran dioddefwyr (Rock, 2010). Sefydlwyd rhwydwaith o gefnogaeth wirfoddol i ddioddefwyr dan ambarél Cymorth i Ddioddefwyr, sy’n cynnig cymorth a chefnogaeth emosiynol i ddioddefwyr.

### 4.8 Cod Dioddefwyr

Daeth Cod Dioddefwyr i rym yn 2006 fel rhan o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004. Roedd yn adeiladu ar y gefnogaeth i ddioddefwyr yn y Siarter Dioddefwyr a gyflwynwyd yn 1990, a nododd am y tro cyntaf isafswm y gefnogaeth ddisgwyliedig gan y system gyfiawnder. Diweddarwyd y Cod yn 2013, 2015 ac eto yn 2018. Gwnaed hyn er mwyn ceisio annog mwy o ddioddefwyr i leisio’u pryderon er mwyn eu hamddiffyn a’u cefnogi, p’un a ydynt yn riportio trosedd ai peidio.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gan Lywodraeth Prydain, San Steffan, yn 2020 ar fesur effeithiolrwydd Cod Dioddefwyr er mwyn ei wneud yn fwy eglur a’i symleiddio. Ymddengys bod dioddefwyr a grwpiau gwirfoddol yn credu bod y cod yn rhy gymhleth ac yn anghyson oherwydd bod y ddarpariaeth yn anwastad drwy wledydd Prydain. Er enghraifft, dim ond 15 y cant o ddioddefwyr a ddywedodd eu bod wedi cael cyfle gan yr heddlu i wneud datganiad personol dioddefwr (VPS), er ei fod yn un o hawliau allweddol y Cod. Yn ogystal, roedd cynifer â 69 y cant o ddioddefwyr yn dewis peidio riportio’u profiadau ac felly efallai nad ydynt yn ymwybodol o’u hawliau o dan y Cod Dioddefwyr (Adran Gweinyddiaeth Cyfiawnder, 2020).

### 4.9 Gweithgaredd

1. Beth yw'r prif elfennau'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr a sut mae'r rhain yn gwahaniaethu yn ôl trosedd a mathau o niwed cymdeithasol?

2. Darllenwch yr adroddiad 'Sowing the Seeds: children's experience of domestic abuse and criminality', gan Woodlock, E. a Molina, J. (2020) ar ran Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr. Ar gael: https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/.

3. Lluniwch ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

   i) Beth yw effeithiau camdriniaeth ddomestig ar blant a phobl ifanc?
   ii) Pa strategaethau sy'n effeithiol wrth gefnogi plant sy'n profi camdriniaeth ddomestig?
   iii) Oes yna gyswllt rhwng profiad plant o gamdriniaeth ddomestig ac ymddygiad troseddol gan blant?
   iv) Pa risgiau o fewn y cyd-destun hwn sy'n dylanwadu ar droseddu gan blant mewn llinellau cyffuriau a thrais difrifol gan ieuenctid?

4. Darllenwch yr adroddiad 'Victims statistics, year ending March 2019: victims services, restorative justice, and information, advice & support', Victims' Commissioner for England and Wales. Ar gael: https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/.

Lluniwch ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

   i) Beth yw profiad dioddefwyr o wasanaethau dioddefwyr?
   ii) Beth yw profiad dioddefwyr o gyfiawnder adferol?
   iii) Beth yw barn dioddefwyr am yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd?

## Deunydd darllen ychwanegol


Amir, M. (1971), *Patterns in Forcible Rape*. Chicago, IL: University of Chicago Press.

Davies, P., Francis, P. a Greer, C. (2007) (goln), *Victims, Crime and Society*. London: Sage.

Davies, P., Francis, P. a Greer, C. (2017), 'Victims, crime and society: an introduction', yn: Davies, P.,

Francis, P. a Greer, C. (goln), *Victims, Crime and Society*, cyf. 2. London: Sage.

Hindelang, M. J., Gottfredson, M. R. a Garofalo, J. (1978), *Victims of Personal Crime: an empirical foundation for a theory of personal victimisation*. Cambridge, Mass: Ballinger.

Karmen, A. (2016), *Crime Victims: an introduction to victimology*, cyf. 9. Andover: Cengage Learning.
Mawby, R. a Walklate, S. (1994), *Critical Victimology: international perspectives*. Thousand Oaks, CA: Sage.

Rock, P. (2010), 'Approaches to victims and victimisation', yn: McLaughlin, E. a Newburn, T. (goln), *The Sage Handbook of Criminological Theory*. London: Sage.

Spalek, B. (2006), *Crime Victims: theory, policy and practice*. London: Palgrave.
Von Hentig, H. (1941), *The Criminal and his Victim: studies in the socio-biology of crime*. New York, NY: Schocken Books.

Walklate, S. (1989), *Victimology*. London: Unwin Hyman.

Walklate, S. (1990), 'Researching Victims of Crime – Critical Victimology', *Social Justice*, 17(2), 25–42.

Walklate, S. (2007*)*, *Imagining the Victim of Crime*. Buckingham: Open University Press.

Zedner, L. (1997), 'Victims', yn: Maguire, M., Morgan, R. a Reiner, R. (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, cyf. 3. Oxford: Clarendon Press.

# 5

# Gwreiddiau Troseddeg

# 5

# Gwreiddiau Troseddeg

Cyn dechrau'r oes fodern gynnar yn 1400, roedd troseddu ac ymddygiad troseddol yn Ewrop yn cael eu hesbonio drwy grefydd a syniadau ysbrydol (Vold, Bernard a Snipes, 1998). Dadleuodd y diwinydd Thomas Aquinas (1265) fod Duw wedi rhoi Cyfraith Naturiol, a bod ymddygiad naturiol pobl yn dueddol o fod yn dda yn hytrach na drwg. Yn ei farn ef, roedd unigolyn oedd yn torri cyfraith trosedd yn bechadur yn ogystal â throseddwr.

Oherwydd bod trosedd yn gysylltiedig â phechod, roedd gan y wladwriaeth yr awdurdod moesol i ddefnyddio cosbau erchyll, megis artaith a'r gosb eithaf. Roedd y systemau hefyd yn cael eu rheoli gan ŵyr bonedd, pobl â grym a statws cymdeithasol. Nid oedd carcharu yn ddull arferol na phoblogaidd o gosbi; yn hytrach, roedd pobl yn cael eu cadw yn y carchar am gyfnod byr neu tan eu hachos llys. Felly, cyn yr oes fodern roedd cyfiawnder troseddol yn anhrefnus, yn afresymol, yn afreolaidd ac yn dibynnu ar farn unigolion. Yn syml, ychydig o hawliau oedd gan y mwyafrif o ddinasyddion. Roedd nifer o agweddau'r system cyfiawnder troseddol yn ddibynnol ar amgylchiadau'r unigolyn, a'r ffordd yr oeddent yn cael eu cosbi'n amrywio'n fawr.

### 5.1 Datblygu'r Gymdeithas Fodern

Datblygodd y cysyniad o gymdeithas fel modd o ddisgrifio'r dulliau newydd o feddwl a gweithredu oedd yn dod yn amlwg wrth i'r gymdeithas ganoloesol ddirywio. Heriwyd awdurdod y gwŷr bonedd, yn bennaf oherwydd eu bod yn hawlio goruchafiaeth naturiol ac ar sail eu harferion gwleidyddol niweidiol. Cafwyd newidiadau cymdeithasol arwyddocaol, er enghraifft, chwyldro diwydiannol 1760, â symudiad o'r gymdeithas ffiwdal i gymdeithas ddiwydiannol. Yn ddiwylliannol, felly, bu ymgais i herio'r traddodiadol, a rhoi pwyslais yn hytrach ar resymoledd. Yn ogystal â hyn, bu twf mewn gwybodaeth wyddonol a thechnolegol. Dyma ddechrau cyfnod yr Ymoleuo, sef mudiad deallusol ac athronyddol oedd yn rheoli syniadau yn Ewrop yn ystod y ddeunawfed ganrif.

### 5.2 Yr Ymoleuo

Bu i'r Ymoleuo (*Enlightenment*) ysbrydoli nifer o lyfrau, traethodau, dyfeisiadau, darganfyddiadau gwyddonol, yn ogystal â deddfau, rhyfeloedd a chwyldroadau. Dechreuodd meddylwyr yr Ymoleuo ym Mhrydain, yn Ffrainc ac yng ngweddill Ewrop gwestiynu'r drefn draddodiadol a chrefyddol gan roi pwyslais ar geisio newid ymddygiad pobl drwy ddatblygiadau rhesymegol. Yr un pryd, datblygodd y traddodiad o geisio esbonio troseddu ac ymddygiad troseddol a welid yn y gymdeithas fodern drwy ddefnyddio cysyniad yr unigolyn rhesymegol. Yn ystod yr Ymoleuo,

wrth i'r athronwyr hyrwyddo'r cysyniad o resymeg ledled Lloegr, dechreuwyd derbyn y cysyniad o optimistiaeth gymdeithasol. Sail optimistiaeth gymdeithasol yw fod pobl, yn y bôn, yn dda, a bu hyn yn sbardun i'r cysyniad o gariad at gyd-ddyn. Dechreuodd athronwyr ac ymgyrchwyr ddatgan nad yw pobl mewn gwirionedd yn bechadurus, ond bod yr amgylchedd yn gallu dylanwadu ar unigolion. Roeddent o'r farn mai pwysau'r gymdeithas sy'n arwain at droseddu, ac nid tynged.

## 5.3 Yr Ysgol Glasurol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n trafod gwreiddiau troseddeg yn dechrau â'r hyn y cyfeirir ato'n gyffredinol bellach fel yr ysgol glasurol neu droseddeg glasurol. Daeth i'r amlwg i raddau helaeth mewn ymateb i'r cosbau amrywiol a chreulon a oedd yn parhau i fod yn gyffredin yn y ddeunawfed ganrif. Yn ychwanegol at y dadleuon athronyddol, roedd galw am fwy o reolau cyfreithiol sylfaenol oedd yn deillio o natur y gymdeithas ddiwydiannol ei hun. Roedd angen amddiffyn eiddo, cynnal systemau cynhyrchu, disgyblu gweithwyr a threfnu trefi.

Mae'r meddylfryd clasurol yn honni bod troseddwyr yn gwneud dewis rhesymegol, ac yn dewis gwneud gweithredoedd troseddol ar sail y pleser mwyaf a'r poen lleiaf (iwtilitariaeth). Awgrymir bod unigolyn sy'n torri'r gyfraith yn gwneud hynny ag ewyllys rydd resymegol, gan ddeall effeithiau ei weithredoedd. Mewn ymateb i weithred troseddwr, mae damcaniaeth glasurol trosedd yn rhagdybio y dylai cymdeithas orfodi cosb sy'n cyd-fynd â'r drosedd a gyflawnwyd. Dau ysgrifennwr allweddol o'r cyfnod hwn oedd Jeremy Bentham a Cesare Beccaria.

## 5.4 Cesare Beccaria (1738–94)

Yr Eidalwr, Cesare Beccaria oedd yn gyfrifol am sefydlu'r mudiad clasurol; ei fwriad oedd ceisio creu system fwy rhesymegol wrth ystyried cosbi a rheoli. Roedd yn fathemategydd ac yn economegydd, ac ysgrifennodd ei waith enwocaf, *Dei delitti e delle pene*, sef *On Crimes and Punishments*, yn 1764. Un o gyfraniadau mwyaf Beccaria i'r meddylfryd troseddegol oedd y cysyniad y dylai cosb fod yn gymesur â difrifoldeb y drosedd. Cyn y datblygiad hwn, gallai troseddwr a oedd yn dwyn torth o fara gael yr un gosb â throseddwr a oedd wedi llofruddio rhywun. Yn ogystal, dadleuodd Beccaria y dylai'r gyfraith gyfyngu cyn lleied â phosib ar hawliau'r unigolyn, ond gan sicrhau hawliau'r cyhuddedig ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

Roedd yn chwyldroadol yn ei honiad na ddylai cosb fod yn seiliedig ar ragfarn a bod cosbi'n ormodol yn aneffeithiol yn yr ystyr ei fod nid yn unig yn methu atal troseddu, ond hefyd yn debygol o'i gynyddu.

## 5.5 Jeremy Bentham (1748–1832)

Athronydd o Loegr oedd Bentham ac roedd ganddo syniadau gwleidyddol radical. Bydd bob amser yn cael ei gysylltu ag athrawiaeth iwtilitariaeth ac egwyddor yr 'hapusrwydd mwyaf ar gyfer y nifer mwyaf'. Roedd yn eiriolwr dros ddiwygio'r gyfraith, yn feirniadol o athrawiaethau gwleidyddol sefydledig fel cyfraith naturiol a chyfamodolaeth (*contractarianism*), a'r cyntaf i lunio cyfiawnhad iwtilitaraidd dros ddemocratiaeth. Cafodd ei ddylanwadu gan lawer o feddylwyr yr Ymoleuo, yn enwedig John Locke a David Hume.

Datblygodd Bentham ddamcaniaeth foesegol wedi'i seilio ar syniadau empirig o'r natur ddynol. Dadleuodd mai'r hyn sy'n ein hysgogi yn y pen draw yw pleser a phoen. Felly, mae hapusrwydd, yn ôl Bentham, yn fater o brofi pleser a diffyg poen. Roedd Bentham yn ystyried bod cosbau eu hunain yn negyddol yn y bôn ac felly bod yn rhaid eu cyfyngu cymaint â phosib. Dylent hefyd gael eu gweithredu ar raddfa fyddai'n gymesur â'r drosedd ond hefyd yn ddealladwy i'r troseddwr. Credai'n gryf yn effeithiolrwydd y carchar a chynlluniodd yr hyn sy'n cael ei alw'n garchar panoptigon. Prif gysyniad y panoptigon yw ei fod yn caniatáu i un gwarchodwr arsylwi ar bob carcharor mewn sefydliad, heb i'r carcharorion allu dweud a ydyn nhw'n cael eu gwylio ai peidio. Dadl Bentham oedd y byddai'r carcharorion bob amser yn ymddwyn yn briodol gan na fyddent fyth yn gwybod oedden nhw'n cael eu gwylio ai peidio.

### 5.6 Effaith y Meddylfryd Clasurol

Mae'r meddylfryd clasurol wedi cael effaith sylweddol ar ddamcaniaeth troseddeg, a gellir dadlau ei fod wedi cael mwy o effaith hyd yn oed ar arferion cyfiawnder troseddol. Dylanwadodd ar ddamcaniaeth y gyfraith ar draws Ewrop ac America, â syniadau megis y gosb yn gymesur â'r drosedd yn sylfaen i system fodern 'cyfiawnder troseddol'. Cafwyd lleihad yn y defnydd o'r gosb eithaf, yn ogystal â'r defnydd o artaith a chosb gorfforol. Yn ail ran y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd sefydlu a thwf carchardai fel rhan elfennol o systemau cosbi modern.

Ym meddylfryd troseddeg, gwelir syniadau clasurol yn y damcaniaethau hynny sy'n ystyried troseddwyr fel unigolion rhesymegol. Felly, mae elfennau o'r meddylfryd hwn yn ganolog i syniadau megis ataliaeth (*deterrence*), sy'n parhau i ddylanwadu ar ein system gosbi.

### 5.7 Gwerthuso

Un o'r beirniadaethau mwyaf o'r meddylfryd clasurol mewn troseddeg yw ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar broblemau'n ymwneud â thegwch. Drwy bwysleisio y dylid trin pob unigolyn yn rhesymegol, mae'n anwybyddu problemau'n ymwneud â'r ffaith nad yw rhai grwpiau ac unigolion o fewn ein cymdeithas yn gallu gwneud penderfyniadau rhesymegol. Er enghraifft, nid yw'n ystyried unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, ac mae'n anwybyddu problemau'n ymwneud ag aeddfedrwydd, drwy awgrymu y dylid trin plant yn union fel oedolion. Yn ail, mae'n anwybyddu'r ffaith fod pŵer yn chwarae rhan hanfodol wrth ystyried trosedd a chosb. Os yw pob unigolyn yn debygol o ymddwyn yn rhesymegol, pam mae'r rhan fwyaf o droseddau'n cael eu cyflawni gan y dosbarthiadau cymdeithasol isaf o fewn y gymdeithas?

### 5.8 Y Cyfaddawd Neoglasurol

Addasodd Neoglasurwyr megis Rossi (1787–1848) a Joly (1839–1925) rai o'r syniadau clasurol drwy ddiwygio athrawiaeth yr ewyllys rydd. O fewn yr addasiad hwn, dadleuwyd bod y rhan fwyaf o oedolion yn parhau i fod yn gwbl gyfrifol am eu gweithredoedd ac yn dewis ymddwyn yn droseddol neu beidio. Er hynny, cafwyd cydnabyddiaeth nad yw plant ac, mewn rhai achosion, yr henoed, yn gallu ymarfer dewis rhesymegol, ac felly eu bod yn cael eu hystyried yn llai cyfrifol am eu gweithredoedd. Dechreuwyd cydnabod y gall amryw o ffactorau effeithio ar ymddygiad dynol mewn gwirionedd.

### 5.9 Rheoli Ac Atal Troseddu

Yn sgil hynny, datblygwyd y damcaniaethau a amlinellir isod. Mae dewis rhesymegol yn parhau i fod yn greiddiol i'r damcaniaethau hyn, er bod rhai diwygiadau sylweddol. Er enghraifft, ystyrir nad yw'r gallu gan bawb i wneud dewisiadau rhesymegol o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl neu gyfyngiadau oedran. Ym mhob damcaniaeth glasurol/neoglasurol gelwir yr unigolyn i gyfrif am ei ymddygiad. Yr unigolyn sydd wedi dewis gweithredu, felly'r unigolyn sy'n gyfrifol. Yn bwysicaf oll, nid yw'r dull clasurol/neoglasurol cadarn yn ystyried unrhyw esboniadau eraill; nid oes dim yn ymyrryd â'r galw i gyfrif.

### 5.10 Damcaniaeth Dewis Rhesymegol

Mae'r ddamcaniaeth dewis rhesymegol (*rational choice theory*) yn honni bod unigolion yn gwneud dewisiadau rhesymegol yn seiliedig ar benderfyniadau sy'n cyd-fynd â'u nod personol neu'r hyn sydd o fwyaf o fudd iddynt. Neu, o'i roi mewn ffordd syml, mae'r unigolyn yn pwyso a mesur effaith ei ddewisiadau cyn gweithredu arnynt. Awgrymwyd y dull hwn gan Cornish a Clarke (1986) i gynorthwyo wrth feddwl am atal troseddu sefyllfaol. Y disgwyl yw y bydd y penderfyniadau rhesymegol hyn yn arwain at y budd mwyaf i'r unigolyn.

### 5.11 Gweithgaredd

Edrychwch ar yr erthygl isod yn *Golwg360*. Sut y byddai cefnogwyr y ddamcaniaeth dewis rhesymegol yn esbonio'r drosedd isod? Ystyriwch y sefyllfa petai Oli McBurnie wedi achosi anaf difrifol i aelod o'r cyhoedd. Beth yw anfanteision y ddamcaniaeth hon?

## Cyn-ymosodwr Abertawe yn gwadu yfed a gyrru

Fe fydd Oli McBurnie yn mynd gerbron llys ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

Mae Oli McBurnie, cyn-ymosodwr tîm pêl-droed Abertawe, yn gwadu yfed a gyrru.
Fe gyflwynodd ei ble yn ystod gwrandawiad yn Llys Ynadon Leeds heddiw (dydd Mercher, Tachwedd 6).

Clywodd y llys ei fod e wedi'i gyhuddo o fod ag un a hanner gwaith yr uchafswm alcohol cyfreithlon i yrru pan gafodd ei stopio ar Hydref 18.

Bydd y pêl-droediwr, sydd bellach yn chwarae i Sheffield United, yn mynd gerbron ynadon eto ar Fawrth 16, 2020.

https://golwg.360.cymru/newyddion/cymru/557243-ymosodwr-abertawe-gwadu-yfed-gyrru. [Cyrchwyd: 13 Gorffennaf 2020]

### 5.12 Damcaniaeth Gweithgareddau Arferol

Datblygodd Cohen a Felson (1979) y Ddamcaniaeth Gweithgareddau Arferol (*routine activity theory*), sy'n canolbwyntio ar nodweddion ac amgylchedd trosedd yn hytrach na'r troseddwr ei hun. Dyma un o brif ddamcaniaethau troseddeg amgylcheddol, sy'n canolbwyntio ar ddulliau atal troseddu. Yn ôl y ddamcaniaeth hon, rhaid i dair elfen fod yn bresennol er mwyn i drosedd ddigwydd, hynny yw, rhaid cael:

- targed addas;
- troseddwr llawn cymhelliant; ac
- absenoldeb person ag awdurdod i atal y drosedd rhag digwydd.

Ar lefel y gymdeithas neu'r lefel facro, mae'r ddamcaniaeth yn awgrymu nad yw safle cymdeithasol, megis dosbarth cymdeithasol, oed, rhywedd neu hil, yn cael effaith ar gyfraddau troseddu; yn hytrach, mae'n ymwneud â chyfleoedd i droseddu a newid ym mhatrymau cymdeithas. Mae hefyd yn dadlau bod cyfraddau troseddu'n ymwneud â faint o gyswllt sydd gan unigolion â throseddu a'r ffordd y maent yn ymateb i hyn. Ar lefel yr unigolyn neu'r lefel ficro, mae'r ddamcaniaeth yn cael ei defnyddio i esbonio profiad neu weithgareddau'r dioddefwr drwy ganolbwyntio ar ei arferion neu ei ffordd o fyw. Yn benodol, mae'n gysylltiedig â'r ffordd y mae arferion personol y dioddefwr yn creu cyfleoedd ar gyfer troseddu neu'n golygu ei fod yn dod i gyswllt â throseddu. O ran polisi ac atal troseddu, mae'r ddamcaniaeth gweithgareddau arferol wedi'i chysylltu'n bennaf ag atal troseddu sefyllfaol a phlismona.

Ffigur 1 Damcaniaeth gweithgareddau arferol



### 5.13 Gweithgaredd

Gwnewch ychydig o waith ymchwil ar y llofrudd cyfresol Peter Moore. Roedd Moore yn rheoli sinemâu yng ngogledd Cymru a bu'n gyfrifol am lofruddio pedwar dyn. Sut mae'r ddamcaniaeth gweithgareddau arferol yn ein helpu i ddeall cymhellion a throseddau Moore?

### 5.14 Atal Troseddu Sefyllfaol

Mae Atal Troseddu Sefyllfaol (*Situational Crime Prevention, SCP*) yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i droseddu. Mae'n ceisio lleihau'r niwed a achosir gan drosedd drwy newid ffactorau uniongyrchol neu sefyllfaol yn yr amgylchedd lle mae troseddu'n digwydd yn rheolaidd. Mae'n gweithredu ar sail damcaniaeth dewis rhesymegol a damcaniaeth gweithgareddau arferol. Ei nod yw cael gwared ar gyfleoedd i droseddu drwy wneud y canlynol:

- dylunio nwyddau sy'n anoddach i'w dwyn (e.e. gwell cloeon ar geir);
- perswadio pobl i fod yn fwy cyfrifol am eu heiddo eu hunain;
- gosod teledu cylch cyfyng (CCTV) i'w gwneud hi'n anoddach i unigolion ddwyn neu ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl yn cael eu dal;
- gwneud y targed yn llai deniadol, cynyddu gwyliadwriaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar droseddwyr.

## Deunydd darllen ychwanegol

Beccaria, C. (1764), ‘On Crimes and Punishments’, yn: Newburn, T (2009), *Key Readings in Criminology*. Cullompton: Willan.

Cohen, L. E. a Felson, M. (1979), ‘Social change and crime rate trends: a routine activities approach’, *American Sociological Review*, 44, 588–608.

Cornish, D. B. a Clarke, R. V. G. (2006), ‘The rational choice perspective’, yn: Henry, S. a Lanier, M., *The Essential Criminology Reader*. Boulder, CO: Westview.

Hindelang, M., Gottfredson, M. a Garofalo, J. (1978), *Victims of Personal Crime: an empirical foundation for a theory of personal victimization*. Cambridge, MA: Ballinger.

O’Malley, P (2010), ‘Jeremy Bentham,’ yn: Hayward, K. et al., *Fifty Key Thinkers in Criminology*. London: Routledge.

Vold, G., Bernard, T. H. a Snipes, J. (1998), *Theoretical Criminology*. Oxford University Press.

Yar, M. (2010), ‘Cesare Beccaria,’ yn: Hayward, K. et al., *Fifty Key Thinkers in Criminology*. London: Routledge.

# 6

# Positifiaeth a Throseddeg

# 6

# Positifiaeth a Throseddeg

Ar ôl can mlynedd cafwyd her i'r ysgol glasurol a'r Ymoleuo o gyfeiriad gwyddoniaeth naturiol gyda datblygiad positifiaeth (Positivism). Mae positifiaeth yn adlewyrchu datblygiad dull gwyddonol er mwyn astudio cymdeithas, a phwysleisiwyd y dylid ymdrin â throseddeg fel 'gwyddoniaeth', â'r pwyslais ar fioleg a seicoleg. Er bod adrannau gwahanol o fewn positifiaeth, er enghraifft bioleg, seicoleg ac agweddau cymdeithasol, y canolbwynt cyffredin yw natur y troseddwr ac ymddygiad troseddol. Honnir bod troseddu'n deillio o'r unigolyn, a gelwir hyn yn batholeg yr unigolyn. Gellid ymdrin â natur a phrif nodweddion y troseddwr drwy bwysleisio'r gwahaniaethau, a lle roedd modd eu categoreiddio, cynnig triniaeth. Drwy ddefnyddio arbenigwyr roedd modd canfod pa ffactorau oedd yn dylanwadu ar unigolion, ac yna roedd hi'n bosib cywiro'r diffygion hynny. Credai'r positifiaethwyr ei bod yn bosib delio â phroblemau oedd yn creu ymddygiad troseddol drwy driniaeth.  Er bod positifiaeth wedi bod yn ddylanwad pwysig ar yr astudiaeth o droseddu, beirniadwyd y traddodiad am nifer o resymau. Honnir bod ei dilynwyr yn euog o benderfyniaeth, gan nad yw unigolion yn gyfrifol am eu gweithredoedd troseddol. Golyga hyn nad oes gan y troseddwr reolaeth dros yr hyn a wna.

### 6.1 Positifiaeth Fiolegol Gynnar

Gellir olrhain positifiaeth droseddol gynnar i waith tri Eidalwr, sef Cesare Lombroso, Enrico Ferri a Raffaele Garofalo. Y ffigur mwyaf adnabyddus oedd Cesare Lombroso, a ystyrir yn dad troseddeg fodern. Benthycodd o ddamcaniaeth esblygiad Darwin, oedd yn gwahaniaethu rhwng troseddwyr ar sail bioleg a hil. Y cysyniad sylfaenol tu ôl i ddamcaniaethau biolegol yw'r gred y gellir mesur gwahaniaethau unigol yn wyddonol. Astudiodd Lombroso droseddwyr a phobl eraill, yn cynnwys milwyr, pobl ag anhwylder iechyd meddwl a'r cyhoedd yn gyffredinol, i'r diben o fesur gwahaniaethau corfforol. Casglodd ddata fel dull arbrofol o fewn 'anthropoleg droseddol'.

I Lombroso, roedd troseddwyr yn unigolion nad oeddent wedi datblygu'n llawn, a cheir disgrifiadau ohonynt fel dynion cyntefig, atafistaidd. Credai fod modd adnabod troseddwyr ar sail nodweddion corfforol, megis siâp y benglog neu nodweddion yr wyneb. Dyma oedd gwyddoniaeth 'ffrenoleg', sef mesur maint yr ymennydd o fewn y benglog er mwyn ceisio mesur gallu troseddwyr. Wrth astudio'r unigolion hyn, dadleuodd fod gan lawer ohonynt broblemau oedd wedi'u hetifeddu ac a oedd yn adlewyrchu eu safle troseddol israddol. Roedd y syniadau hyn yn cyd-fynd â'i gred fod troseddwyr wedi eu geni'n ddrwg drwy ragluniaeth. Credai Lombroso fod merched troseddol yn mynd yn groes i'w natur oddefgar, a phan fydd merch yn 'droseddol', ei bod hi'n debycach i ddyn.

Gellir ystyried bod positifiaeth fiolegol wedi cymryd yn ganiataol fod troseddwyr yn wahanol i weddill y boblogaeth, a bod troseddwyr yn wahanol i'w gilydd gan eu bod yn cyflawni troseddau gwahanol. Dyma oedd tu ôl i'r syniad o rannu'r boblogaeth droseddol yn gategorïau gwahanol. Wrth gategoreiddio troseddwyr gwahaniaethodd Lombroso rhwng troseddwyr gwallgof, troseddwyr

‘epileptig’, troseddwyr achlysurol, troseddwyr wedi eu geni’n droseddol, a throseddwyr rhyw. Yn ddiweddarach yn ei yrfa, credai Lombroso fod yr hyn oedd yn gwneud troseddwr yn cynnwys nifer o ffactorau – cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd – yn ogystal ag etifeddiaeth enynnol. Pwysleisiwyd y rhain gan ei olynydd, Ferri (1881/1917). Ar y llaw arall, roedd Garofalo (1895/1914) yn dadlau yn erbyn esboniadau biolegol. Ei farn ef oedd fod ymddygiad troseddol yn annaturiol ac mai rheolau natur oedd rheolau ymddygiad cywir, a’r rheini’n cael eu deall drwy gyfrwng pwerau rhesymu’r unigolyn. Awgrymodd fod troseddwyr yn foesol ddiffygiol, yn enwedig llofruddwyr, gan nad ydynt yn dangos tosturi; dylanwadir ar droseddwyr treisgar gan ffactorau amgylcheddol fel yfed alcohol, ac mae lladron yn profi mwy o ddylanwad ffactorau cymdeithasol na throseddwyr eraill.

### 6.2 Triniaeth yn Lle Cosb

Mae’r tri Eidalwr yn gwahaniaethu yn y modd yr ymdrinnir â throseddwyr. Credai Lombroso mewn triniaeth i newid ymddygiad rhai gwyrdroëdig a’u hintegreiddio’n ôl i’r gymdeithas. Dadleuai nad oedd cosb yn briodol i atal troseddu gan unigolyn â nam biolegol gan nad oedd bygwth cosb yn effeithio ar ei ymddygiad. Roedd Garofalo o’r farn y dylid carcharu’r unigolion hyn am oes neu eu hallfudo dramor. Roedd Garofalo a Ferri yn gytûn y dylid ildio hawliau dynol sylfaenol troseddwyr i farn a phenderfyniadau arbenigwyr gwyddonol.

### 6.3 Positifiaeth yr Ugeinfed Ganrif

Ystyrir esboniadau biolegol cyfoes yn fwy soffistigedig. Cyflwynodd positifiaethwyr rai syniadau droseddolrwydd ar sail nodweddion corfforol a etifeddir, gan gynnig tystiolaeth ynghylch rhai o honiadau’r ddamcaniaeth. Rhennir y rhain isod yn astudiaethau o deuluoedd troseddol, astudiaethau o efeilliaid, astudiaethau ar rai a fabwysiadwyd, ac astudiaethau ar siapiau corfforol.

### 6.4 Hanes Teuluoedd Troseddol

Ceisiwyd adeiladu ar waith positifiaethwyr cynnar drwy ehangu’r maes biolegol ac archwilio dylanwad hanes teuluoedd troseddwyr er mwyn canfod unrhyw nodweddion a etifeddwyd gan hynafiaid (Dugdale, 1877; Goddard, 1913). Astudiodd Dugdale chwe chenhedlaeth o’r un teulu, a daeth i’r casgliad fod ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu hetifeddu. Tebyg oedd canfyddiadau astudiaeth adnabyddus o’r teulu Kallikak (Goddard, 1913). Cymharodd ddwy gangen deuluol oedd yn deillio o’r un tad, a’u gwrthgyferbynnu; roedd un gangen o’r teulu’n deillio o berthynas odinebus, anghyfreithlon, a’r gangen arall o briodas gyfreithlon. Ystyrid y plant a genhedlwyd o’r uniad godinebus yn wrthgymdeithasol, ond nid oedd y teulu a fagwyd drwy briodas yn droseddol.

### 6.5 Astudiaethau o Efeilliaid a Phlant Mabwysiedig

Mewn ymdrech i ymestyn y gwaith ar ffactorau etifeddol ymhellach, archwiliodd Lange (1930) efeilliaid unfath a gefeilliaid annhebyg. Y rhesymeg oedd hyn: os oedd un gefell yn droseddol, byddai’r llall hefyd. Cadarnhawyd hyn, yn enwedig ymhlith gefeilliaid unfath, yn fwy nag ymhlith gefeilliaid annhebyg. Er hyn, mae’n rhaid dehongli’r canfyddiadau’n ofalus. Ymddengys bod gefeilliaid yn cyflawni mathau gwahanol o droseddau ac er y gellid cael nodweddion sy’n eu

gwneud hwy'n fwy tebygol o droseddu, efallai fod dylanwadau gwahanol ar waith yn penderfynu pa droseddau a gyflawnir. Adroddwyd canfyddiadau tebyg gan eraill, megis Cortes a Gatti (1972) a Christiansen (1977), er i Christiansen adrodd bod cyswllt rhwng elfennau biolegol a'r amgylchedd ehangach yn bosib. Yn gyffredinol, beirniadwyd yr astudiaethau am beidio â gwahaniaethu'n ddigonol rhwng edrych ar gydbwysedd effaith nodweddion etifeddol a'r amgylchedd.
Cynhaliwyd astudiaethau hefyd ymhlith rhai a gafodd eu mabwysiadu, er enghraifft, gweler gwaith Crowe (1972), Hutchings a Mednick (1977). Ceisiwyd ymchwilio i weld a yw plant a fabwysiadwyd yn ymddwyn fel eu rhieni biolegol yn hytrach na'r rhieni a'u mabwysiadodd. I ryw raddau cydnabyddir bod hyn yn gywir. Dengys Hutchings a Mednick (1977) fod plant mabwysiedig yn fwy tebygol o gael cofnod troseddol os oedd y rhiant biolegol yn droseddwr. Yn fwy diweddar, darganfuwyd bod plentyn mabwysiedig yn fwy tebygol o fod â chofnod troseddol os oedd gan y tad biolegol a'r tad mabwysiedig euogfarnau blaenorol (Mednick et al., 1984). Cydnabu'r astudiaeth fod dylanwad nodweddion a etifeddir gan rieni biolegol yn cynyddu'r tebygolrwydd o arwain at ymddygiad troseddol, ond nid ymhelaethir ar y nodweddion hynny. Canlyniadau cymysg a gafwyd o'r astudiaethau hyn.

### 6.6 Astudiaethau ar Siâp y Corff

Cafwyd astudiaethau eraill yn archwilio'r cysylltiad rhwng siâp corff a throseddolrwydd. Awgrymodd astudiaethau gan Sheldon (1949) a chan Glueck a Glueck (1950) fod rhai nodweddion corfforol yn creu mwy o debygolrwydd o droseddu. Yr astudiaeth fwyaf adnabyddus yw astudiaeth Sheldon (1949) ar y tri somatoteip:

| | | |
|---|---|---|
| **Ectomorffig** |  | Tenau a gwan yn gorfforol, yn fewnblyg, â phersonoliaeth sensitif |
| **Mesomorffig** |  | Cyhyrog a chryf, ymosodol, penderfynol, â phersonoliaeth allblyg |
| **Endomorffig** |  | Crwn a thew, yn mwynhau ymlacio a chymdeithasu, â phersonoliaeth allblyg |

Yn ôl Sheldon (1949), pobl â siâp mesomorffig oedd fwyaf tebygol o fod yn droseddwyr. Adroddodd Glueck a Glueck (1950) fod 60 y cant o'r mesomorffiaid a archwiliwyd oedd â brest a breichiau llydan yn droseddwyr, o'u cymharu â 31 y cant nad oeddent yn droseddol. Gwelir bod yr astudiaethau wedi cysylltu math o gorff ag ymddygiad a thueddiadau personoliaeth oedd yn gryfach o ran corff, egni a diffyg sensitifrwydd, ac yn dangos tensiwn a rhwystredigaethau drwy weithredu yn erbyn eraill.

### 6.7 Ceisio Darganfod 'Genyn Troseddol'

Adeiladwyd ar astudiaethau genynnol ymhellach drwy geisio ehangu'r ymchwil i ddarganfod bodolaeth 'genyn troseddol'. Dengys ymchwil gychwynnol fodolaeth diffygion yn y cromosomau a bod hyn yn gallu effeithio ar gemegion yn yr ymennydd. Ceisiwyd egluro bodolaeth 'cromosom troseddol' o fewn syndrom Jacob (syndrom XYY), sef y gred fod dynion â chromosom 'Y' ychwanegol yn fwy tebygol o gyflawni trosedd dreisgar neu wrthgymdeithasol (Jacobs et al., 1965; Price et al., 1966). Cynigiwyd tystiolaeth amgylchiadol i gefnogi'r ddamcaniaeth hon, a cheisiwyd edrych ar broffiliau llofruddwyr cyson â'r genynnau hyn. Dangoswyd bod peth cyswllt rhwng 'cromosom Y' a throseddu, ei fod yn egluro rhywun llai galluog, ond nid troseddu treisgar. O ganlyniad, casglwyd bod dylanwad genynnau'n anuniongyrchol neu'n ddiffyg nad oedd yn un penodol (Gotz et al., 1999).

Nid yw esboniadau biolegol wedi eu cyfyngu i esboniadau genynnol o fewn ymddygiad troseddol yn unig. Awgrymir bod ffactorau biocemegol hefyd yn gallu effeithio ar unigolion. Gall y rhain gynnwys eglurhad hormonaidd (Olwens, 1987; Raine, 1993; Booth ac Osgood, 1993; Hollin, 1992), a lefelau isel o serotonin (sy'n rheoli tymer) sy'n gallu creu ymddygiad treisgar (Raine, 1993). Canolbwyntiodd astudiaethau eraill ar ddylanwad deiet, gan egluro effaith diffyg siwgr yn y gwaed a diffyg fitaminau (Tuormaa, 1994; Gesch, 2002; Shoenthaler, 1983). Mae esboniadau eraill wedi canolbwyntio ar system nerfol ganolog y corff, yn enwedig diffygion yng ngweithgaredd yr ymennydd neu ddiffyg swyddogaeth cerebrol, neu gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol (Collins, 1986; Goodwin et al., 1973).

### 6.8 Positifistiaeth Seicolegol

Ceir ffurfiau amrywiol o fewn positifiaeth seicolegol sy'n cynnwys astudiaethau ar bersonoliaeth, damcaniaeth wybyddol a phrosesau dysgu unigolion, a sut y cysylltir y rhain â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. I raddau helaeth iawn maent yn gorgyffwrdd â phositifiaeth fiolegol, er enghraifft y syniad o ragluniaeth a bod ffactorau seicolegol yn cyfyngu ac yn siapio'r ymddygiad.

### 6.9 Dadansoddiad Seicolegol Sigmund Freud

Mae llawer o lenyddiaeth ar ddylanwadau seicolegol ar ymddygiad yn ganlyniad damcaniaeth Sigmund Freud ar ddadansoddi seicolegol. Tybiai Freud fod y ddynoliaeth yn wrthgymdeithasol, bod pleser yn cyflyru'r unigolyn i weithredu'n afresymol a bod hunaniaeth yn rhan gyntefig a greddfol o bersonoliaeth.

Mae'r ego yn galluogi'r unigolyn i weithredu mewn ffyrdd sy'n dderbyniol yn gymdeithasol, a dyma sy'n helpu i leihau tensiwn. Ystyrir mai'r uwchego yw'r rhan o'r isymwybod sy'n cynnwys safonau cymdeithasol a moesol. Rhennir yr uwchego'n ddwy ran, sef yr ego 'delfrydol' a'r ymwybyddiaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am safbwyntiau negyddol sy'n creu euogrwydd. Dyma sut mae dylanwadau negyddol yn cael eu niwtraleiddio gan fod yr uwchego yn mewnoli normau cymdeithasol (Freud, 1927). Os bydd diffyg yn swyddogaeth yr uwchego, ceir dadansoddiad seicolegol i broblemau troseddol.

Nododd Freud (1920) dri math o ddiffyg sy'n ffynhonnell troseddu, sef uwchego llym, uwchego gwan ac uwchego gwyrdroëdig. Yn ôl Freud, mae uwchego llym yn arwain at euogrwydd eithafol sy'n cyflyru'r unigolyn i weithredu'n droseddol mewn ymgais i ennill statws. Mae'r ail fath, sef uwchego gwan, yn gysylltiedig â bod yn hunanganolog ac yn fyrbwyll, lle mae'r unigolyn egosentrig yn methu datblygu euogrwydd. Yn olaf, mae'r uwchego gwyrdroëdig, lle mae safonau'r uwchego wedi datblygu'n normal ond bod y safonau hynny'n wyrdroëdig oherwydd dylanwad rhiant troseddol ar blentyn, efallai (Freud, 1920). Mae gwaith Freud wedi arwain ymchwilwyr i edrych ar ddylanwad profiadau bywyd cynnar, rhieni a throseddu.

Un astudiaeth allweddol o fewn maes damcaniaethau seicolegol a throseddwyr ifanc yw gwaith John Bowlby yn 1952. Honnai Bowlby fod angen gofal cyson a pharhaus ar blant gan brif ofalwr nes byddent yn bum mlwydd oed. Ymhellach, byddai profi unrhyw chwalfa deuluol yn niweidiol i ddatblygiad y plentyn, yn enwedig wrth iddo / iddi geisio sefydlu perthynas emosiynol yn ei fywyd / ei bywyd. Beirniadwyd gwaith Bowlby am nifer o resymau methodolegol ac empirig (Morgan, 1975). Sampl anghynrychioliadol, bychan a ddefnyddiwyd ganddo; roedd cynllun ymchwil y grŵp rheoli'n ddiffygiol ac nid oedd wedi awgrymu bod modd lliniaru effaith problemau teuluol ar y plentyn (Wooton, 1959).

### 6.10 Damcaniaeth Wybyddol

Un ddamcaniaeth seicolegol wybyddol (*cognitive psychology*) gyfoes yw cynnyrch astudiaeth Walters a White (1989). Eu dadl yw nad yw troseddeg fel disgyblaeth wedi gwerthfawrogi a chydnabod rôl wybyddol yr unigolyn yn ddigonol. Os yw ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol yn sylfaen dewisiadau, rhesymeg yr unigolyn sy'n penderfynu ffurf ymddygiad troseddol. Dadleuir bod ymddygiad troseddol yn gynnyrch meddylfryd diffygiol ac afresymol. Drwy ganolbwyntio ar unigolion â gyrfa droseddol, pwysleisir bod rhyngweithio'r unigolion yn ymwneud â diffyg cyfrifoldeb, hunanfodlonrwydd, ymyrraeth ryngbersonol a thorri rheolau ymddygiad cymdeithasol. Gan fod y troseddwr yn rhoi sylw i hedoniaeth dymor byr ar draul ei ddatblygiad tymor hir, mae'n disgyn i'r un fagl droseddol dro ar ôl tro.

### 6.11 Mesur Personoliaeth

Rhoddwyd sylw i faterion personoliaeth o fewn positifiaeth seicolegol yng ngwaith Eysenck (1977; 1989). Sonia fod dimensiynau gwahanol i bersonoliaeth yn cynnwys seicotiaeth, allblygedd a niwrotiaeth. O safbwynt oedran, yr ieuengaf yw'r troseddwr, y mwyaf tebygol ydyw fod lefel yr allblygedd yn uwch na'r niwrotiaeth, tra mae troseddwyr hŷn yn arddangos lefel uchel o niwrotiaeth. Yn ychwanegol, roedd gan bob categori oedran lefel uchel o seicotiaeth. Nododd

Eysenck fod y rhai sydd â'r dimensiynau hyn yn eu personoliaethau'n tueddu i ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac i droseddu. Cysylltid nodweddion personoliaeth â datblygiad cydwybod drwy broses o ddysgu ac awydd eithafol am gyffro.

### 6.12 Damcaniaeth Dysgu

Drwy ei ddamcaniaeth dysgu *(learning theory)* adeiladodd Bandura (1973) ar y syniad fod unigolion yn efelychu ymddygiad pobl eraill. Soniodd fod unigolion yn dysgu drwy edrych ar eraill sy'n derbyn gwobr neu gosb am ddulliau o ymddwyn. Maes o law, bydd yr unigolyn yn efelychu neu'n modelu'r ymddygiad sy'n cael ei wobrwyo. Defnyddiwyd y ddamcaniaeth mewn astudiaethau sydd wedi canolbwyntio ar drais, trais teuluol, ac effaith teledu sy'n hybu trais.

### 6.13 Gwerthusiad

Gwelir bod positifiaeth yn cynnwys amrediad eang o safbwyntiau i geisio egluro ffactorau troseddol yr unigolyn. Canolbwyntiodd y positifiaethwyr ar droseddu stryd, yn enwedig trais; nid ystyriwyd troseddu coler wen na throseddu gwladwriaethol. Yn ogystal, cynhaliwyd astudiaethau ar droseddwyr yn y carchar neu mewn gofal clinigol.

Ceir aneglurder pellach hefyd. Nid yw'n glir beth yn union a fesurir gan rai o'r astudiaethau: ai nam seicolegol neu nam cemegol? Mae angen gwirio'r ymchwil mewn sawl astudiaeth ac ystyried ymchwil ar ffurf grwpiau rheoli. Mae'n anodd cymharu newidynnau megis oedran, cyrhaeddiad addysgol, gwaith a statws, ac o ganlyniad mae llawer o'r astudiaethau wedi eu tanseilio oherwydd eu hanallu i reoli'r rhain. Ymddengys hefyd fod y damcaniaethau'n aml yn troi o amgylch anhwylder, a bod tuedd i roi'r bai ar resymau unigol. Cymerir yn ganiataol fod ymddygiad wedi ei benderfynu'n llwyr gan ragluniaeth ac ni chydnabuwyd bod bywyd yn gylch datblygiad. Cyhuddwyd damcaniaeth positifiaeth fiolegol gynnar o fod yn hiliol, yn rhywiaethol, ac yn arwydd o foesoldeb y cyfnod.

Mae dilynwyr positifiaeth o'r farn y dylid canfod y potensial i atal troseddu mor gynnar â phosib, drwy ymyrryd ym mywydau pobl cyn unrhyw droseddu. Gall yr ymyrraeth honno fod ar ffurf diffrwythloni neu raglenni i atal risg o droseddu mewn ardaloedd difreintiedig – yn rhan o strategaethau rheoli risg, troseddu a stigma, a rhan o gyfrifoldeb cymdeithas. I grynhoi, mae'r astudiaethau a'r ymchwil yn y maes wedi arwain at gynhyrchu gwybodaeth arbenigol nad yw ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac o ganlyniad mae'r pŵer yn nwylo'r proffesiynau. Er diffygion y ddamcaniaeth, mae'r dystiolaeth mewn llys barn yn rhannol ddibynnol ar seicolegwyr, er ei bod bron yn amhosib mesur pa mor beryglus yw troseddwr.

Er gwaetha'r feirniadaeth, bu damcaniaeth positifiaeth yn ddylanwadol hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Gellir dweud bod positifiaeth yn ddatblygiad oddi wrth feddylfryd clasurol a chyfrifoldeb yr unigolyn, gan honni bod ymddygiad troseddol y tu allan i reolaeth yr unigolion eu hunain.

**6.14 Gweithgaredd**

1. Yn 2011 carcharwyd John Cooper o sir Benfro am oes am lofruddiaethau dwbl Richard a Helen Thomas yn 1985 a llofruddiaethau dwbl Peter a Gwenda Dixon yn 1989, yn ogystal â thrais rhywiol yn erbyn dwy ferch yn 1996.

   Ymddengys bod gan Cooper gefndir troseddol oedd yn cynnwys bwrgleriaeth ac ymosodiadau treisgar. Darllenwch yr adroddiad hwn ac yna atebwch y cwestiwn isod:
   https://www.theguardian.com/uk/2011/may/26/john-cooper-murders-finally-solved

   i) Ai seicopath peryglus ynteu troseddwr rhesymegol a welodd ei gyfle oedd Cooper?
   ii) Beth yw rhai o beryglon awgrymu bod nodweddion biolegol yn egluro troseddolrwydd?
   iii) Ym mha ffyrdd y gall profiadau plentyndod effeithio ar ymddygiad pobl ifanc?
   iv) Ystyriwch beth rydym wedi ei ddysgu am fioleg a throseddu mewn astudiaethau mabwysiadu ac astudiaethau ar efeilliaid? Sut y gallwn ailadrodd a gwella dibynadwyedd yr astudiaethau hyn?

## Deunydd darllen ychwanegol


Bandura, A. (1973), *Aggression: a social learning approach*. Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Black, E. (2003), *War Against the Weak: eugenics and America's campaign to create a master race*. New York: Four Walls Eight Windows.

Blackburn, R. (1993), *The Psychology of Criminal Conduct: theory, research and practice*, Chichester: Wiley.

Booth, A. ac Osgood, D. W. (1993), 'The influence of testosterone on deviance in adulthood', *Criminology*, 31(1), 93–117.

Bowlby, J. (1952), *Maternal care and mental health*, cyf. 2. Geneva: World Health Organization: Monograph Series, 2, 17.

Christiansen, K. O. (1977), 'A review of studies of criminality among twins', yn: Mednick, S. A. a

Christiansen, K. O. (goln), *Biosocial Bases of Criminal Behavior*, 89–108. New York: Gardner.

Collins, J. J. (1986), 'The relationship of problem drinking in individual offending sequences', yn:

Weiner, A. a Wolfgang, M. E. (goln), *Pathways to Criminal Violence*. Newbury Park, CA: Sage.

Cortes, J. a Gatti, F. M. (1972), *Delinquency and Crime, a Biopsychosocial Approach: empirical, theoretical and practical aspects of criminal behavior*. New York: Seminar Press.

Crowe, R. R. (1972), 'The adopted offspring of women criminal offenders: a study of their arrest records', *Archives of General Psychiatry*, 27, 600–603.

Dugdale, R. L. (1877), *The Jukes: a study in crime, pauperism, disease, and heredity*. New York: Putman's.

Eysenck, H. J. (1977), *Crime and Personality*. London: Routledge & Kegan Paul.

Eysenck, H. J. (1989), 'Personality and criminality: a dispositional analysis', yn: Laufer, W. S. ac Adler, F. (goln), *Advances in Criminological Theory*, cyf. 1, 89–110. New Brunswick, NJ: Transaction.
Ferri, E. (1881), *Criminal Sociology*. Cyfieithwyd gan J. Killey a J. Lisle. Boston: Little, Brown (ailargraffwyd 1917).

Freud, S. (1920), *A General Introduction to Psychoanalysis*. New York: Boni & Liveright.

Freud, S. (1927), *The Ego and the Id*. London: Hogarth.

Garofalo, R. (1885), *Criminology*. Cyfieithwyd gan R. W. Millar. Boston: Little, Brown. (ailargraffwyd 1914).

Gesch, C. B. et al. (2002), 'Influence of supplementary vitamins, minerals and essential fatty acids on the antisocial behaviour of young adult provision', *British Journal of Psychiatry*, 181, 22–8.

Glueck, S. a Glueck, E. T. (1950), *Unraveling Juvenile Delinquency*. New York: Commonwealth Fund.
Goddard, H. H. (1913), *The Kallikak Family: a study in the heredity of feeblemindedness*. New York: Macmillan.
Goodwin, D. et al. (1973), 'Alcohol problems in adoptees raised apart from alcoholic biological parents', *Archives of General Psychiatry*, 28, 238–43.

Gottfredson, M. a Hirschi, T. (1990), *A General Theory of Crime*. Stanford: Stanford University Press.

Gotz, M., Johnstone, E. a Radcliff, S. (1999), 'Criminality and antisocial behaviour in unselected men with chromosomal abnormalities', *Psychological Medicine*, 29, 953–62.

Gregory, R. (2007), *Psychological Testing: history, principles and applications.* Boston: Pearson.
Hathaway, S. R. a McKinley, J. C. (1943), 'A multiphasic personality schedule (Minnesota): 1. Construction of the schedule', *Journal of Psychology*, 10, 249–54.

Hollin, C. R. (1992), *Criminal Behaviour: a psychological approach to explanation and prevention.* London: Falmer Press.

Hutchings, B. a Mednick, S. (1977), 'Criminality in adoptees and their adoptive and biological parents: a pilot study', yn: Mednick, S. a Christiansen, K. (goln), *Biosocial Bases of Criminal Behaviour*. New York: Gardner Press.

Jacobs, P. A. et al. (1965), 'Aggressive behaviour, mental sub-normality, and the XYY male', *Nature* 108: 1351–2.

Jones, H. P. (1982), *Freud*. Cyfres y Meddwl Modern. Dinbych: Gwasg Gee.
Lange, J. (1919), *Crime and Destiny*. Cyfieithwyd gan C. Haldane. New York: Charles Boni (ailargraffwyd 1930).

Lombroso, C. (1876), *L'Uomo Delinquente* (The Criminal Man). Milan: Hoepli.

Lombroso, C. a Ferrero, G. (1893/2004), *Criminal Woman, the Prostitute and the Normal Woman*, cyfieithwyd gyda rhagarweiniad newydd gan Rafter, N. H. a Gibson, M. Durham: Duke University Press.

Mednick, S. A. (1977), 'A biosocial theory of the learning of law-abiding behaviour', yn: Mednick, S. A. a Christiansen K. O. (goln), *Biosocial Bases of Criminal Behavior*, 1–9. New York: Gardner.

Mednick, S. A., Gabrielli Jr., W. F. a Hutchings, B. (1984), 'Genetic influences in criminal convictions: evidence from an adoption cohort', *Science*, 224, 4651, 891–4.

Morgan, P. (1975), *Child Care: sense and fable*. London: Temple Smith.

Olwens, D. (1987), 'Testosterone and adrenaline: aggressive and antisocial behaviour in normal adolescent males', yn: Mednick, S. A., Moffit, T. E. a Stack, S. (goln), *The Causes of Crime: new biological approaches*. Cambridge: Cambridge University Press.

Price, W. H. et al. (1966), 'Criminal patients with XYY sex-chromosome complement', *The Lancet*, 1, 565–6.

Raine, A. (1993), *The Psychopathology of Crime*. San Diego, CA: Academic Press.

Shoenthder, S. J. (1983), 'Diet and crime: an empirical examination of the value of nutrition in the control and treatment of incarcerated juvenile offenders', *International Journal of Biosocial Research*, 4, 25–39.

Sheldon, W. H. (1949), *Varieties of Delinquent Youth: an introduction to constitutional psychiatry*. New York: Harper and Row.

Tuormaa, T. E. (1994), 'The adverse effects of food additives on health', *Journal of Orthomolecular Medicine*, 9(4), 224–43.

Walters, G. D. a White, T. W. (1989), 'The thinking criminal: a cognitive model of lifestyle criminality', *Criminal Justice Research Bulletin*, 4, 1–10.

Wooton, B. F. (1959), *Contemporary Trends in Crime and its Treatment*. London: Clarke Hall Fellowship.

# 7

# Dad-drefniad Cymdeithasol ac Anomie Emile Durkheim

7

# Dad-drefniad Cymdeithasol ac Anomie Emile Durkheim

Roedd gwreiddiau troseddeg gynnar yn canolbwyntio ar egluro troseddu drwy drafod gweithredoedd yr unigolyn a bod ymddygiad troseddol yr unigolyn yn gysylltiedig â rhagluniaeth yn hytrach na dylanwadau cymdeithasol ehangach. Fel y trafodwyd eisoes yn y penodau ar yr ysgol glasurol a phositifiaeth fiolegol a seicolegol, mae ymddygiad troseddol yn digwydd o fewn yr unigolyn. Mae safbwyntiau cymdeithasegol yn gwrthod yr esboniadau unigolyddol gan ddadlau bod troseddu yn ymddygiad sy'n gwyro oddi wrth normau a gwerthoedd sy'n dderbyniol gan gonsensws cymdeithas. Dadleuir bod troseddu yn amlygiad o batholeg gymdeithasol yn hytrach na phatholeg yr unigolyn. Ystyrir troseddu yn gynnyrch cymdeithas, ac wedi ei siapio a'i lunio gan brosesau cymdeithasol.

Yr hyn a geir yw diffiniad o droseddu sy'n pwysleisio'r cyd-destun cymdeithasol ehangach. Mae troseddu yn digwydd oherwydd tensiwn sy'n codi o'r gymdeithas ei hun. Canolbwyntir ar ddau brif faes, sef strwythur cyfleoedd cymdeithasol ac, yn ail, sut y dysgir gwerthoedd a normau diwylliannol gan eraill. Wrth ymateb i droseddu, anelir at ddiwygio cymdeithas a'i sefydliadau drwy raglenni addysgol, prosiectau gwaith, gweithgareddau hamdden i unigolion a grwpiau sy'n profi anfantais. O safbwynt cyfiawnder ac ataliaeth, pwysleisir strategaethau atal troseddu ac ymdrechion i adsefydlu'r troseddwr. Gall hyn olygu tynnu troseddwyr oddi wrth ddylanwad cyn-droseddwyr er mwyn lleihau'r cyfleoedd i ddysgu normau a gwerthoedd negyddol am gyfnod.

Emile Durkheim oedd yn gyfrifol am ddatblygu cymdeithaseg fel disgyblaeth academaidd gydnabyddedig ac roedd ei gyfraniad i gymdeithaseg a throseddeg fel ei gilydd yn sylweddol. Mae egluro newid cymdeithasol a'r dad-drefniad cymdeithasol *(social disorganisation)* sy'n dod yn ei sgil wrth wraidd ei syniadau ar droseddu.

### 7.1 Gwrthod Unigolyddiaeth

Gellir honni bod gwaith Durkheim yn allweddol ac wedi datblygu'r maes troseddeg, gan ei symud oddi wrth yr unigolyn. Yn ôl Durkheim, mae troseddu yn rhywbeth diwylliannol-gymdeithasol**.** Wrth drafod nodweddion cymdeithasol, portreadir cymdeithas un ai fel cymdeithas iach neu gymdeithas batholegol, hynny yw, ei bod un ai'n drefnus neu'n anhrefnus. Yn ei lyfr *The Division of Labour in Society*, a gyhoeddwyd yn 1893, disgrifiodd Durkheim y prosesau newid cymdeithasol a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol. Edrychodd ar nodweddion esblygiad wrth egluro newid cymdeithasol

mewn modd lle roedd cymdeithas yn cyfateb i organeb fiolegol. Fel anifeiliaid a phlanhigion, roedd cymdeithas yn addasu i newid mewn amgylchiadau dros amser drwy ddatblygu ei sefydliadau cymdeithasol.

### 7.2 Solidariaeth Fecanyddol ac Organig

Defnyddiodd Durkheim gysyniad solidariaeth fecanyddol (*mechanical solidarity)* i egluro cymdeithas syml, cyn-ddiwydiannol lle roedd trefn gymdeithasol wedi'i seilio ar solidariaeth gymdeithasol, tra bo cymdeithas sydd wedi profi datblygiad diwydiannol cymhleth wedi ei nodweddu gan solidariaeth organig (*organic solidarity).*

O fewn cymdeithas â solidariaeth fecanyddol nid oedd sefydliadau'n bodoli, ac roedd y gymdeithas yn dibynnu ar dylwyth yn rhannu normau, credoau, crefydd a gwerthoedd tebyg. Mae pobl yn cydymffurfio ac yn rhannu agweddau a chredoau tebyg i'w gilydd. Gall hyn ymddangos yn ddeniadol iawn, gan awgrymu cymuned glòs. Yn y math hwn o gymdeithas mae'r system gyfiawnder yn llym a gormesol. Mae'r system wedi ei chynllunio i ailsefydlu gwerthoedd a chredoau cyffredin y gymdeithas drwy symud y troseddwr oddi wrth y grŵp ehangach.

Credai Durkheim fod cymdeithas sydd â solidariaeth organig wedi profi diwydiannu cymhleth a nodweddid gan unigolyddiaeth; mae unigolion wedi eu rhyddhau oddi wrth rwystrau cymdeithasol ac mae hyn ei dro yn arwain at ddad-drefniad cymdeithasol. Mae trefn yn dibynnu ar integreiddio cymdeithasol sy'n deillio o'r sefydliadau cymdeithasol gwahanol, â'r rhaniad llafur arbenigol yn chwarae rhan ganolog. Mae'r rhaniad llafur yn creu rhwydwaith o gyd-ddibyniaeth. Mewn cymdeithas â solidariaeth organig, mae yna wahaniaethau sy'n clymu unigolion yn anuniongyrchol i'r gymdeithas drwy eu hintegreiddio i feysydd y maent yn rhan ohonynt. Mae'r gwahaniaethau hyn, yn ogystal ag arbenigedd, yn cyfrannu at ddatblygu personoliaeth yr unigolyn gan fod angen galluoedd amrywiol ar gyfer gweithgareddau arbenigol. Wrth i aelodau'r gymdeithas ddatblygu maent yn dod yn fwy unigolyddol, ac o ganlyniad ni ellir eu hintegreiddio mwyach o fewn y gydgydwybod (*collective conscience).*

O fewn y gymdeithas hon, tybiai Durkheim fod cydgydwybod yn llai dibynnol ar gynnal cydlyniad cymdeithasol ac yn fwy dibynnol ar reoli swyddogaethau ar sail rhaniad llafur. Golyga hyn nad yw unigolion wedi eu clymu drwy rwydweithiau carennydd a chyfeillgarwch gan fod y gymdeithas fodern yn amhersonol. Mae rheolaeth gymdeithasol amherffaith fel hyn yn arwain at broblemau cymdeithasol, gan gynnwys troseddu a gwyredd. Os yw unigolion yn troseddu, maent yn ymateb i gymdeithas batholegol, yn gwrthryfela yn erbyn rhaniad llafur sy'n creu'r straen cymdeithasol. Pan fydd problemau o fewn rhaniad llafur, bydd y berthynas alwedigaethol yn seiliedig ar weithio drwy gytundeb. Mae hyn yn gosod strwythur moesol gwael sy'n gallu arwain at weithgarwch troseddol eang. Yn ogystal, dadleuodd Durkheim fod rheolaeth aneffeithiol yn fwy tebygol o ddigwydd mewn cyfnod o ansefydlogrwydd a moderneiddio cyflym, gan nad yw'r rheolaeth wedi datblygu'n ddigonol i gymryd lle'r hen drefn.

## 7.3 Anomie

Defnyddiwyd y term *anomie* am y tro cyntaf yn *Division of Labour in Society* yn 1893. Mae'r cysyniad yn disgrifio'r cyflwr o 'ddadreoleiddio' a ddigwyddodd yn y gymdeithas organig. Yn aml, ystyrir *anomie* yn gyflwr o ddiffyg normau a all arwain at wyredd. Mae *anomie* yn gwneud drwg i'r gymdeithas gan ei fod yn achosi niwed i wead moesol y gymdeithas. Dyma sy'n digwydd pan fydd moesoldeb yn colli ei afael ar bobl. Mae gwerthoedd moesol o gymorth i lywio ymddygiad a gweithredu yn y gymdeithas drwy osod rhwystrau ar yr hyn a allwn neu y dylem ei wneud.

Os bydd gwerthoedd a rheolau moesol yn cael eu niweidio, bydd hynny'n caniatáu i chwantau sylfaenol yr unigolyn ailgodi i'r wyneb, yn ôl Durkheim. Gall hyn arwain at ymdeimlad o aflonyddwch ac anfodlonrwydd ymhlith dinasyddion, sy'n ymdrechu'n gyson ac yn ddiddiwedd. Bryd hynny, bydd unigolion bob amser yn gweithredu ar fympwy eu dyheadau yn hytrach na dilyn cod moesol.

Gan gyfuno syniadau am *anomie*, solidariaeth organig a chydgydwybod, gallwn weld bod *anomie* yn fygythiad difrifol i gymdeithas. Gall greu 'anhwylder dyheu'n ddi-ben-draw', sef y cyflwr o beidio byth â bod yn fodlon, o chwenychu am fwy, gan nad oes gan unigolion unrhyw derfynau wedi eu gosod gan foesau a rheolau ymddygiad. Yn sgil diffyg rheoli normau, ni ellir ffrwyno anghenion yr unigolyn, a dylai'r gymdeithas newydd eu rheoli drwy roi gwobrau a gosod sancsiynau priodol. Gyda diffyg rheolau clir a phendant, mae'n anodd i unigolion addasu i amgylchiadau newydd, ac mae hyn yn ei dro yn arwain at anfodlonrwydd, gwrthdaro a gwyredd.

Credai Durkheim fod cymdeithas gyfoes y Gorllewin wedi cyrraedd mesur o gymhlethdod fel ei bod mewn stad barhaus o *anomie*. Mewn cyfnodau o ddirwasgiad yn y gymdeithas fodern, mae cyfraddau troseddu uwch, hunanladdiad a gwyredd yn anorfod. Credai Durkheim nad yw ychwanegu mwy o reolau bob amser o gymorth, gan eu bod yn gwneud mwy o weithredoedd yn droseddol, ond bod rhy ychydig o reolau yn arwain at *anomie*. Gallwn weld felly sut y dadleuodd Durkheim fod troseddu'n swyddogaethol bwysig gan ei fod yn caniatáu datblygu cymdeithas iach, er mwyn i'r gymdeithas ei hun addasu, newid ac ailffurfio. Mae troseddu hefyd yn swyddogaethol gan ei fod yn atgoffa unigolion o normau a rheolau cymdeithasol.

## 7.4 Gwerthusiad

Dylanwadodd Durkheim ar waith swyddogaethwyr strwythurol wrth drafod normau a gwerthoedd a phrosesau cymdeithasoli, tra bo eraill wedi defnyddio'i ddadl ar swyddogaeth troseddu. Adeiladwyd ar ei syniadau ar ddeall ymateb cymdeithasol i droseddolrwydd, a daeth yr esboniadau cymdeithasegol ar ddad-drefniad cymdeithasol ac *anomie* yn sylfaen i astudiaethau ar droseddu a rheoli troseddu. Gellir dweud hefyd fod ei waith yn adlewyrchiad cynnar o'r ddamcaniaeth labelu oherwydd ei ddiffiniad o droseddu a gwyredd.

### 7.5 Gweithgaredd

1. Pam bod honiad Durkheim fod troseddu yn swyddogaethol mor ddadleuol?
2. Wrth drafod troseddu, ai patholeg gymdeithasol ynteu patholeg yr unigolyn sydd wedi eich argyhoeddi fwyaf?
3. Cymharwch a gwrthgyferbynnwch solidariaeth fecanyddol ac organig Durkheim.

## Deunydd darllen ychwanegol

Ceir e-lyfrau Cymraeg ar Durkheim ym Mhorth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; gweler y dolenni canlynol:
https://www.porth.ac.uk/cy/collection/y-meddwl-modern-durkheim-huw-morris-jones
https://www.porth.ac.uk/cy/collection/be-ddywedodd-durkheim-ellis-roberts-a-paul-birt

Downes, D. a Rock, P. (2003), 'Functionalism, deviance and control', yn: *Understanding Deviance*. Oxford: Oxford University Press.

Durkheim, E. (1895/1982), 'Rules for the distinction of the normal from the pathological', yn: *The Rules of Sociological Method* ([1895] 1982). New York: Free Press.

Durkheim, E. (1970), *Suicide: a study of sociology*. New York: Free Press.

Wilkinson, I. (2009), 'Emile Durkheim', yn: Hayward, K., Maruna, S., a Mooney, J. (goln), *Fifty Criminological Thinkers*. London: Routledge.

Vold, G., Bernard, T. a Snipes, J. (2002), 'Durkheim, anomie and modernization', yn: *Theoretical Criminology*. Oxford: Oxford University Press.

# 8

# Damcaniaeth Straen Cymdeithasol a Diwylliannol



# 8

# Damcaniaeth Straen Cymdeithasol a Diwylliannol

Roedd Robert K. Merton, oedd yn ysgrifennu ar drefn cymdeithas yn 1938, yn ffigur allweddol o fewn y traddodiad swyddogaetholdeb strwythurol (*structural-functionalism*). Cynigia'r traddodiad hwn fframwaith sy'n esbonio cymdeithas fel system gymhleth gyda'i rhannau'n gweithio â'i gilydd er mwyn hybu undod a sefydlogrwydd cymdeithasol. Daeth ei waith yn gyfraniad pwysig wrth astudio troseddu a gwyredd mewn troseddeg a chymdeithaseg. Benthycodd syniadau Durkheim ar *anomie* a chydnabyddir ei waith o fewn y traddodiad 'damcaniaeth straen' (*strain theory*) mewn troseddeg.

Fel Ysgol Chicago (*gweler pennod 9*) gwrthododd Merton y syniadau am unigolyddiaeth wrth egluro troseddu, ac ymestynnodd syniadau Durkheim hefyd. Roedd ei ddiddordeb mewn darganfod pa ddiffygion cymdeithasol oedd yn creu gwyredd. Dadleuodd fod troseddu a gwyredd yn codi mewn ymateb i straen cymdeithasol ac yn deillio o'r cyfuniad o ddiwylliant ar y naill law a strwythur y gymdeithas ar y llall.

### 8.1 Y 'Freuddwyd Americanaidd'

Prif ganolbwynt Merton oedd y gymdeithas Americanaidd. Yn ôl Merton, roedd y 'Freuddwyd Americanaidd' yn cymdeithasoli unigolion i amcanion diwylliannol megis llwyddiant materol. Ar y llaw arall, roedd strwythur y gymdeithas un ai'n darparu cyfleoedd ar gyfer symudedd cymdeithasol neu rwystrau cyfreithiol i unigolion. Petai bwlch rhwng yr amcanion a strwythur y gymdeithas, byddai 'straen cymdeithasol' yn ymddangos.

Yn ôl Merton, daeth hyn i fod oherwydd gwrthdaro rhwng amcanion diwylliannol y mae'r gymdeithas ei hun yn eu hyrwyddo a'r rhwystrau cymdeithasol sy'n dileu cyfleoedd (Merton, 1938: 260). Geilw Merton y math hwn o gymdeithas yn 'anomig'. Ceir gwyredd fel ymateb i sefyllfaoedd *anomie*.

Er hyn, eglurodd nad yw gwyredd yn deillio'n syml o ddiffyg cyfle. Y ffactor allweddol, yn ôl Merton, yw'r pwyslais y mae'r gymdeithas Americanaidd yn ei roi ar gyrhaeddiad a llwyddiant materol. Os ceir gwrthdaro rhwng amcanion diwylliannol a strwythur y gymdeithas, bydd yr unigolyn yn addasu ei ymddygiad. Ar sail hyn cynigiodd Merton bum math o 'addasiad':

### 8.2 Addasiadau Merton




**Cydymffurfio** – Derbyn amcanion y gymdeithas a'r modd cymeradwy o'u cyrraedd. Credai Merton fod y rhan fwyaf o bobl yn cydymffurfio.

**Cynnal defodau** – Gall unigolyn gadw at amcanion y gymdeithas, a dderbynnir yn ddiwylliannol, er nad ydynt yn debygol o gael eu cyflawni trwy ffyrdd arferol. Mae'r unigolyn yn glynu wrth strwythur sefydliadol er ei fod yn gwybod na fydd yn gallu profi symudedd cymdeithasol. Mae'r unigolyn yn bodloni i aros yn ei unfan. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl sy'n glynu at reolau a'u sefydliad gwaith ac yn cynrychioli biwrocratiaid.

**Arloesi** – Gall unigolyn sy'n cael ei rwystro rhag cyflawni amcanion cymdeithas trwy ddulliau cyfreithlon geisio'u cyflawni trwy ddulliau anghyfreithlon. Mae'n addasu ei ymddygiad ac yn arloesi mewn byd troseddol. Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddu trefnedig.

**Encilio** – Mae'r unigolyn yn gwrthod amcanion y gymdeithas, a dderbynnir yn ddiwylliannol, a'r dulliau arferol o'u cyflawni. Mae'r unigolyn sy'n encilio yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau neu alcohol ac yn mabwysiadu ffurf negyddol o wyredd. Mae'n rhan o'r gymdeithas ond yn ystyried ei fod yn ymylol iddi.

**Gwrthryfela** – Gall unigolyn sy'n methu cyflawni amcanion cymdeithas a'r dulliau cymeradwy o'u cyflawni wrthod yr amcanion hynny, a'u disodli ag amcanion newydd. Mae'r unigolion hyn yn eu gweld eu hunain ar wahân. Roeddent yn aml yn gysylltiedig ag achos arbennig, oedd yn amrywio o aelodaeth gangiau stryd neu fudiadau terfysg. Pwysleisir gwrthryfela a gwrthod y drefn gymdeithasol yn llwyr.

Er bod Merton yn cydnabod problemau gydag ystadegau troseddu a'i fod wedi cyfeirio at droseddu coler wen, mae'n casglu bod gwyredd yn deillio o dlodi. Mae'n ei gysylltu â diffyg cyfle cyfartal. Honnodd Vold (2002) fod astudiaeth Merton yn cynnig dadl ddiwylliannol er mwyn egluro troseddu yn y gymdeithas Americanaidd, a dadl strwythurol i egluro'i ddosbarthiad anghyfartal. Daeth gwaith Merton i ddylanwadu ar weinyddiaeth llywodraeth F. D. Roosevelt drwy raglenni cyfle cyfartal.

## 8.3 Gwerthusiad

- Ystyrir bod gwaith Merton wedi tynnu sylw troseddeg at amgylchiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n arwain at droseddu o fewn strwythur y gymdeithas.
- Mae tuedd i ddibynnu ar ystadegau swyddogol fel arwyddion o natur a dosbarthiad troseddu. Roedd gwaith Merton yn syrthio i'r un fagl. Yn cyd-fynd â hyn yr oedd y duedd i ragfynegi a chanolbwyntio ar droseddu ymysg y dosbarthiadau is. Ceir elfen o aneglurder hefyd ynghylch troseddu gan y dosbarth canol a'r cyfoethog.
- Mae addasiadau Merton yn anodd eu categorïo. Nid yw Merton yn egluro pam mae unigolyn yn dewis un addasiad yn hytrach nag un arall.
- Tueddir hefyd i dderbyn cysyniad y 'Freuddwyd Americanaidd' yn ddigwestiwn a gorbwysleisio'r amcanion cymdeithasol a diwylliannol. Nid yw'r ddamcaniaeth yn egluro gwyredd/troseddu lle nad yw'r cymhelliad yn un ariannol. O ganlyniad, nid yw damcaniaeth Merton felly'n egluro troseddu yn erbyn y person.
- Er bod gwyredd yn rhan o strwythur cymdeithas, dadansoddir yr ymateb o safbwynt yr unigolyn yn hytrach nag ymateb ar y cyd.
- Mae'n anwybyddu rheolaeth gymdeithasol wrth lunio gwyredd.

## 8.4 Gweithgaredd

1. Eglurwch y gwahaniaeth rhwng *anomie* Durkheim a Merton.
2. Gwerthuswch yn feirniadol y prif addasiadau yn astudiaeth Merton.
3. Paham mae straen cymdeithasol yn creu tebygolrwydd o droseddu?

### Deunydd darllen ychwanegol

Agnew, R. (1992), ‘Foundation for a general strain theory of crime and delinquency’, *Criminology*, 30, 47–87.

Cloward, R. A. ac Ohlin, L. (1960), *Delinquency and Opportunity*. New York: Free Press.

Cohen, A. (1955), *Delinquent Boys: the culture of the gang*. New York: Free Press.

Downes, D. a Rock, P. (2003), *Understanding Deviance*. Oxford: Oxford University Press.

Merton, R. K. (1938), ‘Social structure and anomie’, *American Sociological Review* 3(5) 672–82.

Vold, G., Bernard, T. J. a Snipes, J. (2002), *Theoretical Criminology*. 5ed argraffiad. New York: Oxford University Press.

# 9

# Ysgol Chicago

# 9

# Ysgol Chicago

Sefydlwyd yr adran gymdeithaseg gyntaf yn 1892 ym Mhrifysgol Chicago. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif roedd yr adran yn cael ei chydnabod fel adran safonol ym mywyd cymdeithasegol America (Tierney, 1996). Cyfeirir at yr academyddion yno fel 'Ysgol Chicago' ac roeddent yn gyfuniad o gymdeithasegwyr a throseddegwyr. Eu prif ffocws oedd troseddeg, ond mae sawl prif thema'n rhedeg drwy eu hastudiaethau, gan gynnwys seicoleg gymdeithasol a chymdeithaseg drefol.

Un o themâu cyson Ysgol Chicago oedd fod ymddygiad dynol yn datblygu ac yn newid oherwydd yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol, yn hytrach na thrwy strwythur genynnol. Ystyrid y gymdeithas fel y prif ddylanwad ar ymddygiad dynol ac mai'r ddinas oedd yr amgylchedd dynol naturiol a'i bod yn ficrosom o'r byd dynol.

Eglurwyd troseddu a chyfraddau troseddu fel problem gymdeithasol, a bod troseddu'n gysylltiedig â dad-drefniad cymdeithasol, lle roedd rhwydweithiau teulu a chymuned wedi gwanhau. Gydag ychydig yn unig o integreiddio, gwelwyd cynnydd yn y cyfraddau troseddu. Barn yr academyddion hyn oedd mai rhywbeth patholegol oedd bywyd cymdeithasol, a bod ymddygiad troseddol yn ymateb i sefyllfaoedd annormal. Derbyniwyd y syniad fod troseddu yn rhan o broses o addasu ac esblygu, ei fod yn anorfod ac y dylai'r llywodraeth ymyrryd i wella seiliau'r drefn gymdeithasol o fewn ardaloedd troseddol y ddinas.

### 9.1 Arloesedd Methodolegol

Mae'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gan Ysgol Chicago i astudio unigolion a'r ddinas yn gyfraniadau gwerthfawr i gymdeithaseg a throseddeg. Roedd eu cyfraniadau'n datblygu cymdeithaseg empirig tu hwnt i athroniaeth gymdeithasol drwy astudio unigolion yn eu cynefin a'u hamgylchedd cymdeithasol. Defnyddiwyd ymchwil fywgraffyddol ddwys i ddehongli'r ffactorau oedd yn mowldio bywydau unigolion. Roedd yr ymchwilwyr eu hunain yn cyfarfod â'r bobl hyn – troseddwyr ifanc â'u bywydau ynghlwm â chyffuriau – yn sgwrsio, yn byw ac yn bwyta gyda nhw. Byddai'r ymchwilwyr yn dadansoddi ymddygiad y bobl hyn yn eu hamgylchedd naturiol, boed yn y slym neu ar gongl y stryd. Dyma oedd yr ecoleg ddynol: dehongli pobl yn eu cynefin naturiol. Am y rheswm hwn, cyfeirir at Ysgol Chicago fel yr Ysgol Ecolegol.

Yn ogystal, rhoddid pwyslais ar gasglu data cymdeithasol a fyddai o gymorth i ddeall nodweddion grwpiau mawr o bobl. Drwy gyfuno'r wybodaeth a gasglwyd yn yr astudiaethau unigol ac ystadegau demograffig, lluniwyd fframwaith ymchwil arloesol a ddaeth yn sylfaen i nifer o ddamcaniaethau troseddeg ers hynny.

## 9.2 Datblygiad Chicago

Roedd diwydiannu wedi arwain ysgolheigion i gredu mai'r ddinas oedd yn gyfrifol am broblemau cymdeithas. Roeddent yn ysgrifennu mewn cyfnod cythryblus yn sgil mewnfudo i America o wledydd Ewrop. Datblygodd Chicago yn gyflym, gyda llafur rhad yn tyrru i Chicago  i chwilio am waith. Rhwng 1898 ac 1930, trawsffurfiodd mewnfudwyr y gymdeithas o dref fechan yn gymdeithas gymhleth a thrawiadol (Cressey, 1938; Lilly, Cullen a Ball, 2002).

Wrth i ddiwydiannu gyrraedd ei anterth, digwyddodd dau beth: yn gyntaf, fod datblygiadau technolegol yn golygu bod gweithwyr medrus yn colli eu gwaith ac, yn ail, fod hynny'n arwain at broblemau cymdeithasol lu, fel tai ansafonol, digartrefedd, a gangiau o droseddwyr ifanc. Roedd llawer o'r mewnfudwyr wedi gadael teuluoedd agos a chymunedau clòs i chwilio am waith, ac mewn cyfnodau o ddirwasgiad nid oedd neb ar gael i gynnig cymorth mewn adegau o straen a ddeilliai o dlodi a diweithdra. Roedd bywyd cymdeithasol yn amherthnasol, ac yn ei dro daeth dad-drefniad cymdeithasol yn un o'r prif resymau dros fodolaeth troseddu. Arweiniodd hyn at ddatblygu mudiadau gwaith cymdeithasol a rhaglenni adsefydlu yn ystod 1920au a'r 1930au. Roedd ymchwilwyr yr adran yn credu'n gryf mewn darganfod beth oedd yn cymell troseddu, a cheisio adsefydlu cymdeithas drwy ehangu rhaglenni cyflogi a diwygio.

## 9.3 Damcaniaeth Ecolegol A Dad-Drefniad Cymdeithasol

Cyfraniad pwysicaf Ysgol Chicago, efallai, oedd gwaith yr awdur Robert Park (1921). Roedd yn gweld y ddinas yn debyg i gorff organig ac iddo wahanol rannau. Anfonodd Park ei fyfyrwyr i astudio'r organau gwahanol o fewn y 'bywyd cymdeithasol' (Burke, 2009). Sefydlodd fframwaith ymchwil sylfaenol drwy egluro'r ddinas fel system ecolegol, ac arweiniodd hyn at gynnal nifer o astudiaethau ethnograffig. Wrth ymchwilio i fywyd y ddinas, roedd modd deall bod y gymdeithas yn gorfod addasu i fewnlifiad o fusnesau a phobl, a fyddai'n arwain at straen enfawr. Gwrthododd Park syniadau unigolyddiaeth drwy ddadlau bod cyfraddau troseddu uchel yn parhau, hyd yn oed wedi i'r trigolion yn gyffredinol adael y ddinas (Tierney, 1996).

## 9.4 Chicago Fel Cyfres O Barthau

Cyflwynodd Ernest Burgess (1925) fap o'r ddinas fel cyfres o barthau. Yn y canol yr oedd parth yr ardal fusnes, yn cynnwys busnesau, ffatrïoedd ac ychydig o dai. Y parth nesaf oedd y parth trawsnewid, â busnesau a ffatrïoedd yn agos ato. Yma yr oedd trigolion mwyaf tlawd Chicago'n byw, yn cynnwys mewnfudwyr oedd yn ceisio dod o hyd i waith. Po fwyaf yn y byd y symudir o'r parth canolog, y lleiaf oedd y problemau cymdeithasol. Y syniad sylfaenol oedd fod twf dinas, a lleoliad ardaloedd a phroblemau cymdeithasol, yn rhan o batrwm ac nad oedd hyn yn digwydd ar siawns. Y parth nesaf oedd parth cartrefi'r gweithwyr; roedd hwn yn cynnwys y dosbarth gweithiol sefydledig yn ogystal â thon newydd o fewnfudwyr oedd yn ceisio gwella'u byd. Roedd y parthau eraill yn barthau preswyl a maestrefol cefnog. Defnyddiwyd cysyniad Burgess o batrwm parthau i egluro twf dinesig a daeth yn sylfaen i'r Ysgol wrth egluro'r cysylltiad rhwng troseddu a phobl ifanc.

Rhoddwyd syniadau Burgess ar waith gan Clifford Shaw a Henry McKay (1942), a edrychodd ar ddosbarthiad troseddu ymhlith pobl ifanc yn y ddinas. Cadarnhaodd eu hastudiaeth ddamcaniaeth

ecoleg drefol Park a Burgess. Dadleuwyd bod troseddu ymhlith pobl ifanc yn y parth trawsnewid yn gysylltiedig â dad-drefniad cymdeithasol. Gydag absenoldeb rheolaeth y teulu a'r gymuned, roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o droseddu. Defnyddiodd y ddau ddull hyn i gyflwyno ymchwil flaengar a gysylltir ag Ysgol Chicago, sef hanes bywgraffyddol drwy gyfweliadau dwys ac arsylwi ar gyfranogwyr er mwyn deall ymddygiad pobl ifanc.

Ehangwyd ar ddamcaniaeth yr ecoleg drefol drwy'r cysyniad o drosglwyddiad diwylliannol *(cultural transmission)*. Yma roedd gwaith Shaw a McKay yn benthyg o ryngweithiadaeth symbolaidd (*symbolic interactionism)***.** Sefydlwyd bod gwyredd mewn ardaloedd troseddol yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Roedd hyn yn egluro troseddu ymhlith yr ifanc a'i fod yn deillio o ddysgu troseddu mewn ardaloedd troseddol. Darganfuwyd bod y bobl ifanc yn cael eu hannog i ddilyn bywyd troseddol drwy eu brodyr ac aelodaeth o gangiau pobl ifanc. Ystyriwyd astudiaeth Shaw a McKay fel damcaniaeth integredig gan fod eu syniadau'n egluro nifer o ddylanwadau o fewn yr amgylchedd a'i bod yn ymwneud â rheolaeth wan a dysgu gwerthoedd diwylliannol troseddol gan eraill.

Gellir ystyried mai'r gangen trosglwyddiad diwylliannol oedd yr un fwyaf dylanwadol a llwyddiannus Ysgol Chicago gan ei fod wedi sefydlu ar y dull ymchwil ryngweithiadaeth symbolaidd. Deilliodd o'r syniad fod ymddygiad dynol yn gynnyrch symbolau cymdeithasol. Y syniad sylfaenol yw fod y meddwl a'r hunan yn bethau allanol, gan eu bod yn gynnyrch amgylchedd cymdeithasol. Yn y broses o gyfathrebu mae pobl yn eu diffinio'u hunain ac eraill. Mae hyn yn effeithio ar y ffordd y maent yn dehongli'r byd, sy'n golygu y gellir ei gamddehongli hefyd. Roedd y strategaeth ymchwil hon yn caniatáu i'r ymchwilwyr bortreadu ffordd o ddehongli'r byd a cheisio egluro gwrthdaro a throseddolrwydd pobl ifanc.




| | |
|---|---|
| **A** | **Rhanbarth busnes Canolog** |
| **B** | **Cylch Newid** |
| **C** | **Cylch Cartrefi Gweithwyr** |
| **D** | **Cylch Maestrefol** |
| **E** | **Parth Cymudwyr** |

Burgess and Parks' Comcentric Zones

## 9.5 Gwrthdaro Diwylliannol

Defnyddiwyd y cysyniad hwn i egluro gwyredd yn Chicago gan fod gwrthdaro diwylliannol yn nodweddiadol o'r gymdeithas. Roedd yn un o'r prif brosesau cymdeithasol a ddeilliai o'r gwahaniaeth mewn gwerthoedd a diwylliant. Benthycodd Sellin y syniadau o ysgrifau a dulliau Ysgol Chicago yn ei astudiaeth, *Culture Conflict and Crime*, yn 1938.

Deilliodd syniadau Sellin (1938) o'r normau sy'n rheoli ymddygiad. Credai fod ymddygiad a normau'n gwahaniaethu o un diwylliant i'r llall. Cyflwynodd y syniad o wrthdaro diwylliannol gan ddefnyddio'r cysyniad o wrthdaro cynradd ac eilaidd. Yn y cyntaf, deillia'r gwrthdaro o ddau ddiwylliant gwahanol, sef mewnfudwyr Chicago nad oeddent yn deall cyfraith a diwylliant arall; golygai hyn eu bod yn torri rheolau newydd gan nad oeddynt wedi arfer â hwy. Deilliai'r gwrthdaro eilaidd o'r isddiwylliannau eraill oedd yn bodoli. Rhoddent hwy bwyslais ar lunio'u gwerthoedd eu hunain a chreu digon o wahaniaeth rhyngddynt a'r diwylliant brodorol. Roedd asiantaethau'r llywodraeth yn ymateb mewn fframwaith cyfreithiol gan ddefnyddio gwerthoedd dosbarth canol, oedd yn creu mwy o wrthdaro.

## 9.6 Damcaniaeth Dysgu Troseddu

Maes o law daeth gwaith Shaw a McKay yn sylfaen ar gyfer damcaniaeth Edwin Sutherland ar ddysgu troseddu. Roedd Sutherland yn rhan o Ysgol Chicago yn yr 1930au. Er bod ei waith yn cynnig trywydd gwahanol, roedd craidd ei syniadau'n seiliedig ar ddad-drefniad cymdeithasol**.** Credai Sutherland fod patrwm troseddu'n dibynnu ar gyswllt â diwylliant. Dadleuai fod grwpiau cymdeithasol yn cael eu trefnu mewn sawl ffordd wahanol; mae rhai wedi'u trefnu i gefnogi gweithgaredd troseddol, ac eraill wedi'u trefnu yn erbyn ymddygiad o'r fath.

Dysgir ymddygiad troseddol wrth ryngweithio ag unigolion eraill mewn proses gyfathrebu. Pan ddysgir ymddygiad troseddol, mae'r dysgu'n cynnwys:

(a) technegau gwahanol i gyflawni'r drosedd;
(b) beth sy'n cymell y drosedd;
(c) diffinio'r cod troseddol (a yw'n fanteisiol neu'n anfanteisiol).

Credai Sutherland fod damcaniaeth dysgu troseddu yn esboniad cyffredinol y gellid ei gymhwyso i fathau amrywiol iawn o weithgaredd anghyfreithlon. O'r 1940au ymlaen ehangwyd ar y ddamcaniaeth dysgu troseddu drwy ymbellhau oddi wrth astudio troseddwyr ifanc yn unig. Roedd ei astudiaeth yn 1937 ar y lleidr proffesiynol yn astudiaeth o droseddu coler wen a gyflawnid gan bobl o statws cymdeithasol uchel. Dadleuai fod troseddu'n gyffredin ym myd busnes, gwleidyddiaeth a'r proffesiynau, ac y gallai'r ddamcaniaeth dysgu troseddu egluro troseddu coler wen a chorfforaethol, yn ogystal â throseddu ymhlith troseddwyr ifanc mewn parthau trawsnewid cymdeithasol.

## 9.7 Gwerthusiad

- Er mor wahanol yw safbwyntiau nifer o academyddion Ysgol Chicago, ystyrir bod gwaith yr Ysgol yn bositifiaethol, ond fod iddo ddehongliad cymdeithasegol mwy soffistigedig, yn enwedig y gangen gwrthdaro diwylliannol a ddaeth yn ddylanwadol iawn. Golyga hyn fod yr Ysgol wedi gallu newid cyfeiriad i ystyried dylanwad rhwydweithiau diwylliannol yn hytrach na chonsensws a dad-drefniad cymdeithasol yn unig.
- Ehangwyd ar y syniad o batholeg gymdeithasol gan gyfeirio at batholeg y ddinas, a chyflwynwyd methodoleg arloesol mewn ymdrech i'w ddeall. Cafodd ddylanwad arwyddocaol ar safbwyntiau cymdeithasegol mewn troseddeg. Roedd defnydd yr Ysgol o arsylwi ar gyfranogwyr a chyfweliadau'n ymwneud â hanes bywgraffyddol yn allweddol, ac mae wedi dylanwadu ar waith ethnograffig diwylliannol diweddarach.
- Beirniadwyd yr Ysgol am beidio â chanolbwyntio ar droseddu trefnedig Chicago a throseddu coler wen, a chollwyd cyfle euraid i wneud hynny. Roedd academyddion yr adran yn ysgrifennu yn y cyfnod pan oedd Chicago dan waharddiad alcohol, cyfnod y *speakeasies* tanddaearol, gamblo, rheolaeth llafur, cribddeiliaeth, y 'mob' a dylanwad Al Capone, a lefel uchel o lygredd ymhlith uwch-swyddogion a gwleidyddion.
- Mae'n anodd categoreiddio gwaith Ysgol Chicago fel damcaniaeth strwythurol neu broses, yn bennaf oherwydd bod aelodau gwahanol wedi canolbwyntio ar ffactorau gwahanol wrth egluro'r gymdeithas.
- Ystyrir mai'r gangen gwrthdaro diwylliannol oedd cangen fwyaf llwyddiannus yr Ysgol gan ei bod yn cynnwys astudiaethau ethnograffig oedd yn ymwneud ag ymddygiad. Er hyn, nid eglurwyd yn ddigonol sut roedd diwylliant yn cael ei drosglwyddo'n ddiwylliant troseddol ymhlith pobl ifanc.
- Bu'r Ysgol hefyd yn hynod gynhyrchiol o ran ei dylanwad ar bolisi a llywodraeth America. Credai Shaw a McKay fod adfywio a datblygu cymdeithasol yn gorfod deillio o'r bobl eu hunain, a'u bod hwythau'n gweithio gyda hwy er mwyn cynnig cymorth i ddysgu sgiliau, helpu i ennill grym gwleidyddol a sefydlu prosiectau gyda throseddwyr ifanc.

## 9.8 Gweithgaredd

1. A yw damcaniaeth Burgess (1925) ar barth trawsnewid yn egluro'r patrwm troseddu lleol ym Mae Colwyn a'r wardiau cyfagos heddiw?

   Archwiliwch yr ystadegau troseddu ar wefan mapio troseddu PoliceUK mewn modd beirniadol: https://www.police.uk/pu/your-area/?search=1

   Lluniwch ymateb i'r cwestiwn isod:

   i) Beth mae patrwm y data troseddu yn ei ddangos inni?
   ii) Pa mor effeithiol yw egluro troseddu cyfoes gan ddilyn y gangen ecoleg drefol?

3. Eglurwch beth yw ystyr parth trawsnewid a beth yw ei bwysigrwydd.

### Deunydd darllen ychwanegol

Anderson, N. (1975), *The Hobo: the sociology of the homeless man*. Chicago: Chicago University Press.

Burke, R. H. (2009), *An Introduction to Criminological Theory*. Cullumpton, Devon: Willan Publishing.

Liebling, A., Maruna, S. a McAra, L. (2017) (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, 6ed argraffiad. Oxford: Oxford University Press.

Park, R. E., Burgess, E. W. a McKenzie, R. D. (1925) (goln), *The City*. Chicago: Chicago University Press.
Shaw, C. R. a McKay, H. D. (1942), *Juvenile Delinquency and Urban Areas*. Chicago: Chicago University Press.

Sutherland, E. (1942), *Principles of Criminology*. Philadelphia: J. P.Lippincott.

Tierney, J. (1996), *Criminology, Theory and Context*. London: Pearson Longman.

Vold, G., Bernard, T. a Snipes, J. (2002), *Theoretical Criminology*. Oxford: Oxford University Press.

10

# Straen, Isddiwylliant a Throseddu gan Bobl Ifanc



# 10

# Straen, Isddiwylliant a Throseddu gan Bobl Ifanc

Yn ystod y 1950au a'r 1960au roedd damcaniaethau troseddeg yn canolbwyntio ar droseddu a gwyredd ymhlith pobl ifanc. Ceisiodd y damcaniaethwyr egluro tarddiad rhwydweithiau gangiau a sut mae gangiau gwahanol wedi datblygu. Roedd gan astudiaethau Americanaidd cynnar ddiddordeb mewn archwilio pam yr oedd bechgyn ifanc dosbarth gweithiol yn cael eu denu at isddiwylliant troseddol. Mae'n anodd categoreiddio'r astudiaethau gan eu bod i gyd yn cyfrannu elfennau gwahanol. Nid yw rhai ohonynt yn diffinio'u hunain o fewn traddodiad straen Merton ac maent weithiau'n gyfuniad o Ysgol Chicago a damcaniaeth Sutherland ar ddysgu troseddu.

Mae gwaith cymdeithasegwyr sy'n ymchwilio i droseddu ym Mhrydain yn rhannu elfennau tebyg i astudiaethau o isddiwylliannau America, ac yn gryf yn empirig o fewn traddodiad y dulliau cymunedol ethnograffig. Mae eu gwaith yn perthyn yn nes at draddodiad Ysgol Chicago na damcaniaethwyr straen cymdeithasol. Canolbwyntir ar droseddwyr ifanc, gan gymryd yn ganiataol fod troseddu'n deillio o blith dynion dosbarth gweithiol is. Yn bwysicach, mae'r gweithiau hyn yn adlewyrchu datblygiad cyd-destun diwylliannol-gymdeithasol troseddu. Yn ddiddorol, roedd canolbwynt yr astudiaethau ym Mhrydain yn rhydd o ddylanwad gangiau troseddol.

### 10.1 Isddiwylliant yn Cynnal Statws Ymhlith Cyfoedion

Yn ei astudiaeth ar *Delinquent Boys* yn 1955 cynigia Cohen ei fersiwn ei hun o'r ddamcaniaeth straen drwy ganolbwyntio ar syniadau am ddiwylliant ac isddiwylliant troseddwyr ifanc. Defnyddiodd waith Merton ar ddamcaniaeth straen a gwaith Ysgol Chicago ar drosglwyddiad diwylliannol er mwyn archwilio datblygiad isddiwylliant troseddwyr ifanc. Honnodd Cohen fod yr isddiwylliant yn bodoli fel cyfrwng i ddatrys y problemau oedd yn cael eu creu gan y gwrthdaro rhwng gofynion strwythur a diwylliant y gymdeithas.

Drwy edrych ar gangiau o droseddwyr ifanc, archwiliodd y modd yr oedd rhai nad oeddent wedi llwyddo o fewn y system addysg yn ymateb i gyfyngiadau neu straen. Credai fod diffyg cyfle yn llai defnyddiol wrth edrych ar gymhellion y bobl ifanc oedd yn barod i dorri'r gyfraith a chymryd rhan mewn gweithgaredd negyddol fel rhan o ddiwylliant. Yn ogystal, roedd o'r farn fod y dosbarth gweithiol yn wynebu problemau statws, stigma ac euogrwydd ar un llaw, a chasineb ar y llall.

Er y gellir ystyried gwaith Cohen yn debyg i waith Merton wrth iddo bwysleisio statws drwy

lwyddiant addysgol, cystadleuaeth a rhwystredigaethau ynghylch statws yw'r allwedd i ddeall troseddu ymhlith yr ifanc. Dadleuodd Cohen nad yw pobl ifanc bob amser yn chwilio am lwyddiant materol, ond yn hytrach yn chwilio am ystyr wahanol i fywyd, er enghraifft, statws, hunan-barch a bri ymhlith cyfoedion. Drwy ffurfio cyswllt ag eraill mewn sefyllfa debyg, un ai mewn gangiau neu mewn grwpiau cymdeithasol, maent yn gwrthod rhai o werthoedd canolog y gymdeithas. Dyma sut y maent yn ffurfio ymateb drwy greu byd ag isddiwylliant gwahanol lle gellir cyflawni eu statws. Maent yn gwneud hyn oherwydd diffyg cyfle, rhwystredigaeth a stigma gan nad ydynt yn gallu cystadlu yn erbyn cyfoedion o ddosbarthiadau cymdeithasol uwch. Nododd Cohen fod yr ymateb hwn yn mynd yn groes i werthoedd dosbarth canol, gan wrthod statws a gwerthoedd y dosbarth hwnnw. Dadleuodd fod y broses yn gwneud mwy o synnwyr wrth egluro safbwynt negyddol troseddwyr ifanc dosbarth gweithiol, yn hytrach na defnyddio damcaniaeth straen i'w esbonio.

### 10.2 Gwyredd a Chyfle

Themâu canolog yr astudiaeth *Delinquency and Opportunity* gan Cloward ac Ohlin yw'r cyfleoedd gwahanol sydd ar gael i bobl ifanc ymuno ag isddiwylliant. Tynnodd y gwaith ar syniadau Sutherland a'i ddamcaniaeth ynghylch dysgu troseddu. Cyfeiria'r astudiaeth at ddau bwynt allweddol: yn gyntaf, fod strwythur cyfleoedd y gymdeithas yn gwneud i rai pobl fethu, a'u bod o ganlyniad yn datblygu gwyredd; yn ail, fod y strwythur o fewn isddiwylliannau troseddol yn creu eu methiannau eu hunain. Seiliwyd eu dadansoddiad ar y syniad o *anomie* a'r pwyslais ar fethiant economaidd o fewn diwylliant sy'n hybu llwyddiant economaidd. Dadleuwyd bod strwythur a chyfleoedd anghyfreithlon yn cydfodoli â rhai cyfreithlon, ond bod cael mynediad atynt yn haws i rai nag eraill. Credid bod gwahanol adnoddau a chyfleoedd – cyfreithlon ac anghyfreithlon – ar gael i'r grwpiau a'r cymdogaethau hyn.

Yn benodol, nodwyd tri math o isddiwylliant troseddol yn yr astudiaeth:

**Troseddu** – Gangiau'n gweithio'n bennaf er budd ariannol drwy ladrad a bwrgleriaeth. Mae'r math hwn o isddiwylliant yn bodoli mewn ardaloedd lle gall troseddwyr sefydledig hyfforddi'r genhedlaeth iau.

**Gwrthdaro** – Mae'r defnydd o drais yn nodweddiadol o wrthdaro mewn ardaloedd anhrefnus. O fewn yr astudiaeth hon roedd yn anodd cael mynediad at rwydwaith o rolau troseddol i wneud bywoliaeth. Honnai'r astudiaeth fod trais felly'n ymgais i sefydlu statws cymdeithasol.

**Encilio** – Gweithgaredd troseddol yn ymwneud â'r defnydd o gyffuriau ac yn deillio o geisio sicrhau llwyddiant, un ai drwy lwybrau cyfreithlon neu anghyfreithlon. Mae'n datblygu oherwydd problemau statws o ganlyniad i fethiant yn y ddau lwybr, ac yn ffordd o addasu i'r straen.

Datblyga isddiwylliant pan fydd unigolion yn darganfod rhwystrau o fewn strwythur a chyfleoedd, ac o ganlyniad maent yn darganfod dulliau anghyfreithlon o gyflawni amcanion confensiynol.

### 10.3 Techneg Niwtraleiddio

Mae Matza (1964) yn feirniadol o'r ddamcaniaeth straen oherwydd ei bod yn gorbwysleisio

troseddu ymysg pobl ifanc; cred Matza fod pobl ifanc yn cydymffurfio. Gwrthododd y syniad y gellir deall gwerthoedd troseddu pobl ifanc ar sail gwrthdaro yn erbyn gwerthoedd prif ffrwd. Yn hytrach, mae'n tybio mai dim ond mynd ati i lacio rhywfaint ar y cyfyngiadau y mae gwerthoedd systemau awdurdodol yn eu gosod arnynt y mae'r bobl ifanc. Pwysleisir gwerthoedd tanddaearol sy'n cynnwys cyffro, caledwch a gwrthod byd gwaith, gan gyfiawnhau eu hymddygiad a'u gweithredoedd ar sail 'technegau niwtraleiddio'. Cyfiawnheir eu hymddygiad gan nad yw'n cael ei ystyried yn wyredd ganddynt.

### 10.4 Gwerthoedd diwylliannol y dosbarth gweithiol

Ymchwil ethnograffig ar ymddygiad ac agweddau gangiau pobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig ger Boston yw cynnwys astudiaeth Miller (1958). Archwilir sut yr oedd grwpiau'n arddangos normau a gwerthoedd amrywiol y dosbarth gweithiol. Tybiai Miller fod eu troseddu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r gwerthoedd dosbarth gweithiol o fewn eu cymdogaeth ac mai'r hyn oedd yn bwysig iddynt oedd gwydnwch, cynnwrf, clyfrwch, trwbl, ymreolaeth a ffawd.

Credai fod goruchafiaeth rolau merched o fewn y teulu ac absenoldeb rôl dynion yn arwain at ffordd o fyw wrywaidd a chaled ar y stryd. Soniodd fod y bobl ifanc yn ystyried bod eu dyfodol eisoes wedi ei dynghedu. Dadleuodd fod gwerthoedd diwylliannol y dosbarth gweithiol yn wahanol iawn i ddiwylliant a gwerthoedd prif ffrwd. Yn bwysicach efallai, honnai nad cynnyrch methiant i gwrdd â gofynion dosbarth canol oedd eu troseddu, ond yn hytrach ei fod yn cydymffurfio â normau'r dosbarth gweithiol.

### 10.5 Tyfu I Fyny Yn Y Ddinas

Canolbwynt astudiaeth Mays (1954) oedd ardal ddifreintiedig yng nghanol dinas Lerpwl. Prif ddadl Mays oedd fod troseddu yn eang yno a'i fod yn deillio'n naturiol o'r broses gymdeithasoli yn hytrach na'i fod yn addasiad i straen yn eu bywydau. Defnyddiodd Mays y cysyniad o isddiwylliant i ddisgrifio'r gwerthoedd o frwydro yn erbyn diwylliant y ddinas yn ei chyfanrwydd. Nid oedd yn credu, fel yr oedd Cohen, fod y troseddwyr ifanc yn gwrthryfela yn erbyn cymdeithas ddosbarth canol. Roedd lleiafrif o droseddwyr ifanc yn ymwneud â throseddu difrifol, ond yn gyffredinol cyfeiriodd Mays at ddelwedd o bobl ifanc oedd yn ddifreintiedig – yn gymdeithasol ac yn economaidd – ac yn ceisio gwneud y gorau dan amgylchiadau anodd. Wedi gadael yr ysgol roedd troseddu ymhlith yr ifanc yn gostwng a gwrthodwyd y syniad o yrfa droseddol ymhlith yr ifanc.

### 10.6 Ardal droseddol – ecoleg gymdeithasol

Yn astudiaeth Morris (1957), mabwysiadwyd y syniad o ardal ecoleg droseddol a defnyddiodd hyn fel seilwaith i'w astudiaeth yn Croydon. Er bod pobl yr ardal yn dioddef o dlodi ac amgylchedd difreintiedig, nid oedd y ffactorau'n egluro'n uniongyrchol pam roedd pobl ifanc yn ymwneud ag ymddygiad troseddol. Yn ei ddadansoddiad cyfeiriodd Morris at ddau newidyn pwysig, sef yr angen i werthuso polisïau tai'r awdurdod lleol a dosbarth cymdeithasol. Ystyriai fod penderfyniadau'r adran dai i adleoli teuluoedd 'problematig' ar ystadau yn gallu arwain at y potensial o greu ardaloedd troseddol mewn rhai cymdogaethau. Roedd hyn yn ymddangos yn ddigwyddiad cyson ymhlith dynion ifanc ar 'ystadau problematig' lle roeddynt yn ffurfio isddiwylliant oherwydd eu

bod yn cael eu cymdeithasoli i werthoedd yr ardal a'r bobl oedd yn byw ynddynt. Gellir gweld olion syniadau Ysgol Chicago yma ond awgrymodd Morris, petai'r bobl yn cael eu hadleoli, y byddai'r diwylliant yn symud gyda'u heiddo. Yn ehangach, eglurodd sut roedd rhai'n gwrthod troseddu o ganlyniad i addasu'r ffactorau economaidd-gymdeithasol ymhlith teuluoedd.

### 10.7 Gwreiddiau Dosbarth Gweithiol Dwfn

Ystyrir astudiaeth Downes (1966) fel yr astudiaeth fwyaf arloesol yn ddamcaniaethol o fewn traddodiad isddiwylliant troseddwyr ifanc. Dosbarth gweithiol yn Poplar a Stepney yn Llundain oedd maes ymchwil yr astudiaeth, a datblygodd ddealltwriaeth ddamcaniaethol o isddiwylliant troseddol pobl ifanc drwy ystyried eu gwreiddiau cymdeithasol dwfn.

Dadleuodd Downes fod pobl ifanc yn cydymffurfio â gwerthoedd cymdogaeth ddosbarth gweithiol. Ni ddarganfuwyd unrhyw gyswllt rhwng isddiwylliant troseddol o ganlyniad i wrthdaro â'r diwylliant prif ffrwd. Roedd sgwrs, gwisg ac ymarweddiad y bobl ifanc yn ddathliad o'u dosbarth gwreiddiol, yn hytrach na'u bod yn ceisio efelychu'r dosbarth canol. Ystyrient yr ysgol yn wastraff amser a byddent yn ymadael heb fawr o gymwysterau, ac nid oedd unrhyw ddisgwyliadau ac ymwybyddiaeth o fodlonrwydd swydd. Nid oedd fawr o awydd i ddringo i fod yn aelod o'r dosbarth canol.

Disgrifiodd Downes yr ardaloedd dosbarth gweithiol lle roedd y dynion wedi arfer cydymffurfio â disgwyliadau'r rhai oedd yn byw ar y stryd. Dan yr amgylchiadau, roedd yn anodd iddynt beidio â gwrthdaro â'r heddlu, ond nid oeddynt yn perthyn i gangiau o bobl ifanc. Tybiai Downes fod y bobl ifanc yn ymroi i wyredd troseddol fel datrysiad. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau hamdden oedd yn troi o amgylch bywyd anturus, beiddgarwch, gwydnwch a chyffro. Yn anffodus, oherwydd eu dosbarth cymdeithasol a'u bydolwg, nid oedd fawr o arian ar gael, ac yn amlach na pheidio difyrrwch y byd troseddol oedd yn ganolog i'w bywydau.

### 10.8 Gwerthusiad

Mae'r gwerthusiad hwn yn cynnwys yr astudiaethau Americanaidd a rhai o Brydain. Pwysleisia'r damcaniaethau i gyd natur dorfol troseddu gan dynnu sylw at grwpiau/gangiau, yn hytrach na gwyredd unigolyn. Cred yr awduron y gellir deall gwyredd drwy gyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol, ac nad yw'n gynnyrch biolegol a seicolegol. Mae rhai agweddau hefyd yn pwysleisio amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y dosbarth gweithiol a phwysigrwydd ei rôl wrth ddeall gwyredd.

Cafodd y damcaniaethau hyn sy'n canolbwyntio ar isddiwylliant eu beirniadu'n eang. Rhestrodd Tierney (1996) nifer o'r beirniadaethau hyn:

- **Penderfyniaeth** – Tueddir i orbwysleisio dylanwad strwythur a diwylliant, a thanbrisio dewisiadau ymwybodol a wneir gan unigolion.

- **Dewisol** – Beirniedir damcaniaeth yr isddiwylliant ym Mhrydain oherwydd ei bod yn canolbwyntio'n ddewisol iawn ar rai grwpiau yn unig, gan anwybyddu grwpiau sy'n

cydymffurfio, ac anwybyddwyd merched yn benodol.

- **Cydymffurfio** – Tueddir i orbwysleisio troseddu ymhlith pobl ifanc a'r dosbarth gweithiol. Hyd yn oed yn yr ardaloedd tlotaf nid yw troseddu yn rhan gyson o fywydau pobl ifanc, ac nid ydynt yn ymgymryd â throseddu difrifol bob amser.
- **Rhywedd** – Mae'r astudiaethau ar ethnograffeg isddiwylliannol wedi anwybyddu rhywedd. Tynnwyd sylw at hyn yn ddiweddarach gan ddamcaniaethwyr ffeministaidd isddiwylliannol (McRobbie a Garber, 1976; 1991).
- ***Anomie*** – Mae'n canolbwyntio ar amgylchiadau anomig troseddwyr ifanc ac, fel y dengys Downes ac eraill, mae pobl ifanc yn rhannu'r un gwerthoedd â gwerthoedd prif ffrwd oedolion.

Un o'r cyhuddiadau mwyaf yn erbyn damcaniaethau'r isddiwylliant ym Mhrydain yw eu bod yn cymryd yn ganiataol fod nodweddion arbennig o ran steil, diwylliant, gwisg ac ymddygiad pobl ifanc yn arwydd o wrthdaro. Mae Cohen (2002) yn cwestiynu ystyr 'symbolau' isddiwylliannol a sut rydym yn gallu bod yn sicr nad delweddau yn unig ydynt. Yn ogystal, beirniadodd Cohen ddamcaniaeth yr isddiwylliant ar y sail nad yw'n bosib egluro problemau'r presennol drwy gyfeirio at y gorffennol hanesyddol; yn ogystal, ceir diffyg eglurder pam mae rhai'n cydymffurfio ac eraill yn gwrthryfela. Yn gysylltiedig â hyn y mae beirniadaeth fethodolegol a syniadol gan Downes a Rock (2003) eu hunain. Yn gyntaf, yn eu tyb hwy, mae methiant i archwilio anawsterau syniadol yn rhan o drafferthion methodolegol ehangach wrth ymchwilio i endidau cymhleth a haniaethol fel diwylliant ac isddiwylliant, a mynd ati i'w dadansoddi.

**10.9 Gweithgaredd**

1. Darllenwch yr erthygl isod ac ymatebwch i'r cwestiynau canlynol:

   McCulloch, K., Stewart, A. a Lovegreen, N. (2007), '"We just hang out together": youth cultures and social class', *Journal of Youth Studies*, 9(5), 539–56. Doi/full/10.1080/13676260601020999.

   i) A yw'r cysyniad o isddiwylliant yn berthnasol i ddeall bywydau pobl ifanc heddiw?
   ii) A yw gwahaniaethau a gwerthoedd dosbarth cymdeithasol i'w gweld o fewn isddiwylliant pobl ifanc?

2. Mae i'r term 'gangiau' pobl ifanc ystyr ddiwylliannol a symbolaidd eang. Eto, mae'n cuddio cwestiynau cymhleth am y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol ehangach lle mae prosesau datblygu cymdeithasol a ffurfio hunaniaeth yn digwydd. Darllenwch yr adroddiad isod gan The Centre for Social Justice (2009), *Dying to Belong: an in-depth review of street gangs in Britain*. Mae'r adroddiad ar gael yma: https://www.centreforsocialjustice.org.uk/wp-content/uploads/2009/02/DyingtoBelongFullReport.pdf
   Yna atebwch y cwestiynau canlynol:

   i) Beth yw'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn ymuno â gangiau cyfoes yng Nghymru a Lloegr?
   ii) Beth mae'r adroddiad yn ei argymell fel ymyrraeth lwyddiannus?

## Deunydd darllen ychwanegol

Cloward, R. ac Ohlin, L. (1960), *Delinquency and Opportunity*. London: Collier Macmillan.

Cohen, A. K. (1955), *Delinquent Boys*. London: Free Press.

Cohen, S. (2002), *Folk Devils and Moral Panics*, cyf. 3. London: Routledge.

Downes, D. (1966), *The Delinquent Solution*. London: Routledge & Kegan Paul.

Downes, D. a Rock, P. (2007), *Understanding Deviance*, cyf. 5. Oxford: Oxford University Press.

Liebling, A., Maruna, S. a McAra, L. (2017) (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, 6ed argraffiad. Oxford: Oxford University Press.

Matza, D. (1964), *Delinquency and Drift*. New York: Wiley.

Mays, J. B. (1954), *Growing Up in the City: a study of juvenile delinquency in an urban neighbourhood*. Liverpool: Liverpool University Press.

McCulloch, K., Stewart, A. a Lovegreen, N. (2007), "'We just hang out together": youth cultures and social class, *Journal of Youth Studies*, 9(5), 539–56. Doi/full/10.1080/13676260601020999.

McRobbie, A. a Garber, J. (1976), 'Girls and Subcultures: an exploration', yn: Hall, S. a Jefferson, T. (goln), *Resistance through Rituals*. London: Hutchinson.

McRobbie, A. a Garber, J. (1991), 'Girls and Subcultures', yn: McRobbie, A. (gol.), *Feminism and Youth Culture: from Jackie to Just Seventeen*. London: Macmillan.

Miller, W. B. (1958), 'Lower-class culture as a generating milieu of gang delinquency', *Journal of Social Issues*, 14(3), 5–19.

Morris, T. P. (1957), *Women, Crime and Criminal Justice*. Oxford: Blackwell.

The Centre for Social Justice (2009), 'Dying to Belong: an in-depth review of street gangs in Britain', https://www.centreforsocialjustice.org.uk/wp-content/uploads/2009/02/DyingtoBelongFullReport.pdf

Tierney, J. (1996), *Criminology, Theory and Context*. London: Pearson Longman.

# 11

# Labelu Ymddygiad Troseddwyr



# 11

# Labelu Ymddygiad Troseddwyr

Yn y bennod hon mae'r ffocws o fewn troseddeg yn symud i ffwrdd oddi wrth egluro beth sy'n achosi troseddu i'r syniad o beth sy'n digwydd i bobl sydd wedi torri'r gyfraith. Cymerir yn ganiataol mai'r ymateb mwyaf priodol ar ran y llywodraeth yw'r ymdrech a wneir i erlyn diffynyddion yn llwyddiannus a'u prosesu drwy'r system cyfiawnder troseddol. Tu ôl i'r gred y mae'r syniad fod ymyrraeth y llywodraeth yn lleihau troseddu, un ai drwy gosbi neu drwy adfer (Lily, Cullen a Ball, 2002). Yn ôl y safbwynt hwn, cyfyngedig yw gallu'r system gyfiawnder i atal troseddu a dadleuir mai'r system ei hun yw'r un o'r prif resymau pam y mae troseddwyr yn dewis gyrfa droseddol. Mae tynnu pobl i mewn i'r system yn gwaethygu'r mater. Mae labelu troseddwyr yn broses gymdeithasol. Mae'n creu'r ideoleg neu'r meddylfryd ynghylch yr hyn sy'n briodol/amhriodol mewn cymdeithas, ac yn fater o berthynas grym, a'r cwestiwn allweddol yw pwy sydd â'r pŵer i labelu eraill.

Deillia'r ddamcaniaeth hon o'r 1960au. Dyma'r cyfnod pryd yr ystyrid bod y consensws cymdeithasol wedi dechrau chwalu. Roedd yn gyfnod diwylliant roc newydd a gwrthryfela, â hamdden a diwylliant yn bwysicach na gwaith. Roedd pobl ifanc yn ymwrthod â diwylliant eu rhieni drwy gyfrwng cerddoriaeth, ffasiwn, delwedd ac iaith. Roedd yn gyfnod o bwysleisio hawliau sifil a brwydro drostynt, a'r brif neges oedd gofyn am drawsnewid cymdeithasol sylweddol. Yn ogystal, yn y 1960au dechreuodd gwyddor cymdeithaseg ailystyried cysyniadau cymdeithasol megis trefn a gwyredd (Williams a McShane, 1999).

### 11.1 Dehongli'r Byd

Deillia labelu o'r traddodiad rhyngweithiadaeth symbolaidd *(symbolic interactionism)* mewn cymdeithaseg. Pwysleisia hyn fod angen ystyried yr ystyr tu ôl i weithredoedd cymdeithasol er mwyn deall ymddygiad penodol (Croall, 1998). Mae'r ffordd yr ydym yn dehongli'r byd yn dibynnu ar ein safle a'n lleoliad ynddo. Mae gwneud synnwyr o bethau yn broses gymdeithasol, ac nid yw bywyd cymdeithasol yn sefydlog. Mae ymddygiad weithiau'n wyredd, ond bryd arall nid dyna ydyw.

Mae'r diffiniad o ymddygiad yr unigolyn yn dibynnu ar bwy sy'n ei labelu. Y broses labelu sy'n penderfynu neu'n dylanwadu ar y cysyniad o'r troseddwr. Mae'r stigma'n aros ac yn effeithio ar y ffordd y mae eraill yn dehongli ymddygiad troseddwyr a sut maent yn dehongli eu hymddygiad eu hunain. Canlyniad y stigma yw fod rhai sydd wedi'u labelu'n negyddol nid yn unig yn aildroseddu

ond yn cysuro'u hunain yng nghwmni troseddwyr eraill, yn enwedig pobl ifanc. Mae'r rhai sy'n arddel labelu yn credu na ddylid arestio, barnu na charcharu troseddwyr sy'n cyflawni troseddau llai difrifol. Credant y dylid ymyrryd cyn lleied ag y bo modd ac y dylid dad-droseddoli rhai troseddau lle nad oes dioddefwyr gan fod hynny'n tynnu mwy o unigolion i mewn i'r system gyfiawnder (Schur, 1965; Morris a Hawkins, 1970).

Mae dylanwad labelu'n eang ac yn cynnwys seicoleg gymdeithasol, ffenomenoleg ac ethnomethodoleg. Mae rhesymeg y ddamcaniaeth yn troi o amgylch ymateb unigolyn i sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae pawb yn dysgu sut i ymateb i sefyllfaoedd gwahanol drwy ddarllen symbolau o'u hamgylch. Adeiladir ar hyn drwy ryngweithio cymdeithasol – sut rydym yn ymateb ac yn diffinio'r sefyllfa. Rydym hefyd yn gallu camddehongli pethau.

## 11.2 Proffwydoliaethau Hunangyflawnol

Cysyniad pwysig arall yw proffwydoliaeth hunangyflawnol *(self-fulfilling prophecy).* Mae'r bobl sydd wedi eu labelu'n ymateb drwy wneud yn union yr hyn y maent wedi eu labelu i'w wneud. Mae'n broses gyffredinol ac yn dilyn camau penodol, sef: labelu, stigma, ffurfio hunaniaeth newydd fel ymateb i'r label, ac ymrwymo i'r hunaniaeth newydd a rôl berthnasol.

Mae astudiaeth Becker (1963) yn allweddol i'n hymdriniaeth. Ystyriai fod gwyredd yn ganlyniad i'r broses ryngweithio, â'r gymdeithas ei hun yn labelu ymddygiad yn wyrdroëdig. Canolbwynt astudiaeth Becker oedd pobl ar gyrion cymdeithas, fel y digartref, alcoholigion, defnyddwyr a chamddefnyddwyr cyffuriau. Roeddent ar gyrion cymdeithas oherwydd bod eu hymddygiad wedi ei labelu gan grwpiau pwerus. Credai Lemert (1951) fod dau fath o wyredd, sef gwyredd cynradd a gwyredd eilaidd.

Y math cyntaf yw'r gwyredd gwreiddiol, er enghraifft, yfed dan oed, ysmygu canabis, a dwyn o siopau am resymau seicolegol, diwylliannol a chymdeithasol. Nid yw'r hunan yn newid, na'r hunaniaeth ychwaith. Gweithgaredd dros dro yw'r gwyredd hwn. Prif ffocws y ddamcaniaeth labelu yw gwyredd eilaidd. Mae'n cynnwys ymateb ffurfiol i'r gwyredd cyntaf gan yr heddlu lle mae'r ymddygiad wedi ei labelu a cheir ymddygiad sy'n cyd-fynd â'r statws newydd. Bydd yr hunan a'r ymddygiad yn newid.

Mae pobl ifanc yn agored iawn i'r broses labelu ac yn barod i ymateb i'r labelu hwn. Yn ôl Matza a Sykes (1957), mae pobl ifanc yn symud rhwng dau begwn ymddygiad – confensiynol ac anghonfensiynol, gan gynnwys troseddu – ond heb ymrwymo i'r un o'r ddau. Nododd yr astudiaeth y byddai pobl ifanc yn symud tuag at fywyd confensiynol a phatrwm sefydlog yn y diwedd. Os yw ymyrraeth ac ymateb cymdeithasol yn digwydd yn eu harddegau, gall y broses arwain at wyredd pellach. Awgrymodd Schur (1973) y dylid mabwysiadu agwedd o beidio ag ymyrryd wrth ddelio â phobl ifanc er mwyn osgoi stigma.

## 11.3 Mwyhau gwyredd

Wilkins (1964) a gyflwynodd y syniad o fwyhau gwyredd *(deviancy amplification);* mae'n awgrymu bod gwyredd yn gwaethygu ac yn deillio'n uniongyrchol o wyredd eilaidd. Mae ymddygiad

yr unigolyn wedi'i labelu'n droseddol ac yn gwaethygu, sy'n arwain at fwy o ymateb llym gan asiantaethau rheoli.

Dengys astudiaeth glasurol Cohen sut y datblygodd y syniad o fwyhau gwyredd o fewn diwylliant 'Mods & Rockers' pobl ifanc yn dilyn cyswllt â'r heddlu a'r cyfryngau (Cohen, 1972). Roedd y cyswllt yn wrthgynhyrchiol, gyda'r bobl ifanc yn cynnal ac yn cynyddu eu hunaniaeth wyrdroëdig. O ganlyniad, roedd yr ymddygiad yn ymddangos yn fwy o 'broblem'. Dadleuodd Cohen fod portreadu'r bobl ifanc hyn yn y cyfryngau fel dihirod treisiol a throseddol wedi creu panig moesol yn y gymdeithas ac o fewn yr heddlu. Digwyddodd hyn oherwydd bod yr heddlu a'r cyfryngau wedi gorymateb i'r sefyllfa. Defnyddiwyd mwy o rym gan yr heddlu wrth geisio rheoli'r gwyredd. Arweiniodd hyn at fwy o drafferthion gan fod eraill wedi ymuno â'r ddau grŵp. Gwelir felly sut mae ymateb cymdeithasol i wyredd yn gallu gwneud y sefyllfa'n waeth.

Estynnwyd y syniad o labelu gan astudiaeth Braithwaite (1989). Gan edrych ar y syniad o gywilyddio troseddu, cynigiodd ddau gysyniad, sef ailintegreiddio ac anintegreiddio. Mae'r ddau'n cael effaith gwahanol. Credai Braithwaite fod codi cywilydd yn anintegreiddiol, yn rhywbeth negyddol ac yn creu stigma, gan arwain at eithrio'r troseddwr yn gymdeithasol. Dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r gymuned yn cynnig maddeuant nac yn adsefydlu'r troseddwr. Gyda chywilyddio ailintegreiddiol, bernir y weithred droseddol ond ymdrinnir â'r troseddwr yn faddeugar, sy'n golygu bod y troseddwr yn cael ei ailintegreiddio 'nôl i'r gymuned. Credai Braithwaite fod cywilyddio ailintegreiddiol yn golygu bod gwell rheolaeth ar droseddu gan nad yw'r broses yn stigmateiddio'r troseddwr.

Gwelir bod y prif syniadau wedi arwain at ddatblygu egwyddorion adfer mewn troseddeg a chyfiawnder troseddol. Dylanwadodd y cysyniad o labelu ar ddamcaniaethau Marcsaidd, ffeministaidd a throseddeg feirniadol, ac mae wedi cael rhywfaint o effaith ar ddatblygu polisïau wrth ymdrin â phlant a phobl ifanc. Mae rhaglenni megis 'Rhybudd Olaf' yr heddlu, paneli gofal plant a llysoedd pobl ifanc yn ystyried lles y plentyn yn eu penderfyniadau.

### 11.4 Gwerthusiad

Nid yw labelu'n egluro paham mae gwyredd yn bodoli. Canolbwyntir ar yr ymateb cymdeithasol i droseddu a chydnabyddir nad dyma oedd y bwriad cychwynnol. Ystyrir labelu yn fwy fel damcaniaeth sy'n egluro'r canlyniadau negyddol sy'n digwydd pan fydd y system gyfiawnder yn ymyrryd. Diffinnir troseddu fel ymateb cymdeithasol, ac efallai fod y ddamcaniaeth yn egluro troseddu llai difrifol ond fod iddi gyfyngiadau wrth geisio egluro troseddau treisgar a llofruddiaethau. O ganlyniad mae'n llai defnyddiol. Ceir gwahaniaethau yn y modd y mae pobl yn ymateb i label. Ond nid yw labelu'n egluro beth sy'n cymell gwyredd eilaidd. Ni roddir sylw i'r sawl sy'n llwyddo i wrthsefyll a gwrthod label. Gall y broses labelu fod yn llawer mwy cynnil hefyd. Defnyddir labelu gan amryw o sefydliadau, megis y teulu a'r ysgol. Gall pobl cael eu labelu cyn dod i gyswllt â'r system gyfiawnder.

**11.5 Gweithgaredd**

1. Darllenwch adroddiad terfynol 'Gweithredu Cadarnhaol Cyflym' gan Keith Towler, a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru: http://yvcommission.com/wp-content/uploads/2017/08/2017-03-28-Keith-Towler-18-25-Report.pdf

   Lluniwch atebion i'r cwestiynau isod:

   i) O'r adroddiad, beth yw prif hanfodion prosiectau dargyfeirio troseddwyr ifanc ar gynllun MAC 18-25 Triage (Caerdydd; Morgannwg; Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd ac Abertawe) a Divert 18-25 (yn y Rhondda a Merthyr)?

   ii) Beth yw rhai o'r argymhellion i wella profiadau unigolion a'r gwasanaethau?

2. Sut mae rheolaeth y system cyfiawnder troseddol yn creu gwyredd?

3. Beth yw proffwydoliaeth hunangyflawnol?

4. Sut mae'r broses o fwyhau gwyredd yn gweithio?

## Deunydd darllen ychwanegol

Becker, H. S. (1963), *Outsiders*. Free Press of Glencoe: Collier-Macmillan.

Braithwaite, J. (1989), *Crime, Shame and Reintegration*. Cambridge, UK: Cambridge University Press.

Cohen, S. (1972), *Folk Devils and Moral Panics: the creation of the Mods and Rockers*. London: MacGibbon and Kee.

Croall, H. (1998), *Crime and Society in Britain*. Harlow: Longman.

Downes, D. a Rock, P. (2003), *Understanding Deviance*. Oxford: Oxford University Press.

Goffman, E. (1968), *Stigma: notes on the management of a spoiled identity*. London: Penguin.

Lemert, E. M. (1951), *Social Pathology*. New York: McGraw-Hill.

Liebling, A., Maruna, S. a McAra, L. (2017) (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, 6ed argraffiad. Oxford: Oxford University Press.

Lilly, R., Cullen, F. a Ball, R. (2002), *Criminological Theory: context and consequences*. London: Sage.

Matza, D. a Sykes, G. (1957), 'Techniques of neutralization: a theory of delinquency', *American Sociological Review*, 22, 664–70.

Morris, N. a Hawkins, G. (1970), *The Honest Politician's Guide to Crime Control*. Chicago: University of Chicago Press.

Plummer, K. (2003), 'Misunderstanding Labelling Perspectives', yn: Downes, D. a Rock, P. (goln), *Deviant Interpretations*. London: Martin Robertson.

Schur, E. M. (1965), *Crimes without Victims: deviant behaviour and public policy*. Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Wilkins, L. (1964), *Social Deviance: social policy, action and research*. London: Tavistock.

Williams, F. P. a McShane, M. (1999), *Criminological Theory*, cyf. 3. New Jersey: Prentice Hall.

# 12

# Troseddeg Feirniadol a Throseddeg Radical

# 12

# Troseddeg Feirniadol a Throseddeg Radical

Gan ddechrau yn yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig cyn ymledu i weddill y byd, bu'r 1960au yn ddegawd o chwyldro gwleidyddol, cerddorol a chymdeithasol. Yn syml, roedd yn gyfnod o brotestio, er enghraifft ym maes hawliau sifil, pan brotestiodd pobl ddu a gwyn yn erbyn triniaeth annheg ar sail hil. Tua diwedd y degawd, protestiodd mwy a mwy o Americanwyr yn erbyn y rhyfel yn Fietnam. Roedd protestwyr hefyd yn mynnu mwy o hawliau i fenywod, wrth i'w rôl yn y gymdeithas newid.

Wedi'u hysgogi gan gynnwrf cymdeithasol a gwleidyddol y 1960au, dechreuodd grŵp o droseddegwyr â syniadau radical edrych y tu hwnt i droseddeg draddodiadol a chwestiynau o straen ac *anomie*, a thuag at anghydraddoldeb strwythurol a chysylltiadau grym cymdeithasau cyfalafol. Gan adeiladu ar rai syniadau am ryngweithio a'r ddamcaniaeth labelu, canolbwyntiodd amrywiaeth o ddamcaniaethau troseddegol beirniadol a radical ar natur troseddoli: y broses lle mae rhai pobl yn cael eu hadnabod fel troseddwyr a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am natur cysylltiadau cymdeithasol cyfoes.

### 12.1 Troseddeg Radical

Yn gyffredinol, cred troseddegwyr radical mewn egwyddorion Marcsaidd sy'n honni bod y rheolau o fewn cymdeithas yn gwasanaethu'r rhai mewn grym yn bennaf, yn hytrach na'r gymdeithas gyfan. Er na fu i Marx drafod troseddu'n benodol, canolbwyntiodd ei waith ar y gyfraith, grym, a rheolaeth gymdeithasol ac economaidd, sy'n nodweddion pwysig i'w hystyried wrth drafod troseddu a chyfiawnder. Sylfaen gwaith troseddegwyr radical yw fod y gyfraith yn gwasanaethu'r rhai sydd â grym er mwyn sicrhau bod eu buddiannau'n arwain at bolisi cyhoeddus. Yn hytrach na derbyn mai sylfaen y gyfraith yw consensws, mae troseddegwyr radical yn ystyried y gyfraith fel set o reolau a orfodir gan y wladwriaeth.

Mae Young (1988: 160) yn dadlau bod troseddeg radical yn "rhan o'r ddisgyblaeth sy'n gweld achosion troseddu yn greiddiol i ddosbarth a chysylltiadau patriarchaidd sy'n endemig i'n trefn gymdeithasol ac sy'n gweld newidiadau sylfaenol yn angenrheidiol i leihau troseddolrwydd". Nid yw'n gweld troseddu fel rhywbeth y gellir ei ddatrys drwy reolaeth y pwerus.

## 12.2 Troseddeg Feirniadol

Mae troseddeg feirniadol yn cwestiynu rhagdybiaethau troseddeg draddodiadol ac yn cynnig safbwyntiau amgen ar droseddu a'i reolaeth. Yn ogystal, mae'n canolbwyntio ar anghyfiawnder cymdeithasol ac yn gweld y system cyfiawnder troseddol fel anghyfiawnder parhaus a rhagfarnllyd. Ystyrir 'gwyredd' fel lluniad cymdeithasol sy'n gysylltiedig â grym. Prif ffocws troseddegwyr beirniadol yw'r gymdeithas, yn hytrach na'r drosedd neu'r unigolyn o fewn y gymdeithas, ac maent yn dadlau bod y termau 'troseddu' a 'gwyredd' yn gysyniadau problemus. Yn syml, ni ddylai cyfraith droseddol ddiffinio 'troseddu' (bwriad troseddol -*mens rea* + gweithred droseddol - *actus reus*) drwy roi ffocws ar droseddau a gyflawnir gan y rhai llai pwerus. Ceir pwyslais ar nodweddion Marcsaidd troseddu gan rai troseddegwyr beirniadol. Golyga hyn eu bod yn ystyried bod polisïau economaidd cyfalafol yn arwain at droseddu, hynny yw, eu bod yn creu amodau lle mae troi at droseddu yn ffordd o oroesi i rai unigolion.

Mae ysgolheigion beirniadol yn dadlau bod ein system cyfiawnder troseddol yn targedu gweithredoedd y rhai sy'n cael eu gormesu fwyaf, megis y tlawd, pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig. Yn ogystal, mae'r deddfau a'r cyfreithiau sy'n cael eu creu fel arfer yn creu rhaniadau cymdeithasol sy'n rhoi mantais i'r rhai sydd mewn grym.

## 12.3 Gwerthusiad

Beirniedir troseddeg radical a throseddeg feirniadol gan droseddegwyr traddodiadol sy'n gwrthod y syniad fod gan gyfalafiaeth ei chyfyngiadau. Ond ceir hefyd feirniadaeth gan droseddegwyr eraill sydd â dehongliadau gwahanol o'r safbwynt Marcsaidd. Gan fod troseddeg radical yn cynnwys safbwynt gwrthgyfalafol, mae'n cael ei beirniadu gan rai sy'n cefnogi cyfalafiaeth a'r rhai sy'n gwrthod y damcaniaethau Marcsaidd. Mae eraill sy'n dal i gytuno â rhai o gredoau craidd troseddeg radical o'r farn ei bod yn rhy anymarferol ac yn rhy ddelfrydol.

Mae nifer o resymau pam mae pobl yn troseddu, ac un ddadl yw nad yw troseddeg radical a beirniadol yn ystyried y rhesymau hyn. Felly, ni all esbonio'r cyfraddau troseddu cymharol isel mewn rhai gwledydd cyfalafol o'u cymharu â gwledydd eraill. Os gwrthdaro rhwng dosbarthiadau oedd unig achos troseddu, yna dylai pob gwlad gyfalafol fod â'r un cyfraddau troseddu. Yn ogystal, dylai troseddu fod wedi ei ddileu mewn gwledydd sydd wedi dymchwel eu strwythurau cyfalafol; ond eto, nid yw'r troseddau mewn gwledydd sosialaidd yn aml yn wahanol i droseddau'r gwledydd cyfalafol. Mae enghreifftiau o wledydd tebyg yn cynnwys Tsieina, Fietnam, Ciwba a Laos.

Yn amlwg, mae'r cysyniad o droseddeg radical a throseddeg wrthdaro wedi cael effaith bwysig ar y ffordd y mae troseddegwyr wedi trafod troseddu, troseddwyr, dioddefwyr a'r wladwriaeth. Dylid ystyried eu prif ddadleuon mewn unrhyw ddisgwrs ar droseddau difrifol. Dangoswyd bod y gwahanol ddiwylliannau sy'n bodoli o fewn cymdeithas yn gwrthdaro; mae anwybyddu'r gwrthdaro hwn yn arwain at ganlyniadau annheg ac anfantais gymdeithasol. Mae angen i droseddeg brif ffrwd fynd i'r afael â her y troseddegwyr hyn, a'r problemau sy'n codi o ddatblygu'r gyfraith a gweinyddu rhagfarn. Fodd bynnag, mae llawer o'r anghydraddoldebau cymdeithasol a ystyriwyd gan droseddeg radical yn parhau i fod heb eu newid.

## Deunydd darllen ychwanegol


Carrington K. a Hogg, R. (2002), *Critical Criminology: issues, debates, challenges*. Collumpton: Willan.

Gouldner, A. (1973), 'Foreword' to I. Taylor, P. Walton, J. Young, *The New Criminology: for a social theory of deviance*. Abingdon: Routledge.

Henry, S. a Lanier, M. M. (2006) (goln), *Essential Criminology.* Boulder: Westview Press.

Matza, D. (1964), *Delinquency and Drift.* Abingdon: Routledge.

Muncie, J. (2004), *Youth and Crime: an introduction.* London: Sage.

Schwartz, M. D. a Friedrichs, D. O. (1994), 'Postmodern thought and criminological discontent: new metaphors for understanding violence', *Criminology,* 32(2), 221–46.

Schwendinger, H. a Schwendinger, J. (1975), 'Defenders of order or guardians of human rights', yn: Taylor, I., Walton, P. a Young, J. (goln), *Critical Criminology*. Routledge and Kegan Paul.

Stubbs, J. (2008), 'Critical criminological research', yn: Anthony, T. a Cunneen, C. (goln), *The Critical Criminology Companion*. Annandale: The Hawkins Press.

Sutherland, D. (1949), 'The White Collar Criminal', yn: Branham, V. C. a Kutash, S. B. (goln), *Encyclopedia of Criminology*. New York: Philosophical Library.

Ugwudike, P. (2015), *An Introduction to Critical Criminology*. Bristol: Policy Press.

Vold, G. B., Bernard, T. a Snipes, J. B. (2002), *Theoretical Criminology.* Oxford: OUP.

Walklate, S. (2003), *Understanding Criminology.* London: Open University Press.

Young, J. (1988), 'Radical criminology in Britain: the emergence of a competing paradigm', *British Journal of Criminology,* 28(2), 159–83.

# 13

# Troseddeg Farcsaidd

# 13

# Troseddeg Farcsaidd

### 13.1 Karl Marx (1813–1883)

Cymdeithasegydd ac economydd gwleidyddol oedd Karl Marx ; roedd ganddo ddiddordeb yn natur rhaniadau cymdeithasol a rhaniad pŵer yn y gymdeithas. Yn ôl Marx, dylid cyfeirio at y berthynas gynhyrchu (*relations of production*) er mwyn ceisio ymateb i ffenomenau cymdeithasol megis troseddu. O fewn cymdeithasau diwydiannol, gellid deall y berthynas gynhyrchu fel un sy'n cynnwys dwy ran: y dosbarth cyfalafol (*bourgeoisie*) sy'n berchen ar y modd cynhyrchu (*means of production*) a'r dosbarth gweithiol (proletariat).

Dadleuodd Karl Marx mai'r gyfraith yw dull un dosbarth cymdeithasol, sef y dosbarth llywodraethol, o gadw'r holl ddosbarthiadau eraill mewn sefyllfa o anfantais. Bu hefyd yn ystyried sut mae cyfalafiaeth yn cynhyrchu patrymau penodol o droseddu sy'n gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol. Tybir bod y gwan a'r tlawd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan droseddu na'r pwerus, ac felly mae pobl wan yn cael eu rheoli'n fwy llym gan y gyfraith droseddol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith nag y mae grwpiau eraill.

### 13.2 Willem Bonger (1876–1940)

Astudiodd Bonger (1916) gyfraddau troseddu yn Ewrop ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, ac roedd yn feirniadol iawn o'r math o drefn gymdeithasol a welodd yn dod i'r amlwg. I Bonger, roedd y diffyg cydraddoldeb economaidd a chymdeithasol a geid mewn cyfalafiaeth gyfoes, yn unol â'r pwyslais ar lwyddiant ariannol, yn creu 'egoistiaeth' oedd yn ei dro yn cynyddu ymddygiad troseddol. Fel Marx, roedd Bonger o'r farn fod rhywbeth sylfaenol anghyfiawn ynglŷn â threfniadaeth gymdeithasol gyfalafol. Hynny yw, mewn cymdeithas gyfalafol mae'r gyfraith yn gweithredu i gosbi'r tlawd drwy ganiatáu i'r cyfoethog weithredu mewn ffyrdd hunanol a barus, heb ofni cosb.

Mewn gwrthgyferbyniad, mewn cymdeithas sosialaidd byddai troseddu'n cael ei ddileu yn y pen draw gan y byddai'r gyfraith yn amddiffyn buddiannau pawb yn hytrach na dim ond y rhai pwerus. Cafodd ei ddylanwadu'n fawr gan waith Ysgol Chicago a chan syniad Edwin Sutherland o gydgysylltiad gwahaniaethol. Sylwodd sut y gallai cydymffurfio ag un set o normau diwylliannol olygu bod pobl yn gallu gwrthdaro â sefydliadau'r system cyfiawnder troseddol.

Mae troseddeg radical neu droseddeg feirniadol felly'n tynnu rhywfaint o ysbrydoliaeth gan Marx. Mae'n waith sy'n gysylltiedig â pherthnasau grym yn y gymdeithas a sut mae troseddu a'r gyfraith

droseddol yn gysylltiedig â gwahaniaethau grym o'r fath. Un o'r syniadau craidd sy'n rhedeg drwy lawer o waith o'r fath yw troseddoli (*criminalisation*), sef y broses o roi statws 'troseddwr' i unigolion penodol.

### 13.3 Radicaliaeth Americanaidd

Corff o waith troseddegol radical wedi'i ysbrydoli gan ddamcaniaeth Farcsaidd a ddaeth i'r amlwg yn yr Unol Daleithiau ar ddiwedd y 1960au yw radicaliaeth Americanaidd. Roedd yn gysylltiedig yn bennaf â thri pherson yn benodol, sef William Chambliss, Richard Quinney ac Austin Turk, ond mae gwaith cynharach gan George Vold hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith hwn.

### 13.4 George Vold (1896–1967)

Mae syniadau Vold (1958) yn seiliedig ar y gwrthdaro o fewn diwylliant. Edrychodd ar wrthdaro o fewn grwpiau diddordeb sy'n bodoli o fewn yr un diwylliannau. Dadleuodd fod pobl yn naturiol yn gweithredu mewn grwpiau, a bod pobl sydd â'r un diddordebau'n dod at ei gilydd i lunio grŵp er mwyn pwyso o blaid y diddordebau hyn. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn gwleidyddiaeth. Felly, mae'r grŵp mwyaf effeithlon wrth reoli prosesau gwleidyddol hefyd yn creu deddfau sy'n cyfyngu ar ymddygiad grwpiau eraill ac, mewn rhai achosion, yn rhwystro anghenion grwpiau lleiafrifol rhag cael eu cyflawni.

Honnai Vold (1958) fod cryn dipyn o droseddolrwydd yn deillio o wrthdaro rhwng grwpiau; gellid cyfiawnhau'r drosedd er mwyn gweithredu er budd y grŵp. Er bod y ddadl hon yn honni ei bod yn esbonio'r math hwn o droseddolrwydd, nid yw'n egluro troseddolrwydd unigol.

### 13.5 Austin Turk (1934–2014)

Mae Turk (1969) yn tynnu ar waith Ralf Dahrendorf, a roddodd bwyslais Marcsaidd ar gysylltiadau cymdeithasol y weithred o gynhyrchu fel ffordd o ddeall grym. Gan ddilyn datblygiad Dahrendorf o waith Marx, roedd damcaniaeth Austin Turk ar wrthdaro'n seiliedig ar fynediad anghyfartal at eiddo a'r dull cynhyrchu, yn hytrach na'i bod yn canolbwyntio ar wrthdaro rhwng dosbarthiadau. Roedd hyn yn ymwneud â dosbarthiad anghyfartal awdurdod mewn cymdeithasau cyfoes. Yn ôl Turk, mae natur bywyd cymdeithasol i'w deall yn rhannol fel trafodaeth gyson gan unigolion mewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol a'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd. Mae dysgu o sefyllfaoedd o awdurdod yn sicrhau parhad y drefn gymdeithasol. Dadleuodd Austin Turk y bydd amgylchiadau lle bydd gwrthdaro'n codi rhwng 'yr awdurdodau' a'r 'deiliaid' ac mai troseddoli fyddai'r canlyniad.

### 13.6 William Chambliss (1933–2014)

Dadleuodd Chambliss (1975) fod biwrocratiaeth cyfiawnder troseddol yn tueddu i ddelio ag aelodau o'r dosbarth cymdeithasol isaf yn fwy llym na phobl eraill oherwydd nad ydynt yn gallu brwydro yn erbyn y system. Daeth i'r casgliad yn ddiweddarach fod yr heddlu'n gweithredu'n anghyfreithlon ac yn torri normau'r broses gyfreithiol ar bob cam o'u gweithgareddau. Sylwodd fod llawer o'r ymdrechion cyfreithiol troseddol wedi'u neilltuo i brosesu'r union bobl oedd leiaf tebygol o gael eu rhwystro gan sancsiynau cyfreithiol. Ar y naill law, sylwodd fod defnyddio dedfrydau hir o garchar

yn erbyn pobl sy'n gaeth i gyffuriau a'r gosb eithaf yn erbyn llofruddwyr yn achosion lle nad yw sancsiynau'n cael fawr o effaith ataliol. Ar y llaw arall, mae yna amharodrwydd i osod dedfrydau difrifol ar droseddwyr coler wen a throseddwyr proffesiynol, sef yr union droseddwyr sy'n cael eu rhwystro gan sancsiynau. Dadleuodd Chambliss (1975) fod polisi o'r fath yn mynd yn uniongyrchol groes i resymeg ffurfiol ataliaeth, ond ei fod yn cyd-fynd yn berffaith â'r rhesymeg fiwrocrataidd o ddangos 'effeithiolrwydd' trwy drin y di-rym yn llym ac osgoi'r tensiynau sefydliadol a fyddai'n dilyn wrth wynebu'r pwerus.

### 13.7 Effaith Troseddeg Farcsaidd

Mae dylanwad Marx ac Engels yn rhedeg drwy droseddeg yn yr un modd ag y mae drwy gymdeithaseg. Er nad oedd ganddynt lawer i'w ddweud am droseddu, cafodd eu dadansoddiad o gyfundrefnau cymdeithasol, pŵer ac ecsbloetio effaith bwerus ar droseddeg yr ugeinfed ganrif, yn enwedig yn y cyfnod yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Yn fwy penodol, mae'r syniad o droseddoli wedi bod yn syniad hynod bwysig o fewn troseddeg radical/feirniadol. Ac eto, er gwaethaf y dylanwad hwn, mae troseddeg Farcsaidd, ar hyn o bryd o leiaf, fel petai wedi'i gwthio i'r cyrion o fewn ysgolheictod cyfoes.

### 13.8 Gwerthusiad

Un feirniadaeth ar droseddeg Farcsaidd yw ei bod yn rhy benderfynedig (*deterministic*), yn benodol oherwydd cred Marx mai arf gormes yw'r gyfraith. Nid yw hyn yn wir ym mhob sefyllfa gymdeithasol, lle gwelir bod y gyfraith yn diogelu rhai grwpiau bregus. Fel gyda'r feirniadaeth ar droseddeg radical, mae cyfraddau troseddu'n wahanol mewn gwahanol wledydd cyfalafol ac mae troseddu hefyd yn bodoli mewn gwledydd sosialaidd. Mae'r meddylfryd Marcsaidd yn cael ei feirniadu am beidio cynnig esboniad am hyn. Nid mewn system gyfalafol yn unig y mae gormes; mae hefyd yn bodoli mewn cyfundrefnau sosialaidd, ac felly'n groes i'r farn Farcsaidd. Ceir beirniadaeth hefyd wrth ystyried ei diffiniadau problemus, hynny yw, mae troseddegwyr Marcsaidd yn diffinio gwyredd fel pe bai'n bodoli, pan ddylent fod yn ei gwestiynu fel term a luniwyd yn gymdeithasol. Yn ogystal, mae troseddeg Farcsaidd yn anwybyddu dioddefwyr ac yn delfrydu troseddwyr (fel yn achos Robin Hood, er enghraifft), ac felly nid yw troseddu o reidrwydd yn weithred wleidyddol.

## Deunydd darllen ychwanegol


Bonger, W. A. (1916), *Criminality and Economic Conditions*. Boston: Little, Brown.

Chambliss, W. J. (1975), 'Toward a Political Economy of Crime', *Theory and Society*, 2(1), 149–70.

Hall S. et al. (1978), *Policing the Crisis: mugging, the state, and law and order*. London: Macmillan.

Hillyard, P. a Tombs, S. (2007), 'From crime to social harm', *Crime, Law and Social Change,* 48(1–2), 9–25.

Marx, K. ac Engels, F. (1848), *The Communist Manifesto.* Ar gael ar-lein: https://www.marxists.org/archive/marx/works/download/pdf/Manifesto.pdf

Marx, K. ac Engels, F. (1848), *Y Maniffesto Comiwnyddol.* Ar gael: Llyfrgell y Porth, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://www.porth.ac.uk/cy/collection/maniffesto-r-blaid-gomiwnyddol-karl-marx-a-frederick-engels.

Quinney, R. (1970), *The Social Reality of Crime*. Boston: Little, Brown and Company.

Quinney, R. (1974), *Critique of the Legal Order: crime control in capitalist society*. London: Transaction Publishers.

Quinney, R. (1977), *Class, State, and Crime: on the theory and practice of criminal justice*. Philadelphia: David McKay Company.

Rees, W. J. (1987), *Be ddywedodd Marx I*. Y Colegiwm Cymraeg. Ar gael: Llyfrgell y Porth, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://www.porth.ac.uk/cy/collection/be-ddywedodd-marx-i-w-j-rees.

Rees, W. J. (1987): *Be ddywedodd Marx II*. Y Colegiwm Cymraeg. Ar gael: Llyfrgell y Porth, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://www.porth.ac.uk/cy/collection/be-ddywedodd-marx-ii-w-j-rees.

Sellin, T. (1938), 'Culture, Conflict & Crime', *American Journal of Sociology*, 44(1), 97–103.

Taylor, I., Walton, P. a Young, J. (1973) (goln), *The New Criminology.* Abingdon: Routledge.

Turk, A. T. (1969), *Criminality and the Legal Order*. Chicago: Rand McNally.

Vold, G. (1958), *Theoretical Criminology*. New York: Oxford University Press.

Williams, H. (1980), *Y Meddwl Modern: Marx.* Gwasg Gee. Ar gael: Llyfrgell y Porth, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://www.porth.ac.uk/cy/collection/y-meddwl-modern-marx-howard-williams.

# 14

# Troseddeg Ffeministaidd

# 14

# Troseddeg Ffeministaidd

Mae damcaniaethau ffeministaidd wedi arwain at ymchwilio i brofiadau merched fel troseddwyr, fel dioddefwyr ac o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae esboniadau traddodiadol o droseddolrwydd yn canolbwyntio'n ormodol ar wybodaeth am ddynion i allu egluro ymddygiad benywaidd. Yn ogystal, mae merched yn cyflawni llawer llai o droseddau na dynion, yn tueddu i gyflawni troseddau llai difrifol, yn cyflawni llai o droseddau treisgar ac yn llai tebygol o ffurfio patrwm o ymddygiad troseddol.

Yn gyffredinol, cysylltwyd y mudiad ffeministiaeth fel fframwaith damcaniaethol a mudiad cymdeithasol â chyfres hanesyddol o 'donnau' (*waves*). Bu'r don gyntaf rhwng 1830 ac 1920, er bod rhywfaint o drafod sefyllfa israddol merched o fewn y gymdeithas wedi digwydd cyn hyn. Er enghraifft, ysgrifennodd Mary Wollstonecraft *The Vindication of the Rights of Women* yn 1792; hwn oedd un o weithiau cynharaf yr athroniaeth ffeministaidd. Dadleuodd Wollstonecraft nad yw merched yn naturiol israddol i ddynion, ond yn hytrach yn ymddangos eu bod felly oherwydd diffyg addysg. Dadleuodd y dylid trin merched a dynion yn gyfartal fel bodau rhesymegol, ac y dylai merched gael addysg sy'n gymesur â'u safle yn y gymdeithas, gan honni bod merched yn hanfodol i'r genedl oherwydd eu bod yn rhoi addysg i'w plant. Yn hytrach nag edrych ar ferched fel eiddo i'w masnachu mewn priodas, mae Wollstonecraft yn honni eu bod yn fodau dynol sy'n haeddu'r un hawliau sylfaenol â dynion.

Er bod Wollstonecraft yn galw am gydraddoldeb rhwng y ddau ryw mewn meysydd penodol o fywyd, nid yw'n nodi'n benodol fod dynion a merched yn gyfartal. Mae ei datganiadau amwys ynglŷn â chydraddoldeb y rhywiau wedi ei gwneud hi'n anodd diffinio Wollstonecraft fel ffeminist modern, yn enwedig gan nad oedd y gair na'r cysyniad yn bodoli ar y pryd. Awgrymwyd nad oedd ffeministiaeth wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn gan nad oedd unrhyw beth i ymgyrchu drosto, nac ychwaith system oedd angen ei newid.

### 14.1 Y Don Gyntaf (1830–1920)

Ymddangosodd y don gyntaf rhwng 1830 ac 1920 gyda phwyslais ar gydraddoldeb o fewn hawliau unigol rhesymol**.** Fe'i nodweddwyd gan fudiad y bleidlais (*suffrage*) a arweiniodd at ferched yn ennill yr hawl i bleidleisio**.** Roedd yn gysylltiedig â hawliau amrywiol eraill – gwell amddiffyniad rhag camdriniaeth, diwygiadau i briodas, addysg, hawliau eiddo – ond daeth i ben yn sydyn gyda'r hawl i rai merched bleidleisio yn y Deyrnas Unedig yn 1918.

### 14.2 Yr Ail Don (1960–1980)

Roedd yr 1940au yn gyfnod o newid cymdeithasol sylweddol, ac yn cynnwys cynnydd yn nifer y merched oedd yn chwilio am gyflogaeth oherwydd bod nifer fawr o ddynion yn ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Gellir dadlau mai'r Ail Ryfel Byd oedd prif sbardun ail don y mudiad ffeministaidd, â'r undebau llafur a oedd wedi tyfu yn y 1930au yn cryfhau wrth i fwy a mwy o ferched gael eu cyflogi, yn enwedig mewn swyddi gweithgynhyrchu. Roedd y swyddi hyn yn angenrheidiol i gefnogi ymdrech y rhyfel.

Ehangodd ffeministiaeth yr ail don y ddadl i gynnwys ystod ehangach o faterion: rhywioldeb, teulu, y gweithle, hawliau atgenhedlu ac anghydraddoldeb cyfreithiol swyddogol. Tynnodd ffeministiaeth yr ail don sylw at faterion yn ymwneud â thrais domestig a threisio o fewn priodas, ysgogi sefydlu canolfannau argyfwng ar gyfer trais rhywiol a llochesau merched, a sicrhau newidiadau yn y gyfraith ysgariad. Dadleuwyd er hynny fod yr ail don yn fwy cysylltiedig â merched dosbarth canol ac nad oedd yn cynrychioli pob merch yn y gymdeithas.

### 14.3 Y Drydedd Don (1990au)

Y mudiad ôl-fodernaidd oedd y prif ddylanwad o fewn y drydedd don. Cafwyd ymgais yma i gwestiynu ac ailddiffinio'r syniadau, y geiriau a'r cyfryngau sydd wedi trosglwyddo syniadau am ferched a dechrau trafodaeth ar gysyniadau megis rhywedd, harddwch, rhywioldeb, benyweidd-dra, a gwrywdod, ymhlith pethau eraill.

Yn gynyddol, roedd merched yn ymateb i enghreifftiau o lwyddiant benywaidd ac yn dod yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau a gyflwynir gan rywiaeth, hiliaeth a gwahaniaethau dosbarth. Roedd y drydedd don yn ceisio ymateb i hyn ac yn herio rhwystrau o'r fath. Roedd ymgais yma i geisio gwrthdroi rhywiaeth, hiliaeth a gwahaniaethau dosbarth drwy herio patriarchaeth a brwydro yn erbyn eu hallgáu'n gymdeithasol yn barhaus.

### 14.4 Astudiaethau Troseddegol Traddodiadol o Droseddolrwydd Benywaidd

Roedd troseddeg gynnar, neu 'bositifiaeth fiolegol', yn anarferol gan ei bod yn rhoi sylw i ferched. Darganfu gwaith Lombroso a Ferrero (1893) ar droseddwyr benywaidd fod llai o ferched wedi eu 'geni'n droseddwyr', ac mai'r rheswm pam mae llai o ferched yn troseddu yw oherwydd eu bod yn llai datblygedig na dynion. Dadleuwyd eu bod yn fwy cyntefig na dynion, a'r canlyniad oedd fod ganddynt lai o gyfleoedd i droseddu. Y ffurf fwyaf cyffredin ar droseddu gan ferched, yn ôl Lombroso a Ferrero (1893), oedd puteindra. Ac yn ôl llawer o feirniaid ffeministaidd, nid yn yr ugeinfed ganrif yn unig y mynegwyd safbwyntiau mor henffasiwn â rhai Lombroso ynghylch merched; gellir eu canfod mewn troseddeg gyfoes hefyd.

Hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif, roedd troseddegwyr wedi methu ystyried dau fater o bwys yn ymwneud â throseddolrwydd merched:

1. problem cyffredinolrwydd – i ba raddau y gellir cymhwyso damcaniaethau sy'n disgrifio troseddolrwydd gwrywaidd i droseddolrwydd benywaidd?

2. cwestiwn 'cymhareb rhywedd' – hynny yw, pam mae merched yn cyflawni llai o droseddau na dynion?

Awgrymwyd bod troseddeg yn rhywiaethol gan ei bod yn canolbwyntio ar weithgareddau, diddordebau a gwerthoedd dynion, gan anwybyddu dadansoddiad cymharol o ferched. Un nodwedd gyffredin ymysg yr ymdrechion i geisio egluro ymddygiad troseddol benywaidd fu'r pwyslais cyson ar wahaniaethau biolegol. Er bod gweddill y byd troseddegol wedi symud oddi wrth y persbectif biolegol ar droseddu, roedd troseddu gan ferched yn cael ei anwybyddu o fewn y datblygiad hwn. Ystyrir bod emosiynau, dibynadwyedd, aeddfedrwydd a gwyredd (*deviance*) merched i gyd yn ddibynnol ar systemau hormonaidd ac atgenhedlu. Mae llawer o esboniadau ar ymddygiad troseddol benywaidd yn ymwneud â'r newidiadau hormonaidd mewn beichiogrwydd a'r mislif. Er y gallai hyn fod o fudd i'r ferch unigol mewn rhai achosion, dadl y ffeministiaid yw fod hyn yn atgyfnerthu'r gred fod merched yn cael eu gyrru gan eu bioleg a'i fod yn gwadu dadansoddiad llawn o'r ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n llywio'u bywydau.

### 14.5 Troseddeg Ffeministaidd

Dengys ystadegau fod dynion yn llawer mwy tebygol o gyflawni troseddau na merched, a chafwyd amryw o astudiaethau i geisio canfod pam y gallai hyn fod yn wir. Yn ystod yr 1970au, dechreuodd ffeministiaid dynnu sylw at dueddiadau rhywedd mewn damcaniaethau troseddegol poblogaidd. Cyfeiriwyd at y modd yr oedd merched yn hanesyddol wedi cael eu hanwybyddu mewn ymchwil i droseddu a chyfiawnder troseddol, yn ogystal â'r ffaith fod gwahaniaethu yn eu herbyn yn digwydd o fewn y system cyfiawnder troseddol a'r proffesiynau cyfreithiol.

Dechreuwyd herio'r farn eang a chyffredin fod benyweidd-dra'n gwrthgyferbynnu â throseddolrwydd. Anelwyd at sicrhau bod merched yn weladwy o fewn troseddeg fel disgyblaeth, gan ofyn ble mae merched a rhywedd i'w gweld mewn damcaniaethau ynghylch erledigaeth, troseddu, a chyfiawnder? Mae troseddeg yn ddisgyblaeth weithgar a bywiog iawn oherwydd ei bod bob amser yn brwydro dros newid. Roedd ganddi rôl fawr yn newid rhywfaint o'r iaith o amgylch ymosodiadau rhywiol a thrais domestig ac ymateb y system cyfiawnder troseddol i hyn. Ceir nifer o wahanol safbwyntiau o fewn troseddeg ffeministaidd ac isod gwelir crynodeb o'r syniadau hyn.

### 14.6 Ffeministiaid Rhyddfrydol

Mae ffeministiaid rhyddfrydol yn pwysleisio mai cymdeithasoli rolau rhywedd yw prif ffynhonnell gormes merched, gyda rolau cymdeithasol dynion yn rhoi statws cymdeithasol a phŵer uwch iddynt na rolau merched. Maent felly'n rhoi pwyslais ar gydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol, cyfreithiol ac economaidd rhwng merched a dynion. O fewn troseddeg, mae troseddu merched hefyd yn cael ei ystyried yn gynnyrch cymdeithasoli rolau rhywedd; hynny yw, mae merched yn troseddu ar gyfraddau is oherwydd bod y ffordd y maent yn cael eu cymdeithasoli yn rhoi llai o gyfleoedd iddynt wyro neu droseddu.

Mae gwaith Adler (1975), *Sisters in Crime*, yn tynnu sylw at droseddau yn yr Unol Daleithiau, pan ddigwyddodd ton o droseddu gan ferched ac y cynyddodd y gyfradd troseddu mewn merched yn gyflymach na chyfradd y dynion. Yn ogystal, roedd troseddu benywaidd yn dechrau ymdebygu

i droseddu gwrywaidd o ran difrifoldeb, arddull ac ati. Mae gwaith Simon (1975) *Women and Crime* yn cyflwyno dadl debyg ond yn fwy penodol o ran troseddau eiddo. Dadleuodd y ddwy fod y mudiad rhyddid i ferched wedi cyfrannu at hyn, drwy gyflwyno cyfleoedd newydd i ferched nad oedd ar gael o'r blaen. Oherwydd hyn, awgrymwyd bod y mudiad wedi arwain at fwy o droseddu gan ferched.

Gellir dadlau bod y ddamcaniaeth wedi bod yn ddylanwadol drwy dynnu sylw at droseddu benywaidd, ond mae'n cael ei beirniadu ar sail ei gwendidau damcaniaethol a methodolegol. Yn benodol, ystyrir nad yw'r ymchwil yn delio'n ddigonol â throseddau merched a hyd yn oed ei bod yn tanseilio'r ddadl yn gyfan gwbl. Yn ogystal, mae'n cynnwys datganiadau a ffeithiau gwrthgyferbyniol am droseddau merched. Mae hefyd yn eironig fod damcaniaethau ffeministaidd rhyddfrydol yn beio cael mwy o gydraddoldeb â dynion am newidiadau mewn troseddu benywaidd (gan mai prif nod ffeministiaid rhyddfrydol oedd hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol drwy ddiwygio deddfwriaeth ac ati). Yn ogystal, beirniadwyd ffeministiaeth ryddfrydol ar sail y diffyg sylw mae'n ei roi i'r modd y mae anghydraddoldeb rhwng merched a dynion yn cymharu ag anghydraddoldeb ar sail hiliol, ethnig, cymdeithasol a mathau eraill o anghydraddoldeb.

## 14.7 Ffeministiaeth Farcsaidd

Mae ffeministiaeth Farcsaidd yn tynnu sylw at ormesu merched oherwydd eu statws israddol o fewn cymdeithasau cyfalafol. Yn syml, mae'n dadlau bod dulliau cynhyrchu cyfalafol yn llunio cysylltiadau dosbarth a rhywedd sydd yn y pen draw yn rhoi merched dan anfantais. Mae llafur merched hefyd yn cael ei ystyried fel 'atgenhedlu' ac felly nid yw'n 'gynhyrchiol'; o ganlyniad, mae'n cael ei ddibrisio mewn cymdeithasau cyfalafol. Un o brif ddadleuon y ffeministiaid hyn yw y dylid herio'r modd y mae patriarchaeth yn ffurfio cysylltiadau a gwahaniaethau ar sail rhywedd a bod hyn yn arwain at ormesu merched.

Un dadl yw bod merched yn troseddu fel ffordd o'u cynnal eu hunain yn economaidd oherwydd eu statws dosbarth israddol; gellir disgrifio'r rhain fel troseddau goroesi. Hefyd o ddiddordeb i droseddegwyr ffeministaidd Marcsaidd y mae pa mor agored yw merched i rai mathau o erledigaeth oherwydd anghydraddoldeb dosbarth. Er enghraifft, mae goruchafiaeth dynion yn creu trais gwrywaidd oherwydd cysylltiadau dosbarth sy'n ecsbloetio merched.

## 14.8 Ffeministiaeth Radical

Yn ganolog i ffeministiaeth radical y mae'r honiad fod patriarchaeth yn greiddiol i ormes dros ferched, yn hytrach na diffyg cydraddoldeb o ran dosbarth cymdeithasol. Mae merched yn profi gwahaniaethu oherwydd bod cysylltiadau cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol yn cael eu llunio gan rym a braint dynion. O fewn troseddeg, mae ffeministiaid radical yn canolbwyntio ar arwyddion o batriarchaeth mewn troseddau yn erbyn merched, er enghraifft trais domestig, treisio, a throseddau rhyw. Y ddadl yw fod pob un o'r rhain yn ffordd o gadw dynion mewn grym a merched yn ddi-rym.

## 14.9 Ffeministiaeth Sosialaidd

Cyfuniad o safbwyntiau radical a Marcsaeth yw'r ddamcaniaeth hon sy'n dod i'r casgliad fod gormes yn deillio o anghydraddoldeb ar sail rhywedd yn ogystal â dosbarth, hynny yw, ar sail cyfalafiaeth a phatriarchaeth. Mae'n archwilio'r ffyrdd y mae cysylltiadau rhywedd yn cael eu llunio yn ôl dosbarth, a chysylltiadau dosbarth yn cael eu llunio yn ôl rhywedd. O fewn troseddeg, mae ffeministiaid sosialaidd yn archwilio achosion troseddu yng nghyd-destun rhyngweithio systemau grym ar sail rhywedd a dosbarth. Y ddadl yw bod systemau cymdeithasol dosbarth a rhywedd yn eithrio merched rhag cael cyfleoedd i gyflawni troseddau corfforaethol ac ati. Yn ogystal, mae cymdeithasoli a rheoli merched yn arwain at lai o gyfleoedd i fenywod gyflawni mathau eraill o droseddau hefyd.

Mae cryfderau amlwg i'r persbectif hwn, ond mae'n cael ei feirniadu am anwybyddu amrywiaeth profiad dynion a merched, nid yn unig o ran dosbarth cymdeithasol a rhywedd, ond hefyd o ran hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran a gallu corfforol. Ffocws cul sydd iddo, ac mae'n anwybyddu amrywiaeth eang o wahaniaethau hanesyddol a thrawsddiwylliannol mewn cysylltiadau rhwng y rhywiau.

## 14.10 Ffeministiaeth Ôl-Fodernaidd

Cwestiyna ffeministiaeth ôl-fodernaidd fodolaeth unrhyw 'wirionedd' gwrthrychol, gan honni mai dim ond canfyddiadau o wirionedd a geir, gan gynnwys gormesu merched. O ganlyniad, mae'r gwirionedd bob amser yn dibynnu ar ddealltwriaeth hanesyddol, amgylchiadau penodol a barn unigol, ac felly'n newid drwy'r adeg. Mae'r gwirionedd bob amser yn wleidyddol, ac yn cael ei ddefnyddio gan rai pobl ar draul eraill. Yn y math hwn o ffeministiaeth, gwrthodir categorïau sefydledig a chysyniadau cyffredinol sy'n archwilio effeithiau disgwrs a chynrychiolaeth symbolaidd a honiadau am wybodaeth. Hynny yw, mae gan bob testun (papurau newydd, llyfrau, erthyglau ac ati) ddisgwrs benodol.

Fel rhan o'u dadl, mae ôl-fodernwyr yn dadansoddi testunau gan ddadbacio'r holl ragdybiaethau a gymerir yn ganiataol; mae hyn yn cynnwys rhywedd. Mae rhai categoriau wedi'u heithrio o system sy'n seiliedig ar wahaniaeth megis gwryw/benyw, gwyn/du, heterorywiol/cyfunrywiol, ag un categori'n haeddu mwy o werth a braint.

O fewn troseddeg, mae ffeministiaid ôl-fodernaidd yn cwestiynu lluniad cymdeithasol troseddu, 'cyfiawnder' a 'gwyredd'. Er enghraifft, mae dadansoddiad Humphries (1998) o 'Crack Mothers' yn beirniadu adroddiadau yn y cyfryngau sy'n cysylltu hil, caethiwed, tlodi, rhywioldeb a mamolaeth â'r grŵp lleiaf pwerus yn y wlad, sef merched tlawd, du. Er hynny, mae'r persbectif yn cael ei feirniadu am fod yn annigonol, oherwydd nad yw'n herio'n weithredol nac yn ymarferol anghydraddoldeb mewn sefydliadau cymdeithasol mawr.

## 14.11 Ffeministiaeth Ddu/Amlhiliol

Ymateb i'r mudiad ffeministaidd gwyn, cyfoethog, dosbarth canol yw ffeministiaeth ddu/amlhiliol. Mae'r safbwynt hwn yn dadlau bod profiadau ffeministaidd hegemonaidd merched gwyn,

dosbarth canol, heterorywiol yn cael eu hystyried fel y safon normadol. O ganlyniad, mae'r mudiad yn blaenoriaethu lleisiau merched du gan bwysleisio'r cysylltiadau grym sydd wedi'u hymgorffori mewn gwahaniaethau a luniwyd yn gymdeithasol a'r ffordd y mae'r gwahaniaethau hyn yn torri ar draws ei gilydd. Hynny yw, gall merched du brofi rhywiaeth gan ddynion, gan gynnwys dynion duon, ond gallant hwythau hefyd yn eu tro brofi hiliaeth wrth ymwneud â dynion a merched gwyn. I raddau amrywiol, mae unigolion breintiedig hefyd yn cael eu gormesu; mae pawb yn profi anfanteision sy'n deillio o wahanol fathau o anghydraddoldeb sy'n torri ar draws ei gilydd. Gwahanol fathau o anghydraddoldeb cydgysylltiedig sy'n siapio pwy ydym ni fel unigolion a'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n gilydd. Gall hefyd effeithio ar ein mynediad at gyfleoedd, breintiau a phŵer.

### 14.12 Kathleen Daly a Meda Chesney-Lind (1988)

Mae Daly a Chesney-Lind yn ysgolheigion blaenllaw o fewn troseddeg ffeministaidd ac wedi creu cyfres o ddamcaniaethau i geisio egluro pam mae anghydraddoldeb yn bodoli. Nid yn unig y maent wedi datblygu damcaniaethau am ormesu merched ond maent hefyd wedi datblygu set o strategaethau ar gyfer newid; felly mae'n ymdriniaeth ddeuol i raddau helaeth. Creodd y ddwy restr arbennig oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r cysyniad o rywedd o fewn troseddeg. Roedd y rhestr yn cynnwys y canlynol:

- nid yw rhywedd yn ffaith naturiol;
- mae perthynas rhwng rhywedd a pherthynas rhwng bywyd cymdeithasol a sefydliadau cymdeithasol;
- nid yw perthnasau rhywedd a ffurfiau gwrywdod a benywdod yn gymesur;
- mae gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu ar sail rhywedd.

### 14.13 Carol Smart (1976)

Yn ganolog i'w gwaith, mae Smart yn archwilio syniadau newydd o fewn troseddeg a chymdeithaseg gwyredd, ac yn benodol yn ymchwilio i droseddau benywaidd o safbwynt ffeministaidd. Yn ei gwaith *Women, Crime and Criminology* (1976), mae hi'n cyflwyno beirniadaeth ffeministaidd o ddamcaniaethau clasurol a chyfoes ynghylch troseddolrwydd benywaidd ac yn ymdrin â'r ffaith fod llenyddiaeth troseddeg wedi canolbwyntio ar ddynion yn bennaf drwy gydol hanes. Yn ogystal, mae'n awgrymu bod ymchwil bob amser yn trin troseddolrwydd benywaidd fel rhywbeth ymylol i'r astudiaeth 'briodol' o droseddu mewn cymdeithas**.**

### 14.14 Loraine Gelsthorpe (1990)

Mae *Feminist Perspectives in Criminology* (1990) yn dangos potensial ffeministiaeth i drawnsnewid damcaniaethau a gwleidyddiaeth ymchwil troseddegol. Fodd bynnag, dadleuodd Gelsthorpe nad oes un math yn unig o ffeministiaeth, yn union fel nad oes un math o droseddeg, ac mae ei gwaith yn cyflwyno ac yn archwilio nifer o wahanol agweddau ar droseddeg ffeministaidd. Mewn cyferbyniad, mae'r tensiynau a'r gwrthdaro o fewn ffeministiaeth yn aml yn cael eu hystyried yn arwydd o ddisgyblaeth 'ddisgybledig'.

### 14.15 Frances Heidensohn (1985)

Amlinellodd y ffeminist Frances Heidensohn (1985) ddadl yn ceisio egluro pam mae merched yn llai tebygol o gyflawni troseddau na dynion. Cafwyd amryw o astudiaethau ynghylch pam y gallai hyn fod yn wir. Mae Heidensohn yn ceisio egluro hyn o safbwynt y ffordd y mae merched yn cael eu rheoli gan ddynion, gan eu gadael â llai o gyfleoedd i droseddu. Gelwir hyn yn ddamcaniaeth rheoli ac mae Heidensohn yn awgrymu ei bod yn batriarchaidd. Yn ogystal, mae Heidensohn yn trafod sefyllfa merched yn nhermau'r gyfraith, yr heddlu, y llysoedd a'r carchar, ac yn dadlau eu bod yn dioddef mwy na dynion oherwydd mai nifer cyfyngedig ohonynt sy'n cael cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol. Fel nifer o ffeministiaid eraill, mae hi'n tynnu sylw at ddiffyg troseddeg fel disgyblaeth sy'n ystyried troseddau gan ferched, a'i bod yn canolbwyntio ar ddynion yn unig.

### 14.16 Pat Carlen (2011)

Mae'r rhan fwyaf o'r cymdeithasegwyr sydd wedi ystyried y cysylltiad rhwng rhywedd a throseddu wedi canolbwyntio ar y rheswm pam mae merched yn cyflawni llawer llai o droseddau na dynion. Wedi'r cyfan, dyna mae'r ystadegau troseddu'n ei ddangos inni. Fodd bynnag, mae rhai merched yn cyflawni troseddau, ac ystyriodd Carlen (2011) y cwestiwn hwn.

Daeth i'r casgliad fod merched yn troseddu oherwydd eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion yn economaidd. Honnai fod merched dosbarth gweithiol yn taro bargen, o ran dosbarth a rhywedd, a bod hynny'n gyffredinol yn eu cadw dan reolaeth. Y fargen ddosbarth yw fod merched yn gweithio'n galed yn gyfnewid am dâl y gallent wedyn ei ddefnyddio i dalu am nwyddau. Y fargen rywedd yw y dylent wneud llafur domestig a rhoi cariad a chwmnïaeth i'w gŵr, yn gyfnewid am gariad a chefnogaeth ariannol. Pan fydd y bargeinion hyn yn chwalu, awgrymodd Carlen (2011) fod merched dosbarth gweithiol wedyn yn fwy tebygol o gyflawni troseddau, fel dewis rhesymol.

### 14.17 Gwerthusiad

Nid yw troseddau a gyflawnir gan ferched yn weithredoedd afresymol fel yr awgrymwyd mewn troseddeg draddodiadol, ond mae'r rhesymau a gynigir drostynt yn tueddu i fod yn seiliedig ar resymeg, economi neu ansicrwydd. Pan fydd merched yn troseddu, maent yn aml yn cael eu condemnio ddwywaith: unwaith am y drosedd, ac unwaith am dorri stereoteipiau benywaidd. Gall hyn arwain at ychwanegu stigma. Mae'n debyg mai amgylchiadau neu reolaeth gymdeithasol sydd wrth wraidd hyn, yn hytrach na materion cynhenid yn ymwneud â rhywedd.

**14.18 Gweithgaredd**

Edrychwch ar yr erthygl isod sy'n trafod y ffaith nad oes carchar i ferched yng Nghymru. Ystyriwch y canlynol:

Beth fyddai troseddeg ffeministaidd yn dadlau yw anfanteision peidio â chael carchar i ferched yng Nghymru? Beth yw eich barn chi am hyn? Trafodwch rai o ymatebion posib y mudiadau ffeministaidd isod i'r erthygl:

- radical
- Marcsaidd
- ôl-fodernaidd
- sosialaidd
- du/amlhiliol.

## *'Angen gwella gwasanaethau carchar merched'*

*Pob merch o Gymru yn cael eu hanfon i garchardai yn Lloegr*

Fe fydd yr angen i ddatblygu gwasanaethau carchar i ferched o Gymru yn cael ei drafod gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru yng Nghaerdydd heddiw.

Ar hyn o bryd, mae pob merch o Gymru sy'n cael ei hanfon i'r carchar yn cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr gan nad oes darpariaeth yng Nghymru.

Ond yn hytrach nag adeiladu carchar yng Nghymru, canolbwyntio ar leihau nifer y merched sy'n cyflawni troseddau sy'n rhaid gwneud, yn ôl academyddion.

**Adferiad yn y gymuned**

Wrth siarad cyn y cyfarfod ym Mhrifysgol Caerdydd, dywedodd Jenny Earle o'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai mai ychydig iawn o ferched sydd wedi cyflawni troseddau difrifol neu dreisgar ac y byddai adferiad yn y gymuned yn ateb gwell na'u cadw mewn carchardai:

"Mae hyn yn benodol wir am ferched o Gymru sy'n cael eu gyrru cannoedd o filltiroedd i ffwrdd am fân droseddau.

"Mae'n rhaid datblygu syniadau i geisio rhwystro merched rhag troseddu a chefnogi gwasanaethau i ferched – dim adeiladu carchardai costus fyddai'n creu problemau ar gyfer y dyfodol."

Tua 225 o ferched Cymru sydd mewn carchardai ar hyn o bryd.

https://golwg.360.cymru/newyddion/cymru/184294-angen-gwella-gwasanaethau-carchar-merched [Cyrchwyd: 13 Gorffennaf 2020]

## Deunydd darllen ychwanegol


Adler, F. (1975), *Sisters in Crime.* New York: McGraw-Hill.

Belknap, J. (2001), *The Invisible Woman: gender, crime and justice,* 3ydd argraffiad. Belmont CA: Wadsworth.

Britton, D. M. (2000), 'Feminism in Criminology: engendering the outlaw', *The Annals of the*

*American Academy of Political and Social Science*, 571(1), 57–76.

Brownmiler, S. (1975), *Against Our Will: men, women and rape*. New York: Simon & Schuster.

Burgess-Proctor, A. (2006), 'Intersections of race, class, gender, and crime: future directions for feminist criminology', *Feminist Criminology*, 1, 27–47.

Carlen, P. (2011), 'Against evangelism in academic criminology: for criminology as a scientific art', yn: Bosworth, M. a Hoyle, C. (goln), *What is Criminology*?, 95–108. Oxford: Oxford University Press.

Collins, P. H. (1990), *Black Feminist Thought*. New York: Routledge.

Collins, P. H. (2012), 'Looking back, moving ahead: scholarship in service to social justice', *Gender & Society*, 26, 14–22.

Currie, D. H. a MacLean, B. D. (1993), 'Preface', yn: Currie, D. H. a MacLean, B. D. (goln), *Social Inequality, Social Justice*, 5–6. Vancouver BC: Collective Press.

Daly, K. a Chesney-Lind, M. (1988), 'Feminism and Criminology', *Justice Quarterly*, 5, 497–538.

Daly, K. a Stephens, D. (1995), 'The "dark figure" of criminology: towards a black and multi-ethnic feminist agenda for theory and research', yn: Rafter, N. H. a Heidensohn, F. (goln), *International Perspectives in Criminology: engendering a discipline*, 189–215. Philadelphia: Open University Press.

Freud, S. (1933), *New Introductory Lectures on Psychoanalysis*. Binghamton NY: Vail-Ballou Press.
Humphries, D. (1999), *Crack Mothers: pregnancy, drugs and the media*. Columbus: Ohio State University Press.

Johnson-Odim, C. (1991), 'Common themes, different contexts: third world women and feminism', yn: Mohanty, C. T., Russo, A. a Lourdes, T. (goln), *Third World Women and the Politics of Feminism*, 314–27. Bloomington IN: Indiana University Press.

Lombroso, C. a Ferrero, W. (1893), *The Female Offender.* New York: Appleton.

Messerschmidt, J. (1986), *Capitalism, Patriarchy and Crime*. Totowa NJ: Rowman & Littlefield.

Pollak, O. (1950), *The Criminality of Women*. Philadelphia: University of Pennsylvania Press.

Renzetti, C. M. (2013), *Feminist Criminology*. London: Routledge.
Schwendinger, J. a Schwendinger, H. (1983), *Rape and Inequality*. Newbury Park CA: Sage.

Simon, R. J. (1975), *Women and Crime*. Washington DC: US Government Printing Office.

Smart, C. (1976), *Women, Crime and Criminology*. London: Routledge.

Thomas, W. I. (1923), *The Unadjusted Girl*. New York: Harper and Row.

Walsh, A. (2014), *Criminological Theory: assessing philosophical assumptions.* Boston MA: Anderson Publishing.

Wollstonecraft, M. (1792), *A Vindication of the Rights of Woman*. London: Penguin.

Wonders, N. A. (1999), 'Postmodern feminist criminology and social justice', yn: Arrigo, B. A. (gol.), *Social Justice, Criminal Justice*, 109–28. Belmont CA: Wadsworth.

# 15

# Troseddeg Werdd

# 15

# Troseddeg Werdd

Ymddengys bod pryderon ynghylch yr amgylchedd, boed hynny'n ymwneud â phryderon ynghylch adnoddau naturiol neu ddyfodol rhywogaethau penodol, wedi dwysáu yn ystod y degawdau diwethaf. Yn ddiweddar, ac ychydig yn hwyr efallai, mae troseddegwyr wedi ymddiddori mewn nifer o wahanol faterion yn ymwneud â'r amgylchedd. Fel rhan o droseddeg werdd, dadansoddir y niwed i'r amgylchedd o safbwynt troseddegol, neu defnyddir ymchwil troseddegol i ddadansoddi materion amgylcheddol. Fel sy'n amlwg mewn agweddau eraill o droseddeg, mae hyn yn golygu ystyried y canlynol:

- y troseddau (pa droseddau sy'n cael eu cyflawni yn erbyn yr amgylchedd neu pa niwed sy'n cael ei achosi i'r amgylchedd, a sut);
- y troseddwyr (pwy sy'n cyflawni troseddau yn erbyn yr amgylchedd, a pham);
- a'r dioddefwyr (pwy sy'n dioddef o ganlyniad i ddifrod amgylcheddol, a sut).

Mae troseddeg hefyd yn ceisio ymateb i droseddu amgylcheddol drwy ystyried sut mae plismona, cosbi ac atal y troseddau hyn. Yn ogystal, ac yn fwy damcaniaethol efallai, mae gan droseddeg werdd ddiddordeb yn yr amodau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n arwain at droseddau amgylcheddol. Ar lefel athronyddol, mae'n ymwneud â pha fathau o niwed y dylid eu hystyried yn 'droseddau' ac felly pa niwed sydd o ddiddordeb i droseddeg werdd.

O fewn troseddeg werdd felly mae trafodaeth ar sut mae materion amgylcheddol yn cael eu labelu'n droseddol, ac o ganlyniad yn ddarostyngedig i gyfraith trosedd. Os nad yw gweithred yn cael ei hystyried yn drosedd, mae troseddegwyr yn cwestiynu a ddylid ei chynnwys o fewn y categori eang o 'niwed', cysyniad y mae nifer cynyddol o droseddegwyr â diddordeb ynddo. Sefydlwyd y persbectif hwn yn yr 1990au gan ysgolheigion megis Piers Beirne (2007), Michael Lynch (1999) a Nigel South (1998), ymysg eraill.

### 15.1 Globaleiddio a Throseddeg Werdd

Mae troseddau yn erbyn yr amgylchedd, neu natur, wedi'u cysylltu'n agos â materion globaleiddio a risg. Yn ein byd modern dadleuir bod nifer o 'risgiau' yn bodoli, a bod y risgiau hyn, sy'n ganlyniad i ymddygiad dyn yn hytrach na'r byd naturiol, yn cael effaith negyddol ar yr hinsawdd. Dadleua Beck (1992) fod nifer o'r datblygiadau mewn gwybodaeth a chreu technolegau newydd bellach yn fygythiad i'n lles. Rydym yn cynhyrchu risg sydd â'r potensial i fod yn ddinistriol.

Gwahaniaethodd Beck rhwng risgiau allanol (*external risks*) a risgiau wedi eu cynhyrchu

(*manufactured risks*). Mae risgiau allanol yn gysylltiedig â chymdeithasau traddodiadol a 'natur', megis afiechydon a difrod i gnydau, er enghraifft. Dadleuir bod gweithgarwch dynol yn cynnwys ffynonellau risg newydd, sef risgiau wedi eu cynhyrchu. Wrth i'n dealltwriaeth o wyddoniaeth gynyddu, cynyddu hefyd y mae ein hansicrwydd. Mae Giddens (1990) hefyd yn cytuno â gwaith Beck (1992) drwy ddadlau bod 'proffil risg modernedd' wedi newid, a bod y risg hwn bellach yn digwydd ar draws y byd.

## 15.2 Niwed Amgylcheddol

Nid yw'n hawdd diffinio yn union beth yw trosedd werdd, gan nad yw nifer o weithredoedd sy'n cael effaith ddinistriol ar y byd yn cael eu hystyried yn swyddogol yn droseddau. O ganlyniad, mae troseddegwyr gwyrdd yn tueddu i feddwl yn nhermau niwed amgylcheddol. Mae Halsey a White (1998) yn nodi tri chysyniad sylfaenol i'r berthynas hon, sef:

**niwed anthropoganolog (*anthropocentric harm*)**: yn ystyried niwed i'r amgylchedd o safbwynt y ddynoliaeth. Er enghraifft, mae llygredd yn broblem oherwydd ei fod yn niweidio'r cyflenwad dŵr neu'n achosi afiechydon sy'n ddrud i'w gwella. Mae newid hinsawdd yn broblem oherwydd ei effaith ar bobl a'r gost economaidd;

**niwed bioganolog (*biocentric harm*)**: yn ystyried bod pob creadur byw o werth cyfartal (dim ond rhywogaeth arall yw bodau dynol) ac felly y dylai bodau dynol gymryd cyfrifoldeb dros y ffordd y mae adnoddau amgylcheddol yn cael eu defnyddio a sut maent yn effeithio ar bob rhywogaeth;

**niwed ecoganolog (*ecocentric harm*)**: nid yw'n gwahaniaethu rhwng bodau dynol a gweddill yr ecosystem. Mae'n ystyried niwed i unrhyw agwedd ar yr amgylchedd fel niwed i'r system gyfan. Felly, mae troseddau megis creulondeb i anifeiliaid neu ddinistrio cynefinoedd yn droseddau gwyrdd, hyd yn oed os nad oes cost ddynol iddynt.

O fewn safbwyntiau troseddeg werdd a chyfiawnder ecolegol, honnir bod angen i systemau cyfiawnder wneud mwy nag ystyried syniadau anthropoganolog am gyfiawnder troseddol yn unig. Dylent hefyd ystyried sut y gall systemau cyfiawnder ddiogelu'r amgylchedd a rhywogaethau eraill. Nid yw'r dadleuon hyn wedi'u datrys o bell ffordd, ond ceir consensws cynyddol nad yw cyfyngu ymchwil i faterion sy'n cael eu labelu'n 'droseddol' yn sail foddhaol ar gyfer dilyn yr agenda werdd (Nurse, 2017).

## 15.3 Mathau o Niwed Amgylcheddol

Gellir ystyried nifer o weithredoedd fel rhai sy'n niweidio'r amgylchedd. Isod gwelir pedair enghraifft:

### 15.3.1 Datgoedwigo

Erbyn hyn, nid oes amheuaeth nad yw colli coed a llystyfiant yn achosi newid hinsawdd, er enghraifft, erydiad y pridd, llai o gnydau, llifogydd, mwy o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer, a llu o broblemau i bobloedd frodorol. Datgoedwigo yw'r un o'r materion sy'n cael y cyhoeddusrwydd

mwyaf, ag enghreifftiau'n digwydd ar raddfa sylweddol yn ardal afon Amazon, Gorllewin Affrica a Dwyrain Asia, yn ogystal â'r tanau diweddar yn Awstralia. Nid yn unig y mae'r weithred hon yn cael effaith ar yr hinsawdd ac ecosystemau, ond mae nifer o droseddau eraill hefyd yn gysylltiedig â thorri coed yn anghyfreithlon. Gall gynnwys troseddau megis caffael hawliau cwympo a thrin coed yn anghyfreithlon, peidio â thalu trethi, cludo pren a deunyddiau eraill yn anghyfreithlon, allforio a mewnforio nwyddau yn anghyfreithlon, peidio â datgan nwyddau wrth swyddogion tollau, llwgrwobrwyo swyddogion llwgr, trais a bygwth, ac amrywiol droseddau ariannol.

Yn ogystal, mae'r mathau hyn o droseddau fel arfer yn gysylltiedig â throseddau trefnedig, ac mae gwaith ymchwil gan Raglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (United Nations Environment Programme, UNEP) ac INTERPOL (2016) yn amcangyfrif bod cwympo a thrin coed yn anghyfreithlon, gan grwpiau troseddau trefnedig, yn werth rhwng 30 a 100 biliwn o ddoleri'r flwyddyn. Gall canlyniadau datgoedwigo fod yn ddramatig – o'r effaith ar newid hinsawdd, trais yn erbyn pobl frodorol, amodau gwaith sy'n debyg i gaethwasiaeth ac effeithiau sylweddol iawn ar niferoedd enfawr o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion.

### 15.3.2 Llygredd Dŵr

Mae llygredd dŵr yn digwydd pan fo safon dŵr yn cael ei ddiraddio neu'n cael ei lygru gan sylweddau niweidiol, yn aml gan gemegion neu ficro-organebau. Mae llygredd yn gallu effeithio ar nant, afon, llyn, cefnfor, neu gorff arall o ddŵr a'i wneud yn wenwynig i bobl neu'r amgylchedd (Denchack, 2018). Oherwydd ei gysylltiad ag iechyd cyhoeddus, llygredd dŵr oedd un o'r problemau amgylcheddol cyntaf i gael sylw llywodraeth y Deyrnas Unedig (Newburn, 2017). Mae'r rhan fwyaf o wledydd yn gosod cyfyngiadau ar ollwng llygryddion i ddŵr, ond nid ydynt bob amser yn dilyn y rheoliadau y maent yn eu gosod (Nurse, 2017). Ers peth amser, mae troseddegwyr gwyrdd wedi tynnu sylw at lygredd dŵr fel math o drosedd werdd (South, 1998). Er hyn, nid yw troseddegwyr gwyrdd wedi rhoi fawr o sylw i astudio effaith posib llygredd dŵr.

### 15.3.3 Cam-Drin Anifeiliaid

Gellir dadlau mai'r cymdeithasegwr Piers Beirne oedd ar flaen y gad yn y maes hwn. Gofynnodd Beirne (1999) pam roedd troseddegwyr yn anwybyddu cam-drin anifeiliaid bron yn gyfan gwbl. Holai Beirne a oedd y diffyg ymchwil hwn i gam-drin anifeiliaid yn ganlyniad diffyg arian a ffynonellau ymchwil ar gyfer y pwnc. Er hynny, wrth iddo gynnal ei waith ymchwil, darganfu fod troseddegwyr yn rhoi llai o bwysigrwydd i'r niwed hwn o'i gymharu â'r niwed i ddioddefwyr dynol. Dadleuodd fod y sefyllfa'n dechrau newid, ac yn ei farn ef roedd amryw o resymau gwahanol pam y dylid ystyried cam-drin anifeiliaid yn gysyniad pwysig mewn troseddeg:

1. Gall cam-drin anifeiliaid fod yn arwydd 'risg' o droseddau eraill, megis trais domestig.
2. Ystyrir cam-drin anifeiliaid yn rhan gyfredol o gyfraith trosedd. Yn gynnar yn y 1820au pasiwyd deddfwriaeth gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwahardd creulondeb i anifeiliaid domestig (Newburn, 2017).
3. Mae'n cyd-fynd â'r syniad o dramgwyddo hawliau, gyda phwyslais ar hawliau tu hwnt i hawliau dynol.
4. Mae'n un o sawl math o orthrwm y mae ffeministiaeth wedi'i drafod sy'n digwydd o fewn patriarchaeth (Beirne, 1999).

#### 15.3.4 Yr Argyfwng Hinsawdd

Teg yw nodi bod yr argyfwng hinsawdd yn arwain at ddigwyddiadau tywydd dinistriol iawn. Ar yr un pryd, mae realiti newid hinsawdd o ganlyniad i ddigwyddiadau troseddol – neu hyd yn oed oherwydd digwyddiadau troseddol – yn cael ei gydnabod yn llawer llai aml. Wrth i'r ddaear gynhesu, bydd materion yn ymwneud â defnydd tir, hawliau dŵr, bioddiogelwch, a chynhyrchu a dosbarthu bwyd yn parhau i gael effaith andwyol, ac yn rhoi mwy o gyfle i unigolion a grwpiau droseddu, yn ogystal ag endidau gwleidyddol a chorfforaethol. Dim ond yn ddiweddar iawn y mae troseddegwyr wedi dechrau ystyried newid hinsawdd mewn unrhyw fanylder ond mae White a Heckenberg (2014) yn dadlau bod angen i droseddegwyr ystyried yr argyfwng hinsawdd am rai o'r rhesymau canlynol:

- Mae'n debygol o greu gwrthdaro am adnoddau naturiol, gan gynnwys bwyd a dŵr, a all gael effaith ar ddiogelwch cenedlaethol.
- Gall gael effaith ar y corff, gan godi cwestiynau'n ymwneud â maeth a hawliau plant heb eu geni, ac yn y blaen.
- Mae'n debygol o arwain at gynnydd mewn trychinebau naturiol, sydd yn ei dro'n gallu creu mwy o droseddu.
- Gall gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu dadleoli – gweler enghraifft o hyn isod.

#### 15.3.5 Ffoaduriaid Hinsawdd

Ceir nifer fawr o wahanol ddiffiniadau o'r term "ffoadur hinsawdd". Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad oes un diffiniad swyddogol. Nid yw'r Cenhedloedd Unedig nac unrhyw asiantaeth ryngwladol sy'n gweithio gyda ffoaduriaid neu asiantaeth sy'n ymwneud â newid hinsawdd yn cydnabod unrhyw ddiffiniad penodol. Er hynny, awgrymwyd ei fod yn cynnwys unigolion sydd wedi gorfod gadael eu cartref o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd (Boana et al., 2008).

Mae perygl ein bod ni'n ystyried newid hinsawdd, a hyd yn oed ffoaduriaid hinsawdd, fel cysyniadau haniaethol, hynny yw, fel materion nad ydynt yn debygol o effeithio ar Gymru. I'r gwrthwyneb, efallai mai trigolion yng Nghymru fydd yn debygol o fod yn ffoaduriaid hinsawdd cyntaf y Deyrnas Unedig. Mae digwyddiadau diweddar yn Fairbourne, ger Dolgellau, yn peryglu'r pentref a'i drigolion. Yn 2014, cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Traethlin oedd yn amcangyfrif na fydd cynnal amddiffynfeydd llifogydd yn y pentref yn gynaliadwy ymhen deugain mlynedd, pan ragwelir y bydd lefelau'r môr wedi codi 0.5 m. Mae hyn wedi creu ansicrwydd yn y gymuned, gyda phryderon ariannol ac emosiynol yn effeithio ar y trigolion, sy'n wynebu'r argyfwng hinsawdd a'i effeithiau. Y pryder yw mai trigolion Fairbourne fydd ffoaduriaid hinsawdd cyntaf y Deyrnas Unedig.

Er mai'r gymuned hon yw'r un gyntaf o'i bath i fod yn anghynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, nid yw'n unigryw yn ei chyflwr presennol. Mae corff cynyddol o dystiolaeth ar sail ymchwil a wnaed i ardaloedd eraill sy'n wynebu materion yn gysylltiedig ag adlinio'r arfordir yn awgrymu nad Fairbourne fydd y gymuned olaf i orfod wynebu bregusrwydd cynyddol yn sgil yr argyfwng hinsawdd. Mae lefelau'r môr o amgylch y Deyrnas Unedig wedi codi 15.4 cm ers 1900, ac mae'r Swyddfa Dywydd yn disgwyl iddynt godi cymaint ag 1.12 m erbyn 2100, gan roi rhai cymunedau mewn perygl. Hyd yn oed os yw llywodraethau'r byd yn llwyddo i leihau'r allyriadau cynyddol yn unol â'u hymrwymiadau yn dilyn Cytundeb Paris 2016, mae disgwyl i lefelau'r môr godi am ganrifoedd, wrth i dymheredd y byd yn gyffredinol godi ac i'r cefnforoedd gynhesu.

### 15.4 Gwerthusiad

Awgryma Lynch (2019) nad yw diffiniad troseddegwyr o droseddau gwyrdd yn un syml a bod hyn yn effeithio ar yr ymchwil droseddegol. Yn ail, mae astudio troseddau gwyrdd yn gofyn am fesur yn union beth yw trosedd werdd. Dadl Lynch yw bod hyn yn angenrheidiol. Mae'r cysyniad o 'niwed' hefyd yn un amwys. Trwy ystyried 'niwed' yn unig, mae'r gweithgarwch allai ddod o dan ambarél ymchwil droseddegol bron yn ddiddiwedd. Ar ben hynny, gan fod penderfynu beth yw 'niwed' yn fater o farn wleidyddol a moesol yn hytrach na ffaith empirig, mae nifer o gwestiynau eraill yn codi. Er enghraifft, gellir dadlau fod bron pob un ohonom yn gyfrifol am gyfrannu at newid yn yr hinsawdd a gallai pob troseddegwr gwyrdd benderfynu cynnwys hyn yn ei ddiffiniad o niwed neu droseddu. Ymhellach, byddai rhai'n cynnwys cynhyrchu cig fel y cyfryw neu hyd yn oed fwyta cig o fewn y diffiniad, tra byddai eraill yn ystyried yr ymddygiad hwn yn gwbl normal a derbyniol. Er hynny, mae'n rhaid hefyd cydnabod fod cysylltiadau cryf rhwng troseddeg werdd a materion troseddegol eraill megis troseddau gwledig a threfnedig, troseddau coler wen a chorfforaethol, atal troseddu cymdeithasol a sefyllfaol, a dioddefoleg.

### 15.5 Gweithgaredd

- Darllenwch yr erthygl isod. Sut fyddai troseddegwyr gwyrdd yn ystyried y digwyddiadau yn Fairbourne?
- Ai enghraifft o dorri cyfreithiau amgylcheddol ynteu niwed i'r amgylchedd yw'r digwyddiadau yn Fairbourne? Esboniwch eich ateb.
- Pa fath o 'niwed' a welir yma?

## Fairbourne – mynd i gyfraith er mwyn achub pentre'?

**9 Mawrth 2014 am 09:32**

Mae trigolion Fairbourne ger Dolgellau yn ystyried mynd i gyfraith er mwyn gwrthwynebu cynlluniau Cyngor Gwynedd i adael i'w pentre' ddiflannu dan y don.

Mae'r pentre' yn un o nifer o lefydd ar hyd a lled Cymru na fydd yn derbyn arian nac amddiffynfeydd er mwyn eu gwarchod rhag stormydd na llifogydd. Yn achos Fairbourne, mae Cyngor Gwynedd wedi dweud nad oes cyfiawnhad tros wario ar gynnal amddiffynfeydd, ac y bydd yn rhaid gadael i tua 400 o dai gael eu llyncu gan y môr rhwng nawr a 2055.

Mae nifer o gyfarfodydd cyhoeddus wedi'u cynnal yn yr ardal yn ystod yr wythnosau diwetha', ac mae'r trigolion yn methu credu fod y cyngor sir yn fodlon ildio'r tir. Mae grŵp ymgyrchu wedi'i ffurfio, ac mae llythyr eisoes wedi'i anfon at Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones.

https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/139966-fairbourne-mynd-i-gyfraith-er-mwyn-achub-pentre. [Cyrchwyd: 19 Mai 2020]

### Deunydd darllen ychwanegol

Beck, U. (1992), *The Risk Society*. Cambridge Polity.

Beirne, P. a South, N. (2007), *Issues in Green Criminology: confronting harms against environments, humanity and other animals*. Cullompton: Willan.

Boano, C., Zetter, R. a Morris, T. (2008), *Environmentally Displaced People: understanding the linkages between environmental change, livelihoods and forced migration*. Refugee Studies

Centre Policy Brief No. 1. RSC: Oxford.

Giddens, A. (1990), *The Consequences of Modernity*. Cambridge: Polity.

Halsey, M. a White, R. (1998), 'Crime, ecophilosophy and environmental harm', *Theoretical Criminology*, 2(3), 345–71.

Lynch, M. et al. (2017), *Green Criminology: crime, justice, and the environment.* University of California Press.

Lynch, M. (2019), 'Green criminology and environmental crime: criminology that matters in the age of global ecological collapse', *Journal of White Collar and Corporate Crime*, 1(1), 50–61.

Nurse, A. (2016), *An Introduction to Green Criminology and Environmental Justice*. SAGE Publications Ltd.

Nurse, A. (2017), 'Green criminology: shining a critical lens on environmental harm', *Palgrave Communications,* 3, article number: 10 (2017).

South, N. (1998), 'A green field for criminology? A proposal for a perspective', *Theoretical Criminology*, 2(2), 211–33.
Spapens, T., White, R. a Kluin, M. (2014), *Environmental Crimes and its Victims: perspectives within green criminology*. London: Routledge.

White, R. (2003), *Crimes againsts Nature*. Cullompton: Willan.

White, R. (2009), *Environmental Crime: a reader*. Collompton: Willan.

White, R. a Heckenberg, D. (2014), *Green Criminology: an introduction to the study of environmental harm*. London: Routledge.

# 16

# Trosedde Realaidd

# 16

# Troseddeg Realaidd

Tua diwedd y 1970au ffurfiodd grŵp o academyddion graidd mudiad realaeth y chwith (left realism) drwy feirniadu troseddeg Farcsaidd. Credent nad oedd troseddeg Farcsaidd yn gallu cynnig gwerth ymarferol wrth ddadansoddi troseddu, ac yn bwysicach ei bod yn anwybyddu difrifoldeb effaith troseddu ar aelodau mwyaf bregus y gymdeithas. Ailwerthuswyd troseddeg Farcsaidd gan ddadlau bod angen archwilio realaeth y byd troseddu a'r cynnydd mewn troseddau treisgar (Williams, 2001). Yn hyn o beth, credai realwyr y chwith mewn defnyddio 'arolygon dioddefwyr' i archwilio realiti troseddu er mwyn cael dadansoddiad manylach o gamau gweithredu troseddwyr a'r rhai sy'n gorfodi'r gyfraith. Ystyrid hyn yn 'droseddeg newydd' (Taylor, Walton a Young, 1973).

Cysylltir realaeth y dde *(right realism)* â grŵp o awduron oedd ar y dde yn wleidyddol yn yr Unol Daleithiau. Yn ystod y 1970au a'r 1980au etholwyd llywodraeth geidwadol ag ymrwymiad i economeg neoryddfrydol yn America a Phrydain. Roedd realwyr y dde yn edrych ar fesurau ymarferol i reoli'r cynnydd mewn troseddu, gan gredu y dylid poeni llai am ddarganfod achosion troseddol ac y dylid yn hytrach roi mwy o sylw i reoli troseddu. Canolbwyntid ar atal a lleihau troseddu drwy gosbi a charcharu llym, yn ogystal â blaenoriaethu cyfrifoldeb rôl y gymuned mewn materion atal troseddu ehangach.

### 16.1 Beirniadu 'Delfrydiaeth Y Chwith'

Pwynt cychwynnol realaeth y chwith oedd cynnig beirniadaeth ar yr hyn a elwir yn 'ddelfrydiaeth y chwith'*(left idealism)* o fewn radicaliaeth a throseddeg Farcsaidd. Roedd 'delfrydiaeth y chwith' wedi cymryd yn ganiataol fod troseddu'n digwydd o fewn y dosbarth difreintiedig oherwydd tlodi a bod troseddu'n ymateb i geisio cydbwysedd mewn cymdeithas anghyfartal (Matthews a Young, 1992; Young a Matthews, 1992). Yn fwy penodol, beirniadwyd y rhai oedd yn arddel 'delfrydiaeth y chwith' am y rhesymau canlynol:

- eu bod wedi canolbwyntio'n ormodol ar newid gwleidyddol afrealistig ac wedi methu canolbwyntio'n ddigonol ar newid polisi ar lefel ymarferol a fyddai o gymorth i wella bywydau unigolion;
- eu bod yn edrych ar droseddu fel ffurf ar wrthryfel cyntefig ar ran y proletariat chwyldroadol. Credai'r rhai oedd yn coleddu syniadau realaidd fod delfrydwyr y chwith wedi rhamanteiddio'r proletariat fel gwrthryfelwyr cyfiawn, heb sylweddoli'r niwed y mae troseddu yn ei wneud;
- eu bod wedi anwybyddu tystiolaeth am effaith troseddu ar ddioddefwyr a chyfraddau dioddefaint;
- eu bod wedi glynu at y syniad fod cau sefydliadau a chyfyngu ar y system cyfiawnder troseddol yn beth da.

## 16.2 Natur Realaeth Y Chwith

Safiad canolog mudiad realaeth y chwith oedd y gred y dylid adlewyrchu realaeth troseddu, ei achosion, ei natur a'i effaith.

Canfu Tierney (1996) bedwar edefyn i realaeth y chwith, sef:

- ceisio datblygu darlun empirig o droseddu lleol a'i effeithiau;
- canolbwyntio ar achosion troseddu;
- archwilio'r berthynas rhwng troseddwyr, dioddefwyr a rheolaeth;
- ac yn olaf, datblygu polisïau ymarferol gyda'r bwriad o leihau amlder ac effaith dioddefaint.

Dadleuodd Young (1992) fod yn rhaid ymchwilio i'r gydberthynas rhwng yr holl elfennau, sef y dioddefwr, y troseddwr, rheolaeth ffurfiol, sef y wladwriaeth, a rheolaeth anffurfiol, sef y gymdeithas. Geilw Young hyn yn 'sgwâr troseddu', gan honni bod cyfraddau troseddu'n deillio o'r berthynas gymdeithasol rhwng pedair ochr y sgwâr troseddu hwn. Credai Lea a Young (1984) fod astudiaethau blaenorol wedi canolbwyntio ar y troseddwr, rheolaeth gymdeithasol neu'r wladwriaeth yn unig. Yn aml, anwybyddwyd y dioddefwr. Os ydym am ddeall achosion troseddu, mae'n bwysig ystyried bregusrwydd dioddefwyr, yr amodau sy'n effeithio ar lefelau rheolaeth a goddefgarwch cyhoeddus, ynghyd â'r grymoedd cymdeithasol sy'n gyrru asiantaethau ffurfiol.

**SGWÂR TROSEDDU**




Ffynhonnell: Young (1992)

Credai Young fod y cynnydd mewn cyfraddau troseddu wedi arwain at argyfwng achosegol wrth geisio egluro troseddu. Dadleuodd nad amddifadedd sy'n creu troseddu yn uniongyrchol gan fod safonau byw wedi codi yn ogystal â chyfraddau troseddu (Williams, 2001). Ymestynnodd Lea a Young (1984) y paradocs hwn ymhellach drwy ddadlau bod cymdeithas yn fwy llewyrchus ond hefyd â chyfraddau troseddu uchel. Credai'r ddau ei bod yn ofynnol edrych ar droseddu ac achosion troseddu o fewn y sgwâr troseddu. Yn ogystal, dylid edrych ar linellau grym ac ymyrraeth er mwyn atal troseddu a sicrhau trefniadau effeithiol. Mae atal troseddu felly'n ymwneud â phedair ochr y sgwâr.

### 16.3 Gwerthusiad

- Llwyddodd realwyr y chwith i dynnu sylw at realaeth troseddu stryd a'i sgileffeithiau. Er hyn, gellir honni bod y ddamcaniaeth yn canolbwyntio'n ormodol ar ardaloedd â chyfraddau troseddu uchel yng nghanol dinasoedd. Nid yw hwn yn ddarlun cynrychioliadol yn gyffredinol ac mae'n gwneud i droseddu ymddangos yn fwy o broblem nag ydyw mewn gwirionedd.
- Mae realwyr y chwith yn derbyn diffiniad cyfreithiol o droseddu, ynghyd â'r llu o broblemau a ddaw yn ei sgil.
- Mae realwyr y chwith yn dibynnu ar ddata meintiol o ystadegau swyddogol ar gyfer eu hymchwil ac yn tueddu i golli'r wybodaeth ehangach a geir o ddata ansoddol.
- Mae'r ddamcaniaeth yn rhy 'feddal' ar y troseddwyr gan nad yw'n egluro sut y dylid delio â hwy.

### 16.4 Gweithgaredd

1. Beth yw pedair prif ochr y sgwâr troseddu?
2. Pam mae realwyr y chwith yn credu bod arolygon dioddefwyr yn gyfrwng ymchwil defnyddiol?
3. Ai troseddu stryd neu droseddu corfforaethol sydd fwyaf niweidiol?

### 16.5 Y Gwahaniaeth rhwng Realaeth y Chwith a'r Dde

Benthycodd y chwith a'r dde elfennau o'r ddamcaniaeth rheolaeth er mwyn datblygu polisïau ymarferol i leihau neu atal troseddu. Roedd y ddwy ochr yn rhannu'r un gofid am effaith niweidiol troseddu ar gymunedau, ac roedd y ddwy ochr yn awyddus i wneud troseddeg yn ddisgyblaeth bolisi berthnasol i atal niwed troseddol. Er hyn, mae'r ddwy ochr yn gwrthdaro ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r tebygrwydd rhwng y ddwy ochr, a'r ail dabl yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhyngddynt.

**Tebygrwydd rhwng Realaeth y Chwith a'r Dde**

REALAETH Y CHWITH A'R DDE

Yn derbyn diffiniadau cyfreithiol o droseddu

Yn gofidio am effaith niweidiol troseddu ar gymunedau

Bod ofn troseddu yn rhesymol

Yn datblygu polisïau i atal troseddu

**Ffynhonnell**: Addaswyd o waith Muncie a Wilson (2004)

**Gwahaniaethau rhwng Realaeth y Chwith a'r Dde**

**REALAETH Y CHWITH**

Yn ffafrio democratiaeth sosialaidd

Yn canolbwyntio ar sut y dehonglir troseddu gan ddioddefwyr

Yn ailweithio damcaniaethau diwylliannol, *anomie* a gwrthdaro strwythurol

Bod troseddu'n deillio o amddifadedd, anghyfiawnder ac ymyleiddio cymdeithasol

Yn blaenoriaethu cyfiawnder cymdeithasol drwy raglenni atal troseddu




**REALAETH Y DDE**

Yn ffafrio neoryddfrydiaeth

Yn canolbwyntio ar droseddu fel y caiff ei adlewyrchu mewn ystadegau swyddogol

Yn ailweithio damcaniaethau genynnol ac unigolyddol

Bod troseddu'n deillio o ddiffyg hunanreolaeth

Yn blaenoriaethu trefn yn hytrach na chyfiawnder drwy ddulliau atal a chosbi

**Ffynhonnell:** Addaswyd o waith Muncie a Wilson (2004)

Gwelir bod realwyr y dde yn cymryd trosolwg unigolyddol o droseddu drwy chwilio am esboniadau ymhlith unigolion yn hytrach nag amgylchiadau cymdeithasol/strwythurol fel y mae realwyr y chwith yn ei wneud. Ystyrir effaith dirywiad mewn gwerthoedd moesol a rheolaeth gymdeithasol ganddynt a chredir bod hyn yn ganolog i'r ddealltwriaeth o gynnydd mewn lefelau troseddu.

### 16.6 Realaeth Y Dde - Diffyg Cymdeithasoli

Canolbwyntiodd gwaith Wilson a Herrnstein (1985) ar ddiffyg cymdeithasoli plant mewn teuluoedd ifanc, yn enwedig mewn teuluoedd rhiant sengl. Cyfeirir at y diffygion fel 'ffactorau cyfansoddiadol' sydd wedi eu gwreiddio mewn damcaniaethau ar fioleg gymdeithasol, lle mae gwahaniaethau genynnol yn dylanwadu ar yr unigolyn ac yn ei helpu i ddeall buddiannau a chosb.

#### 16.6.1 Y Cyswllt rhwng Cyniferydd Deallusrwydd (Iq) a Throseddu

Ystyrir astudiaeth Herrnstein a Murray (1994) yn ffynhonnell ddadleuol a dylanwadol gan eu bod yn honni bod y sawl sydd â llai o allu yn profi llu o anfanteision. Defnyddir data hydredol am bobl ifanc yn yr astudiaeth, gan ddadlau bod y rhai â sgôr cyniferydd deallusrwydd (IQ) isel yn fwy tebygol o fod yn fwy parod i droseddu, beth bynnag eu statws cymdeithasol. O ganlyniad, dadleuwyd y dylid edrych tu hwnt i dlodi a diweithdra, ond yn hytrach ar anfanteision deallusol. Fel y gellid disgwyl, roedd yr astudiaeth yn hynod ddadleuol a derbyniodd feirniadaeth hallt oherwydd yr honiad bod mesurau cyniferydd deallusrwydd (IQ) ymhlith grwpiau ethnig yn adlewyrchu gwahaniaethau genynnol.

Gwrthbrofwyd y dadleuon hyn gan sawl astudiaeth ddilynol. Dadleuwyd bod Herrnstein a Murray wedi camarwain drwy anwybyddu ffeithiau allweddol a chamddefnyddio dulliau a dehongliadau ystadegol (Gould, 1995), ac mai effaith ymylol gaiff anfanteision deallusol ar droseddu (Lily et al., 2002).

#### 16.6.2 Tanddosbarth Cymdeithasol

Ystyrir cyfraniad sylweddol Charles Murray (1990) ar y tanddosbarth *(underclass)* yn rhan allweddol o realaeth y dde, yn enwedig ei syniadau ar sut y dylai unigolion ddangos mwy o gyfrifoldeb am eu hymddygiad personol. Honnai fod dulliau cymdeithasoli traddodiadol wedi mynd ar chwâl a bod dirywiad yn safonau magwraeth pobl ifanc. Dadleuodd fod diffyg parodrwydd i weithio ymhlith dynion ifanc, a'u bod yn rhy ddibynnol ar daliadau lles y wladwriaeth. Credai fod mesurau lles yn hybu pobl i fod yn afresymol, gyda rhieni sengl yn methu edrych ar ôl eu plant. Buan y daeth syniadau Murray yn boblogaidd yn America ac ymhlith gwleidyddion yn y Deyrnas Unedig gan ei fod yn apelio at syniadau asgell dde. Rhoddir y bai ar deuluoedd problematig, diffyg disgyblaeth ac anghysondebau, a'u gosod o fewn fframwaith gwleidyddiaeth geidwadol. Nid yw'r safbwyntiau hyn wedi cyfrannu'n sylweddol i'r astudiaeth o droseddu.

#### 16.6.3 Gwerthusiad

- Gellir ystyried bod damcaniaeth realaeth y dde yn ddylanwadol o fewn y cyd-destun gwleidyddol, ond yn ddadleuol iawn yn academaidd. Beirniadwyd safbwyntiau realwyr y dde gan academyddion, a'u cyhuddo o ganolbwyntio ar rhai pwyntiau'n unig, sef eu bod yn methu trafod dylanwad strwythur ac anghyfartaledd cymdeithasol.
- Mae'r ddamcaniaeth wedi denu cryn sylw gan sawl llywodraeth, yn bennaf oherwydd bod y syniadau'n apelio at garfanau asgell dde'r llywodraethau hynny.
- Yn hyn o beth, mae'r pwyslais ar gyfrifoldeb yr unigolyn o fewn fframwaith realaeth y dde wedi dylanwadu ar bolisïau cosb Llafur Newydd, llywodraeth glymblaid (cyfuniad o'r Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr Democrataidd), yn ogystal â'r Llywodraeth Geidwadol ym Mhrydain. Canolbwyntiodd y rhaglen arbedion ariannol yn dilyn dirwasgiad 2007–8 ar dorri rhaglenni cyhoeddus a darpariaeth lles (Taylor-Gooby, 2012) fel ymateb gwleidyddol i'r gred fod systemau lles yn anghynaliadwy. Rhagfynegodd Beatty a Fothergill (2013; 2016) ac Innes a Tetlow (2015) y byddai arbedion ariannol 2015–20 yn debygol o effeithio fwyaf ar deuluoedd â phlant dibynnol a rhieni sengl. Mae'r syniadau hyn yn bwydo'r syniad o argyfwng troseddu, oherwydd trafodwyd ideoleg y diwygiadau lles yn yr un goleuni â chymdeithas yn datgymalu. Roedd pwyslais ar y syniad o gytundeb cymdeithasol rhwng yr unigolyn, y wladwriaeth a'r gymdeithas i geisio datrys problemau drwy ymateb i'r panig moesol gan bwysleisio rhwygiadau teuluol, rhieni sengl, diffyg cyrhaeddiad addysgol, troseddu a diffyg ymrwymiad moesol i werthoedd casgliadol (Prideaux, 2010).
- Ystyrid llawer o'u cysyniadau'n rhai amwys iawn a'u bod yn gorbwysleisio troseddau treisgar; ni cheir sylw digonol i droseddau ehangach.
- Yn olaf, ceir gormod o bwysau ar gosbi llym yn hytrach na hyrwyddo agweddau ar bolisi cymdeithasol.

#### 16.6.4 Gweithgaredd

1. Diffiniwch y term ‘tanddosbarth’ (Murray, 1990). A ellir derbyn syniadau asgell dde fel y rhain yn y Gymru gyfoes?

2. Pam mae safbwyntiau realwyr y dde wedi creu cymaint o ddadleuon o fewn troseddeg?

3. Sut fyddech chi’n cymharu realaeth y chwith â realaeth y dde?

### Deunydd darllen ychwanegol


Beatty, C. a Fothergill, S. (2013), *Hitting the Poorest Places Hardest: the local and regional impact of welfare reform*. CRESR: Sheffield Hallam University.

Beatty, C. a Fothergill, S. (2016), *The Uneven Impact of Welfare Reform: the financial losses to places and people*. CRESR: Sheffield Hallam University.

Gould, S. J. (1995), 'Mismeasure by any measure', yn: Jacoby, R. a Glauberman, N. (goln), *The Bell Curve Debate*. New York: Times Books.

Herrnstein, R. a Murray, C. (1994), *The Bell Curve: intelligence and class structure in American life*. New York: The Free Press.

Innes, D. a Tetlow, G. (2015), 'Central cuts, local decision-making: changes in local government spending and revenues in England, 2009–10 to 2014–15', *IFS Briefing Note BN166*. London: Institute for Fiscal Studies.

Lea, J. a Young, J. (1984), *What is to be Done about Law and Order?* London: Penguin Books.

Liebling, A., Maruna, S. a McAra, L. (2017) (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, 6ed argraffiad. Oxford: Oxford University Press.

Lilly, J. R., Cullen, E. T. a Ball, R. A. (2002), *Criminological Theory: context and consequences*, cyf. 3. Thousand Oaks, CA: Sage.

Matthews, R. a Young, J. (1992) (goln), *Issues in Realist Criminology*, London: Sage.

Muncie, J. a Wilson, D. (2004) (goln), *The Student Handbook of Criminal Justice and Criminology*. London: Cavendish.

Murray, C. (1990), *The Emerging British Underclass*. London: IEA Health and Welfare Unit.

Prideaux, S. J. (2010), 'The welfare politics of Charles Murray are alive and well in the UK', *International Journal of Social Welfare*, 19(3), 293–302.

Taylor, I., Walton, P. a Young, J. (1973), *The New Criminology.* London: Routledge Kegan Paul.

Taylor-Gooby, P. (2012), *UK Heading for Bottom Place on Public Spending*, https://www.poverty.ac.uk/articles-government-cuts-international-comparisons-public-spending-whats-new/uk-heading-bottom-place

Tierney, J. (1996), *Criminology: theory and context*. London: Harvester Wheatsheaf.

Williams, K. S. (2001), *Textbook on Criminology.* Oxford: Oxford University Press.

Wilson, J. Q. a Herrnstein, R. J. (1985), *Crime and Human Nature: the definitive study of the causes of crime*. New York: Simon & Schuster.

Young, J. (1992), 'Ten points of realism', yn: Young, J. a Matthews, R. (goln), *Rethinking Criminology: the realist debate*. London: Sage.

Young, J. a Matthews, R. (1992) (goln), *Rethinking Criminology: the realist debate*. London: Sage.

17

# Damcaniaethau Rheolaeth Gymdeithasol

# 17

# Damcaniaethau Rheolaeth Gymdeithasol

Gellir dweud bod damcaniaethau rheolaeth gymdeithasol (social control theory) yn dechrau o safbwynt gwahanol i ddamcaniaethau troseddeg eraill. Yn hytrach na chanolbwyntio ar wyredd a cheisio egluro troseddu, maent yn archwilio cydymffurfiaeth a ffurfiau rheolaeth gymdeithasol. Maent yn tynnu ar ffactorau cymdeithasol a seicolegol i egluro'u safbwyntiau amrywiol. Er nad yw elfennau'r damcaniaethau hyn yn gwbl newydd, mae'r term rheolaeth gymdeithasol yn ymwneud â rheoli ymddygiad, gan gyfeirio at esboniadau genynnol, niwrogemeg, bioleg gymdeithasol, damcaniaethau personoliaeth a chynlluniau amgylcheddol.

Mae rheolaeth gymdeithasol yn ymwneud â strwythur y teulu, addysg, a grwpiau cyfoedion. Er hyn, mae agwedd y damcaniaethwyr hyn ychydig yn wahanol i eiddo damcaniaethwyr eraill. Er bod yna rai gwahaniaethau, maent i gyd yn egluro ymddygiad troseddol drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud pobl yn droseddol neu pam mae rhai'n cydymffurfio â rheolau (Hirschi, 1969).

Un agwedd arall ar y damcaniaethau hyn yw'r elfen o gymdeithasoli, gyda chyfnod magwraeth yn allweddol i gymdeithas, ac mae'r damcaniaethau'n pwysleisio ansawdd y broses hon. Cafwyd cynnydd ym mhoblogrwydd y damcaniaethau hyn yng nghanol y 1970au fel modd o wrth ymateb i labelu ymddygiad troseddwyr a throseddeg Farcsaidd, oedd â'u canolbwynt ar y troseddwr, twf syniadaeth o fewn troseddeg bragmatig a'r frwydr yn erbyn troseddu.

### 17.1 Durkheim a Rheolau Cymdeithasol

Mae gwreiddiau'r ddamcaniaeth rheolaeth gymdeithasol yn deillio o syniadau Durkheim am reolau cymdeithasol (1895; 1965). Drwy edrych ar gymdeithas, casglodd Durkheim fod troseddu yn swyddogaethol bwysig. Tybiai fod gwyredd yn cynnal trefn gymdeithasol, â ffiniau moesol yn diffinio pa weithredoedd sy'n dderbyniol a pha rai sy'n annerbyniol. Gan nad yw'r ffiniau'n glir, mae'r ymateb cymdeithasol i wyredd yn penderfynu beth ddylid ei wneud. Gwêl Durkheim fod ymddygiad yn cael ei reoli gan yr ymateb cymdeithasol iddo. Credai fod rheolaeth yn hanfodol i drefniant cymdeithasol ac er mwyn i bobl ddeall ffiniau eu hymddygiad derbyniol. Cyfeiriodd Durkheim at *anomie*, lle mae'r berthynas gymdeithasol wedi datgymalu. Credai fod hyn yn arwain at droseddu a graddfa uchel o hunanladdiad wrth i reolau ddiflannu.

### 17.2 Damcaniaeth Rheolaeth Gymdeithasol a Damcaniaeth Personoliaeth

Daeth cyfuno esboniadau ar reolaeth gymdeithasol a phersonoliaeth yn boblogaidd yn ystod y 1950au, gyda'r syniadau'n dod yn sylfaen i waith cyfoes ar wyredd mewn troseddeg a throseddau pobl ifanc. Roedd gwaith Albert Reiss (1951) yn cyfuno'r ddau brif gysyniad â gwaith Ysgol Chicago gan greu damcaniaeth seicdreiddiol â thair elfen yn egluro troseddu ymhlith pobl ifanc. Ystyriai fod troseddu yn ganlyniad diffyg yn un neu ragor o'r pwyntiau isod:

1. diffyg rheolaeth fewnol yn ystod cyfnod magwraeth;
2. dirywiad rheolaeth fewnol;
3. absenoldeb neu wrthdaro mewn rheolaeth gymdeithasol gan grwpiau cymdeithasol fel y teulu a'r system addysg.

### 17.3 Damcaniaeth Cyfyngiant

Mae damcaniaeth cyfyngiant *(containment theory*) Walter Reckless a Simon Dinitz (1967) yn trafod troseddu gan bobl ifanc a'r gwahaniaeth rhwng dwy ffurf ar reolaeth, sef y mewnol a'r allanol. Mae cyfyngiant mewnol yn cynnwys hunanreolaeth, cryfder ego, uwchego wedi datblygu'n llawn, ymdeimlad dwfn o gyfrifoldeb, goddefgarwch a'r gallu i ddarganfod ffyrdd o fodloni. Mae'r cyfyngiant allanol yn cynnwys yr amgylchedd cymdeithasol, er enghraifft teulu, y gwerthoedd a ddysgir mewn systemau addysg, goruchwyliaeth a disgyblaeth effeithiol, a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol. Dysgir cyfyngiant mewnol yn ifanc iawn, gan ddeall beth sy'n dda neu'n ddrwg, a bod hyn yn amddiffyn yr unigolyn rhag dylanwadau allanol. Pwysleisiwyd bod amrywiaeth o ddylanwadau'n gallu creu gwyredd. Mae effaith y dylanwadau hyn yn dibynnu ar gryfder cyfyngiant mewnol a chyfyngiant allanol yr unigolyn. Os yw'r hunan yn ddiffygiol, nid yw rheolau cymdeithasol yn ffrwyno unigolion yn ddigonol i'w hatal rhag troseddu. Petai'r hunan yn gryfach a'r rheolaeth allanol yn wan, gall unigolyn wrthsefyll troseddu. Yr hunan felly yw'r pwysicaf, yn ôl Reckless.

### 17.4 Niwtraleiddio A Drifftio

Cynigia astudiaeth adnabyddus Matza a Sykes (1957) werthusiad o waith Albert Cohen ar ddamcaniaeth yr isddiwylliant a'r syniad fod gangiau dosbarth gweithiol ynghlwm â gwerthoedd pwysicaf y gymdeithas. Honnai Matza a Sykes fod pobl ifanc yn defnyddio technegau niwtraleiddio er mwyn llacio'u hymrwymiad i werthoedd cymdeithas ac o ganlyniad eu bod yn eu rhyddhau eu hunain dros dro i droseddu. Mae'r technegau niwtraleiddio'n cynnwys y canlynol:

- gwadu cyfrifoldeb;
- gwadu niwed;
- gwadu dioddefwyr;
- condemnio'r condemnwyr;
- apêl at fwy o ffyddlondeb.

Mae ymddygiad o gydymffurfio neu wyredd yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r technegau niwtraleiddio.

### 17.5 Damcaniaeth Hirschi Ar Fondio Cymdeithasol

Ystyrir damcaniaeth Hirschi (1969) fel yr un fwyaf poblogaidd o fewn damcaniaethau rheolaeth gymdeithasol yr 1970au a'r 1980au. Canolbwynt y ddamcaniaeth yw edrych ar gwlwm neu fond cymdeithasol. Gwêl Hirschi ymddygiad yn adlewyrchu graddau moesoldeb. Roedd pŵer normau ac ymwybyddiaeth yn golygu bod pobl yn hybu ymddygiad confensiynol. Gwrthodir y syniad fod pobl yn cael eu cymell i wyro. Credai fod unigolion yn ymwneud â hunan-ddiddordeb a'u lles hwy eu hunain. Ceir pedair elfen i ddamcaniaeth Hirschi, sef:

- **ymlyniad** – hon yw'r elfen bwysicaf gan ei bod yn creu cydymffurfiaeth drwy uniaethu â chyfoedion, rhieni, goruchwyliaeth, cyfathrebu, agweddau a sensitifrwydd at farn eraill;

- **ymwneud** – cymryd rhan mewn gweithgaredd cymdeithasol, boed yn waith cyflogedig, gweithgaredd hamdden neu chwaraeon sy'n mynd ag amser ac egni'r unigolyn, sy'n golygu bod llai o amser i wyro ac yn cryfhau cydymffurfiaeth;

- **ymrwymiad** – buddsoddiad cymdeithasol mewn addysg, gyrfa, pwysigrwydd enw da, sy'n golygu llai o amser i droseddu;

- **credoau** – byw a chydnabod bod rheolau cymdeithasol yn deg a theimlo dyletswydd foesol i ddangos parch at awdurdodau a'r gyfraith.

Mae'r pedair elfen yn effeithio ar y cwlwm cymdeithasol rhwng yr unigolyn a'r gymdeithas. Gellir cwestiynu a yw troseddu yn ganlyniad diffyg yn y pedair elfen neu mewn un yn unig, ac a yw'r effeithiau'n wahanol? Nid yw'r ddamcaniaeth yn egluro perthynas y pedair elfen â'i gilydd a bod hwn yn gwestiwn y byddai'n rhaid rhoi prawf empirig arno i gael ymateb. Pwysleisir bod angen methodoleg arbenigol i ganfod troseddu a throseddolrwydd, sef tystiolaeth o astudiaethau hunanadrodd.

Yn ôl Hirschi, deillia problemau troseddol o ddiffyg hunanreolaeth, gan nad yw pobl yn gallu rhwystro'u hunain. Roedd tueddiadau fel bod yn anystyriol, yn ansensitif, yn hunanbwysig, a meddu ar ychydig o allu yn nodweddiadol o rai sy'n troseddu gan nad ydynt yn gweld canlyniadau eu hymddygiad. Dadleuodd Hirschi fod y tueddiadau i'w gweld yn ystod plentyndod cynnar ac mewn oedolion, gan fod troseddu'n cynnig pleser. Mae'r ddamcaniaeth hon yn debyg i ddamcaniaeth positifiaeth, oherwydd mae'n canolbwyntio ar ymddygiad yr unigolyn a'r prosesau sy'n digwydd pan fydd y cwlwm cymdeithasol wedi gwanhau.

### 17.6 Damcaniaeth Hunanreolaeth

Dyma'r ffurf fwyaf diweddar ar ddamcaniaeth Gottfredson a Hirschi (1990) ar reolaeth gymdeithasol ac mae'n ceisio egluro tueddiadau troseddol a'r amgylchiadau sy'n eu creu. Ailddiffiniwyd y cysyniad o droseddu er mwyn ceisio egluro'i ffurfiau amrywiol. Mae'r diffiniad newydd yn cynnwys troseddu coler wen, yn arbennig twyll, gan adeiladu ar astudiaeth gynharach Hirschi (1969).
Yn ogystal, mae'r awduron yn gwrthod ystyried newidynnau ehangach, yn enwedig dosbarth cymdeithasol, hil ac ethnigrwydd, yn eu dadansoddiad gan eu bod yn eu gweld yn faterion

amwys. Awgrymir y dylid edrych ar nodweddion cyffredin troseddu, megis yr angen am foddhad uniongyrchol, boddhad syml, risg a chyffro, y ffaith nad oes raid ei gynllunio, a'r hyn sy'n creu poen i ddioddefwyr. Gwêl yr awduron droseddu yn fater o ddiffyg hunanreolaeth yr unigolyn, yn hytrach na chanlyniad cymhelliant a rheolaeth allanol. Mae nodweddion megis byrbwylltra, diffyg sensitifrwydd a hunanganologrwydd yn effeithio ar reolaeth gymdeithasol drwy effeithio ar allu'r unigolyn i ystyried y canlyniadau (Gofftredson a Hirschi, 1990, 95).

### 17.7 Gwerthusiad

- Gellir dweud bod damcaniaethau ar reolaeth gymdeithasol wedi bod yn ddylanwadol ar ffurf polisïau ymyrraeth gyfoes. Gan fod y damcaniaethau wedi canolbwyntio ar reoli teuluoedd, addysg a hunanreolaeth, mae'r polisïau ymyrraeth yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd, gan ddysgu sgiliau rhianta ac ennill hyder a hyrwyddo gwell cydlyniaeth.

Er hyn, nid yw'r damcaniaethau'n ateb pob dadl ac yn rhydd o broblemau. Gan fod canolbwynt y damcaniaethau'n ymwneud â systemau rheoli, derbynnir cynyddu lefelau rheoli er mwyn lleihau gwyredd. Nid yw hyn bob amser yn dderbyniol o fewn maes cymdeithaseg a throseddeg. Mae parodrwydd y rhai sydd o blaid y damcaniaethau hyn i gynyddu rheolaeth, rhwystrau neu waharddiadau mewn systemau ac ymatebion polisi'n gallu cynyddu'r gormes. Cwestiynir a yw ymyrraeth uniongyrchol a rheolaeth fel hyn yn gwbl briodol a phwrpasol ar adegau.

- Gorbwysleisir gallu'r damcaniaethau hyn i egluro troseddu. Mae elfennau rheoli'n perthyn i lawer o ddamcaniaethau troseddeg ac mae creu damcaniaeth ar 'reolaeth gyffredinol' yn anwybyddu argymhellion/esboniadau damcaniaethau eraill.
- Ac eithrio astudiaeth Hirschi (1969), mae damcaniaethau ar reolaeth gymdeithasol yn tanseilio rôl strwythur cymdeithasol a rheolaeth gymdeithasol ddwysach wrth egluro troseddu.
- Ychydig iawn mae'r damcaniaethau hyn yn ei gynnig parthed ffurfiau gwahanol ar droseddu.

### 17.8 Gweithgaredd

1. Mae model CFOS yn cynnig agwedd ataliol gadarnhaol ac yn hyrwyddo gweithredu ar 'sail plant yn gyntaf a throseddwyr yn ail' er mwyn ymrwymo pobl ifanc i wasanaethau cyfiawnder troseddol ac ymyrraeth. Darllenwch erthygl Case a Haines (2014), 'Children First, Offenders Second: the centrality of engagement in positive youth justice', *The Howard Journal of Criminal Justice*, 54(2), 157–75. https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/hojo.12099.

   Gwerthuswch y syniadau sydd ar waith a sut y gweithredir arferion lleol ym mhartneriaeth Biwro Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Abertawe a Heddlu De Cymru.

2. A yw damcaniaeth bondio cymdeithasol Hirschi (1969) yn egluro troseddu gan bobl ifanc?

3. Mae astudiaeth Gottfredson a Hirschi (1990), *A General Theory of Crime*, yn honni mai unigolyn ag ychydig iawn o hunanreolaeth sy'n troseddu. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn?

## Deunydd darllen ychwanegol


Durkheim, E. (1895/1965), *The Rules of the Sociological Method*. Cyfieithwyd gan Solovay, S. A. a Mueller, J. H. New York: Free Press (Ailgyhoeddwyd 1965).

Gottfredson, M. a Hirschi. T. (1990), *A General Theory of Crime*. Stanford, CA: Stanford University Press.

Hirschi, T. (1969), *Causes of Delinquency*. Berkeley: University of California Press.

Liebling, A., Maruna, S. a McAra, L. (2017) (goln), *The Oxford Handbook of Criminology*, 6ed argraffiad. Oxford: Oxford University Press.

Reckless, W. C. a Dinitz, S. (1967), 'Pioneering with self-concept as a vulnerability factor in delinquency', *Journal of Criminal Law, Criminology and Police Science*, 58, 515–23.

Reiss, A. L. (1951), 'Delinquency as the failure of personal and social controls', *American Sociological Review*, 16, 196–207.

Sykes, G. M. a Matza, D. (1957), 'Techniques of neutralization: a theory of delinquency', *American Sociological Review*, 22, 664–70.

Vold, G., Bernard, T. a Snipes, J. (2002), *Theoretical Criminology*. Oxford: Oxford University Press.

# Geirfa

## PENNOD 1: DIFFINIO TROSEDD

**Arferion grŵp / *Folkways***: Y normau ysgafnaf neu'r rhai lleiaf difrifol sy'n cyfeirio at arferion, traddodiadau neu ddiwylliannau delfrydol, ond nad ydynt yn destun cosb ddifrifol, er enghraifft gwisgo dillad addas.

**Morau / *Mores***: Arferion mwy difrifol a llym sy'n cynnwys barn foesol yn erbyn gweithredoedd sy'n fygythiad i ffordd y grŵp o fyw.

**Cyfreithiau / *Laws***: Dulliau ffurfiol o reoli'r gymdeithas. Mae cyfreithiau felly'n ffurfioli'r morau.

**Troseddoli / *Criminalisation***: Y broses o droi gweithgaredd yn drosedd trwy ei wneud yn anghyfreithlon.

**Camwedd / *Tort***: Gweithred anghyfiawn, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol, lle mae anaf yn digwydd i unigolyn arall.

**Lluniad cymdeithasol / *Social construct***: Rhywbeth sy'n bodoli o ganlyniad i ryngweithio dynol yn hytrach nag unrhyw realiti gwrthrychol. Mae'n bodoli oherwydd bod bodau dynol yn cytuno'i fod yn bodoli.

## PENNOD 2: TROSEDDU YNG NGHYMRU A LLOEGR

**Riportio troseddau / *Crime reporting***: Rhoi gwybod am droseddau er mwyn dod â hwy i sylw'r heddlu. Bydd angen tystiolaeth o'r digwyddiad a'i fod yn ddigon difrifol i geisio ymateb ar ran yr heddlu.

**Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr / *Crime Survey for England and Wales***: Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn cynnwys troseddau nad ydynt yn cael eu riportio i'r heddlu nac yn cael eu cofnodi ganddynt. Mae'r Swyddfa Gartref, adrannau'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector yn defnyddio canfyddiadau CSEW i lunio strategaethau a pholisïau i ddiwallu angen newidiol y ddwy wlad.

**Cofnodi troseddau / *Crime recording***: Y broses o gofnodi troseddau gan yr heddlu yn unol â rheolau cofnodi'r Swyddfa Gartref.

**Dynladdiad / *Manslaughter***: Lladd unigolyn arall heb fwriadu gwneud hynny. Yn 2008 daeth trosedd arall i rym, sef dynladdiad corfforaethol – gweithred o ddynladdiad a gyflawnwyd gan gwmni neu sefydliad.
Enghreifftiau:

**Dynladdiad 39 o geiswyr lloches** o Fietnam y cafwyd hyd iddynt yng nghefn lorri yn Essex ym mis Hydref 2019. Roedd y ceiswyr lloches wedi mygu yng nghefn lorri oedd wedi'i selio wrth iddi deithio o Zeebrugge i Purfleet.

**Trychineb Hillsborough / *Hillsborough Disaster***: Digwyddiad trychinebus pan wthiwyd ac y sathrwyd cefnogwyr pêl-droed yn Stadiwm Hillsborough yn Sheffield, De Swydd Efrog, ar 15 Ebrill 1989 mewn gêm bêl-droed rhwng Lerpwl a Nottingham Forest. Collodd 96 o bobl eu bywydau yn ystod y drychineb. Yn ystod yr wythnosau dilynol fe wnaeth yr heddlu fwydo straeon ffug i'r wasg gan awgrymu mai hwliganiaeth a meddwdod gan gefnogwyr Lerpwl oedd wedi achosi'r drychineb. Parhawyd i feio cefnogwyr Lerpwl hyd yn oed ar ôl canfyddiad Adroddiad Taylor yn 1990 mai methiant heddlu De Swydd Efrog i reoli'r dorf oedd yn gyfrifol am y digwyddiad. Yn dilyn hyn, dyfarnodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn 2012 nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau erlyn unrhyw unigolion

na sefydliadau na chynnal archwiliad newydd. Cafodd marwolaethau'r 96 eu cynnwys yn ystadegau dynladdiad 2017, wedi brwydr hir a dyrys i sefydlu archwiliad newydd yn 2016.

**Lladdiad / *Homicide***: Term a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Ystyrir llofruddiaeth a dynladdiad fel troseddau sy'n gyfystyr â lladdiad.

**Babanladdiad / *Infanticide***: Mae'r term yn rhan o'r diffiniad o laddiad. Diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o fabanladdiad yw lladd baban dan flwydd oed gan ei fam tra mae ei chydbwysedd meddwl yn ansefydlog o ganlyniad i enedigaeth y plentyn.

**Swyddfa Ystadegau Gwladol / *Office for National Statistics***: Y swyddfa hon sy'n gyfrifol am gasglu a chyhoeddi ystadegau cymdeithasol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ym maes troseddeg, maent yn cyfuno data'r heddlu a'r CSEW i greu adroddiadau blynyddol.

**Trosedd hysbysadwy / *Notifiable offence***: Ceir rheolau llym ynglŷn â chofnodi troseddau, fel yr amlinellir yn y Safon Genedlaethol ar Gofnodi Troseddau a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Bydd digwyddiad yn cael ei gofnodi fel trosedd hysbysadwy unwaith mae'r heddlu wedi ei gofnodi felly ar gyfer y Swyddfa Gartref, yn unol â'r rheolau.

**Trosedd heb ddioddefwr / *Victimless crime***: Trosedd heb ddioddefwr yw gweithred anghyfreithlon ar ran unigolyn nad yw'n creu niwed i ddioddefwyr eraill, dim ond i'r unigolyn ei hun.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / *Ministry of Justice***: Un o adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gweithio i amddiffyn a datblygu egwyddorion cyfiawnder y llysoedd. Mae'n gyfrifol am lysoedd sifil, tribiwnlysoedd a gwrandawiadau cyfraith teulu, gwasanaethau prawf, carchar a chyfiawnder troseddol. Darperir ystadegau fesul chwarter ar y system cyfiawnder troseddol.

## PENNOD 3: TROSEDDU DIFRIFOL A THROSEDDU TREFNEDIG

**Troseddu trefnedig / *Organised crime***: Mae hwn yn gysyniad dadleuol, ac yn cynnwys 150 o ddiffiniadau gwahanol. Mae'r llywodraeth yn darparu rhestr o'r categorïau sy'n cael eu hystyried yn droseddau trefnedig, gan gynnwys: masnachu cyffuriau, pobl ag arfau tanio, troseddu mewnfudo anghyfreithlon, twyll a throseddu ariannol, gwyngalchu arian, seiberdroseddu, ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern, a throseddu caffael.

**Masnachu pobl / *People trafficking***: Y weithred o gludo pobl yn anghyfreithlon o un wlad neu ardal i wlad neu ardal arall, fel rheol at ddibenion llafur gorfodol neu ecsbloetio rhywiol.

**Deddf Caethwasiaeth Fodern / *Modern Slavery Act***: Mae'n cynnwys 17 math gwahanol o gaethwasiaeth; mae'r geiriau caethwasiaeth fodern yn disodli'r term masnachu pobl.

**Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol / *National Referral Mechanism***: Cynllun ar gyfer cefnogi dioddefwyr caethwasiaeth fodern.

**Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig / *United Kingdom Border Agency***: Yn gyfrifol am ddiogelu ffiniau'r Deyrnas Unedig, drwy reoli mewnfudo, tollau, pobl a nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad.

**Globaleiddio / *Globalisation***: Proses economaidd o ryngweithio ac integreiddio sy'n gysylltiedig ag agweddau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n cynnwys nwyddau,

gwasanaethau data, technoleg, adnoddau a chyfalaf economaidd. Drwy gael gwared ar ffiniau masnach trawsffiniol, mae ffurfio marchnadoedd byd-eang wedi bod yn bosibl ac yn fwy ymarferol.

**Llinellau cyffuriau / *County lines***: Term sy'n cyfeirio at drosglwyddo a dosbarthu cyffuriau categori A i ardaloedd gwledig neu ardaloedd arfordirol mewn ymgais i wneud elw. Mae hierarchaeth i'r trefniant, â risg uchel o niwed neu ecsbloetio plant ifanc sy'n dod yn rhan o'r rhwydwaith troseddol.

**Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) / *Multi-agency Risk Assessment Conference***: Cyfuniad o sefydliadau amlasiantaethol sy'n gweithio mewn partneriaeth yn y sector cyfiawnder.

***The Godfather***: Tair ffilm sy'n croniclo hanes y teulu Corleone rhwng 1945 ac 1955 dan arweinyddiaeth Vito Corleone (Marlon Brando); maent yn canolbwyntio ar drawsnewid ei fab ieuengaf, Michael Corleone (Al Pacino), o fod ar gyrion y teulu estynedig i fod yn arweinydd y Maffia.

***The Sopranos***: Cyfres ddrama deledu Americanaidd boblogaidd. Y prif gymeriad yw Tony Soprano a cheir portread ohono'n ceisio cael cydbwysedd rhwng ei fywyd teuluol a'i rôl fel arweinydd sefydliad anghyfreithlon.

**Troseddu Coler Wen / *White Collar Crime***: Troseddau di-drais a gyflawnir gan fusnesau a/neu weithwyr proffesiynol o fewn y llywodraeth. Fel arfer, cymhelliant ariannol sydd ganddynt.

**Seiberdroseddu / *Cybercrime***: Mae'r term hwn yn cyfeirio at amrywiaeth o droseddau a wneir ar-lein, gan ddefnyddio'r rhyngrwyd. Dim ond ar y rhyngrwyd y gellir cyflawni seiberdroseddu.

**Panig moesol / *Moral panic***: Pryder neu ofn, fel arfer yn afresymol, fod rhywun neu rywbeth yn fygythiad i werthoedd, diogelwch a diddordebau cymuned neu gymdeithas.

**Deddf Gwrthderfysgaeth, Troseddu a Diogelwch 2001 / *Anti-Terrorism, Crime and Security Act 2001***

**Deddf Atal Terfysgaeth 2005 / *Prevention of Terrorism Act 2005***

**Deddf Terfysgaeth 2000/2006 / *Terrorism Act 2000/2006***

**Deddf Gwrthderfysgaeth 2008 / *Counter-Terrorism Act 2008***

**Deddf Rhewi Asedau Terfysgwyr 2010 / *Terrorist Asset-Freezing etc Act 2010***

**Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2011 / *Terrorism Prevention and Investigation Measures Act 2011***

**Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 / *Protection of Freedoms Act 2012***

**Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 / *The Counter-Terrorism and Security Act 2015***

**Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Ffiniau 2019 / *Counter-Terrorism and Border Security Act 2019***

## PENNOD 4: DIODDEFWYR A DIODDEFOLEG

**Dioddefwyr / *Victims***: Pobl sydd wedi profi niwed, colled neu galedi oherwydd troseddu.

**Dioddefoleg / *Victimology***: Gwyddor sy'n canolbwyntio ar egluro natur ac effaith troseddu ar yr unigolyn.

**Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol / *Criminal Injuries Compensation Scheme***: Cynllun a ariennir gan y Llywodraeth er mwyn digolledu dioddefwyr troseddu treisgar yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

# PENNOD 5: GWREIDDIAU TROSEDDEG

**Yr Ymoleuo / *The Enlightenment***: Mudiad deallusol ac athronyddol a oedd yn rheoli syniadau yn Ewrop yn ystod y 18fed ganrif.

**Cymdeithas ffiwdal / *Feudal society***: Ffordd o drefnu cymdeithas rhwng y 9fed a'r 15fed ganrif oedd yn seiliedig ar arferion milwrol ac economaidd. Gan ei bod yn amrywio o un gymdeithas i'r llall, nid oes un diffiniad penodol o drefn neu gymdeithas ffiwdal. Er hynny, dyma system oedd yn seiliedig ar berchnogi tir yn gyfnewid am lafur neu wasanaeth.

**Cymdeithas ddiwydiannol / *Industrial society***: Cymdeithas sy'n dibynnu ar dechnoleg ar gyfer masgynhyrchu. Mae'r ffordd hon o fyw'n cael ei gwrthgyferbynnu â'r gymdeithas draddodiadol, ac yn drefn oedd yn dechrau newid ar ôl y chwyldro diwydiannol.

**Dewis rhesymegol / *Rational choice***: Unigolion yn dibynnu ar ddewisiadau rhesymegol i wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'u hamcanion personol. Y penderfyniadau hyn sy'n rhoi'r budd neu'r boddhad mwyaf i bobl – er eu hunan-les personol.

**Ewyllys rydd / *Free will***: Y gallu i ddewis, meddwl a gweithredu'n wirfoddol, gan ddefnyddio disgresiwn. I lawer o athronwyr, ystyr ewyllys rydd yw y gall bodau dynol reoli eu gweithredoedd eu hunain, gan wrthod y syniad fod gweithredoedd dynol yn cael eu pennu gan amodau allanol neu gan dynged.

**Yr ysgol glasurol / *The classical school***: Gwreiddiau'r traddodiad troseddegol. Mae'n dadlau bod ymddygiad dynol yn datblygu drwy unigolyddiaeth, agwedd hunanol, neu hedoniaeth. Bydd troseddau'n digwydd wrth i bobl ddewis ymddwyn mewn modd hunanol, ond yn rhesymegol. Mae unrhyw gosb yn cael ei phenderfynu wrth bwyso a mesur y niwed y mae'r drosedd yn ei wneud.

**Iwtilitariaeth / *Utilitarianism***: Un o'r damcaniaethau moesol mwyaf adnabyddus a mwyaf dylanwadol. Mae'n dadlau mai'r weithred foesol orau yw'r un sy'n creu'r hapusrwydd neu'r 'budd' mwyaf. Ysgrifennodd Bentham am y syniad hwn gan ddefnyddio'r geiriau: '*The greatest good for the greatest number*.'

**Cesare Beccaria (1738–94)**: Sylfaenydd y mudiad clasurol, a oedd yn anelu at gyflwyno system fwy rhesymegol a theg wrth ystyried cosbi a rheolaeth.

**Jeremy Bentham (1748–1832)**: Athronydd o Loegr oedd â syniadau gwleidyddol radical. Bydd bob amser yn gysylltiedig ag athrawiaeth iwtilitariaeth ac egwyddor yr 'hapusrwydd mwyaf ar gyfer y nifer mwyaf'.

**Y Meddylfryd neoglasurol / *Neoclassical thinking***: Dewis rhesymegol sydd wrth wraidd y meddylfryd hwn. Ond mae'n ystyried achosion a all effeithio ar ymddygiad rhesymegol, megis oedran a chyflwr meddwl.

# PENNOD 6 : POSITIFIAETH A THROSEDDEG

**Astudiaethau mabwysiadu / *Adoption studies***: Astudiaethau cymharol o blant a gefeilliaid wedi eu lleoli mewn teuluoedd mabwysiedig mewn ymdrech i ddangos cyswllt genynnol ag ymddygiad troseddol. Cafwyd canlyniadau cymysg iawn.

**Atafiaeth / *Atavism***: Rhan o'r ddamcaniaeth a ddatblygwyd gan Lombroso lle mae person yn 'enedigol droseddol'. Mae dyn 'atafistaidd' neu gyntefig yn gam yn ôl i gyfnod cynharach esblygiad dyn.

**Ego / *Ego***: Un o'r cysyniadau yn astudiaeth Freud ar ddatblygiad personoliaeth. Cyfeirir at yr ego fel rhan rhesymeg weithredol y bersonoliaeth, sy'n cyfryngu rhwng gofynion hunaniaeth a'r uwchego.

**Genedigol droseddol / *Born criminal***: Y math hwn o droseddwr yw'r mwyaf peryglus, a gellir ei adnabod drwy nodweddion arbennig.

**Hunaniaeth / *Id***: Un o'r cysyniadau yn astudiaeth Freud ar ddatblygiad personoliaeth. Mae'r hunaniaeth yn cynnwys greddf a chyflyru sylfaenol, megis yr angen am fwyd, dŵr, rhyw a phleser.

**Penderfyniaeth / *Determinism***: O fewn positifiaeth, mae penderfyniaeth yn cyfeirio at y farn fod ffordd droseddol o fyw yn ganlyniad uniongyrchol i etifeddiaeth enynnol rhagduedd fiolegol neu seicolegol.

**Ysgol fiolegol / *Biological school***: Un safbwynt ar droseddu, y cyfeirir ato hefyd fel positifiaeth fiolegol; mae'n honni bod ymddygiad troseddol yn ganlyniad diffygion biolegol neu enedigol. Mae'r farn hon yn gwrthdaro'n uniongyrchol â throseddeg glasurol, sy'n honni bod gweithgaredd troseddol yn ganlyniad ewyllys rydd.

**Damcaniaeth wybyddol / *Cognitive theory***: Yn ôl y ddamcaniaeth hon, mae ymddygiad troseddol yn gynnyrch meddylfryd diffygiol ac afresymol. Gwrthodir ffactorau amgylcheddol fel elfen mewn penderfyniadau i ymddwyn yn droseddol, ac eithrio eu bod yn cyfyngu ar ddewisiadau unigolion.

**Damcaniaeth personoliaeth / *Personality theory***: Damcaniaeth sy'n honni bod ymddygiad troseddol yn ganlyniad i bersonoliaeth ddiffygiol, gwyredd neu bersonoliaeth annigonol.

**Damcaniaeth seicolegol / *Psychological theory***: Safbwynt cyffredinol sy'n edrych ar swyddogaeth seicoleg, datblygiad ac addasiad unigolion wrth egluro gweithredoedd troseddol neu wyredd.

**Damcaniaethau seicdreiddiol / *Psychoanalytic theory***: Safbwynt cyffredinol sy'n honni bod achosion ymddygiad troseddol i'w canfod ym meddwl yr unigolyn.

**Uwch-ego / *Superego***: Un o'r cysyniadau yn astudiaeth Freud ar ddatblygiad personoliaeth. Y rhan hon o'r bersonoliaeth sy'n cynnwys cydwybod yr unigolyn.

## PENNOD 7: DAD-DREFNIAD CYMDEITHASOL AC ANOMIE

**Cydgydwybod / *Collective conscience***: Mae'r term yn cyfeirio at set o gredoau, syniadau, agweddau a gwybodaeth a rennir sy'n gyffredin i grŵp cymdeithasol neu gymdeithas. Mae'r gydgydwybod yn llywio'r ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth, yn ogystal ag ymddygiad. Datblygodd y cymdeithasegydd Durkheim y cysyniad hwn i egluro sut mae unigolion wedi'u clymu at ei gilydd mewn unedau ar y cyd.

**Gwyredd / *Deviance:*** Gwyredd yw unrhyw ymddygiad sy'n torri normau, moeseg, safonau a disgwyliadau cymdeithasol, ac sydd fel arfer yn ddigon difrifol i warantu anghymeradwyaeth gan fwyafrif y gymdeithas. Gall gwyredd fod yn droseddol neu'n anhroseddol.

**Unigolyddiaeth / *Individualism***: Agwedd ar bositifiaeth sy'n honni bod troseddu'n deillio o'r unigolyn. Mae troseddu wedi ei benderfynu drwy ragluniaeth ac yn deillio o'r genynnau, o nam seicolegol neu ddiffyg mewn prosesau cymdeithasoli. Mae patholeg droseddol yn rhan o'r unigolyn.

**Solidariaeth fecanyddol / *Mechanical solidarity***: Nodwedd o gymdeithas draddodiadol, syml, lle mae unigolion yn rhan o dylwyth neu lwythau traddodiadol ac yn rhannu'r un normau a gwerthoedd cymdeithasol. Mae'r rheolau a'r normau yn llethol.

**Solidariaeth organig / *Organic solidarity***: Cymdeithas ddiwydiannol, gymhleth, wedi ei nodweddu gan grwpiau cymdeithasol sydd wedi eu rhannu ar sail rhaniad llafur arbenigol.

**Patholeg gymdeithasol / *Social pathology***: Yn adlewyrchu safbwyntiau cymdeithasol sy'n dadlau bod troseddu yn deillio o'r gymdeithas yn hytrach na'r unigolyn.

## PENNOD 8: DAMCANIAETH STRAEN CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

**Arloesi / *Innovation***: Un o bum dull o ymateb ac addasu i straen cymdeithasol yn astudiaeth Merton. Mae arloesi'n ffurf o addasu pan geir gwahaniaeth rhwng amcanion cymdeithasol ffyniant economaidd a chyfleoedd cyfyngedig i'w cyflawni o fewn y strwythur cymdeithasol. Mae'r elfen arloesi yn disgrifio'r sawl sy'n gwneud bywoliaeth o droseddu.

**Cydymffurfio / *Conformity***: Un o bum dull o ymateb ac addasu i straen cymdeithasol yn astudiaeth Merton. Mae cydymffurfiaeth yn disgrifio ymateb y rhan fwyaf o'r bobl.

**Cynnal defodau / *Ritualism***: Un o bum dull o ymateb ac addasu i straen cymdeithasol yn astudiaeth Merton. Yn yr achos hwn mae'r unigolyn wedi colli golwg ar amcanion cymdeithasol ffyniant economaidd ac o ganlyniad mae'n aros yn ei swydd heb obaith am ddyrchafiad ac yn bodloni ar ei sefyllfa.

**Encilio / *Retreatism***: Un o bum dull o ymateb ac addasu i straen cymdeithasol yn astudiaeth Merton. Yn yr achos hwn mae'r unigolyn yn encilio o'r gymdeithas fel ymateb personol gan ei fod yn gwrthod amcanion cymdeithasol ffyniant cymdeithasol a dulliau sefydliadol o'u cyflawni.

**Gwrthryfela / *Rebellion***: Un o bum dull o ymateb ac addasu i straen cymdeithasol yn astudiaeth Merton. Mae'r gwrthryfelwyr yn gwrthod amcanion diwylliannol ffyniant economaidd a dulliau sefydledig o'u cyflawni. Nid yn unig y maent yn gwrthod y rhain ond maent hefyd yn awyddus i newid systemau cymdeithasol a'u hamcanion.

**Damcaniaeth straen cymdeithasol / *Social strain theory***: Yn deillio o syniadau Robert K. Merton (1938). Benthycodd Merton gysyniad Durkheim am *anomie* a'i addasu i astudio gwyredd yn America. Dadleuodd fod *anomie* a straen yn deillio o wrthdaro rhwng amcanion diwylliannol a chymdeithasol a'r angen i ennill ffyniant economaidd a'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn strwythur y gymdeithas.

## PENNOD 9: YSGOL CHICAGO

**Parth trawsnewd / *Zone of transition*:** Ym model Burgess (1925) mae'r parth trawsnewid yn amgylchynu'r ardal fusnes ganolog. Gwelir llawer o newid o fewn y parth hwn gan mai yno y mae gweithwyr yn chwilio am waith. Mae'n cynnwys tai sy'n gartrefi i haen newydd o fewnfudwyr a dyrrodd i Chicago ar y pryd.

**Troseddeg amgylcheddol / *Environmental criminology***: Rhan o gangen ecoleg Ysgol Chicago. Canolbwynt y ddamcaniaeth yw cymharu datblygiad dinas Chicago o safbwynt ecoleg naturiol. Mae'n trafod y ffordd mae datblygiad ymddygiad dynol yn newid gyda'r amgylchedd cymdeithasol a ffisegol, yn hytrach nag adeiledd genynnol.

**Damcaniaeth dad-drefniad cymdeithasol / *Social disorganisation theory***: Damcaniaeth sy'n cyfeirio at ymddatod o fewn y gymdeithas a cholli rheolaeth gymdeithasol sy'n arwain at droseddu a gwyredd cymdeithasol. Mae'n gysylltiedig â'r gangen ecolegol o fewn Ysgol Chicago a'r awdur Ernest Burgess (1921) a gafodd ei ddylanwadu gan Emile Durkheim.

## PENNOD 10: STRAEN, ISDDIWYLLIANT A THROSEDDU POBL IFANC

**Isddiwylliant / *Subculture***: Cyflwynwyd y cysyniad hwn mewn astudiaethau gwyredd yn ystod y 1950au a'r 1960au. Defnyddiwyd y term er mwyn ceisio deall gwyredd cymdeithasol ymhlith pobl ifanc, yn enwedig drwy gyfeirio at werthoedd y bobl ifanc sy'n eu cadw oddi wrth y diwylliant prif ffrwd. Dadleuwyd bod yr isddiwylliant yn datrys rhai o broblemau strwythurol a diwylliannol y grwpiau a oedd yn eu gweld eu hunain yn ymylol.

**Niwtraleiddio / *Neutralization*:** Term sy'n gysylltiedig â damcaniaethau isddiwylliannol cyfoes lle mae pobl ifanc yn defnyddio technegau niwtraleiddio mewn cyfnodau o wyredd cymdeithasol. Gwneir hyn er mwyn gwadu cyfrifoldeb am droseddu a'r niwed a grëir.

## PENNOD 11: LABELU YMDDYGIAD TROSEDDWYR

**Cyfiawnder adferol / *Restorative justice*:** Rhaglenni sydd wedi eu cynllunio i wneud troseddwyr yn gyfrifol am eu troseddau a cheisio gwneud iawn i ddioddefwyr am droseddu yn eu herbyn. Bydd disgwyl i'r troseddwr ymddiheuro i'r dioddefwyr a'r gymuned.

**Cywilyddio anintegreiddiol / *Disintegrative shaming***: Y broses lle cosbir unigolyn a'i labelu'n droseddwr gan wneud iddo/iddi deimlo cywilydd drwy greu stigma. Mae'r broses yn digwydd wedi i'r troseddwr gael ei gosbi ac ni cheir unrhyw ymdrech i'w integreiddio'n ôl i'r gymuned. Yn gysylltiedig â gwaith John Braithwaite (1989).

**Dad-droseddoli / *Decriminalise***: Peidio â thrin rhywbeth anghyfreithlon fel trosedd.

**Gwyredd cynradd / *Primary deviance***: Y cam cychwynnol yn y broses o ddiffinio ymddygiad gwyrdroëdig. Mae'r term yn gysylltiedig ag Edwin Lemert (1951).

**Gwyredd eilaidd / *Secondary deviance*:** Yr ail gam yn y broses o ddiffinio ymddygiad gwyrdroëdig. Mae'r cam hwn yn digwydd unwaith y bydd yr unigolyn yn defnyddio'i hunaniaeth wyrdroëdig yn sylfaen i'w weithredoedd troseddol. Mae'r term yn gysylltiedig ag Edwin Lemert (1951).

**Proffwydoliaeth hunangyflawnol / *Self-fulfilling prophecy***: Y broses lle bydd y disgwyliadau ynghylch sefyllfa neu berson arall yn arwain at gyflawni'r disgwyliadau hynny.

**Ehangu'r rhwyd / *Net-widening***: Y broses o dynnu mwy o bobl i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Mae troseddwyr yn cael eu dylanwadu gan droseddwyr a throseddau amrywiol.

**Rhyngweithiadaeth symbolaidd / *Symbolic interactionism***: Dull cymdeithasegol a ddefnyddir i archwilio sut mae pobl yn diffinio sefyllfaoedd a phobl ac yn gweithredu ar sail y diffiniadau hynny. Mae ystyr a symboliaeth yn cael eu llunio wrth i bobl rhyngweithio â'i gilydd ac fel aelodau o grŵp.

**Labelu ymddygiad troseddwyr / *Labelling theory***: Damcaniaeth sy'n honni bod troseddu yn gynnyrch ymateb cymdeithasol i weithred arbennig. Os anwybyddir y weithred neu os nad yw'r weithred wedi ei datgelu, nid yw'r person yn droseddwr. Daw'r unigolyn yn droseddwr unwaith y bydd yn cael ei brosesu gan y system cyfiawnder troseddol, gan arwain at yrfa droseddol.

# PENNOD 12: TROSEDDEG FEIRNIADOL A THROSEDDEG RADICAL

**Troseddeg feirniadol / *Critical criminology***: Nifer o bersbectifau troseddegol gwahanol gan gynnwys Marcsaeth, ffeministiaeth, damcaniaethau'n ymwneud **â** heddwch, ôl-strwythuraeth ac ôl-foderniaeth. Mae weithiau'n cynnwys barn realaeth y chwith, troseddeg gyfansoddol, troseddeg ddiwylliannol a chyfiawnder adferol. Mae'r persbectif yn ceisio herio'r syniadau traddodiadol sy'n sylfaen i droseddeg a'n dealltwriaeth o droseddu a'r system cyfiawnder troseddol.

**Troseddeg radical / *Radical criminology***: Yn datgan fod rheolau o fewn cymdeithas yn gwasanaethu'r rhai mewn grym yn hytrach na'r gymdeithas gyfan a bod gwrthdaro bob amser yn bresennol. Mae'n cynnwys sail a syniadau Marcsaidd. Mae'r safbwyntiau ideolegol a ddiffiniwyd ym mlynyddoedd cynnar troseddeg radical yn parhau i fod yn sylfaen i droseddegwyr sydd â diddordeb mewn canghennau anarchaidd, amgylcheddol, cyfansoddiadol, diwylliannol, yn ogystal â changhennau eraill. Mae pob cangen o droseddeg radical a beirniadol yn rhannu cysyniadau ac egwyddorion sy'n canolbwyntio ar ddosbarthiad grym a'r ffyrdd y mae'r gyfraith yn amddiffyn buddiannau'r dosbarth sy'n rheoli.

***Mens Rea***: Term cyfreithiol Lladin yn ymwneud â bwriad meddyliol rhywun i gyflawni trosedd, neu wybodaeth y byddai gweithred rhywun neu ddiffyg gweithredu yn golygu y bydd trosedd yn cael ei chyflawni.

***Actus Reus*:** Term cyfreithiol Lladin am 'weithred euog' sydd, o'i phrofi y tu hwnt i amheuaeth resymol mewn cyfuniad â *mens rea*, yn cynhyrchu atebolrwydd troseddol.

# PENNOD 13: TROSEDDEG FARCSAIDD

**Troseddeg Farcsaidd / *Marxist criminology***: Damcaniaeth sy'n ceisio egluro troseddu trwy lygaid Marcsaeth. Mae'n dadlau y daw troseddu i'r amlwg yn ystod y frwydr am adnoddau mewn cyfalafiaeth, wrth i'r rhai ar waelod cymdeithas gystadlu am gydraddoldeb cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd.

**Cyfalafiaeth / *Capitalism***: System economaidd lle mae unigolion preifat yn berchen ar eiddo ac yn ei reoli yn unol â'u buddiannau. Mae'r system galw a chyflenwi yn gosod prisiau mewn marchnadoedd rhydd mewn ffordd sy'n gwasanaethu budd gorau cymdeithas. Nodwedd hanfodol a chanolog cyfalafiaeth yw'r cymhelliad i gynhyrchu elw.

**Sosialaeth / *Socialism***: Damcaniaeth athronyddol sy'n argymell y dylai dulliau cynhyrchu, dosbarthu nwyddau a gwasanaethau fod yn gyfrifoldeb grŵp neu'r gymdeithas gyfan ac yn cael eu rheoleiddio gan y grŵp neu'r gymdeithas honno. Mae'r system yn seiliedig ar gyfunoliaeth (*collectivism*) lle nad oes unrhyw eiddo preifat.

**Comiwnyddiaeth / *Communism***: I ryw raddau, mae comiwnyddiaeth yn fudiad ac yn ideoleg sy'n groes i gyfalafiaeth; mae'n gosod systemau a threfn gymdeithasol ac economaidd sydd yn seiliedig ar berchnogaeth gyhoeddus. Nid oes eiddo preifat mewn system gomiwnyddol; yn hytrach mae cymdeithas yn rhannu eiddo a chyfoeth yn ôl gallu ac angen.

**Karl Marx (1818–83)**: Creodd Karl Marx, yn ei lyfrau *The Communist Manifesto* (1848) a *Das Kapital* (1867), ideoleg yn seiliedig ar anghydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd cymdeithas gyfalafol. Mae Marx yn dechrau â'r syniad mai angen economaidd yw'r sylfaen ar gyfer pob proses gymdeithasol. Mae'r modd y mae cymdeithas yn pwysleisio'i hangen economaidd yn penderfynu strwythur y gymdeithas honno.

***Bourgeoisie***: Term Ffrangeg sy'n cyfeirio at ddosbarth cymdeithasol sydd â chyfalaf diwylliannol ac ariannol penodol sy'n gysylltiedig â'r dosbarth canol neu ddosbarth uwch.

**Proletariat**: Term Ffrangeg sy'n disgrifio'r dosbarth gweithiol mewn cymdeithas economaidd a'u hunig werth materol sylweddol yw eu pŵer llafur neu eu gallu i weithio.

**Gwrthdaro cymdeithasol / *Social conflict***: Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ymdrech am rym mewn cymdeithas. Ceir cystadleuaeth am adnoddau prin mewn cymdeithas, yn bennaf rhwng y rhai sydd â'r grym a'r cyfoeth mwyaf a'r rhai sydd heb y pethau hyn. Mae hyn yn ei dro yn creu gwrthdaro wrth i'r rhai sy'n rheoli geisio dal gafael ar y grym hwnnw.

**Willem Bonger (1876–1940)**: Awdur allweddol wrth drafod troseddeg Farcsaidd ac yn gyfrifol am dwf troseddeg yn yr Iseldiroedd. Bu'n feirniadol iawn o weithredu a chymhwyso'r gyfraith droseddol mewn cymdeithasau cyfalafol ac ysgrifennodd nifer o lyfrau, gan gynnwys *Race and Crime* (1939) ac *An Introduction to Criminology* (1932). Un o'i lyfrau mwyaf poblogaidd oedd *Criminality and Economic Conditions* (1916).

**Egoistiaeth / *Egoism***: Mae egoistiaeth yn cyfeirio at osod eich hunanfuddiannau eich hun uwchlaw buddiannau eraill; y gwrthwyneb i allgaredd (*altruism*), sy'n cyfeirio at osod buddiannau eraill uwchlaw eich rhai eich hun. Dangosodd Bonger nad yw egoistiaeth ei hun yn gwneud pobl yn droseddwyr ond gall wneud pobl yn fwy abl i droseddu.

**Troseddoli / *Criminalize***: Y broses o roi statws 'troseddwr' i unigolion penodol.

**Radicaliaeth Americanaidd / *American radicalism***: Corff o waith troseddegol radical wedi'i ysbrydoli gan ddamcaniaethau Marcsaidd a ddaeth i'r amlwg yn yr Unol Daleithiau ar ddiwedd yr 1960au.

**George Vold (1896–1967)**: Mae syniadau Vold yn seiliedig ar y gwrthdaro o fewn diwylliant. Mae Vold yn edrych ar wrthdaro o fewn grwpiau diddordeb arbennig sy'n bodoli o fewn yr un diwylliannau.

**Austin Turk (1934–2014)**: Gŵr dylanwadol mewn troseddeg radical Americanaidd. Mae Turk yn tynnu ar waith Ralf Dahrendorf, a roddodd bwyslais Marcsaidd ar y berthynas gynhyrchu gymdeithasol fel ffordd o ddeall grym. Dadleuodd fod troseddoli'n ganlyniad anochel pan ddaw gwrthdaro i'r amlwg.

**William Chambliss (1933–2014)**: Mae gwaith Chambliss, yn enwedig ei waith diweddarach, yn fwy Marcsaidd na gwaith Turk. Wrth i'r bwlch rhwng y *bourgeoisie* a'r proletariat ehangu cyfalafiaeth, dadleuodd fod angen defnyddio mesurau cosbi cynyddol i gynnal trefn.

# PENNOD 14: TROSEDDEG FFEMINISTAIDD

**Rhywiaeth / *Sexism***: Term allweddol iawn i'r ddadl o fewn troseddeg ffeministaidd. Fe'i diffinnir fel disgwyliadau neu normau a luniwyd yn gymdeithasol sy'n rhagnodi agweddau ac ymddygiadau benywaidd a gwrywaidd naill ai fel benyweidd-dra neu wrywdod – nid dynion/merched (rhyw), ond y normau, y disgwyliadau ac ati sy'n gysylltiedig â'r termau hynny.

**Troseddeg ffeministaidd / *Feminist criminology***: Mae'r ysgol ffeministaidd o fewn troseddeg yn pwysleisio bod rolau cymdeithasol merched yn wahanol i rolau gwrywod, gan arwain at wahanol gyfeiriadau tuag at wyredd, troseddu ac erledigaeth. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu hanwybyddu gan ddamcaniaethau troseddegol eraill.

**Troseddeg ffrwdwrywol / *Malestream criminology***: Cysyniad a ddatblygwyd gan ddamcaniaethwyr ffeministaidd i ddisgrifio'r diffyg yng ngwaith y gwyddorau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar bersbectif gwrywaidd ac yna'n tybio y gellir cymhwyso'r canfyddiadau i fenywod hefyd. Datblygodd y cysyniad yn wreiddiol fel beirniadaeth ar gymdeithaseg, sy'n draddodiadol yn cael ei harwain a'i rheoli gan ddynion. Bellach mae'n cael ei gymhwyso i nifer o bynciau eraill, gan gynnwys daearyddiaeth, anthropoleg, diwinyddiaeth, a seicoleg.

**Patriarchaeth / *Patriarchy***: Yng nghymdeithasau'r Gorllewin, ac yn y mwyafrif llethol o gymdeithasau ledled y byd, mae'r strwythur rhywedd yn batriarchaidd; hynny yw, mae'r hyn a ystyrir yn wrywaidd yn cael ei werthfawrogi'n fwy na'r hyn a ystyrir yn fenywaidd.

# PENNOD 15: TROSEDDEG WERDD

**Troseddeg werdd / *Green criminology***: Astudiaeth o droseddau a niwed amgylcheddol o safbwynt troseddegol.

**Niwed / *Harm***: Cysyniad pwysig o fewn troseddeg werdd. Mae nifer o ysgolheigion yn cytuno fod y pryderon sydd wrth wraidd troseddeg werdd yn seiliedig ar niwed amgylcheddol yn hytrach na throsedd.

**Globaleiddio / *Globalisation***: Y broses o estyn cysylltiadau cymdeithasol sy'n cysylltu ardaloedd sy'n bell oddi wrth ei gilydd yn ddaearyddol mewn ffordd sy'n golygu bod digwyddiadau lleol yn cael eu heffeithio a'u siapio gan ddigwyddiadau bydol.

**Troseddeg werdd / *Green criminology***: Mae troseddau gwyrdd yn droseddau a gyflawnir yn erbyn yr amgylchedd, ac felly mae ymchwilio i droseddau gwyrdd yn faes ymchwil i droseddegwyr gwyrdd.

**Niwed amgylcheddol / *Environmental harm***: Nid yw'n hawdd diffinio yn union beth yw trosedd werdd, gan nad yw nifer o weithredoedd sydd yn cael effaith ddinistriol ar y byd yn cael eu hystyried yn swyddogol fel troseddau. O ganlyniad, mae troseddegwyr gwyrdd yn tueddu i feddwl yn nhermau niwed amgylcheddol.

**Niwed anthropoganolog / *Anthropocentric harm***: Ystyried niwed i'r amgylchedd o safbwynt y ddynoliaeth. Er enghraifft, ystyrir bod llygredd yn broblem oherwydd ei fod yn niweidio cyflenwad dŵr neu'n achosi afiechydon sy'n ddrud i'w gwella. Ystyrir bod y newid yn yr hinsawdd yn broblem oherwydd ei effaith ar bobl a'r gost economaidd ddichonadwy o ddelio ag ef.

**Niwed bioganolog / *Biocentric harm***: Yn ystyried pob creadur byw o werth cyfartal (ac mai dim ond un rhywogaeth arall yw bodau dynol) ac felly y dylai bodau dynol gymryd cyfrifoldeb dros y ffordd y mae adnoddau amgylcheddol yn cael eu defnyddio a sut maent yn effeithio ar bob rhywogaeth.

**Niwed ecoganolog / *Ecocentric harm***: Nid yw'n gwahaniaethu rhwng bodau dynol a gweddill yr ecosystem. Mae'n ystyried difrod i unrhyw agwedd ar yr amgylchedd fel niwed i'r system gyfan. Felly, mae troseddau megis creulondeb i anifeiliaid neu ddinistrio cynefinoedd yn droseddau gwyrdd, hyd yn oed os nad oes cost ddynol.

**Troseddau gwyrdd cynradd / *Primary green crimes***: Troseddau sy'n cael eu cyflawni yn uniongyrchol yn erbyn yr amgylchedd neu weithredoedd sy'n achosi niwed i'r amgylchedd, e.e. llygredd, creulondeb i anifeiliaid a datgoedwigo.

**Troseddau gwyrdd eilaidd / *Secondary green crimes***: Troseddau pellach sy'n deillio o dorri'r gyfraith sy'n rheoleiddio troseddu neu niwed yn erbyn yr amgylchedd, e.e. trais yn erbyn grwpiau amgylcheddol (e.e. ymosodiad Ffrainc ar long Greenpeace, y *Rainbow Warrior*), llwgrwobrwyo/troseddau trefnedig sy'n ceisio osgoi rheoliadau amgylcheddol.

**Ffoaduriaid hinsawdd / *Climate refugees***: Unigolion sydd wedi gorfod gadael eu cartref o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd.

# PENNOD 16: TROSEDDEG REALAIDD

**Argyfwng achosegol / *Aetiological crisis***: Term a ddefnyddiwyd gan yr Athro Jock Young (1992) i esbonio'r argyfwng wrth geisio egluro achosion trosedd.
**Arolygon dioddefwyr / *Victim surveys***: Mae arolygon dioddefwyr yn mesur troseddu a'r rhesymau dros dangynrychiolaeth troseddu mewn perthynas â chyfraddau dioddefaint. Maent yn trafod risg, ofn troseddau a rhagfynegiad o ddioddefaint, profiadau dioddefwyr a'r driniaeth ohonynt o fewn y system cyfiawnder troseddol.

**Delfrydiaeth y chwith / *Left idealism***: Esgeuluso'r boen a achoswyd i ddioddefwyr o ganlyniad i weithred droseddol.

**Realaeth y chwith / *Left realism***: Yr ysgol droseddeg a ddeilliodd yn wreiddiol o Brydain ar ddechrau'r 1980au fel ymateb i bolisïau cosbi. Roedd eu syniadaeth yn cynnwys diwygio systemau er mwyn delio â throseddu**,** cynorthwyo dioddefwyr, lleihau'r defnydd o garchar a lleihau troseddu yn ei gyfanrwydd. Gwrthodir syniadau a dewisiadau ceidwadol a thuedd y chwith i esgeuluso'r niwed y mae troseddu yn ei greu.

**Realaeth y dde / *Right realism***: Ymateb sy'n egluro troseddu yn nhermau dirywiad moesol a methiannau systemau lles a system gosbi annigonol.

**Troseddeg realaidd / *Realist criminology***: Yn gwrthod datrysiadau iwtopaidd o droseddu ac yn credu mewn cyflwyno polisïau ymarferol er mwyn lleihau troseddu.

# PENNOD 17: DAMCANIAETH RHEOLAETH GYMDEITHASOL

**Rheolaeth allanol / *External control***: Cysyniad yn namcaniaeth cyfyngiant Reckless a Dinitz (1957). Mae dylanwadau y tu allan i'r unigolyn yn gyfrifol am ofalu nad yw'r unigolyn yn cyflawni trosedd a gwyredd.

**Rheolaeth fewnol / *Internal control***: Cysyniad yn namcaniaeth cyfyngiant Reckless a Dinitz (1957). Mae dylanwadau y tu mewn i'r unigolyn sy'n monitro ac yn rheoli ei ymddygiad.

**Damcaniaeth bondio cymdeithasol / *Social bonding theory***: Damcaniaeth sy'n honni bod gwyredd unigolion yn deillio o fondiau cymdeithasol gwan. Ceir pedair elfen i'r bond, sef ymlyniad, ymwneud, ymrwymiad a chredoau. Cyfeiria'r ddamcaniaeth at astudiaeth Hirschi (1969).

**Damcaniaeth cyfyngiant / *Containment theory***: Damcaniaeth rheolaeth/damcaniaeth rheolaeth gymdeithasol sy'n archwilio'r dylanwadau mewnol ac allanol ar unigolion sy'n gallu creu gwyredd oni bai eu bod yn cael eu cyfyngu, yn fewnol ac yn allanol.

**Damcaniaeth drifftio / *Drift theory***: Damcaniaeth sy'n honni bod ymddygiad pobl ifanc yn symud yn ôl a blaen rhwng cydymffurfio a thorri'r gyfraith. Gall pobl ifanc ddefnyddio technegau niwtraleiddio fel esgusodion am eu gwyredd. Cyfeiria'r ddamcaniaeth at astudiaeth Matza a Sykes (1957).

**Damcaniaeth rheolaeth gymdeithasol / *Social control theory***: Cyfuniad o ddamcaniaethau gwahanol sy'n archwilio pam mae rhai pobl yn cydymffurfio ac eraill ddim yn gwneud hynny.

**Cyhoeddwyd yr e-lyfr hwn gyntaf yn 2023 gan:**

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3WQ
**www.colegcymraeg.ac.uk**